Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru




# Rhaglen Weithredol

# ESF Gorllewin Cymru a’r Cymoedd

Fersiwn 3.1

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfeydd yr UE:**
**Buddsoddi yng Nghymru**
**EU Funds:**
**Investing in Wales**

# RHAGLEN WEITHREDOL O DAN NOD 'BUDDSOIDD AR GYFER TWF A SWYDDI'

| | |
|---|---|
| CCI | 2014UK05SFOP001 |
| Teitl | Y Deyrnas Unedig - ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |
| Fersiwn | 3.1 |
| Blwyddyn gyntaf | 2014 |
| Blwyddyn olaf | 2020 |
| Yn gymwys o | 01-Ion-2014 |
| Yn gymwys tan | 31-Rhag-2023 |
| Defnyddio Celf 96(8) CPR | |
| Diwgiad mawr (sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor Ewropeaid - gweler Erth. 96 Rheolau Trefniadaeth Sifil) | ✓ |
| Cymeradwwyd gan bwyllgor monitro | ✓ |
| Cyfiawnhad dros ddiwygio | Cais i ddiwygio Rhaglen Weithredol ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unol ag Erthygl 30 o Reoliad 1303/2013. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn adlewyrchu sefyllfa economaidd-gymdeithasol, yn benodol marchnad lafur sy'n tynhau, gan unioni tybiaethau anghywir yn y ddogfen wreiddiol, yn enwedig ar gyfer rhai dangosyddion, a gwneud y testun yn fwy eglur. |
| Rhif penderfyniad EC | C(2018)6340 |
| Dyddiad penderfynu EC | 08-Hyd-2018 |
| Rhif diwygio penderfyniad MS | |
| Dyddiad diwygio penderfyniad MS | |
| Dyddiad dod i rym diwygio penderfyniad MS | |
| Rhanbarthau NUTS a gwmpesir gan y rhaglen weithredol | UKL1 - Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |

compare report

**1. STRATEGAETH AR GYFER CYFRANIAD Y RHAGLEN WEITHREDOL AT STRATEGAETH YR UNDEB AR GYFER TWF CALL, CYNALIADWY A CHYNHWYSOL A CHYFLAWNI CYDLYNIANT DARBODUS, CYMDEITHASOL A THIRIOGAETHOL ........ 6**

1.1 STRATEGAETH AR GYFER CYFRANIAD Y RHAGLEN WEITHREDOL AT STRATEGAETH YR UNDEB AR GYFER TWF CALL, CYNALIADWY A CHYNHWYSOL A CHYFLAWNI CYDLYNIANT DARBODUS, CYMDEITHASOL A THIRIOGAETHOL ........ 6

1.2 CYFIAWNHAD DROS Y DYRANIAD ARIANNOL ........ 31

**2. ECHELAU BLAENORIAETH ........ 37**

**2.A DISGRIFIAD O'R ECHELAU BLAENORIAETH HEBLAW AM GYMORTH TECHNEGOL ........ 37**

2.A.1 ECHEL BLAENORIAETH ........ 37

2.A.2 CYFIAWNHAD DROS SEFYDLU ECHEL BLAENORIAETH SY'N CWMPASU MWY NAG UN CATEGORI O RANBARTH, AMCAN THEMATIG NEU GRONFA (LLE Y BO'N GYMWYS) ........ 37

2.A.3 CRONFA, CATEGORI RHANBARTH A SAIL GYFRIFO AR GYFER CYMORTH YR UNDEB ........ 38

2.A.4 BLAENORIAETH FUDDSODDI ........ 38

2.A.5 AMCANION PENODOL SY'N CYFATEB I'R FLAENORIAETH FUDDSODDI A'R CANLYNIADAU DISGWYLIEDIG ........ 38

2.A.6 CAM GWEITHREDU I'W GEFNOGI O DAN Y FLAENORIAETH FUDDSODDI (YN ÔL BLAENORIAETH FUDDSODDI) ........ 44

***2.A.6.1 Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt, ynghyd â'u cyfraniad disgwyliedig i'r amcanion penodol gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nodi prif grwpiau targed, tiriogaethau penodol a dargedir a mathau o fuddiolwyr** ........ 44*

***2.A.6.2 Egwyddorion arweiniol ar gyfer dewis gweithrediadau** ........ 48*

***2.A.6.3 Defnydd arfaethedig o offerynnau ariannol**(lle y bo'n briodol) ........ 49*

***2.A.6.4 Defnydd arfaethedig o brosiectau mawr** (lle y bo'n briodol) ........ 50*

***2.A.6.5 Dangosyddion allbwn yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi a, lle y bo'n briodol, gategori rhanbarth** ........ 50*

***Blaenoriaeth fuddsoddi** ........ 50*

***9i-Cynhwysiant Gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd** ........ 50*

2.A.7 ARLOESEDD CYMDEITHASOL, CYDWEITHREDU TRAWSWLADOL A CHYFRANIAD AT AMCAN THEMATIG 1-7 ........ 51

2.A.8 FFRAMWAITH PERFFORMIAD ........ 54

2.A.9 CATEGORÏAU YMYRRYD ........ 55

2.A.10 CRYNODEB O'R DEFNYDD ARFAETHEDIG O GYMORTH TECHNEGOL GAN GYNNWYS, LLE Y BO ANGEN, GAMAU I ATGYFNERTHU ADNODDAU GWEINYDDOL AWDURDODAU SYDD YNGHLWM WRTH BROSESAU RHEOLI'R RHAGLENNI A BUDDIOLWYR (LLE Y BO'N BRIODOL) (YN ÔL ECHEL BLAENORIAETH) ........ 56

2.A.1 ECHEL BLAENORIAETH ........ 57

2.A.2 CYFIAWNHAD DROS SEFYDLU ECHEL BLAENORIAETH SY'N CWMPASU MWY NAG UN CATEGORI O RANBARTH, AMCAN THEMATIG NEU GRONFA (LLE Y BO'N GYMWYS) ........ 57

2.A.3 CRONFA, CATEGORI RHANBARTH A SAIL GYFRIFO AR GYFER CYMORTH YR UNDEB ........ 58

2.A.4 BLAENORIAETH FUDDSODDI ........ 59

2.A.5 AMCANION PENODOL SY'N CYFATEB I'R FLAENORIAETH FUDDSODDI A'R CANLYNIADAU DISGWYLIEDIG ........ 59

2.A.6 CAM GWEITHREDU I'W GEFNOGI O DAN Y FLAENORIAETH FUDDSODDI (YN ÔL BLAENORIAETH FUDDSODDI) ........ 64

***2.A.6.1 Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt, ynghyd â'u cyfraniad disgwyliedig i'r amcanion penodol gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nodi prif grwpiau targed, tiriogaethau penodol a dargedir a mathau o fuddiolwyr** ........ 64*

***2.A.6.2 Egwyddorion arweiniol ar gyfer dewis gweithrediadau** ........ 68*

***2.A.6.3 Defnydd arfaethedig o offerynnau ariannol** (lle y bo'n briodol) ........ 69*

***2.A.6.4 Defnydd arfaethedig o brosiectau mawr** (lle y bo'n briodol) ........ 69*

***2.A.6.5 Dangosyddion allbwn yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi a, lle y bo'n briodol, gategori rhanbarth** ........ 70*

***Blaenoriaeth fuddsoddi** ........ 70*

***10iii - Gwella mynediad cyfartal at ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir** ........ 70*

2.A.4 BLAENORIAETH FUDDSODDI ........ 71

2.A.5 AMCANION PENODOL SY'N CYFATEB I'R FLAENORIAETH FUDDSODDI A'R CANLYNIADAU DISGWYLIEDIG ........ 71

2.A.6 CAM GWEITHREDU I'W GEFNOGI O DAN Y FLAENORIAETH FUDDSODDI (YN ÔL BLAENORIAETH FUDDSODDI) ........ 73

compare report

***2.A.6.1 Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt, ynghyd â'u cyfraniad disgwyliedig i'r amcanion penodol gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nodi prif grwpiau targed, tiriogaethau penodol a dargedir a mathau o fuddiolwyr*** ... *73*
***2.A.6.2 Egwyddorion arweiniol ar gyfer dewis gweithrediadau*** ... *75*
***2.A.6.3 Defnydd arfaethedig o offerynnau ariannol*** *(lle y bo'n briodol)* ... *76*
***2.A.6.4 Defnydd arfaethedig o brosiectau mawr*** *(lle y bo'n briodol)* ... *76*
***2.A.6.5 Dangosyddion allbwn yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi a, lle y bo'n briodol, gategori rhanbarth*** ... *77*
***Blaenoriaeth fuddsoddi*** ... *77*
***8iv - Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal*** ... *77*
2.A.7 ARLOESEDD CYMDEITHASOL, CYDWEITHREDU TRAWSWLADOL A CHYFRANIAD AT AMCAN THEMATIG 1-7 ... 77
2.A.8 FFRAMWAITH PERFFORMIAD ... 79
2.A.9 CATEGORÏAU YMYRRYD ... 81
2.A.10 CRYNODEB O'R DEFNYDD ARFAETHEDIG O GYMORTH TECHNEGOL GAN GYNNWYS, LLE Y BO ANGEN, GAMAU I ATGYFNERTHU ADNODDAU GWEINYDDOL AWDURDODAU SYDD YNGHLWM WRTH BROSESAU RHEOLI A RHEOLAETH Y RHAGLENNI A BUDDIOLWYR (LLE Y BO'N BRIODOL) (YN ÔL ECHEL BLAENORIAETH) ... 82
2.A.1 ECHEL BLAENORIAETH ... 83
2.A.2 CYFIAWNHAD DROS SEFYDLU ECHEL BLAENORIAETH SY'N CWMPASU MWY NAG UN CATEGORI O RANBARTH, AMCAN THEMATIG NEU GRONFA (LLE Y BO'N GYMWYS) ... 83
2.A.3 CRONFA, CATEGORI RHANBARTH A SAIL GYFRIFO AR GYFER CYMORTH YR UNDEB ... 85
2.A.4 BLAENORIAETH FUDDSODDI ... 85
2.A.5 AMCANION PENODOL SY'N CYFATEB I'R FLAENORIAETH FUDDSODDI A'R CANLYNIADAU DISGWYLIEDIG ... 85
2.A.6 CAM GWEITHREDU I'W GEFNOGI O DAN Y FLAENORIAETH FUDDSODDI (YN ÔL BLAENORIAETH FUDDSODDI) ... 89
***2.A.6.1 Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt, ynghyd â'u cyfraniad disgwyliedig i'r amcanion penodol gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nodi prif grwpiau targed, tiriogaethau penodol a dargedir a mathau o fuddiolwyr*** ... *89*
***2.A.6.2 Egwyddorion arweiniol ar gyfer dewis gweithrediadau*** ... *94*
***2.A.6.3 Defnydd arfaethedig o offerynnau ariannol*** *(lle y bo'n briodol)* ... *95*
***2.A.6.4 Defnydd arfaethedig o brosiectau mawr*** *(lle y bo'n briodol)* ... *95*
***2.A.6.5 Dangosyddion allbwn yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi a, lle y bo'n briodol, gategori rhanbarth*** ... *95*
***Blaenoriaeth fuddsoddi*** ... *95*
***10i - Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a'i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da, gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio ag addysg a hyfforddiant*** ... *95*
2.A.4 BLAENORIAETH FUDDSODDI ... 96
2.A.5 AMCANION PENODOL SY'N CYFATEB I'R FLAENORIAETH FUDDSODDI A'R CANLYNIADAU DISGWYLIEDIG ... 96
2.A.6 CAM GWEITHREDU I'W GEFNOGI O DAN Y FLAENORIAETH FUDDSODDI (YN ÔL BLAENORIAETH FUDDSODDI) ... 98
***2.A.6.1 Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt, ynghyd â'u cyfraniad disgwyliedig i'r amcanion penodol gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nodi prif grwpiau targed, tiriogaethau penodol a dargedir a mathau o fuddiolwyr*** ... *98*
***2.A.6.2 Egwyddorion arweiniol ar gyfer dewis gweithrediadau*** ... *99*
***2.A.6.3 Defnydd arfaethedig o offerynnau ariannol*** *(lle y bo'n briodol)* ... *101*
***2.A.6.4 Defnydd arfaethedig o brosiectau mawr*** *(lle y bo'n briodol)* ... *101*
***2.A.6.5 Dangosyddion allbwn yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi a, lle y bo'n briodol, gategori rhanbarth*** ... *101*
***Blaenoriaeth fuddsoddi*** ... *101*
***8ii - Integreiddio pobl ifanc yn y farchnad lafur yn gynaliadwy (ESF), yn enwedig y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, gan gynnwys pobl ifanc sy'n wynebu risg o allgáu cymdeithasol a phobl ifanc o gymunedau ymylol, gan gynnwys drwy weithredu'r Warant Ieuenctid*** ... *101*
2.A.7 ARLOESEDD CYMDEITHASOL, CYDWEITHREDU TRAWSWLADOL A CHYFRANIAD AT AMCAN THEMATIG 1-7 ... 101
2.A.8 FFRAMWAITH PERFFORMIAD ... 104
2.A.9 CATEGORÏAU YMYRRYD ... 105
2.A.10 CRYNODEB O'R DEFNYDD ARFAETHEDIG O GYMORTH TECHNEGOL GAN GYNNWYS, LLE Y BO ANGEN, GAMAU I ATGYFNERTHU ADNODDAU GWEINYDDOL AWDURDODAU SYDD YNGHLWM WRTH BROSESAU RHEOLI A RHEOLAETH Y RHAGLENNI A BUDDIOLWYR (LLE Y BO'N BRIODOL) (YN ÔL ECHEL BLAENORIAETH) ... 106
2.A.1 ECHEL BLAENORIAETH ... 107

compare report

2.A.2 Cyfiawnhad dros sefydlu echel blaenoriaeth sy'n cwmpasu mwy nag un categori o ranbarth, amcan thematig neu gronfa (lle y bo'n gymwys) ..... 107
2.A.3 Cronfa, categori rhanbarth a sail gyfrifo ar gyfer cymorth yr Undeb ..... 108
2.A.4 Blaenoriaeth fuddsoddi ..... 108
2.A.5 Amcanion penodol sy'n cyfateb i'r flaenoriaeth fuddsoddi a'r canlyniadau disgwyliedig ..... 108
2.A.6 Cam gweithredu i'w gefnogi o dan y flaenoriaeth fuddsoddi (yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi) ..... 110
***2.A.6.1 Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt, ynghyd â'u cyfraniad disgwyliedig i'r amcanion penodol gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nodi prif grwpiau targed, tiriogaethau penodol a dargedir a mathau o fuddiolwyr** ..... 110*
***2.A.6.2 Egwyddorion arweiniol ar gyfer dewis gweithrediadau** ..... 114*
***2.A.6.3 Defnydd arfaethedig o offerynnau ariannol** (lle y bo'n briodol) ..... 117*
***2.A.6.4 Defnydd arfaethedig o brosiectau mawr** (lle y bo'n briodol) ..... 117*
***2.A.6.5 Dangosyddion allbwn yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi a, lle y bo'n briodol, gategori rhanbarth** ..... 118*
***Blaenoriaeth fuddsoddi** ..... 118*
***11i - Buddsoddi mewn gallu sefydliadol ac yn effeithlonrwydd gweinyddiaethau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyda'r nod o ddiwygio, rheoleiddio'n well a llywodraethu'n dda** ..... 118*
2.A.7 Arloesedd cymdeithasol, cydweithredu trawswladol a chyfraniad at amcan thematig 1-7 ..... 118
2.A.8 Fframwaith perfformiad ..... 121
2.A.9 Categorïau ymyrryd ..... 121
2.A.10 Crynodeb o'r defnydd arfaethedig o gymorth technegol gan gynnwys, lle y bo angen, gamau i atgyfnerthu adnoddau gweinyddol awdurdodau sydd ynghlwm wrth brosesau rheoli a rheolaeth y rhaglenni a buddiolwyr (lle y bo'n briodol) (yn ôl echel blaenoriaeth) ..... 122

**2.B DISGRIFIAD O'R ECHELAU BLAENORIAETH AR GYFER CYMORTH TECHNEGOL ..... 123**

2.B.1 Echel blaenoriaeth ..... 123
2.B.2 Cyfiawnhad dros sefydlu echel blaenoriaeth sy'n cwmpasu mwy nag un categori o ranbarth(lle y bo'n gymwys) ..... 123
2.B.3 Cronfa a chategori rhanbarth ..... 124
2.B.4 Amcanion penodol a chanlyniadau disgwyliedig ..... 124
2.B.5 Dangosyddion canlyniadau ..... 125
2.B.4 Amcanion penodol a chanlyniadau disgwyliedig ..... 125
2.B.5 Dangosyddion canlyniadau ..... 126
2.B.4 Amcanion penodol a chanlyniadau disgwyliedig ..... 126
2.B.5 Dangosyddion canlyniadau ..... 126
2.B.6 Camau gweithredu i'w cefnogi a'u cyfraniad disgwyliedig at yr amcanion penodol (yn ôl echel blaenoriaeth) ..... 126
*2.B.6.1 Disgrifiad o'r camau i'w cefnogi a'u cyfraniad disgwyliedig at yr amcanion penodol ..... 126*
*2.B.6.2 Dangosyddion allbwn y disgwylir iddynt gyfrannu at ganlyniadau ..... 129*
2.B.7 Categorïau ymyrryd (yn ôl echel blaenoriaeth) ..... 130

**3. CYNLLUN ARIANNU ..... 132**

3.1 Dyraniad ariannol o bob cronfa a symiau ar gyfer cronfa perfformiad wrth gefn ..... 132
3.2 Cyfanswm y dyraniadau ariannol yn ôl cronfa a chydariannu cenedlaethol (€) ..... 132
Tabl 18a:Cynllun ariannu ..... 132
(2) Gellir talgrynnu'r gyfradd hon i'r cyfanrif agosaf yn y tabl. Yr union gymhareb a ddefnyddir i ad-dalu taliadau yw cymhareb (f). ..... 132
Tabl 18b:Menter Cyflogaeth Ieuenctid - dyraniadau penodol ESF a Menter Cyflogaeth Ieuenctid (lle y bo'n briodol) ..... 133
Tabl 18c:Dadansoddiad o'r cynllun ariannol yn ôl echel blaenoriaeth, categori o ranbarth ac amcan thematig ..... 133
Tabl 19: Swm dangosol o gymorth i'w ddefnyddio ar gyfer amcanion newid yn yr hinsawdd ..... 133

**4. DULL INTEGREDIG O GYFLAWNI GWAITH DATBLYGU TIRIOGAETHOL ..... 134**

4.1 Datblygiadau Lleol dan Arweiniad Cymunedau (lle y bo'n briodol) ..... 135
4.2 Camau integredig ar gyfer gwaith datblygu trefol cynaliadwy (lle y bo'n briodol) ..... 136
4.3 Buddsoddiad Tiriogaethol Integredig (lle y bo'n briodol) ..... 137
4.4 Y trefniadau ar gyfer camau rhyngranbarthol a thrawswladol, o fewn y rhaglen weithredol, gyda buddiolwyr wedi'u lleoli yn o leiaf un Aelod-wladwriaeth arall (lle y bo'n briodol) ..... 137

compare report

4.5 Cyfraniad camau a gynllunnir o dan y rhaglen at strategaethau macro-ranbarthol a basn môr, yn amodol ar anghenion ardal y rhaglen fel y'u nodwyd gan yr Aelod-wladwriaeth(lle y bo'n briodol) ........ 138

**5. ANGHENION PENODOL ARDALOEDD DAEARYDDOL Y MAE TLODI YN EFFEITHIO ARNYNT FWYAF NEU GRWPIAU TARGED SY'N WYNEBU RISG FWYAF O WAHANIAETHU NEU ALLGÁU CYMDEITHASOL........ 139**

5.1 Ardaloedd daearyddol y mae tlodi yn effeithio arnynt fwyaf/grwpiau targed sy'n wynebu risg o wahaniaethu neu allgáu cymdeithasol ........ 139

5.2 Strategaeth i ymdrin ag anghenion penodol ardaloedd daearyddol yr effeithir arnynt fwyaf gan dlodi/grwpiau targed sy'n wynebu'r risg fwyaf o wahaniaethu neu allgáu cymdeithasol, a lle y bo'n berthnasol, y cyfraniad at y dull integredig a nodir yn y Cytundeb Partneriaeth........ 141

**6. ANGHENION PENODOL ARDALOEDD DAEARYDDOL SY'N DIODDEF DIFFYGION NATURIOL NEU DDEMOGRAFFIG DIFRIFOL A PHARHAOL (LLE Y BO'N BRIODOL) ........ 162**

**7. AWDURDODAU A CHYRFF SY'N GYFRIFOL AM REOLI AC ARCHWILIO A RÔL PARTNERIAID PERTHNASOL ........ 163**

7.1 Awdurdodau a chyrff perthnasol........ 163

7.2 Cynnwys partneriaid perthnasol........ 163

***7.2.1 Camau a gymerir i gynnwys y partneriaid perthnasol yn y gwaith o baratoi'r rhaglen weithredol, a rôl y partneriaid hynny wrth weithredu, monitro a gwerthuso'r rhaglen*** ........ *163*

***7.2.2 Grantiau cyffredinol*** *(ar gyfer ESF, lle y bo'n briodol)* ........ *166*

***7.2.3 Dyrannu swm ar gyfer meithrin gallu*** *(ar gyfer yr ESF, lle y bo'n briodol)* ........ *167*

**8. CYDGYSYLLTU RHWNG Y CRONFEYDD, EAFRD, EMFF AC OFFERYNNAU ARIANNU'R UNDEB AC OFFERYNNAU ARIANNU CENEDLAETHOL ERAILL, AC Â'R EIB ........ 168**

**9. AMODOLDEBAU EX-ANTE........ 172**

9.1 Amodoldebau ex-ante ........ 172

Tabl 24: Amodoldebau ex-ante cymwys ac asesu a ydynt yn cael eu bodloni ........ 172

9.2 Disgrifiad o gamau gweithredu i gyflawni amodoldebau ex-ante, cyrff cyfrifol ac amserlen ........ 274

**10. LLEIHAU'R BAICH GWEINYDDOL AR FUDDIOLWYR ........ 275**

**11. EGWYDDORION LLORWEDDOL........ 277**

11.1 Datblygu cynaliadwy ........ 277

11.2 Cyfle cyfartal a dim gwahaniaethu ........ 279

11.3 Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod........ 281

**12. ELFENNAU AR WAHÂN ........ 283**

12.1 Prosiectau mawr i'w rhoi ar waith yn ystod y cyfnod rhaglennu........ 283

12.2 Fframwaith perfformiad y rhaglen weithredol........ 284

12.3 Partneriaid perthnasol sy'n rhan o'r gwaith o baratoi'r rhaglen........ 284

Dogfennau ........ 288

Atodiadau a gyflwynwyd gan y Comisiwn yn rhoi rheoliad a osododd fodel y rhaglen ar waith ........ 288

Y canlyniadau dilysu diweddaraf ........ 289

compare report

## 1. STRATEGAETH AR GYFER CYFRANIAD Y RHAGLEN WEITHREDOL AT STRATEGAETH YR UNDEB AR GYFER TWF CALL, CYNALIADWY A CHYNHWYSOL A CHYFLAWNI CYDLYNIANT DARBODUS, CYMDEITHASOL A THIRIOGAETHOL

### 1.1 Strategaeth ar gyfer cyfraniad y rhaglen weithredol at strategaeth yr Undeb ar gyfer twf call, cynaliadwy a chynhwysol a chyflawni cydlyniant darbodus, cymdeithasol a thiriogaethol

1.1.1 Disgrifiad o strategaeth y rhaglen ar gyfer cyfrannu at gyflawni strategaeth yr Undeb ar gyfer twf call, cynaliadwy a chynhwysol a chyflawni cydlyniant darbodus, cymdeithasol a thiriogaethol.

**Cyflwyniad**

1. Mae strategaeth rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCC) yn amlinellu sut y bydd rhaglenni ESF 2014-2020 yn canolbwyntio ar gefnogi gweithrediadau o ansawdd uchel sy'n gyson yn strategol ac sy'n gweithredu mewn modd cydlynus a chydgysylltiedig â rhaglenni domestig ehangach.
2. Cynhaliwyd Dadansoddiad Economaidd-Gymdeithasol llawn er mwyn nodi anghenion, heriau a chyfleoedd ledled GCC. Bu hyn yn destun gwerthusiad ex-ante ac mae'n cynrychioli sail dystiolaeth gadarn y mae'r strategaeth hon wedi'i datblygu arni (fel rhan o gyfres o raglenni cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop (ESI) yng Nghymru). Mae hyn yn sefydlu'r rhesymeg dros y buddsoddiadau ar draws holl raglenni cronfeydd ESI a chaiff ei gyhoeddi gyda'r dogfennau rhaglen.
3. Mae'r Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU yn amlinellu strategaeth ar gyfer defnyddio'r cronfeydd ESI gyda'i gilydd er mwyn cyflawni cyfres gydgysylltiedig o raglenni buddsoddi sy'n darparu crynodeb o'r dadansoddiad o wahaniaethau, anghenion a photensial am dwf ar draws economi Cymru a'i marchnad lafur. Mae Cytundeb Partneriaeth y DU yn ystyried yn benodol gysylltiadau â'r Argymhellion sy'n Benodol i Wledydd y DU a Phapur Sefyllfa'r Comisiwn ar y DU ar gyfer pob un o'r prif Amcanion Thematig.
4. O ran nodau'r Cytundeb a nodau Ewrop 2020 (UE2020), dylid nodi bod Llywodraeth Cymru wedi dewis datblygu cynaliadwy a chydraddoldeb fel ei phrif egwyddorion trefniadol ac maent hefyd wrth wraidd y rhaglenni hyn. Golyga hyn fod angen i'r holl waith datblygu gyflawni cydbwysedd priodol rhwng canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan gydnabod bod pob un yn atgyfnerthu'r llall.
5. **Anghenion a Chyfleoedd yn Ardal Rhaglen GCC**
6. Mae'r dadansoddiadau Economaidd-Gymdeithasol a SWOT sy'n sail i'r strategaeth hon yn nodi amrywiaeth o gyfleoedd y gellir achub arnynt a heriau i'w goresgyn er mwyn i GCC a Chymru weld twf economaidd a, thrwy hynny, greu cyfleoedd gwaith cynaliadwy i'w dinasyddion.
7. Cyn dirywiad economaidd 2007 a'r dirwasgiad dilynol, roedd Cymru a GCC wedi dechrau gwneud cynnydd clir o ran mynd i'r afael â rhai o'r heriau economaidd, strwythurol hirsefydledig. Gwnaeth cylchoedd blaenorol o fuddsoddiadau Cronfeydd Strwythurol yr UE, a ddatblygwyd ar adeg o dwf yn economi a marchnad lafur Cymru, gyfraniad pwysig i'r sefyllfa well hon.

compare report

8. Er i’r dirywiad economaidd gael effaith ddifrifol ar GCC, ni chollwyd y cynnydd a wnaed o ran lleihau bylchau rhwng GCC ac economi ehangach Cymru a’r DU yn gyfan gwbl. Serch hynny, wrth baratoi ar gyfer cylch arall o raglenni Cronfeydd Strwythurol yn 2014-2020, mae’r amodau presennol o ran yr economi a’r farchnad lafur yn GCC yn wahanol iawn i’r rhai a fodolai ar yr un cam paratoi ar gyfer rhaglenni blaenorol.
9. Ar ddechrau’r cylch newydd o raglenni yn 2014, rhagwelir na fydd economi GCC wedi cyrraedd yr hyn a welwyd cyn y dirwasgiad a bydd sawl problem o ran y farchnad lafur, fel lefelau diweithdra uchel ymhlith pobl ifanc, cymysgedd sgiliau isel a niferoedd uchel o gartrefi heb waith yn parhau.
10. Mae GCC yn cwmpasu ardal o 1.24 miliwn hectar, sy’n cynnwys 15 o ardaloedd Awdurdod Lleol. Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod gan yr ardal boblogaeth o ryw 1.9 miliwn, y mae 51% ohoni’n fenyw, 14% yn anabl a 3% yn lleiafrifoedd ethnig. Yn 2011, roedd 30% o’r boblogaeth o dan 25 oed, roedd 51% yn 25-64 oed ac roedd 19% yn 65 oed a throsodd.
11. Awgryma amcanestyniadau o’r boblogaeth yng Nghymru y bydd y boblogaeth yn cynyddu i 3.17 miliwn yn 2020 ac i 3.31 miliwn yn 2035. Ni cheir ystadegau ar lefel rhaglen GCC ond mae’r tueddiadau yn debygol o fod yn debyg i ddata lefel Cymru. Ystyrir mai mudo net sy’n bennaf cyfrifol am dwf y boblogaeth. Ar y cyfan, disgwylir i nifer y plant o dan 16 oed gynyddu 3% rhwng 2012 a 2035. Mae’r grŵp oedran 16-64 yn debygol o ostwng 3% a disgwylir i’r grŵp oedran sydd dros 65 gynyddu 47% yn yr un cyfnod.
12. Roedd Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) y pen yn GCC rhwng 2010 a 2012 tua £6,000 yn is na GYG y pen yn y DU. Eglurir y rhan fwyaf o’r bwlch hwn gan werth ychwanegol is fesul swydd (cynhyrchiant yn fras). Cyfrannodd cyflogaeth is, allgymudo net a chymhareb dibyniaeth gymharol uchel at y bwlch mewn GYG y pen hefyd.
13. Mae’r canlynol yn effeithio ar y bwlch mewn cynhyrchiant: strwythur / cymysgedd diwydiannol andwyol; cymysgedd sgiliau gwael; diffyg effeithiau crynhoad (lle mae cwmnïau yn cael budd o fod yn agos i gwmnïau eraill neu economi drefol fawr); a lefelau is o gyfalaf. Dengys y Dadansoddiad Economaidd-Gymdeithasol fod tua 60% o gyflogaeth y sector preifat mewn BBaChau (33% mewn microfusnesau sy’n cyflogi hyd at naw cyflogai, a 27% mewn BBaChau eraill).
14. Erys tlodi a chanlyniadau tlodi yn her o hyd, yn enwedig yn yr amgylchedd economaidd cyfredol ac yng nghyd-destun targed UE2020 o sicrhau bod 20 miliwn yn llai o bobl yn wynebu risg o dlodi ledled yr UE. Mae Argymhellion sy’n Benodol i Wledydd y DU (CSR) 2014 hefyd yn nodi pwysigrwydd parhau ag ymdrechion i leihau tlodi plant mewn cartrefi incwm isel. Dengys y ffigurau diweddaraf (ffigurau Cymru yn unig ar gyfer y tair blynedd yn gorffen 2011/12) fod tlodi incwm cymharol ar gyfer oedolion o oedran gweithio (lle mae cartref yn byw ar 60% neu lai o incwm canolrif y DU, ar ôl costau tai) ychydig yn uwch na deng mlynedd yn flaenorol (23% a 22% yn y drefn honno). Mae tlodi mewn gwaith hefyd yn cyfrif am gyfran uwch o’r rhai mewn tlodi incwm cymharol na 10 mlynedd yn ôl[1].
15. Fel y cydnabyddir gan CSR 2014, mae Agenda Diwygio Lles Llywodraeth y DU a Deddf Diwygio Lles 2012 yn cyflwyno’r newidiadau mwyaf i fudd-daliadau lles ers 60 mlynedd. Er nad yw diwygio budd-daliadau lles yn fater datganoledig, disgwylir i’r diwygiadau gael effeithiau pellgyrhaeddol gyda goblygiadau sylweddol i wasanaethau datganoledig, unigolion a chymunedau yng Nghymru.

compare report

Awgryma adroddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ac ymchwil gan Lywodraeth Cymru y bydd y diwygiadau yn rhai atchwelol yng Nghymru ar y cyfan. Mae'r adroddiad yn awgrymu mai effeithiau negyddol a geir ar bobl ledled y wlad, gyda photensial i gynyddu tlodi i'r rhai ar incwm isel sydd bellaf o'r farchnad lafur a grwpiau â nodweddion gwarchodedig fel menywod, pobl anabl a grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) [2].

16. Roedd y gyfradd cyflogaeth yn GCC ar gyfer y boblogaeth 20-64 yn 70% yn 2012, yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU ac yn sylweddol is na tharged Ewrop 2020 sef 75%. Noda'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol fod y gyfradd cyflogaeth is hon yn GCC yn cyfrif am 15% o'r bwlch GYG cyffredinol. Mae cyfraddau cyflogaeth yn GCC wedi amrywio'n sylweddol yn ystod y dirywiad economaidd diweddar, yn dibynnu ar leoliad a lefel cymwysterau. Mae cyfraddau cyflogaeth wedi cynyddu rhwng 2000 a 2005, ond bu dirywiad sydyn yn 2009 pan oedd y dirwasgiad ledled y DU ar ei waethaf.
17. Parhaodd cyfraddau cyflogaeth ar gyfer y rhai ag NQF lefel 4 ac uwch yn gyson, sef tua 86%. I'r gwrthwyneb, mae cyfraddau cyflogaeth y rhai â chymwysterau isel, os o gwbl, wedi dirywio'n sydyn i gyn lleied â 39%. Mae'r dirywiad hwn yn adlewyrchu dirywiad cyffredinol yn niwydiannau sgiliau isel traddodiadol Cymru ac fe'i pwysleisir ymhellach gan dystiolaeth sy'n dangos mai yng Nghymoedd y De y mae'r ardaloedd â'r cyfraddau cyflogaeth isaf. Mae hefyd yn werth nodi bod y gyfradd ddiswyddo yn GCC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 yn 0.9%, o gymharu â 0.7% ar gyfer Cymru a'r DU gyfan,[3] sy'n dangos bod y dirwasgiad wedi cael mwy o effaith yn ardal GCC.
18. Mae'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol hefyd yn dangos na chynrychiolir menywod, lleiafrifoedd ethnig na phobl anabl yn ddigonol ym maes cyflogaeth sef 62.3%, 53.2% a 42.5% yn y drefn honno (o gymharu â 70% ar gyfer y boblogaeth 20-64 yn gyfan gwbl).
19. Roedd diweithdra yn GCC yn 2012 yn 8.4%, gyda chyfradd diweithdra hirdymor o 35.5%. Er bod y gyfradd ddiweithdra yn GCC wedi sefydlogi dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn dilyn cynnydd sydyn yn 2008, roedd yn dal i fod yn uwch yn 2012, na chyfradd Cymru (8.3%) a'r DU (7.9%). Mae cyfraddau diweithdra ymhlith grwpiau anabl a lleiafrifoedd ethnig yn sylweddol uwch yn GCC, gyda'r naill yn 11.7% a'r llall yn 14.5%[4]. Mae'r cyfraddau hyn yn uwch na chyfartaleddau Cymru a'r DU. Cynyddodd diweithdra ymhlith pobl ifanc (15-24 oed) yn sydyn yn dilyn y dirywiad economaidd i 26.8% yn 2010 ond ers hynny gwelwyd arwyddion o wella, gan leihau i 23.8% yn 2012[5]. Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu, o blith y rhai sy'n ddi-waith, mai sgiliau isel, os o gwbl, sydd gan gyfran sylweddol o'r rhain[6].
20. Nid yw polisi cyflogaeth yng Nghymru yn gymhwysedd datganoledig a Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol amdano. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyd-destun polisi cefnogol i dargedu ardaloedd lle y gall ategu darpariaeth prif ffrwd ac ychwanegu gwerth ati. Ystyrir bod cefnogi pobl i mewn i waith yn ateb critigol i leihau tlodi yng Nghymru. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn ddwy ddogfen allweddol sy'n amlinellu dull Llywodraeth Cymru o helpu unigolion i gael gwaith cynaliadwy, gyda symleiddio ac integreiddio rhaglenni yn brif egwyddorion sylfaenol.
21. Mae poblogaeth â phroffil cymwysterau cymharol isel a chyfradd cyflogaeth gymharol isel, ynghyd ag effaith bosibl diwygiadau lles y DU, yn ychwanegu heriau ychwanegol i leihau tlodi yn GCC. Yn y DU, o'r cartrefi hynny mewn tlodi, ystyriwyd bod 72% heb waith gydag un neu fwy yn ddiwaith. Mae gan y

compare report

DU ei hun gyfran uwch o blant sy'n byw mewn cartrefi heb waith nag unrhyw wlad arall yn yr UE bron.

22. Er nad oes ffigurau ar gael ar gyfer Cymru na GCC, mae'n rhesymol tybio bod patrwm tebyg yn wir. Mae gan GCC gyfran uwch o gartrefi heb waith (23.2% / 139,000 o gartrefi yn 2012) na chyfartaledd Cymru (21.5%) a chyfartaledd y DU (18.1%)[7]. Yn GCC yn 2012, roedd 16.8% o unigolion Di-waith a 52.4% o unigolion Economaidd Anweithgar yn dod o gartref heb waith[8]. Dengys tystiolaeth fod cysylltiad agos rhwng diweithdra a thlodi. Mae CSR 2014 y DU yn cydnabod pwysigrwydd lleihau tlodi plant mewn cartrefi incwm isel. Ceir cysylltiad negyddol rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol a sgiliau ac mae canlyniadau addysgol a galwedigaethol plant o gefndiroedd tlotach neu dan anfantais nad oes gan eu mamau gymwysterau yn is na phlant eraill.
23. Mae cyfraddau anweithgarwch wedi bod yn dirywio yn GCC dros y degawd diwethaf. Yn 2012, cafwyd cyfradd anweithgarwch o 23.8%, heb gynnwys myfyrwyr, a oedd wedi gostwng o 28.1% ddegawd yn gynharach, sef gostyngiad o ychydig dros 4%. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn uwch na chyfartaleddau Cymru (22.2%) a'r DU (19.3%)[9]. Yn 2012, roedd cyfraddau anweithgarwch yn GCC ar eu huchaf ymhlith y boblogaeth anabl (51.2%) a gweithwyr hŷn (36.4%). Salwch hirdymor, ar 35%, yw'r prif ffactor sy'n sail i anweithgarwch. Roedd gofalu am y teulu / cartref yn cyfrif am 28%. Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu mai lefel isel o sgiliau, os o gwbl (lefel 2 neu is) sydd gan gyfran sylweddol o'r rhai sy'n economaidd anweithgar[10].
24. Mae CSR 2014 y DU yn cyfeirio at bwysigrwydd ymdrin â diffyg cyfatebiaeth o ran sgiliau a darparu mwy o sgiliau datblygedig a lefel uwch. Mae proffil cymwysterau'r gweithlu yn GCC wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, ond dengys y Dadansoddiad Economaidd Gymdeithasol ei fod, ar gyfartaledd, yn dal i fod yn wannach na'r DU gyfan. Yn 2012, mae gan 51.2% o oedolion o oedran gweithio yn GCC gymhwyster canolraddol (NQF lefel 3-4) neu uwch ond, o gymharu â ffigurau'r DU, mae cyfran y bobl sydd â chymhwyster NQF lefel 4 ac uwch yn GCC yn gymharol isel sef 29.9% (37% yw cyfradd y DU%). O blith pedair gwlad y DU, Cymru hefyd sydd â'r gyfran isaf o oedolion o oedran gweithio sydd â chymwysterau NQF Lefel 7-8 (8.1% yn Lloegr, 8.2% yn yr Alban, 7.4% yng Nghymru a 7.5% yng Ngogledd Iwerddon). Mae'r gyfradd ganrannol i Gymru, sef 7.4%, hefyd islaw cyfartaledd y DU, sef 8.1%.[11]. Yn y cyfamser, mae cyfran y bobl heb unrhyw gymwysterau yn GCC hefyd yn gymharol uchel, sef 11.8%. Eto i gyd, dylid nodi y gwnaed cryn dipyn o gynnydd yn y meysydd hyn ers 2001; gyda chynnydd o 9.4% yn y gyfran â chymwysterau hyd at NQF lefel 4 ac uwch a gostyngiadau o 11.1% yng nghyfran y rhai heb unrhyw gymwysterau.
25. O blith yr oedolion hynny o oedran gweithio sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru, dengys y ffigurau mwyaf diweddar nad oes gan 6.9% o oedolion o oedran gweithio mewn cyflogaeth unrhyw gymwysterau o gwbl, mae gan 14.1% gymwysterau islaw NQF lefel 2, mae gan 21.7% gymwysterau NQF lefel 2, tra bod gan 57.3% gymwysterau NQF lefel 3 neu uwch ac mae gan 37.2% gymwysterau NQF lefel 4 ac uwch.
26. Mae Cymru yn perfformio'n dda yn erbyn targed UE2020 o ran sicrhau bod o leiaf 40% o bobl 30-34 oed yn cwblhau addysg drydyddol neu gyfatebol. Ar 41%, mae Cymru uwchlaw cyfartaledd yr UE, sef 35.8% (2012) ond mae GCC islaw hyn sef 35.7%.

27. Er bod y galw cyfredol am unigolion medrus yn gymharol wan ledled y DU, disgwylir i alw'r farchnad lafur am gyflogeion â sgiliau lefel uwch dyfu wrth i fwy o swyddi hyfedr gael eu creu o fewn yr economi, fel y cydnabyddir gan CSR 2014. Mae'r grwpiau galwedigaethol sy'n dirywio gyflymaf wedi'u clystyru o amgylch NQF Lefel 2 ac is; yn 2000, roedd tua un o bob tair swydd yn cael ei llenwi gan bobl heb gymwysterau neu â chymwysterau lefel isel ond erbyn 2020 disgwylir i'r ffigur hwn ostwng i ychydig dros un o bob pump.[12] Yn y cyfamser, mae galwedigaethau canolraddol a lefel uwch yn cyfrif am y gyfran fwyaf o gyflogaeth yn economi Cymru a disgwylir mai hwy fydd prif ffynhonnell twf swyddi yn y dyfodol, gyda'r grwpiau galwedigaethol sy'n tyfu gyflymaf angen sgiliau NQF Lefelau 3, 4 ac uwch.
28. Erbyn 2020, disgwylir i fwy na dwy ran o bump o swyddi gael eu llenwi gan bobl â chymwysterau lefel uwch (lefel 4 ac uwch).[13] Hefyd, mae gan Gymru grynodiad mawr o gyflogaeth ar lefel ganolraddol a rhagwelir y bydd galwedigaethau canolraddol yn cyfrannu mwy na thraean o'r swyddi yn y dyfodol.[14]Bydd gwneud addysg a hyfforddiant yn fwy perthnasol i'r farchnad lafur yn her allweddol i'r holl gronfeydd ESI a hefyd y defnydd o wybodaeth am y farchnad lafur (GFL) er mwyn llywio buddsoddiadau.
29. Bydd y gwaith o gefnogi datblygiad ein pobl ifanc yn cael effaith ar nifer o dargedau UE2020 allweddol sy'n canolbwyntio ar gynyddu cyflogaeth, trechu tlodi a chynhwysiant cymdeithasol a lleihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol yn gynnar, yn ogystal â chyfrannu'n uniongyrchol at CSR 2014 i wella sgiliau er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr a lleihau nifer y bobl ifanc â sgiliau sylfaenol isel. Bydd canolbwyntio ar ieuenctid sy'n cefnogi cyrhaeddiad a symud o addysg i mewn i gyflogaeth yn hanfodol er mwyn cyflawni targed UE2020 ar gyfer Gadael yr Ysgol yn Gynnar (GYG) o lai na 10%. Mae GYG yng Nghymru, sef 16.9%, uwchlaw cyfartaledd yr UE ac mae'n sylweddol uwch na tharged UE2020, gyda GCC yn uwch, sef 17.5% yn 2012.[15]
30. Mae lefelau cyrhaeddiad addysg pobl ifanc 15 oed, fel y'i mesurir gan PISA, hefyd yn is yng Nghymru na gweddill y DU, ac yn sylweddol is na chyfartaledd OECD, gyda chyrhaeddiad gwael mewn rhifedd a gwyddoniaeth a bwlch amlwg rhwng y rhywiau yn y pynciau hyn, gyda bechgyn yn sgorio'n sylweddol uwch na merched.[16] Mae canlyniadau arholiadau Lefel 217] yn 16 oed yn GCC (47.8%) yn is na chyfartaledd Cymru (48.7%) a cheir amrywiadau lleol sylweddol, gyda rhai ardaloedd cyn ised â 34.1%.
31. Mae lefelau cofrestru TGAU Cymru ar gyfer pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) wedi gostwng 12% dros y blynyddoedd diwethaf,18] gyda gostyngiad cyfatebol mewn lefelau cyrhaeddiad yn ystod y cyfnod 2008-2013. Fodd bynnag, mae lefelau cyrhaeddiad TGAU ymhlith merched yn cymharu'n dda â bechgyn, gyda chyfran uwch o ferched yn cael Graddau A*-C TGAU mewn Bioleg, Cemeg, Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Ychwanegol yn 2013. Fodd bynnag, ceir gostyngiad sylweddol mewn lefelau cyfranogi o ran pynciau STEM ar ôl 16 oed, yn enwedig ymhlith merched, gyda ffigurau Cymru yn is na gweddill y DU[19]. Heblaw am TGCh, mae cyfran y myfyrwyr Safon Uwch sy'n astudio pynciau STEM wedi gostwng rhwng 2001 a 2013. Yn 2013, roedd 17% o fechgyn yn astudio gwyddoniaeth Safon Uwch, tra roedd 10.7% o ferched yn gwneud hynny. Ar gyfer TGCh a phynciau CDTh[20], mae'r ffigurau yn 10% ar gyfer bechgyn a 5% ar gyfer merched. Mae'r graddau bioleg a ffiseg Safon Uwch a gyflawnir gan fyfyrwyr yng Nghymru hefyd yn is na myfyrwyr yn Lloegr.

compare report

32. Mae'r duedd hon yn parhau mewn addysg uwch, gyda chyfran y merched sy'n cofrestru ar gyfer pynciau STEM yn is yng Nghymru na'r DU. Ni chaiff merched eu cynrychioli'n ddigonol yn enwedig mewn pynciau technegol arbenigol, fel Aerobeirianneg a Pheirianneg Cynhyrchu. Dim ond 9.6% o fyfyrwyr gradd gyntaf sy'n ferched[21]. Mae amcanestyniadau'r DU ynglŷn â pheirianneg yn rhagweld y bydd prinder mawr o unigolion â chymwysterau addas (ar bob lefel o gymhwyster) dros y deng mlynedd nesaf.
33. Dengys data blaenorol y lefelau uchel o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc o gymharu â diweithdra'n gyffredinol. Mae pobl ifanc yn ei chael hi'n anos cael gwaith a symud o addysg i gyflogaeth mewn marchnad lafur gystadleuol iawn sy'n dod yn fwy gorlawn wrth i bobl weithio'n ddiweddarach mewn bywyd. Mae'r pwysau hyn hefyd yn effeithio ar y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur a'r rhai sy'n economaidd anweithgar sy'n ceisio dychwelyd i gyflogaeth gynaliadwy.
34. Yng Nghymru, cynyddodd nifer y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn 2012 yn sylweddol i 23% ar ôl y dirwasgiad yn 2008[22] (nid oes data ar gyfer GCC ar gael ar wahân ar gyfer yr ystod oedran 16-18 a 19-24 oed ond dengys yr amcangyfrifon mwyaf diweddar ar gyfer GCC fod y gyfradd NEET ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed yn 19.8%[23]). Fodd bynnag, mae cyfran y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET wedi aros yn weddol gyson, sef 10-13% rhwng 1996 a 2012. Byddai hyn yn dynodi bod diffyg ymgysylltu ar gyfer y garfan 16-18 yn broblem strwythurol a pharhaus a geir ymhob sefyllfa economaidd. Dengys hyn fod angen targedu ymyriadau cynnar penodol sydd wedi'u teilwra er mwyn bodloni gofynion y garfan hon, yn enwedig y rhai o dan 16 oed sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddod yn NEET.
35. Ar gyfer y rhai sy'n NEET, ac yn unol â CSR 2014, dylid rhoi sylw arbennig i ddarparu sgiliau uwch a mwy perthnasol a chymwyseddau allweddol er mwyn gwella cyflogadwyedd ac ymdrin â'r rhwystrau i gyflogaeth. Yng Nghymru nid oes gan 21% o'r bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET unrhyw gymwysterau ac nid oes gan 26% o bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET unrhyw gymwysterau[24]. Mae cyfran y bobl ifanc sy'n NEET yn uwch ymhlith y rhai ag anabledd gyda 60% o bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET wedi'u dosbarthu'n ddi-waith ac 20% yn anweithgar oherwydd salwch neu anabledd, neu gyfrifoldebau teuluol neu gyfrifoldebau gofalu[25]. Ymhlith pobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET, ystyriwyd bod bron 60% yn economaidd anweithgar, yn bennaf oherwydd salwch, anabledd a chyfrifoldebau teuluol neu chyfrifoldebau gofalu[26]. Y rhwystrau eraill i gyflogaeth a nodwyd gan bobl ifanc sy'n NEET yw diffyg profiad gwaith a diffyg hunanhyder.
36. Mae cystadleuaeth yn y farchnad lafur yn rhoi mwy o ffocws ar yr angen i ymdrin â phroblemau'r rhai sy'n NEET, neu sy'n wynebu'r risg o hynny, er mwyn cynyddu lefelau cyrhaeddiad, gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar ac atal mwy o anfantais. Mae'r gystadleuaeth hon hefyd yn gwaethygu'r broblem i'r sawl sy'n anabl neu dan anfantais wrth iddynt geisio dychwelyd i'r gwaith neu barhau mewn gwaith.
37. Mae'r Rhaglen Lywodraethu[27] yn nodi'r heriau hirdymor mawr o ran mynd i'r afael â diweithdra ieuenctid, cyrhaeddiad a datblygu plant yn y blynyddoedd cynnar. Ceir nifer o ddogfennau polisi perthnasol allweddol gan Lywodraeth Cymru sydd ynghlwm wrth hyn, gan gynnwys y Fframwaith Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid[28], a ddatblygwyd ar sail anghenion pobl ifanc, gan atgyfnerthu atebolrwydd asiantaethau gwahanol yn y system am sicrhau canlyniadau gwell i bobl ifanc; `ac, Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y

compare report

Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant[29] sy'n amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella cyfleoedd bywyd a chanlyniadau pob plentyn yng Nghymru dros y 10 mlynedd nesaf.

38. Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid hefyd yn cynnwys ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno gwarant ar gyfer cael lle mewn addysg neu hyfforddiant i bobl ifanc sy'n gadael addysg orfodol am y tro cyntaf. Mae Gwarant Ieuenctid Llywodraeth Cymru[30] yn cynnwys "cynnig, derbyn a chychwyn lle addas mewn addysg neu hyfforddiant i unrhyw berson ifanc sy'n symud am y tro cyntaf o addysg orfodol yn 16 oed" ac mae'n cyfrannu'n uniongyrchol at CSR 2014 y DU er mwyn gwella sgiliau pobl ifanc a diwallu anghenion cyflogwyr a lleihau nifer y bobl ifanc â sgiliau sylfaenol isel. Mae Gwarant Ieuenctid Llywodraeth Cymru ar hyd llinellau sydd yr un peth â'r math o fesurau a awgrymir yn Argymhelliad y Cyngor ar Sefydlu Gwarant Ieuenctid neu'n debyg iawn iddynt.
39. Gellir cael cryn ddylanwad ar gyrhaeddiad a chanlyniadau addysgol o oedran cynnar. Mae argymhellion y Comisiwn hefyd yn cydnabod yr angen i ymyrryd yn gynnar, gan gynnwys y rôl y gall darpariaeth gofal plant o ansawdd uchel ei chwarae wrth helpu ein plant ieuengaf i gael y dechrau gorau mewn bywyd, gyda chyfeiriad penodol yn CSR 2014 at bwysigrwydd gofal plant o ansawdd. Mae cysylltiad agos rhwng ansawdd darpariaeth a sgiliau'r gweithlu.
40. Mae ymchwil yng Nghymru yn amcangyfrif nad oes gan 38% o weithlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant fwy na chymwysterau lefel 2, ac nid oes gan 25% unrhyw gymwysterau o gwbl[31]. Mae'r gweithlu wedi tyfu 8% ers 2005 ac mae bron 3% o'r holl fenywod a gyflogir yng Nghymru yn gweithio ym maes gofal plant. Nid yw'r gweithlu yn adlewyrchu cymdeithas yn ehangach, hynny yw caiff ei staffio'n bennaf gan fenywod Gwyn Prydeinig a dim ond 2% o ddynion[32]; sy'n atgyfnerthu barn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb bod stereoteipio ar sail rhyw ym maes cyflogaeth yn dal i fod yn broblem sylweddol[33].
41. Bydd ymyriadau cynnar yn helpu i sicrhau bod buddsoddiadau ESF yn cael effaith waddol gref ar ein pobl ifanc. Drwy fuddsoddi yn sgiliau'r gweithlu caiff ansawdd darpariaeth ei wella, a gall ansawdd darpariaeth gofal plant y blynyddoedd cynnar gael effaith hirdymor ar ostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ym maes addysg[34].
42. Bydd newidiadau amcanestynedig yn y boblogaeth yn dylanwadu ar symudedd ein gweithlu yn y dyfodol. Mae cynnydd diweddar mewn cyfraddau geni a gweithlu sy'n heneiddio yn golygu y gallai gofal plant a chyfrifoldebau gofalu, yn enwedig ymhlith menywod a rhieni unigol, ddod yn rhwystrau i symudedd llafur a chyflogadwyedd i fwy o bobl, fel y cydnabyddir yn CSR 2014. Gall hyn olygu bod mwy o bobl yn symud allan o'r farchnad lafur ac, o bosibl, i mewn i dlodi er mwyn ymdopi â'r galwadau hyn. Bydd hefyd angen i bobl weithio'n hwyrach mewn bywyd wrth i oedrannau pensiwn newid, ac wrth i'r angen i ategu incwm pensiwn gynyddu.
43. O fewn y farchnad lafur, ni chaiff menywod eu cynrychioli'n ddigonol o hyd mewn uwch rolau a sectorau twf, yn enwedig lle mae angen pynciau STEM. Dim ond 9.9% o fenywod cyflogedig a gyflogir mewn galwedigaethau "Rheolwyr ac uwch swyddogion", a dim ond 38.4% o'r rhai a ddosberthir yn "Rheolwyr ac uwch swyddogion" sy'n fenywod.
44. Mae sawl mater yn dylanwadu ar sefyllfa menywod yn y gweithlu yn GGC.[35] Er enghraifft, mae menywod yn debycach o weithio'n rhan amser na dynion, er

compare report

CY
Y



C

bod menywod, ar gyfartaledd, yn fwy cymwys na dynion. Hefyd, er bod ganddynt broffil cymwysterau cryfach, ni chaiff menywod eu cynrychioli'n ddigonol mewn swyddi tâl uchel ac fe'u cynrychiolir ormod yn y sector cyhoeddus, lle mae cyfleoedd cyflogaeth yn lleihau.

45. Mae'r amgylchiadau sy'n esgor ar y canlyniadau hyn i fenywod yn gymhleth ac yn cwmpasu elfennau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Yn 2012, o'r 5.9 miliwn o fenywod a oedd yn gweithio'n rhan amser yn y DU, dywedodd tua 75% nad oeddent am gael swydd llawn amser o gymharu â thua 40% o ddynion[36]. Yng Nghymru, mae cyfraddau gweithio rhan amser yn debyg i'r DU ac mae'r rhaniad rhwng y rhywiau hefyd yn debyg iawn (mae 43.1% o fenywod yng Nghymru yn gweithio'n rhan amser, o gymharu â 43.4% ar lefel y DU, tra 13.7% yng Nghymru a 13.4% yn y DU yw'r ffigurau cyfatebol ar gyfer dynion).
46. Nid oes data ar gael yng Nghymru sy'n dangos cyfran y menywod sy'n gweithio'n rhan amser nad ydynt am gael swydd llawn amser. Fodd bynnag, yn 2012 roedd cyfran y bobl a oedd yn gweithio'n rhan amser nad oeddent am gael swydd llawn amser yng Nghymru yn 67%; yn debyg iawn i'r DU lle'r oedd yn 65%. Felly, mae'n rhesymol tybio bod cyfran y menywod sy'n gweithio'n rhan amser nad ydynt am gael swydd llawn amser yng Nghymru yn debyg i'r DU hefyd.
47. Yn 2012, roedd menywod yn ennill £464 yr wythnos ar gyfartaledd yn GCC o gymharu â £535 yr wythnos i ddynion. Mae enillion menywod, fel cyfran o enillion dynion, yn 87%, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU. Mae enillion wythnosol gros cyfartalog menywod yng Nghymru yn is nag enillion dynion ymhob un o'r prif grwpiau galwedigaethol, er nad yw'r gwahaniaeth hwn mor amlwg yng Nghymru â gweddill y DU, sydd efallai'n adlewyrchu'r ffaith bod mwy o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus. Yn y sector preifat mae enillion menywod yn cyfateb i 78% o enillion dynion yng Nghymru, sy'n agos at gymhareb y DU, sef 76%. Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn nodi enillion wythnosol waeth beth fo'r patrymau gwaith, heb gyfrif am y gyfran uwch o fenywod sy'n gweithio'n rhan amser.
48. Yn ôl ymchwil gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, un o dri phrif achos tlodi mewn gwaith ymhlith teuluoedd â phlant yw enillwyr nad ydynt yn gweithio digon o oriau. Mae gweithwyr rhan amser, sef 30.4%, yn parhau i gyfrif am gyfran sylweddol o'r holl gyflogaeth yn GCC[37]. Mae 33% o'r rhai mewn cyflogaeth rhan amser am gael swydd llawn amser[38].
49. Er ein bod yn byw'n hirach, a bod angen inni weithio'n hirach, dengys tystiolaeth nad yw ein hiechyd yn gwella i'r un graddau. Gall problemau iechyd yn y gweithlu ddod yn fwy cyffredin[39]. Yng Nghymru caiff 2.5% o oriau gwaith eu colli oherwydd salwch neu anaf, sy'n uwch na'r DU, sef 1.8%[40]. Amcangyfrifwyd bod iechyd meddwl gwael yn y gweithlu yn costio £1.2bn y flwyddyn i economi Cymru, gydag 1 o bob 6 o'r gweithlu, ar gyfartaledd, yn wynebu problemau iechyd meddwl[41].
50. Gall effeithiau anableddau a chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith amharu ar gynhyrchiant, a gall hefyd fod yn rhwystr neu ddod yn rhwystr i gynnal cyflogaeth barhaol, fel y gall effeithiau camddefnyddio sylweddau neu alcohol. Amcangyfrifir, oherwydd salwch, y bydd 45,000 o gyflogeion yn absennol o'r gwaith yng Nghymru yn 2014/15 am bedair wythnos neu fwy[42]. Mae iechyd meddwl a phroblemau cyhyrysgerbydol yn cyfrif am dros 50% o gyflogeion sy'n absennol yn yr hirdymor gyda thua 1/3 o gyflogeion sy'n absennol yn yr hirdymor yn nodi bod ganddynt ddau neu fwy o gyflyrau iechyd.

51. **Strategaeth ESF yn GCC**

52. Cyflawnir y strategaeth hon fel rhan o ddull integredig o ddosbarthu Cronfeydd ESI ledled Cymru, a bydd yn cefnogi nodau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a strategaeth yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Twf Call, Cynaliadwy a Chynhwysol (UE2020). Mae'r dull hwn o weithredu yn cydnabod mai'r ffordd fwyaf effeithiol o greu'r amodau a fyddai'n arwain at symudiad cadarnhaol a sylweddol mewn GYG yw drwy gamau cydgysylltiedig, integredig ac iddynt ffocws gyda'r Llywodraeth, ar bob ffurf, yn gweithio gyda'r sector preifat a'r trydydd sector ledled Cymru.

53. Fel yr amlinellwyd yn y Cytundeb Partneriaeth, er mwyn cael effaith drawsnewidiol o ran swyddi a thwf, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod pob ffrwd ariannu Ewropeaidd yn cael yr effaith fwyaf posibl, gan annog datblygiad cynlluniau a phrosiectau sy'n sicrhau bod pob un yn rhan o bortffolio cydgysylltiedig o fuddsoddiadau. Bydd camau integredig yn bosibl er mwyn helpu cymunedau ledled Cymru, gan gynnwys cymunedau gwledig ac arfordirol, i ddefnyddio cronfeydd ESI i ddatblygu sgiliau'r gweithlu fel y gellir manteisio ar gyfleoedd twf, ateb heriau economaidd sy'n dod i'r amlwg ac arallgyfeirio i farchnadoedd newydd.

54. Bydd Cymru yn mynd ar drywydd mwy penodol ac integredig fel rhan o gylch rhaglenni 2014-20 a fydd yn helpu i feithrin cydweithrediad a chydgysylltiad rhwng cronfeydd. Nodir y cysylltiadau rhwng buddsoddiadau ESF a ffrydiau Ariannu Ewropeaidd eraill (gan gynnwys ar draws Rhaglenni ESF) yn fanylach yn ddiweddarach ymhob maes blaenoriaeth, fel y dull integreiddio. Hefyd, disgwylir gwneud cysylltiadau ag offerynnau ariannu eraill yr UE fesul prosiect.

55. Gan gefnogi'r llwybr rhaglennu ar y cyd, penderfynwyd osgoi gwahanu llym ar gyfer rhaglenni 2014-2020. Mae hyn yn golygu, lle y bo cymorth gwladwriaethol yn caniatáu hynny, y bydd ffermwyr a physgotwyr yn gallu cael gafael ar ESF er mwyn cefnogi ymdrechion i uwchsgilio neu ailsgilio, yn enwedig lle y gall hyn gefnogi camau i fanteisio ar gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg fel y rhai sydd o blaid camau gweithredu ar newid yn yr hinsawdd a thwf gwyrdd. Mae'r dull hwn o weithredu hefyd yn adlewyrchu'r rhyng-gydberthnasau sy'n bodoli yng Nghymru rhwng yr economïau Gwledig, Arfordirol a Threfol.

56. Mae rhaglen ESF GCC yn cydnabod, os ceir newid gwirioneddol a thrawsnewidiol yn yr economi a'r farchnad lafur, fod angen mesurau sydd wedi'u datganoli ac sydd heb eu datganoli er mwyn cysylltu'r gwaith o dargedu problemau difrifol ac ychwanegu gwerth ato. Bydd ymyriadau yn ymateb i anghenion cyflogwyr, gan ddefnyddio Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (GFL)[43] er mwyn sicrhau bod ymyriadau yn sicrhau'r canlyniadau sydd eu hangen o ran cyflogaeth gynaliadwy a'r ymyriadau o ran sgiliau sy'n cefnogi gweithlu'r dyfodol.

57. Defnyddir amrywiaeth o ddogfennau canllaw, gan gynnwys Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd, i gyflawni synergedd rhwng Cronfeydd ESI a buddsoddiadau ehangach yn economi Cymru. Ochr yn ochr â GFL, bydd y dogfennau hyn yn fodd i fuddsoddiadau ESF gysoni â meysydd twf economaidd a chyfle a rhyngweithio, fel rhan o gyd-destun buddsoddi ehangach, er mwyn sicrhau bod y buddsoddiadau mewn pobl yn gallu cyflawni'r sgiliau a'r gweithlu y bydd eu hangen ar yr economi.

58. Mae'r EPF yn ceisio dwyn ynghyd y buddsoddiadau ehangach a'r cyfleoedd economaidd allweddol sy'n berthnasol i'r cronfeydd ESI sydd ar waith o fewn economi Cymru, er mwyn helpu'r cronfeydd hyn i ychwanegu gwerth at y

buddsoddiadau ehangach hynny, osgoi dyblygu ac adeiladu ar asedau sy’n bodoli eisoes. Ceir nifer o feysydd economaidd allweddol sy’n darparu cyfleoedd, yn enwedig ym maes sgiliau a chyflenwi a datblygu’r gweithlu, lle y bydd ESF yn ategu nifer o fuddsoddiadau ledled Cymru.

59. Ystyrir y rhain yn fanylach yn yr EPF, ond byddent yn cynnwys: buddsoddiadau mewn ynni a chefnogi’r newid i economi carbon isel ac ynni-effeithlon; newid yn yr hinsawdd ac effeithlonrwydd adnoddau, gan gynnwys amddiffyn a rheoli adnoddau’n strategol (a allai gynnwys cefnogi amaethyddiaeth a dyframaeth er mwyn ymdrin â materion diogelwch bwyd a newid yn yr hinsawdd); cyfrannu at yr economi ddigidol ac achub ar gyfleoedd yn y farchnad ddigidol; uwch weithgynhyrchu a datblygu arbenigedd ym maes gwastraff, ailgylchu ac ailddefnyddio, ailweithgynhyrchu, allyriadau, defnyddio adnoddau (gan gynnwys dŵr ac ynni), a chadernid adnoddau (metelau prin); Gwyddorau Bywyd ac Iechyd; a Thwristiaeth a Hamdden.

60. Drwy’r cysylltiadau â’r meysydd twf economaidd allweddol hyn a buddsoddiadau ehangach ar draws cronfeydd ESI, bydd modd sicrhau bod buddsoddiadau ESF hefyd yn ategu ymdrechion ehangach i ymdrin â’r targedau UE2020 hynny nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â gweithgarwch ESF. Gall darpariaeth sgiliau a chyflogaeth drwy ESF helpu, er enghraifft, i ategu camau gweithredu tuag at dargedau UE2020 sydd ynghlwm wrth leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 20% a chynyddu cyfraddau ynni adnewyddadwy o ran y defnydd terfynol o ynni 20%.

61. Yn achos y meysydd hynny sy’n cwmpasu cymwyseddau nad ydynt wedi’u datganoli fel Cyflogaeth a Lles, datblygwyd cydberthnasau gwaith agos rhwng yr Awdurdod Rheoli a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod ymyriadau ESF yn gallu dangos gwerth ychwanegol ac ategu darpariaeth prif ffrwd. Mae’r broses o ddewis yr Amcanion Thematig a’r Blaenoriaethau Buddsoddi perthnasol (yn benodol lle gall cyfatebolrwydd fodoli â mynediad i gyflogaeth) yn adlewyrchu’r ymagwedd ychwanegolrwydd hon ac ymdrinnir â hyn ymhellach yn y blaenoriaethau perthnasol. Mae Adran 8 yn amlinellu ymhellach y dulliau gweithredu ar lefel Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn rheoli’r broses o integreiddio camau gweithredu yn y meysydd hyn.

compare report

62. **Gweledigaeth ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd ESI yng Nghymru**
    - **Gweledigaeth Llywodraeth Cymru**, fel y nodir yn y Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU, yw y bydd Cronfeydd ESI, sy’n gyson â’r Rhaglen Lywodraethu, yn helpu Cymru i ddod yn **wlad hyderus, entrepreneuraidd ac uchelgeisiol, a fydd yn ffynnu drwy dwf economaidd cynaliadwy**.

63. **Nodau ac Amcanion Rhaglen ESF GCC**

64. Mae’r canlynol yn amlinellu nodau ac amcanion rhaglen ESF ar gyfer GCC ac yn sail i’r Echel Blaenoriaeth a fabwysiadwyd o fewn y rhaglen a’r Amcanion Penodol o fewn pob Echel Blaenoriaeth. Wrth fynd ar drywydd y nodau a’r amcanion hyn, bydd y rhaglen yn sicrhau bod buddiannau twf economaidd yn wirioneddol hygyrch i bawb ac nad ydynt yn dibynnu’n unig ar effeithiau ‘rhaeadru’ a fyddai’n peri’r risg o greu anghydraddoldebau. Ni ddylai’r broses o geisio twf economaidd ychwaith gael unrhyw effaith andwyol ar yr amgylchedd na chymdeithas yn ehangach.
    - Trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol drwy gynyddu cyfranogiad y farchnad lafur a helpu pobl i gael cyflogaeth gynaliadwy;
    - Buddsoddi mewn sgiliau fel ysgogwr cynhyrchiant a thwf, cefnogi datblygiad gyrfa a gwella cymysgedd sgiliau ac amrywiaeth ein gweithlu;

- Buddsoddi yn ein pobl ifanc er mwyn creu gweithlu ffyniannus ac ymatebol at y dyfodol sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i ymateb i anghenion economi heriol sy'n seiliedig ar wybodaeth.

65. **Amcanion**
    - Lleihau tlodi drwy gynyddu lefelau cyflogaeth, yn enwedig ar gyfer grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol a'r rhai sydd bellach o'r farchnad lafur;
    - Cynyddu lefelau sgiliau'r gweithlu, cynyddu nifer y bobl sydd wedi cymhwyso i lefel ganolraddol neu uwch, lleihau nifer y bobl heb unrhyw sgiliau neu sgiliau sylfaenol yn unig a chynyddu sgiliau lefel uwch ym maes ymchwil ac arloesedd;
    - Cynyddu lefelau cyflogaeth a chyrhaeddiad addysgol ymhlith pobl ifanc, a thrwy hynny leihau tlodi ac anfantais ymhlith ein pobl ifanc;
    - Lleihau anghydraddoldebau yn y farchnad lafur ymhlith menywod a grwpiau cydraddoldeb cydnabyddedig
66. Ar sail Echel Blaenoriaeth, bydd rhaglen ESF GCC yn darparu dull gweithredu cytbwys sy'n ategu twf economaidd ac yn cefnogi'r unigolion hynny â'r angen mwyaf ac sy'n wynebu risg o anfantais neu wahaniaethu. Bydd camau gweithredu yn canolbwyntio ar nifer gyfyngedig o Flaenoriaethau Buddsoddi o fewn pob Amcan Thematig er mwyn sicrhau y gall rhaglenni ESF ddarparu'r crynodiad a'r ffocws sydd eu hangen ar y rheoliadau ac a gaiff yr effaith fwyaf.
67. Bydd rhaglen ESF GCC yn darparu rhaglen gydlynol o gamau gweithredu sy'n galluogi twf economaidd drwy hyrwyddo lefelau uchel o gyflogaeth gynaliadwy, gan ddatblygu gweithlu Cymreig medrus ac ymatebol nawr ac yn y dyfodol. Bydd yn canolbwyntio ar dri maes allweddol, sef: targedu tlodi ac allgáu cymdeithasol drwy hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy, buddsoddi mewn gweithlu medrus a buddsoddi yn ein pobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.
68. Bydd y rhaglen yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu portffolio cytbwys o fuddsoddiadau sy'n targedu materion byrdymor, drwy sicrhau gwelliannau yn erbyn dangosyddion allweddol fel canlyniadau cyflogaeth a chymwysterau, a hefyd geisio cyflawni canlyniadau tymor hwy fel ymdrin â materion strwythurol o ran diweithdra ieuenctid a'r sawl sy'n NEET a gwella ansawdd gofal plant.
69. **Echelau Blaenoriaeth ar gyfer GCC**
70. Datblygwyd rhaglen ESF GCC yn seiliedig ar dair Echel Blaenoriaeth ryng-gysylltiedig a fydd yn cyflawni camau ategol er mwyn cefnogi nodau ac amcanion cyffredinol y rhaglenni ESF yng Nghymru:
    - **Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy;**
    - **Sgiliau ar gyfer Twf;**
    - **Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid**
71. Ar ôl addasu'r rhaglenni yn 2018 cafwyd cynigion i gyflwyno Echel Blaenoriaeth newydd ar gyfer '**Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gweithio rhanbarthol**'.Y bwriad yw y bydd y Flaenoriaeth yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â chyfyngiadau a rhwystrau o ran gallu ac adnoddau sy'n atal cydweithio o fewn y sector cyhoeddus, gyda phwyslais penodol ar weithio rhanbarthol. Disgwylir i hyn adeiladu ar y profiadau yn ystod 2007-2013, gan symud trefniadau llwyddiannus i statws newydd, sy'n gyson ag agenda rhabartholi Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, helpodd rhaglenni 2007-2013 i sefydlu partneriaethau sgiliau rhanbarthol, a allai gael eu cefnogi i ddatblygu'n ddull mwy integredig yn rhanbarthol.

compare report

72. Bydd Echel Blaenoriaeth **Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy** yn anelu at gefnogi ymdrechion i drechu tlodi ac allgáu cymdeithasol yn GCC. Yn unol â Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru, cyflawnir hyn drwy helpu grwpiau targed allweddol i gynyddu cyflogadwyedd a chael gwaith am gyfnod estynedig.
73. Yng Nghymru caiff tlodi ei ddiffinio fel a ganlyn: '*Cyflwr hirdymor o ddiffyg adnoddau digonol i fforddio bwyd, amodau byw rhesymol neu amwynderau neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau (megis mynediad i ardaloedd deniadol a mannau agored) y mae eraill mewn cymdeithas yn eu cymryd yn ganiataol*'. Yn ei Rhaglen Lywodraethu a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad trawslywodraethol i drechu tlodi ac allgáu cymdeithasol ac mae'n gwbl gefnogol i ffocws yr Undeb Ewropeaidd ar dlodi, gan gysylltu â CSR 2014 er mwyn parhau ag ymdrechion i leihau tlodi plant mewn cartrefi incwm isel. Bydd cyflwyno Thema Drawsbynciol Trechu Tlodi yn atgyfnerthu hyn ac yn sicrhau bod y ffocws hwn yn cael ei adlewyrchu ar draws holl gronfeydd ESI.
74. Bydd y camau gweithredu yn yr Echel Blaenoriaeth hon yn ceisio atal a threchu tlodi o ganlyniad i ddiweithdra neu dangyflogaeth, gyda chyflogaeth gynaliadwy yn brif egwyddor. Effeithiau tymor hwy ehangach yr ymyriadau fydd cefnogi dull cyffredinol Llywodraeth Cymru o drechu tlodi a chyfrannu at ostwng cyfraddau diweithdra neu anweithgarwch economaidd ledled Cymru.
75. Dengys profiad blaenorol fod cymorth sydd wedi'i deilwra a'i dargedu'n glir yn seiliedig ar anghenion cleientiaid unigol wedi bod yn hynod effeithiol o ran cyflawni canlyniadau cyflogaeth ar gyfer unigolion. Mae allgymorth, cydleoli a gweithio mewn partneriaeth yn bwysig yn hyn o beth ac mae'n helpu i ddarparu llwybrau cliriach i fuddiolwyr gamu ymlaen drwy ddarpariaeth ategol ac i mewn i gyflogaeth. Agwedd sy'n hynod effeithiol yn y maes hwn yw gweithrediadau sydd â dulliau clir o ddatblygu unigolion tuag at gyflogaeth fel rhan o bortffolio gweithgareddau sy'n rhychwantu'r ysgol gyflogaeth â chymorth; o weithgareddau allgymorth ac ymgysylltu meddal; i brofiad gwaith, hyfforddiant sgiliau a chwilio am waith yn ogystal â darpariaeth cadw swydd.
76. Bydd prif ffocws buddsoddiadau o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon yn cefnogi'r rhai sydd bellach o'r farchnad lafur ac felly yn byw mewn tlodi parhaus, fel eu bod yn goresgyn y rhwystrau cymhleth ac aml-achosol a wynebir ganddynt i symud yn agosach at y farchnad lafur. Bydd buddsoddiadau yn helpu unigolion i ymdrin â'r rhwystrau a wynebir ganddynt ac ailymgysylltu â'r farchnad lafur, cael gwaith parhaol a gwireddu'r cyfleoedd y gall cyflogaeth eu cynnig o ran trechu tlodi yn sgil diweithdra.
77. Bydd y cymorth yn targedu unigolion sy'n Ddi-waith yn yr Hirdymor ac sy'n Economaidd Anweithgar sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i symudedd yn y farchnad lafur gan gynnwys: lefel isel o sgiliau, os o gwbl; anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio (gan gynnwys camddefnyddio sylweddau neu alcohol); cyfrifoldebau gofal neu ofal plant; dros 54 oed; o grŵp Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig neu o gartref diwaith. Darperir cymorth hefyd er mwyn helpu i ymdrin â rhwystrau cysylltiedig fel trafnidiaeth, ariannol ac emosiynol; TGCh; a materion fel agweddau at waith a dibyniaeth ar les. Caiff ymyriadau, a gyflawnir fel rhan o strategaethau ehangach i ymdrin â diweithdra, tlodi a chymunedau difreintiedig, eu hintegreiddio a'u personoli, gan ganolbwyntio ar anghenion yr unigolyn o ran y dulliau ymgysylltu a chyflawni a'u strwythuro mewn ffordd sy'n osgoi'r angen i unigolyn sy'n wynebu sawl

compare report

rhwystr neu rwystrau cymhleth gael mynediad at amrywiaeth cymhleth o ymyriadau gwahanol.

78. Bydd buddsoddiadau ac iddynt fwy o ffocws hefyd yn targedu'r rhai sydd agosaf at y farchnad lafur, sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi, gan gynnig atebion adweithiol ac ymatebol i ymdrin ag amrywiadau yn y farchnad lafur a chylchoedd gwaith a diweithdra (y cylch cyflog isel dim cyflog), gan weithio i atal unigolion rhag llithro i ddiweithdra a thlodi hirdymor. Bydd y cymorth a roddir yn canolbwyntio ar gamau adfer cynnar er mwyn ymdrin ag achosion sylfaenol diweithdra a'i gwneud yn bosibl i ddychwelyd i'r farchnad lafur yn gynnar.
79. Wrth gefnogi mynediad at gyflogaeth gynaliadwy bydd angen sicrhau bod cysylltiadau agos â meysydd twf economaidd a chyfle, er enghraifft wrth newid i economi carbon isel neu economi fwy medrus. Bydd hyn yn allweddol er mwyn helpu i arallgyfeirio opsiynau cyflogaeth i'r rhai sydd agosaf at y farchnad lafur oddi wrth sectorau sy'n dirywio ac i mewn i feysydd twf a sicrhau cynaliadwyedd canlyniadau cyflogaeth i'r rhai sy'n ailddechrau gweithio ar ôl cyfnodau hir o absenoldeb.
80. Bydd y Flaenoriaeth hefyd yn cefnogi'r broses o bontio'n effeithiol i waith sefydlog a chynaliadwy. Gallai'r cymorth ychwanegol hwn gynnwys parhau â chymorth mentora am gyfnod cyfyngedig neu helpu gyda chostau rhwystrau megis gofal plant, teithio, cyfarpar neu ddillad.Bydd y cymorth hwn i gyfranogwyr sy'n dechrau cyflogaeth neu hunangyflogaeth yn rhoi gwell cymorth i gyfranogwyr yn ystod naw mis cyntaf allweddol swydd newydd er mwyn osgoi sefyllfa lle mae unigolion yn symud o gyflogaeth i ddiweithdra dro ar ôl tro oherwydd diffyg cymorth pontio.
81. Bydd yr Echel Blaenoriaeth hefyd yn atal tlodi drwy gamau sy'n targedu'r sawl sy'n wynebu'r risg o lithro allan o gyflogaeth gynaliadwy o ganlyniad i gyfnodau estynedig o absenoldeb oherwydd salwch yn yr hirdymor neu'r rhai sy'n wynebu rhwystrau (fel iechyd, anabledd, camddefnyddio sylweddau neu gyfrifoldebau gofalu neu ofal plant) a all achosi tangyflogaeth neu gyfrannu ati. Bydd ymyriadau yn anelu at gynnig atebion arloesol cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar feysydd lle mae'r angen yn amlwg er mwyn atal rhwystrau rhag achosi diweithdra.
82. Mae Argymhellion 2014 sy'n Benodol i Wlad a Phapur Sefyllfa'r Comisiwn ar gyfer y DU yn cydnabod yr angen i gymryd camau cydgysylltiedig er mwyn ymdrin â heriau tlodi, sy'n cynnwys ymdrechion parhaus i leihau tlodi plant mewn cartrefi incwm isel, gwella argaeledd gofal plant fforddiadwy, o ansawdd a chynyddu cyflogaeth er mwyn helpu i gyflawni'r nod hwn. Gyda chyswllt uniongyrchol â'r Fenter Flaenllaw, *Llwyfan yr UE yn erbyn Tlodi*, bydd y camau a nodir uchod yn helpu'r Comisiwn i ganolbwyntio ar drechu tlodi ac allgáu cymdeithasol a bydd yn cyflawni targed UE2020 sef bod 20 miliwn yn llai o bobl mewn tlodi. Mae cael pobl i mewn i swyddi sefydlog hefyd yn cael ei ystyried yn ffactor pwysig wrth gyflawni targed cyflogaeth Ewrop, sef 75% o gyflogaeth. Mae Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU yn tynnu sylw at y ffaith bod rhwystrau'n parhau i gyflogaeth gynhwysol ac, yng Nghymru, gwelir cyflogaeth fel y llwybr gorau allan o dlodi.
83. Bydd camau gweithredu o dan Echel Blaenoriaeth **Sgiliau ar gyfer Twf** yn mynd ati, ar sail y galw, i nodi ac ymdrin â bylchau a diffygion mewn sgiliau allweddol ymhlith y rhai sy'n gweithio , gan ddefnyddio GFL i ymateb i anghenion a galwadau a nodwyd gan gyflogwyr a chanolbwyntio ar grwpiau targed penodol. Mae buddsoddi mewn sgiliau sy'n gyson â gweithgarwch twf a sicrhau bod gan

compare report

gyflogwyr weithlu â chymwysterau addas ar gyfer datblygu economaidd cynaliadwy yn parhau i fod yn ffactor ysgogi allweddol wrth ddatblygu economi fodern sy'n seiliedig ar wybodaeth a helpu economïau i ymateb ac addasu i newidiadau economaidd, sef ffaith a gydnabyddir gan CSR 2014.

84. Dengys profiad blaenorol fod teilwra darpariaeth at grwpiau targed penodol, fel pobl â lefel isel o sgiliau neu weithwyr hŷn, yn ffactor pwysig a allai wella cyrhaeddiad ymhellach, ac felly effeithio ar weithgareddau sgiliau â chymorth ESF.[44] Mae cyflwyno cymwysterau a gydnabyddir gan gyflogwyr hefyd yn fudd allweddol, gan roi mwy o sicrwydd swyddi i'r rhai â lefel isel o sgiliau. Dengys ymchwil hefyd y dylai darpariaeth sgiliau a ariennir gan ESF gael ei hystyried yn rhan o gamau integredig a pharhaus tuag at ddysgu gydol oes a datblygiad proffesiynol parhaus, sy'n cydnabod anghenion penodol y grwpiau targed a sefyllfa cyfranogwyr yn y farchnad lafur.[45] Felly, caiff camau gweithredu eu dylunio i ymateb i anghenion penodol cyflogwyr a grwpiau targed penodol, gan ei gwneud yn bosibl i ddatblygu o sgiliau sylfaenol neu isel, i sgiliau canolraddol neu uwch.

85. Nododd Arolwg 2011 yr ESF o'r Bobl a Adawodd[46] ar ôl iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF, i'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr nodi gwelliannau o ran boddhad gwaith, cyflog yn y dyfodol a rhagolygon dyrchafu a chyfleoedd hyfforddiant. At hynny, nododd tua 20% o'r ymatebwyr a oedd wedi'u cyflogi mewn swydd wahanol i'r un a oedd ganddynt cyn cymryd rhan mewn gweithrediad ESF fod gweithgarwch ESF yn hanfodol iddynt gael eu swydd gyfredol.

86. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng lefelau sgiliau a thlodi, gyda'r sawl â sgiliau lefel uwch yn profi llai o effeithiau yn sgil y dirwasgiad ac yn cael budd o fwy o symudedd yn y farchnad lafur.[47] Dengys y Dadansoddiad Economaidd-Gymdeithasol fod cyfraddau cyflogaeth y rhai â chymwysterau isel, os o gwbl, wedi gostwng yn sydyn i gyn ised â 39% yn GCC. Mae effaith inswleiddio sgiliau lefel uwch ar gyfraddau cyflogaeth yn ystod dirwasgiad ac ansicrwydd yn y farchnad lafur yn pwysleisio pwysigrwydd sgiliau o ran cael gwaith parhaol a'i gadw[48], yn ogystal â gwella hyblygrwydd cyflogwyr a thrwy hynny wella galluoedd gweithwyr a'u heffeithiolrwydd yn y gweithle[49] a galluogi cyflogeion â sgiliau is a thâl is i gamu ymlaen mewn cyflogaeth a chynyddu eu lefelau incwm[50].

87. Felly, erys sgiliau sylfaenol a hanfodol yn flaenoriaeth, gyda chamau gweithredu yn annog ac yn cefnogi datblygiad sgiliau hyd at lefel ganolraddol er mwyn cynyddu'r buddiannau y gall sgiliau eu cael ar ymdrin â thlodi mewn gwaith fel rhan o ddull ehangach o drechu tlodi o fewn rhaglen ESF.

88. Bydd cydbwysedd rhwng darpariaeth sgiliau sylfaenol a hanfodol, gan gynnwys prentisiaethau, a chamau i ennill cymwysterau galwedigaethol technegol a phenodol i swydd canolraddol a lefel uwch (gan gynnwys prentisiaethau), yn ogystal â sgiliau Ymchwil ac Arloesedd lefel uwch, fel y cyfeirir atynt gan CSR 2014.

89. Mae lefelau uwch o gymwysterau yn gysylltiedig â lefelau uwch o gyflogaeth, a chyflogau uwch[51]. Gall prentisiaethau gael rhai o'r effeithiau mwyaf ar enillion a chyflogadwyedd yn yr hirdymor[52], sef rhwng £48,000 a £74,000, yn ôl amcangyfrif, mewn enillion gydol oes ychwanegol[53] gyda'r Gwerth Presennol Net fesul cyflawniad ddwywaith NVQ lefel debyg[54]. Mae cymwysterau addysg uwch hefyd ymhlith y rhai sy'n talu orau ac mae'r hyn a welir yn gyfnewid yn y DU yn uwch na llawer o wledydd eraill. Amcangyfrifir bod y premiwm cyflog

compare report

am radd bron 25% yn fwy na 2 Safon Uwch neu fwy, gan ddarparu enillion gydol oes net ychwanegol o bron £130,000 ar gyfartaledd. Gall gradd ôl-raddedig ddarparu £70,000-£80,000 ychwanegol mewn enillion.[55]

90. Felly, bydd y rhaglen ESF yn cefnogi cymwysterau galwedigaethol technegol a phenodol i swydd canolraddol a lefel uwch, sy'n ymateb i anghenion busnes, yn cefnogi twf a hyblygrwydd sefydliadol ac yn cynyddu cymwyseddau'r gweithlu, gan gynnwys Gweithio Perfformiad Uchel (GPU). Gall sgiliau o'r fath ysgogi twf economaidd, gan gefnogi datblygiad gweithlu mwy cymwys a medrus a wnaiff alluogi busnesau i ymateb â mwy o ystwythder i heriau hirdymor fel marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg neu newid economaidd, yn ogystal â gwella cyfraddau cadw staff a chymhelliant staff a chynyddu cynhyrchiant.
91. Mae *Arloesi Cymru – Strategaeth Arloesi Cymru*[56] yn nodi bod angen i'r lefel o ymchwil ac arloesedd o fewn busnesau yng Nghymru gynyddu a noda bwysigrwydd sicrhau bod gan y genhedlaeth nesaf o ddysgwyr y sgiliau cywir i arloesi. At hynny, nododd Arolwg Arloesedd y DU[57] mai dim ond 15% o fusnesau sy'n arloesi yn cydweithredu â phrifysgolion yn y DU. Er nad yw'r ffigur hwn yn benodol i GCC, mae'n dynodi bod lle sylweddol i sicrhau mwy o ryngweithio rhwng busnesau a sefydliadau addysg uwch.
92. Felly, cymerir camau i gefnogi cynnydd yn nifer yr unigolion â sgiliau ymchwil ac arloesedd lefel uwch sy'n cyflawni gweithgareddau ymchwil ac arloesedd ar y cyd â'r sector preifat, ac ar sail ei anghenion. Bydd buddsoddiadau yn canolbwyntio ar y meysydd Her Fawr a amlinellir yn *Gwyddoniaeth i Gymru: Agenda strategol ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd yng Nghymru.*[58] Bydd y dull gweithredu hwn hefyd yn ategu dulliau drwy ERDF a Chronfeydd ESI eraill o ran anelu at darged EU2020 o 3% o gynnyrch domestig gros i'w fuddsoddi mewn Ymchwil ac Arloesedd.
93. Canolbwyntir yn benodol ar hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau a gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu. Byddwn yn buddsoddi mewn camau gweithredu sy'n hwyluso ac yn hyrwyddo datblygiad gyrfa ac sy'n rhoi mwy o sicrwydd swydd a gwell cyflog i fenywod, yn ogystal â hwyluso darpariaeth arferion gwaith mwy hyblyg ac atebion a all helpu menywod i gamu ymlaen yn eu gyrfa, tra'n cydnabod cyfrifoldebau gofal neu ofal plant, yn unol ag amcanion CSR 2014. Bydd yr ymyriadau hyn hefyd yn ategu camau a gymerir gan yr Echel Blaenoriaeth Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc i sicrhau bod mwy o ferched yn astudio pynciau STEM.
94. Mae UE2020 yn cwmpasu nifer o feysydd targed allweddol sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant a dysgu gydol oes, y bydd yr Echel Blaenoriaeth hon yn eu cefnogi. Mae cysylltiad clir rhwng y maes buddsoddi hwn a thwf cynhwysol, gyda chysylltiad uniongyrchol â'r Fenter Flaenllaw *Sgiliau Newydd ar gyfer Swyddi Newydd*. Mae hefyd yn gysylltiedig â thwf call, sy'n cysylltu â Mentrau Blaenllaw *Agenda Ddigidol ar gyfer Ewrop* ac *Undeb Arloesi*. Mae ymdrin â phrinder sgiliau a diffyg cyfatebiaeth a chynyddu darpariaeth uwch sgiliau a sgiliau lefel uwch er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr a symud i economi fwy medrus, a thrwy hynny ymdrin â'r lefelau uchel o unigolion sydd â sgiliau lefel sylfaenol gwael a chynyddu'r niferoedd sy'n ennill sgiliau canolraddol neu uwch yn flaenoriaeth o fewn yr Argymhellion sy'n Benodol i Wledydd y DU, y Fframwaith Strategol Cyffredin a phapur sefyllfa'r CE ar gyfer y DU. Ynghyd â'r rhaglen Ddiwygio Genedlaethol, mae'r Argymhellion sy'n Benodol i Wlad hefyd yn tynnu sylw at ffocws ar brentisiaethau wrth gyflawni buddsoddiadau sy'n ystyriol o dwf.

compare report

95. Bydd camau gweithredu o fewn **Echel Blaenoriaeth Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc** yn anelu at fuddsoddi mewn ymyriadau sy'n mynd i'r afael â'r lefelau uchel o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc yn GCC, tra'n buddsoddi mewn atebion tymor hwy er mwyn helpu i lywio canlyniadau cyrhaeddiad a chyflogaeth, gan gynnwys gwella ansawdd darpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant.

96. Mae'r dirywiad economaidd diweddar wedi cael effaith anghymesur ar ein pobl ifanc a diweithdra ieuenctid. Drwy'r Echel Blaenoriaeth hon byddwn yn buddsoddi mewn cyfuniad o gamau ataliol ac adferol i ymdrin ag anghenion pobl ifanc ar bob cam datblygu er mwyn gwella eu cyrhaeddiad a'u cyfleoedd tymor hwy mewn bywyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella cyflogadwyedd a mynediad at gyflogaeth gynaliadwy.

97. Dangosodd profiad o Raglenni 2007-2013 fod y cymorth ESF a roddwyd i bobl ifanc wedi helpu llawer o weithrediadau i ddatblygu dulliau arloesol o gefnogi pobl ifanc, gan ehangu a gwella darpariaeth bresennol fel ei bod yn fwy ymatebol i'w hanghenion. Ystyriwyd bod gweithio mewn partneriaeth yn bwysig, a phrofwyd cryn lwyddiant lle'r oedd yn cynnwys partneriaid o sawl maes gwasanaeth, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, y Gwasanaethau Brys a darparwyr Gwasanaeth ieuenctid ehangach.

98. Un o'r gwersi allweddol a ddysgwyd oedd bod angen sefydlu ffyrdd o nodi'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddod yn NEET ar gam cynnar ac yn gyson, yn enwedig y rhai ag anghenion lluosog, neu a oedd yn cwympo i fylchau mewn gwasanaethau presennol wrth bontio rhwng ysgolion, colegau a gwasanaethau oedolion. Hefyd, ystyriwyd bod systemau a rennir effeithiol sy'n monitro ac yn nodi anghenion plant a phobl ifanc ac a all helpu i gynnal gwerthusiad effeithiol o ddarpariaeth gwasanaethau drwy ESF ac ymyriadau ehangach yn allweddol i gyflawni canlyniadau.

compare report

99. Bydd buddsoddiad cyfunol sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc rhwng 0 a 24 oed yn sicrhau ein bod yn gallu cefnogi ein pobl ifanc wrth iddynt ddatblygu ac ar gamau pontio allweddol mewn addysg ac ymlaen i waith. Prif ffocws yr Echel Blaenoriaeth fydd helpu pobl ifanc ddiwaith a'r rhai sy'n NEET i gael gwaith, gan gyflawni amrywiaeth o ymyriadau er mwyn cefnogi a hwyluso mynediad i'r farchnad lafur. Yng nghyd-destun y Warant Ieuenctid, bydd buddsoddiadau ESF yn yr Echel Blaenoriaeth hon yn gweithio ochr yn ochr â chamau i gefnogi prentisiaethau o fewn Echel Blaenoriaeth Sgiliau ar gyfer Twf er mwyn helpu i gyflawni ac ychwanegu gwerth at Warant Ieuenctid Llywodraeth Cymru. Bydd y camau a gymerir yn gwella'r gefnogaeth a roddir i ddilyn cynllun hyfforddiant swydd o ansawdd da, neu addysg barhaus i'r rhai sydd y tu hwnt i'r cam pontio cychwynnol o addysg orfodol, gan gysoni â CSR 2014 i wella sgiliau pobl ifanc er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr, gan gynnwys drwy brentisiaethau a lleihau nifer y bobl ifanc â sgiliau sylfaenol isel.

100. Hefyd, cymerir camau i gefnogi'r bobl ifanc hynny rhwng 11 a 24 oed sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddod yn NEET er mwyn lleihau'r risg o ymddieithrio a chynyddu lefelau cyrhaeddiad a lleihau diweithdra ieuenctid yn y tymor hwy. Bydd y camau hyn yn canolbwyntio ar Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru ac, yn fwy penodol, y Systemau Nodi ac Olrhain Cynnar sy'n helpu i sicrhau bod y bobl ifanc hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf o ymddieithrio o addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn cael eu nodi a'u holrhain yn gywir ac yn systematig. Bydd targedu o'r fath yn sicrhau bod darpariaeth ESF yn gweithio fel rhan o ymdrechion ehangach Llywodraeth Cymru i ymdrin â

materion mwy strwythurol NEET sy'n bodoli o dan unrhyw amgylchiadau economaidd.

101. Bydd ymyriadau llai, mwy penodol yn cael eu gwneud hefyd er mwyn gwella lefelau cyrhaeddiad a chyfranogiad, yn enwedig mewn Gwyddoniaeth, Peirianneg, Technoleg a Mathemateg, gan adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol sgiliau STEM a sicrhau bod gan ein pobl ifanc y sgiliau a fydd yn eu galluogi i fod yn hyblyg yn y farchnad lafur, er mwyn cael cyflogaeth gynaliadwy a chefnogi twf economaidd yng Nghymru.

102. Gyda mynediad i'r farchnad lafur yn brif ysgogydd, gan ddefnyddio GFL a galw cyflogaeth yn y dyfodol, byddwn hefyd yn gweithio i drechu dadrithiad a chynyddu sgiliau a chyrhaeddiad addysgol ymhlith ein pobl ifanc, gan ymdrin â meysydd fel gadael yr ysgol yn gynnar a datblygu sgiliau ac ennill cymwysterau. Felly, bydd y camau a ddatblygir yn yr Echel Blaenoriaeth Sgiliau ar gyfer Twf, fel prentisiaethau, yn ategu'r camau a ddatblygir yn yr Echel Blaenoriaeth hon.

103. Bydd buddsoddiadau o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon, fel rhan o fentrau seiliedig ar deulu ehangach, hefyd yn helpu i wella cyfleoedd bywyd plant yn y blynyddoedd cynnar. Cyflawnir hyn drwy fuddsoddiad ac iddo ffocws yn sgiliau'r gweithlu gofal plant a blynyddoedd cynnar, er mwyn gwella ansawdd darpariaeth gofal plant a blynyddoedd cynnar, gan gysylltu â'r CSR a'r pwyslais ar ofal plant o ansawdd.

104. Ceir sawl ffactor dylanwadol posibl sy'n effeithio ar ddatblygiad cynnar ein plant. Gall y ffactorau hyn, os eir i'r afael â hwy'n effeithiol, gyfrannu at ymdrechion ehangach i wella cyfraddau uchel gadael yr ysgol yn gynnar a lefelau isel cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru (sydd islaw cyfartaleddau ehangach y DU ac UE ac OECD)[59]. Ein nod yw gwella ansawdd darpariaeth gofal plant a blynyddoedd cynnar a, thrwy hyn, leihau'r tebygolrwydd y bydd plant o ardaloedd difreintiedig ar ei hôl hi neu'n ymddieithrio oddi wrth addysg ac yn tangyflawni, sydd oll yn ffactorau a all gynyddu'r risg o adael yr ysgol yn gynnar a dod yn NEET.

compare report

105. Rhydd y gwaith o gefnogi datblygiad ein plant a helpu pobl ifanc i lywio eu dyfodol drwy well defnydd o GFL gyfle, nid yn unig i gefnogi twf a ffyniant yn y dyfodol, ond i atgyfnerthu dewisiadau'n gadarnhaol yn seiliedig ar feysydd twf cyflogaeth a galw gan gyflogwyr. Ceir cyfleoedd hefyd i gefnogi camau sy'n helpu i gael gwared ar stereoteipiau rhyw traddodiadol ym maes cyflogaeth a dysgu, gan ehangu gorwelion ar gyfer swyddi neu sectorau cyflogaeth anhraddodiadol.

106. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd, drwy ei Argymhellion sy'n Benodol i Wlad, Papur Sefyllfa'r DU, y Fframwaith Strategol Cyffredin a'r Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol oll yn tynnu sylw at yr heriau sydd ynghlwm wrth ymdrin â'r lefelau uchel o ddiweithdra ieuenctid a chyrhaeddiad gwael pobl ifanc. Mae'r argymhellion yn cydnabod pwysigrwydd helpu pobl ifanc i gyflawni gwell canlyniadau sgiliau, yn unol ag anghenion cyflogwyr a gwella mynediad at gyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth o ansawdd gwell. Mae cysylltiad clir rhwng y maes buddsoddi hwn a mentrau o dan Dwf Call, gan gynnwys y Fenter Flaenllaw *Pobl Ifanc ar Fynd* ond bydd hefyd yn effeithio ar dargedau o dan dwf cynhwysol.

107. Mae'n debygol mai targedau UE2020 i ostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar islaw 10% a chynyddu'r gyfradd gyflogaeth i 75% fydd y prif dargedau yr effeithir arnynt ond hefyd gall ymdrechion o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon gefnogi'r targedau ar leihau tlodi ac, yn y tymor hwy, ar gyfradd yr unigolion ag

addysg lefel drydyddol. Mae CSR 2014 hefyd yn annog camau i ostwng lefelau tlodi plant mewn cartrefi incwm isel, gan nodi argaeledd gofal plant o ansawdd uchel fel mater allweddol.

108. Yn sail i'r rhaglenni ESF a'r blaenoriaethau uchod, yn wir yr holl raglenni Cronfeydd ESI yng Nghymru, fydd tair Thema Drawsbynciol, sef Cyfle Cyfartal, Datblygu Cynaliadwy a Threchu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.

109. Mae'r ddwy thema gyntaf o blith y rhain yn orfodol ac wedi'u llywodraethu gan Reoliadau Cyffredinol yr UE, Erthygl 7 Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a menywod a pheidio â gwahaniaethu (yng Nghymru mae hyn yn cynnwys y Gymraeg) ac Erthygl 8 Datblygu Cynaliadwy ac fe'u nodir yn Adran 11. Yn ogystal, cynigiwyd Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol fel thema drawsbynciol ychwanegol yn unol â Llwyfan yr UE yn erbyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol (Menter Flaenllaw Ewrop 2020) ac fel ymrwymiad allweddol gan Lywodraeth Cymru drwy ei Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Rhoddir rhagor o wybodaeth am thema drawsbynciol Trechu Tlodi yn Adran 5.

110. Mae'r Themâu Trawsbynciol (ThTau) yn gofyn am weithredu mewn sawl maes ac, fel y cyfryw, cânt eu hintegreiddio ymhob rhan o'r rhaglenni ESF. Mae gan Gymru hanes da o integreiddio'r ThTau yn rhaglenni Ewrop ac mae wedi'i chanmol gan Gomisiwn yr UE am y gwaith a wnaed yn y maes hwn. Nod y ThTau yw gwella ansawdd a gwaddol pob prosiect ac ychwanegu gwerth at y rhaglenni cyfan. Fodd bynnag, bydd hefyd yn bosibl defnyddio'r ThTau i sicrhau bod gweithrediadau'n canolbwyntio ar gyfleoedd a all godi o ganlyniad i'r ffocws cyfunol ar draws Cronfeydd ESI a Llywodraeth Cymru ar y meysydd hyn.

111. Er enghraifft, wrth ystyried Datblygu Cynaliadwy, bydd gweithrediadau nid yn unig yn gallu asesu effaith debygol y gweithrediad ei hun ond hefyd ystyried y cyfleoedd sydd ar gael o ganlyniad i nodau Datblygu Cynaliadwy ehangach. Gallai'r rhain gynnwys meysydd twf cyflogaeth drwy greu swyddi gwyrdd neu'r galw am sgiliau o ganlyniad i'r newid tuag at economi carbon isel. Yn yr un modd, gallai thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal hefyd annog gweithrediadau i ystyried cefnogi mynediad at feysydd cyflogaeth anhraddodiadol lle gallai fod anghydbwysedd rhwng y rhywiau yn y gweithlu.

112. Y nod yw adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes a symud yr agenda yn ei blaen ar gyfer rhaglenni 2014-2020 a sicrhau bod cydraddoldeb; cynaliadwyedd a threchu tlodi wrth wraidd nodau cyffredinol y rhaglenni. Datblygir canllawiau penodol ar weithredu'r ThTau. Bydd hyn yn nodi'r cyfraniad a ddisgwylir gan y rhaglenni, canllawiau i noddwyr prosiect ar sut i ystyried materion penodol wrth ddylunio prosiect, prosesau monitro a gwerthuso, a'r cymorth sydd ar gael.

113. Bydd rhaglen ESF GCC, fel rhan o'r buddsoddiad cyffredinol ar gyfer rhaglenni ESF ac ESI yng Nghymru, yn buddsoddi er mwyn **cyflawni cydlyniant economaidd, cymdeithasol a thiriogaethol** ledled Cymru. Bydd ESF yn GCC yn lleihau'r bwlch â'r rhanbarthau mwy datblygedig drwy fuddsoddi mewn sgiliau a chynyddu'r gyfradd gyflogaeth er mwyn gwella cynhyrchiant. Bydd rhaglen ESF GCC hefyd yn cynnig dull buddsoddi cytbwys er mwyn cynyddu cyflogaeth, trechu tlodi a diwallu anghenion y rhai mwyaf difreintiedig er mwyn cefnogi Cydlyniant Cymdeithasol. Bydd rhaglen ESF GCC yn integreiddio buddsoddiadau fel rhan o raglenni buddsoddi ESI ehangach yn y rhanbarth a ledled Cymru, gan gydnabod gwerth cysylltedd rhwng y rhanbarthau wrth ddatblygu economi Cymru gyfan.

114. Wrth wario cronfeydd ESI drwy gonsesiynau/contractau cyhoeddus, bydd yr Awdurdod Rheoli - ac unrhyw Gorff Canolraddol lle y bo'n gymwys - yn gofyn i

fuddiolwyr barchu'n llawn reolau caffael cyhoeddus yr UE ac yn arbennig (i) Cyfarwyddebau 2004/18/CE a 2004/17/CE, (ii) Cyfarwyddebau 2014/23/UE, 2014/24/UE a 2014/25/UE unwaith y'u trosir yn neddfwriaeth y Deyrnas Unedig, (iii) Cyfarwyddebau 89/665/CEE a 92/13/CEE a (iv) yr egwyddorion caffael cyhoeddus cyffredinol sy'n deillio o'r Cytundeb ar Weithrediad yr UE. Hysbysir ymgeiswyr a buddiolwyr am y gofyniad sylfaenol hwn drwy gytundebau dyfarnu grant a rheolau a dogfennau canllaw cymhwysedd cenedlaethol, a ategir gan hyfforddiant a chymorth lle y bo angen.

[1] Sefydliad Joseph Rowntree (2013); *Monitoring Poverty and Social Exclusion in Wales 2013*

[2] Adams, S a Phillips, D Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2013); *An ex-ante analysis of the effects of the UK government's welfare reforms on labour supply in Wales (Adroddiad 75 y Sefydliad Astudiaethau Cyllid) a* Llywodraeth Cymru (2013) *Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru –Dadansoddiad Cam 3; Rhan 1: Effaith ar y rhai â nodweddion gwarchodedig*

[3] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2012

[4] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (2012)

[5] Data gan Eurostat oni nodir fel arall.

[6] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth/ Arolwg o'r Farchnad Lafur Leol

compare report

[7] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; *setiau data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth*

[8] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, SYG (2012)

[9] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; *Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth*

[10] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth/Arolwg o'r Farchnad Lafur Leol

[11] UKCES (Tachwedd 2012); *UK Skill levels and international competitiveness Evidence Report 70*

[12] UKCES (2012), *Working Futures Report for Wales. Summary Report for Wales, Hydref*

[13] UKCES, Wales Future Skills Assessment

[14] UKCES, Wales Future Skills Assessment

[15] Eurostat; diweddariad diwethaf 26/06/13; dyddiad echdynnu 03/09/13.

[16] Bradshaw, J., Ager, R., Burge, B. a Wheater, R. (2010). *PISA 2009: Achievement of 15-Year-Olds in Wales.* NFER

[17] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

[18] Llywodraeth Cymru (2012), *Gwyddoniaeth i Gymru: Agenda strategol ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd yng Nghymru*

[19] Y Gymdeithas Frenhinol, *State of the nation, Preparing for the transfer to STEM higher education*, 15 Chwefror 2011 https://royalsociety.org/education/policy/state-of-nation/higher-education/ fel y nodwyd yn *Gwyddoniaeth i Gymru: Agenda strategol ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd yng Nghymru* Llywodraeth Cymru (2012).

[20] Crefft, Dylunio a Thechnoleg

[21] Y Gymdeithas Frenhinol (2014): A picture of the UK scientific workforce https://royalsociety.org/policy/projects/leading-way-diversity/uk-scientific-workforce-report/

[22] Datganiad Cyntaf Ystadegol (24 Gorffennaf 2013) *Participation of young people in education and the labour market*. Nid oes dadansoddiadau DC yn ôl ystodau oedran penodol ar gael.

[23] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; *Annual Population Survey 2009-2013* - amcangyfrif yw'r data hyn ac ni ellir ei gymharu'n uniongyrchol â'r data cyntaf ystadegol ar gyfer data NEET ar lefel Cymru.

[24] Erthygl Ystadegol Llywodraeth Cymru, *Further Analysis of data related to Young People Not in Education, Employment or training (NEET)*

[25] Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru, *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (Blwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2013*

[26] Erthygl Ystadegol Llywodraeth Cymru, *Further Analysis of data related to Young People Not in Education, Employment or training (NEET)*

[27] Llywodraeth Cymru (2011), Rhaglen Lywodraethu

[28] Llywodraeth Cymru: http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?lang=cy

[29] Llywodraeth Cymru:

http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/earlyyearshome/building-a-brighter-future-early-years-and-childcare-plan/?skip=1&lang=cy

[30] http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/delivering-the-youth-guarantee-in-wales/?skip=25&lang=cy

[31] Dallimore, D.(2012); *The Early Years & Childcare Workforce in Wales: 2012,* Cyngor Gofal Cymru, Caerdydd

[32] Cyngor Gofal Cymru (2010); *Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru*

[33] Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

[34] Y Comisiwn Ewropeaidd; *Early Childhood and Care: Providing all our children with the best start for the world of tomorrow*

[35] Davies R et al, (2011) *An anatomy of economic inequality in Wales*, gweler http://www.wiserd.ac.uk/wp-content/uploads/2011/05/WISERD_RRS_002.pdf

[36] Gweler Ystadegau'r Farchnad Lafur, Hydref 2012, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

[37] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Cyfrifiad 2011

[38] Llywodraeth Cymru 2013); *Dadansoddiad Economaidd Gymdeithasol o Orllewin Cymru a'r Cymoedd*

[39] Y Fonesig Carol Black (2008); *Working for a Healthier Tomorrow*

[40] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: www.ons.gov.uk (mae'r ffigurau hyn yn cynnwys cyflogeion a'r hunangyflogedig, pobl 16 oed a hŷn, ledled y DU gyfan)

[41] Frideli a Parsonage (2009); *Promoting mental health and preventing mental illness: the economic case for investment in Wales*

[42] Dadansoddiad DWP o'r Arolwg o'r Llafurlu

[43] Mae Gwybodaeth am y Farchnad Lafur yn nodi anghenion / tueddiadau o ran sgiliau ar gyfer blynyddoedd i ddod. Gall yr anghenion / tueddiadau hyn gael eu nodi drwy brinder sgiliau neu fylchau mewn sgiliau a nodwyd gan ymchwil neu gyflogwyr.

compare report

[44] Y Comisiwn Ewropeaidd (2011), *Evaluation of the capacity of ESF delivery systems to attract and support OP target groups*

[45] ECORYS, *Evaluation of the ESF support to Lifelong Learning*

[46] Arolwg 2011 ESF o'r Bobl a Adawodd, Prifysgol Caerdydd et al, 2013

[47] UKCES (2010); *The Value of Skills: An Evidence Review,*

[48] UKCES (2012), *Working Futures Report for Wales. Summary Report for Wales, Hydref*

[49] Gweler UKCES (2011); *Sgiliau ar gyfer Swyddi: The National Skills Audit for Wales 2011 – Volume 1 Key Findings and Volume 2: Adroddiad Tystiolaeth*

[50] Cynhadledd Lafur Ryngwladol, 97ain Sesiwn, 2008, Skills for improved productivity, employment growth and development; Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, Employer Practice in progressing low-paid staff

[51] UKCES (2010); *The Value of Skills: An Evidence Review,*

[52] BIS (2011); *Papur Ymchwil Rhif 47, The Long Term Effect of Vocational Qualifications on Labour Market Outcomes*

[53] BIS (2011); *Returns to Intermediate and Low Level Vocational Qualifications,* Papur Ymchwil 53

[54] BIS (2011); *Measuring the Economic Impact of Further Education*

[55] UKCES (2010); *The Value of Skills: An Evidence Review*

[56] Llywodraeth Cymru 2014); *Arloesi Cymru – Strategaeth Arloesi Cymru*

[57] *UK Innovation Survey 2011* (2012), BIS

[58] Mae meysydd yr Her Fawr "Gwyddorau Bywyd ac Iechyd"; "Uwch Beirianneg a Deunyddiau"; "Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd"; a "TGCh a'r Economi Ddigidol" yn pennu ffocws ar gyfer gweithgareddau ymchwil arloesol yng Nghymru yn adeiladu ar gryfderau sy'n bodoli eisoes ac yn darparu llwybrau clir o ymchwil i fasnacheiddio.

[59] Dadansoddiad Economaidd- Gymdeithasol

1.1.2 Cyfiawnhad dros ddewis amcanion thematig a blaenoriaethau buddsoddi cyfatebol gan ystyried y cytundeb partneriaeth, yn seiliedig ar nodi anghenion rhanbarthol a, lle y bo'n briodol, anghenion cenedlaethol, gan gynnwys yr angen i ateb yr heriau a nodwyd mewn argymhellion perthnasol sy'n benodol i wlad a fabwysiadwyd yn unol ag Erthygl 121(2) TFEU ac argymhellion perthnasol y Cyngor a fabwysiadwyd yn unol ag Erthygl 148(4) TFEU, gan ystyried y gwerthusiad ex-ante.

**Tabl 1: Cyfiawnhad dros ddewis amcanion thematig a blaenoriaethau buddsoddi**

| Amcan thematig a ddewiswyd | Blaenoriaeth fuddsoddi a ddewiswyd | Cyfiawnhad dros y dewis |
|---|---|---|
| 08 - Hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd a chefnogi symudedd llafur | 8ii - Integreiddio pobl ifanc yn y farchnad lafur yn gynaliadwy (ESF), yn enwedig y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, gan gynnwys pobl ifanc sy'n wynebu risg o allgáu cymdeithasol a phobl ifanc o gymunedau ymylol, gan gynnwys drwy weithredu'r Warant Ieuenctid | • Mae Papur Sefyllfa'r Comisiwn (PSC) yn tynnu sylw at yr angen i ymdrin â lefelau uchel o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc.<br>• Argymhelliad sy'n Benodol i Wlad i wella sgiliau pobl ifanc er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr.<br>• Nifer o dargedau UE 2020 rhyng-gysylltiedig allweddol i Gymru ymdrin â hwy, gan gynnwys Gadael yr Ysgol yn Gynnar (GYG), tlodi a chyflogaeth.<br>• Bron i chwarter y bobl ifanc yn ddi-waith yn GCC.<br>• Targedau uchelgeisiol o fewn y Cynllun Gweithredu ar Drechu Tlodi i leihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET o 12.1% yn 2011 i 9% erbyn 2017.<br>• Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid er mwyn |

compare report

| Amcan thematig a ddewiswyd | Blaenoriaeth fuddsoddi a ddewiswyd | Cyfiawnhad dros y dewis |
|---|---|---|
| | | helpu pobl ifanc i ymuno â'r farchnad lafur.<br>• Diwydiannau sgiliau isel sy'n dirywio â heriau cyflogaeth yn arwain at economi carbon isel a all wrthsefyll yr hinsawdd.<br>• Cyfle i fuddsoddi yn y gwaith o leihau nifer y bobl ifanc â sgiliau sylfaenol neu isel, yn unol ag Argymhellion sy'n Benodol i Wlad.<br>• Cefnogi'r gwaith o weithredu Gwarant Ieuenctid Llywodraeth Cymru. |
| 08 - Hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd a chefnogi symudedd llafur | 8iv - Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal | • Mae PSC yn tynnu sylw at fuddsoddi yng nghyfranogiad menywod at y farchnad lafur fel blaenoriaeth er mwyn cau'r bwlch rhwng y rhywiau.<br>• Nid oes targed uniongyrchol ar gyfer UE2020 ond mae effaith bosibl ar nifer o'r targedau ar gyflogaeth, tlodi a sgiliau.<br>• Ceir anghydraddoldebau rhwng y rhywiau o hyd yng Nghymru gyda menywod yn fwy tebygol o fod wedi'u tangyflogi, gweithio'n rhan amser ac ennill llai na dynion.<br>• Mae'r Argymhellion sy'n Benodol i Wlad yn tynnu sylw at bwysigrwydd lleihau tlodi plant mewn cartrefi incwm isel.<br>• Angen parhau ag ymdrechion i adeiladu ar lwyddiannau diweddar yng Nghymru yn y maes hwn. |
| 09 - Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, trechu tlodi ac unrhyw wahaniaethu | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd | • Mae PSC yn gosod cyflogadwyedd, allgáu a thlodi wrth wraidd cronfeydd ESI.<br>• Mae'r Argymhellion sy'n Benodol i Wlad yn pwysleisio'r angen i barhau ag ymdrechion i leihau tlodi plant mewn cartrefi |

compare report

| Amcan thematig a ddewiswyd | Blaenoriaeth fuddsoddi a ddewiswyd | Cyfiawnhad dros y dewis |
|---|---|---|
| | | incwm isel gan gynnwys y rhai sy’n cael budd-daliadau lles<br>• Mae PSC yn pwysleisio’r angen i leihau tlodi ac allgáu drwy gyflogadwyedd.<br>• Ystyrir mai cyflogaeth gynaliadwy yw’r llwybr gorau allan o dlodi. Mae’r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn nodi nifer o heriau allweddol yn y maes hwn.<br>• Targedau UE2020 allweddol ar dlodi a chyflogaeth.<br>• Lefelau cymharol uchel o dlodi a diweithdra yng Nghymru. |
| 10 - Buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes | 10i - Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a’i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da, gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio ag addysg a hyfforddiant | • Mae PSC yn tynnu sylw at yr angen i ostwng cyfraddau GYG a chynyddu mynediad i addysg a gofal plant o ansawdd.<br>• Argymhelliad sy’n Benodol i Wlad (ar wella sgiliau pobl ifanc a lleihau nifer y bobl ifanc â sgiliau sylfaenol isel.<br>• Argymhelliad sy’n Benodol i Wlad sy’n tanlinellu pwysigrwydd gofal plant o ansawdd.<br>• Mae GYC yng Nghymru 9% uwchlaw targed yr UE.<br>• Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant gyda’r nod o wella ansawdd gofal plant a darpariaeth blynyddoedd cynnar.<br>• Adeiladu ar ddulliau Llywodraeth Cymru o ymdrin â’r risg o NEET ledled Cymru.<br>• Cyfleoedd i gysoni sgiliau a chymwysterau â meysydd twf economaidd a chyflogaeth sy’n dod i’r amlwg.<br>• Tystiolaeth bod camau ymyrryd cynnar yn cael effaith ddwys ar ddatblygiad a chyrhaeddiad plant. |

compare report

| Amcan thematig a ddewiswyd | Blaenoriaeth fuddsoddi a ddewiswyd | Cyfiawnhad dros y dewis |
| --- | --- | --- |
| | | • Proffil sgiliau isel y gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant. |
| 10 - Buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes | 10iii - Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir | • Mae PSC yn tynnu sylw at yr angen i fuddsoddi mewn dysgu gydol oes a sgiliau perthnasol o ansawdd er mwyn helpu i gefnogi unigolion a busnesau ac ysgogi twf.<br>• Argymhelliad sy'n Benodol i Wlad ar ymdrin â diffyg cyfatebiaeth o ran sgiliau drwy ddarparu uwch sgiliau a sgiliau lefel uwch, gan gynnwys prentisiaethau.<br>• Yn agos at darged UE2020 ar addysg lefel drydyddol, angen buddsoddiad parhaus er mwyn sicrhau na chollir enillion.<br>• Ystyrir bod lefelau sgiliau cynyddol yn ffactor allweddol i ysgogi twf economaidd a bydd yn ategu buddsoddiadau mewn Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.<br>• Tangyflenwad o sgiliau lefel uwch a gorgyflenwad o weithwyr heb sgiliau neu â sgiliau isel.<br>• Cyfle i gysylltu â marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg a galw am sgiliau'r economi. |
| 11 - Gwella gallu sefydliadol awdurdodau cyhoeddus a rhanddeiliaid a threfn gweinyddu cyhoeddus effeithlon | 11i - Buddsoddi mewn gallu sefydliadol ac yn effeithlonrwydd gweinyddiaethau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyda'r nod o ddiwygio, rheoleiddio'n well a llywodraethu'n dda | o Mae sail dystiolaeth gynyddol sy'n dangos pwysigrwydd gallu sefydliadol fel ffactor sy'n effeithio ar lwyddiant cymharol buddsoddiadau rhanbarthol (OECD).<br>o Mae'r anawsterau i ddiwygio'r sector cyhoeddus yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf yn awgrymu rhywfaint o ymwrthedd i ffyrdd newydd o weithio; ond mae cydweithio drwy Gronfeydd Strwythurol a |

compare report

| Amcan thematig a ddewiswyd | Blaenoriaeth fuddsoddi a ddewiswyd | Cyfiawnhad dros y dewis |
|---|---|---|
| | | Buddsoddi Ewropeaidd yn rhoi rhywfaint o dystiolaeth o effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth yn rhanbarthol.<br>o Mae cynlluniau ar gyfer diwygio llywodraeth leol yng Nghymru er mwyn sicrhau diwygiadau hanfodol ar waith. Gallai buddsoddiad ychwanegol penodol arwain at ddiwygiadau cyflymach, ehangach a mwy systematig.<br>o Gall meithrin gallu sefydliadol y sector cyhoeddus sicrhau bod gweinyddiaethau cyhoeddus yn barod i ymateb i heriau yn yr hirdymor (Comisiwn Ewropeaidd, 2014).<br>o Mae'r blaenoriaethau yn ystyried y gwersi a ddysgwyd o weithgarwch tebyg yn ystod 2007-2013 ynghyd â chanllawiau'r Comisiwn (*Guidance Document on Indicators of Public Administration Capacity Building, 2014)* |

compare report

**1.2 Cyfiawnhad dros y dyraniad ariannol**

Y cyfiawnhad dros y dyraniad ariannol (cymorth yr Undeb) i bob amcan thematig a, lle y bo'n briodol, flaenoriaeth fuddsoddi, yn unol â'r gofynion crynodi thematig, gan ystyried y gwerthusiad ex-ante.

1. **Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy**
2. Mae'r Echel Blaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar ATh 9: Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol, Trechu Tlodi ac unrhyw Wahaniaethu.
3. Bwriedir dyrannu 23.3% (ychydig o dan 1/4) o'r holl ESF yn GCC i'r Echel Blaenoriaeth hon. Bydd y buddsoddiad yn canolbwyntio ar *Gynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd* BB. Mae'r cyfiawnhad dros y dyraniad hwn yn seiliedig ar y canlynol:
   - Y gofyniad rheoliadol, ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, i ddyrannu o leiaf 20% o ESF i'r ATh hwn;

- o Heriau o ran cyflogaeth, anweithgarwch economaidd, tlodi a chartrefi heb waith;
- o Argymhellion sy'n Benodol i Wlad ar leihau tlodi plant mewn cartrefi incwm isel;
- o Buddsoddiad ategol sylweddol drwy ddarpariaeth O Fudd-dal i Waith prif ffrwd yn y DU gyda gweithgareddau chwilio am waith gorfodol ar gyfer rhannau mawr o'r garfan ddi-waith yn cyfyngu ar y garfan sy'n gymwys am gymorth ESF o ganlyniad i brinder cyfleoedd er mwyn profi gwerth ychwanegol;
- o Cyfleoedd i gysylltu â buddsoddiadau ategol o fewn yr ATh hwn drwy EAFRD;
- o Buddsoddiad ESF ategol sylweddol er mwyn cefnogi diweithdra ymhlith pobl ifanc drwy Echel Blaenoriaeth Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc;
- o Dull integredig o drechu tlodi sy'n ceisio targedu, atal a lliniaru achosion ac effeithiau tlodi.

4. **Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf**
5. Mae'r Echel Blaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar ATh 10: Buddsoddi mewn Addysg, Hyfforddiant a Hyfforddiant Galwedigaethol ar gyfer Sgiliau a Dysgu Gydol Oes. Mae hefyd yn ceisio ymgorffori un Flaenoriaeth Fuddsoddi ategol o ATh 8: Hyrwyddo Cyflogaeth Gynaliadwy o Ansawdd a Chefnogi Symudedd Llafur.
6. Bwriedir dyrannu 42% (ychydig o dan ½) o'r holl ESF yn ardal y rhaglen i'r Echel Blaenoriaeth hon. O fewn y dyraniad i'r Flaenoriaeth hon caiff tua 94% ei ddyrannu i *Wella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir*. BB yn ATh10, sef y rhan fwyaf o'r buddsoddiad. Hefyd caiff tua 6% ei ddyrannu i *Gydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal* BB yn ATh8. Mae'r cyfiawnhad dros y dyraniad hwn yn seiliedig ar y canlynol:
   - o Bydd buddsoddi mewn sgiliau yn ffactor ategol allweddol ar gyfer holl fuddsoddiadau cronfeydd ESI ac wrth lywio twf economaidd yn ystod cyfnod y rhaglen;
   - o Cyfleoedd clir i ddefnyddio buddsoddiad ESF er mwyn ategu marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg gan gynnwys er enghraifft cefnogi'r newid i economïau carbon isel a gwerth uchel;
   - o Adlewyrchu tystiolaeth yn y Dadansoddiad Economaidd Gymdeithasol sy'n dangos cyfran uwch o fwlch GYG oherwydd gwerth ychwanegol is fesul swydd gan ddadlau dros grynodi adnoddau'n fwy ar Sgiliau;
   - o Mae'r rhan fwyaf o'r bwlch mewn GYG yn deillio o werth ychwanegol is fesul swydd gan ddadlau dros grynodi adnoddau'n fwy ar sgiliau;
   - o Ystyrir bod prentisiaethau yn cynnig budd gwerth uchel i gyflogwyr a chyflogeion;
   - o Nifer o dargedau UE2020 cysylltiedig ar Adael yr Ysgol yn Gynnar a phobl sydd wedi'u haddysgu i lefel drydyddol neu lefel gyfatebol;

compare report

   - Argymhelliad sy’n Benodol i Wlad ar ymdrin â diffyg cyfatebiaeth o ran sgiliau drwy ddarparu uwch sgiliau a sgiliau lefel uwch, gan gynnwys prentisiaethau;
   - Tangyflenwad parhaus o sgiliau canolraddol a lefel uwch a gorgyflenwad o weithlu sgiliau isel, os o gwbl, a nod i ddatblygu unigolion â sgiliau isel, os o gwbl, i lefelau canolraddol;
   - Erys heriau o ran cefnogi rôl menywod yn y gweithlu a chau’r bwlch cyflogau rhwng y rhywiau;
   - Cyfleoedd ychwanegol i gysylltu â buddsoddiadau o fewn ATh10 o dan EAFRD ar y cyd â mwy o hyblygrwydd i ddefnyddio ESF er mwyn uwchsgilio neu ailsgilio ffermwyr a physgotwyr.

7. **Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid**
8. Mae’r Echel Blaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar ATh 8, Hyrwyddo Cyflogaeth Gynaliadwy o Ansawdd a Chefnogi Symudedd Llafur. Mae hefyd yn ceisio ymgorffori Blaenoriaeth Fuddsoddi ategol unigol o ATh 10, Buddsoddi mewn Addysg, Hyfforddiant a Hyfforddiant Galwedigaethol ar gyfer Sgiliau a Dysgu Gydol Oes.
9. Bwriedir dyrannu 30.4% (ychydig o dan draean) o’r holl ESF yn ardal y rhaglen i’r Echel Blaenoriaeth hon. O fewn y dyraniad i’r Flaenoriaeth hon, caiff tua 55% ei ddyrannu ar gyfer *Integreiddio’n gynaliadwy bobl ifanc, yn enwedig y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, gan gynnwys pobl ifanc sy’n wynebu risg o allgáu cymdeithasol a phobl ifanc o gymunedau ymylol, gan gynnwys drwy weithredu’r Warant Ieuenctid* BB yn ATh 8 gyda thua 45% wedi’i ddyrannu i *Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a’i atal, a hyrwyddo cyfle cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol i ailintegreiddio i mewn i addysg a hyfforddiant* BB yn ATh 10. Mae’r cyfiawnhad dros y dyraniad hwn yn seiliedig ar y canlynol:
   - Ystyrir bod ymdrin â diweithdra ieuenctid yn faes buddsoddi pwysig ar lefel yr UE ac yng Nghymru. O gymharu â lefelau diweithdra cyffredinol, mae diweithdra ymhlith pobl ifanc yn gymharol uchel yn GCC;
   - Cyfle i leihau nifer y bobl ifanc â sgiliau sylfaenol neu isel a chysoni sgiliau a chymwysterau â chyfleoedd economaidd sy’n dod i’r amlwg a thwf cyflogaeth, yn unol ag Argymhellion sy’n Benodol i Wlad;
   - Argymhelliad sy’n Benodol i Wlad sy’n tanlinellu pwysigrwydd gofal plant o ansawdd;
   - Mae cefnogi datblygiad ein pobl ifanc o oedran mor gynnar â phosibl, gan atal neu ostwng lefelau NEET, yn allweddol i ymdrin â materion strwythurol sy’n gysylltiedig â diweithdra ymhlith pobl ifanc ac fel buddsoddiad hirdymor ataliol;
   - Cyfle i gyfrannu at dargedau UE2020 allweddol nawr ac ar gyfer y dyfodol gyda buddiannau buddsoddi gwaddol hirdymor.
10. **Echel Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol**
11. Lleolir 2% o’r holl ESF yn ardal y rhaglen o fewn yr echel blaenoriaeth hon er mwyn cefnogi’r gwaith o weithredu’r rhaglenni mewn ffordd lwyddiannus sy’n cydymffurfio. Datblygwyd dyraniadau yn seiliedig ar brofiad yr Awdurdod Rheoli a’i randdeiliaid wrth weithredu rhaglenni 2007-2013.
12. **Echel Blaenoriaeth 5: Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol**

13. Mae’r Echel Blaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar Amcan Thematig (11) - Meithrin Gallu Sefydliadol).Bwriedir dyrannu ychydig dros 7% o holl ESF yn ardal y rhaglen i’r Echel Blaenoriaeth hon, Mae’r cyfiawnhad dros y dyraniad hwn yn seiliedig ar y canlynol:

1. Asesu gallu a galluogrwydd sefydliadol, a datblygu a chyflawni cynlluniau datblygu’r gweithlu.
2. Cefnogi’r gwaith o ad-drefnu’r trefniadau llywodraethu rhanbarthol er mwyn sicrhau swyddogaethau cynllunio a gwneud penderfyniadau cynrychioliadol a chynhwysol.

compare report

## Tabl 2: Trosolwg o strategaeth fuddsoddi'r rhaglen weithredol

| Echel blaenoriaeth | Cronfa | Cymorth yr Undeb (€) | Cyfran o gyfanswm cymorth yr Undeb ar gyfer y rhaglen weithredol | Amcan thematig / Blaenoriaeth fuddsoddi / Amcan penodol | Dangosyddion canlyniadau cyffredin a rhaglen benodol y pennwyd targed ar eu cyfer |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | ESF | 187,774,437.00 | 23.34% | ▾ 09 - Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, trechu tlodi ac unrhyw wahaniaethu<br>▾ 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd<br>▾ 1.1 - Cynyddu cyflogadwyedd y rhai sydd agosaf at y farchnad lafur ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi.<br>▾ 1.2 - Cynyddu cyflogadwyedd pobl sy'n Economaidd Anweithgar ac sy'n Ddi-waith yn yr Hirdymor sy'n 25 oed a throsodd, sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth.<br>▾ 1.3 - Gostwng cyfraddau tangyflogaeth neu absenoldeb ar gyfer unigolion cyflogedig, diogelu'r rhai sydd â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith a / neu rwystrau eraill i ymgysylltu â'r farchnad lafur mewn ffordd gynaliadwy a chynyddu eu cyfranogiad yn y farchnad lafur. | [102A6, 102B6, 1100A, 1101B, 1102A, 1102B, 1103, 1104A, 1104B, 110A6, 110B6, 1110, 1110A, 1112, 1113, 1118, 1120, 1170, 1171] |
| 2 | ESF | 339,639,752.00 | 42.21% | ▾ 08 - Hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd a chefnogi symudedd llafur<br>▾ 8iv - Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal<br>▾ 2.4 - Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu.<br>▾ 10 - Buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes<br>▾ 10iii - Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir<br>▾ 2.1 - Cynyddu lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau sy'n berthnasol i waith, y rhai yn y gweithlu sydd â sgiliau isel os o gwbl<br>▾ 2.2 - Cynyddu nifer y bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a phenodol i waith ar lefel ganolraddol ac uwch.<br>▾ 2.3 - Cynyddu nifer y bobl sydd wedi graddio neu wedi ennill cymwysterau cyfatebol sy'n ymgymryd â gweithgareddau ymchwil ac arloesedd gyda busnes. | [1101, 1108F, 1108M, 1109, 1174F, 1174M, 1175F, 1175M, 1177F, 1177M, 1180F, 1180M, 1181F, 1181M, CR03] |
| 3 | ESF | 244,713,791.00 | 30.42% | ▾ 08 - Hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd a chefnogi symudedd llafur<br>▾ 8ii - Integreiddio pobl ifanc yn y farchnad lafur yn gynaliadwy (ESF), yn enwedig y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, gan gynnwys pobl ifanc sy'n wynebu risg o allgáu cymdeithasol a phobl ifanc o gymunedau ymylol, gan gynnwys drwy weithredu'r Warant Ieuenctid<br>▾ 3.1 - Lleihau nifer y bobl 16-24 oed nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET).<br>▾ 10 - Buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes<br>▾ 10i - Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a'i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da, gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio ag addysg a hyfforddiant | [1123, 1124, 1125, 1127, 1128, 1129F, 1129M, 1130F, 1130M, 1183, 1184F, 1184M] |

compare report

| Echel blaenoriaeth | Cronfa | Cymorth yr Undeb (€) | Cyfran o gyfanswm cymorth yr Undeb ar gyfer y rhaglen weithredol | Amcan thematig / Blaenoriaeth fuddsoddi / Amcan penodol | Dangosyddion canlyniadau cyffredin a rhaglen benodol y pennwyd targed ar eu cyfer |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ▾3.2 - Lleihau nifer y rhai sy'n wynebu'r risg o ddod yn NEET ymhlith pobl ifanc 11-24 oed.<br>▾3.3 - Cynyddu lefelau cofrestru a chyrhaeddiad pynciau STEM ymhlith pobl ifanc 11-19 oed.<br>▾3.4 - Cynyddu sgiliau'r gweithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. | |
| 5 | ESF | 16,380,000.00 | 2.04% | ▾11 - Gwella gallu sefydliadol awdurdodau cyhoeddus a rhanddeiliaid a threfn gweinyddu cyhoeddus effeithlon<br>▾11i - Buddsoddi mewn gallu sefydliadol ac yn effeithlonrwydd gweinyddiaethau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyda'r nod o ddiwygio, rheoleiddio'n well a llywodraethu'n dda<br>▾5 Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol | [1185] |
| 4 | ESF | 16,046,806.00 | 1.99% | 4.1 - Sicrhau bod rhaglenni 2014-2020 yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol.<br>4.2 - Rhoi cyngor o ansawdd uchel i bartneriaid allweddol sydd ynghlwm wrth ddylunio a chyflawni gweithrediadau.<br>4.3 - Gwella'r broses o integreiddio buddsoddiadau â chronfeydd ESI eraill ynghyd â rhaglenni ehangach a arweinir gan y Comisiwn ac sy'n seiliedig ar Sector, a'u gwneud yn fwy ategol. | [TAR1, TAR2, TAR3] |

compare report

## 2. ECHELAU BLAENORIAETH

### 2.A DISGRIFIAD O'R ECHELAU BLAENORIAETH HEBLAW AM GYMORTH TECHNEGOL

### 2.A.1 Echel blaenoriaeth

| | |
|---|---|
| **Rhif adnabod yr echel blaenoriaeth** | 1 |
| **Teitl yr echel blaenoriaeth** | Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy |

☐ Caiff yr echel blaenoriaeth gyfan ei gweithredu drwy offerynnau ariannol yn unig
☐ Caiff yr echel blaenoriaeth gyfan ei gweithredu drwy offerynnau ariannol yn unig a sefydlwyd ar lefel yr Undeb
☐ Caiff yr echel blaenoriaeth gyfan ei gweithredu drwy waith datblygu lleol a arweinir gan y gymuned
☐ Ar gyfer ESF: Mae'r echel blaenoriaeth gyfan yn ymrwymedig i arloesedd cymdeithasol neu gydweithredu trawswladol, neu'r ddau
☐ Ar gyfer ERDF: Mae'r echel blaenoriaeth gyfan wedi'i neilltuo ar gyfer gweithrediadau sydd wedi'u hanelu at ailadeiladu mewn ymateb i drychinebau mawr neu naturiol rhanbarthol
☐ Ar gyfer ERDF: Mae'r echel blaenoriaeth gyfan wedi'i neilltuo ar gyfer BBaChau (Erthygl 39)

**2.A.2 Cyfiawnhad dros sefydlu echel blaenoriaeth sy'n cwmpasu mwy nag un categori o ranbarth, amcan thematig neu gronfa** (lle y bo'n gymwys)

compare report

1. Datblygwyd yr Echel Blaenoriaeth yn unol â nodau ac amcanion y rhaglen ESF yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCC) ac yn arbennig:
2. Nod:
   - *Trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol drwy gynyddu cyfranogiad y farchnad lafur a helpu pobl i gael cyflogaeth gynaliadwy.*
3. *Amcanion:*
   - *Lleihau tlodi drwy gynyddu lefelau cyflogaeth, yn enwedig ar gyfer grwpiau heb gynrychioliaeth ddigonol a'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur;*
   - *Lleihau anghydraddoldebau yn y farchnad lafur ymhlith menywod a grwpiau cydraddoldeb cydnabyddedig.*
4. Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad clir i drechu tlodi yng Nghymru. Datblygwyd Strategaeth Rhaglen ESF a'r camau o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon er mwyn cefnogi'r ymrwymiad hwn a chysoni â'r CSR er mwyn parhau ag ymdrechion i leihau tlodi plant mewn cartrefi incwm isel.
5. Mae'r diffiniad o dlodi yng Nghymru yn seiliedig ar fod heb 'adnoddau digonol', neu incwm, a bod methu 'cymryd rhan mewn gweithgareddau', neu allgáu cymdeithasol. Bydd yr Echel Blaenoriaeth ei hun yn cyflawni ymyriadau sy'n gyson â pholisi Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd yn ei Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, sy'n datgan mai'r llwybr gorau allan o dlodi yw drwy gyflogaeth ac sy'n canolbwyntio ar ddileu rhwystrau i gyflogaeth a helpu pobl i symud ar yr ysgol gyflogaeth.

6. Felly, amcan cyffredinol yr Echel Blaenoriaeth hon yw gostwng lefelau tlodi a thlodi parhaus yn GCC drwy gefnogi mynediad at gyflogaeth gynaliadwy. Fel rhan o'r strategaeth a amlinellir yn Adran 5, canolbwyntir ar gefnogi pobl, yn enwedig y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi ac allgáu cymdeithasol, neu sydd bellaf o'r farchnad lafur er mwyn cynyddu cyflogadwyedd a mynediad ac aros mewn cyflogaeth barhaus.
7. Prif egwyddor pob ymyriad fydd symud yr unigolyn tuag at gael gwaith parhaol a'i gadw, gan gynnwys hunangyflogaeth, fel modd i drechu tlodi.
8. Cyflawnir yr Echel Blaenoriaeth hon drwy un Amcan Thematig *((9)(9) - Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, trechu tlodi ac unrhyw wahaniaethu).*Er y gall rhai o'r ymyriadau arfaethedig gyd-fynd ag Amcan Thematig (9)(8) Hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd a chefnogi symudedd llafur, bydd cydgysylltu ymyriadau cyflogaeth gynaliadwy er mwyn trechu tlodi drwy un Amcan Thematig a Blaenoriaeth Fuddsoddi yn sicrhau mwy o integreiddio o fewn y rhaglenni ac â chamau gweithredu tlodi ar draws holl gronfeydd ESI.
9. Dengys profiad o raglenni 2007-2013 fod integreiddio ymyriadau yn allweddol i gyflawni canlyniadau cyflogaeth llwyddiannus i'r unigolyn. Hefyd, mae cryn dipyn o'r gwasanaethau cyflogaeth craidd a allai gael eu darparu drwy Amcan Thematig cyflogaeth yn rhai nad ydynt wedi'u datganoli ac fe'u darperir fel rhan o raglenni prif ffrwd Llywodraeth y DU.
10. Bydd yr Echel Blaenoriaeth hon yn gyson â rhaglenni prif ffrwd y farchnad lafur yn y DU, ac yn eu hategu ac yn ychwanegu gwerth atynt, drwy gyflwyno un dull cydgysylltiedig o wella cyflogaeth a chyflogadwyedd unigolion fel ffordd allan o dlodi. Ymdrinnir ag egwyddorion cymhwysedd penodol sy'n seiliedig ar raglenni prif ffrwd Llywodraeth y DU drwy ddogfennaeth canllaw ar gymhwysedd Cymru, sydd ar gael drwy wefan WEFO ac a gaiff ei diweddaru drwy gydol cyfnod y Rhaglen.

compare report

### 2.A.3 Cronfa, categori rhanbarth a sail gyfrifo ar gyfer cymorth yr Undeb

| Cronfa | Categori rhanbarth | Y sail gyfrifo (cyfanswm y gwariant cymwys neu wariant cyhoeddus cymwys) | Categori rhanbarth ar gyfer y rhanbarthau pellaf a gogleddol prin eu poblogaeth (lle y bo'n briodol) |
|---|---|---|---|
| ESF | Llai datblygedig | Cyfanswm | |

### 2.A.4 Blaenoriaeth fuddsoddi

| | |
|---|---|
| **Rhif adnabod y flaenoriaeth fuddsoddi** | 9i |
| **Teitl y flaenoriaeth fuddsoddi** | Cynhwysiant Gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |

### 2.A.5 Amcanion penodol sy'n cyfateb i'r flaenoriaeth fuddsoddi a'r canlyniadau disgwyliedig

| | |
|---|---|
| **Rhif adnabod yr amcan penodol** | 1.1 |
| **Teitl yr amcan penodol** | Cynyddu cyflogadwyedd y rhai sydd agosaf at y farchnad lafur ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi. |
| **Canlyniadau y mae'r Aelod-wladwriaethau yn ceisio eu cyflawni gyda chymorth yr Undeb** | 1. Bydd yr Amcan Penodol hwn yn cynyddu cyflogadwyedd y rhai sydd agosaf at y farchnad lafur ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi. Bydd y dull targedu yn unol â'r strategaeth ar dlodi a amlinellir yn Adran 5 sy'n |

| | |
|---|---|
| | cefnogi'r rhai a all fod yn agored i gylchoedd gwaith a diweithdra (y cylch cyflog isel / dim cyflog), ac yn ategu'r dull strategol o ymdrin â diweithdra ymhlith pobl ifanc a amlinellir yn Echel Blaenoriaeth 3. Bydd buddsoddiadau yn canolbwyntio ar y rhai dros 25 oed sy'n ddi-waith yn y byrdymor ac sydd â lefel isel o sgiliau, os o gwbl, neu anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith neu unigolion y mae diswyddiad wedi effeithio arnynt.<br>2. Gyda chefnogi mynediad at gyflogaeth yn brif egwyddor ganolog ac o ystyried agosrwydd cymharol y garfan i'r farchnad lafur, efallai y gall ymyriadau ESF effeithio ar fesurau ehangach cyflogaeth ar gyfer y carfannau hyn. Fodd bynnag, oherwydd y dylanwadau economaidd ehangach ar ddiweithdra, byddai'r effeithiau tymor hwy hyn yn gweddu'n fwy i fesur drwy werthuso.<br>3. Bydd canlyniadau uniongyrchol yr Amcan Penodol yn ceisio mesur dwy brif agwedd ar ymyriadau cyflogadwyedd; y rhai sy'n cael gwaith pan fyddant yn gadael; ac, fel mesur o well cyflogadwyedd, y rhai sy'n ennill cymhwyster pan fyddant yn gadael. Hefyd, mesurir canlyniadau ar gyfer y rhai sydd mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl gadael, er mwyn mesur effeithiau tymor hwy cymorth cyflogadwyedd a mesur cynaliadwyedd canlyniadau cyflogaeth.<br>4. Pennwyd llinellau sylfaen ar gyfer y dangosyddion canlyniadau yn seiliedig ar weithgarwch cymaradwy a gefnogir drwy ddarpariaeth ESF flaenorol neu weithgarwch tebyg rywle arall. Pennwyd targedau er mwyn sicrhau bod cynnydd gwirioneddol ar y llinell sylfaen ac er mwyn adlewyrchu'r grwpiau targed penodol, yn enwedig o ran caffael sgiliau, a'r gwelliannau a ragwelir yn sefyllfa'r farchnad lafur. Nod targedau canlyniadau cyflogaeth ar gyfer y grŵp targed di-waith yn y byrdymor yw gwella canlyniadau i'r lefel a gyflawnwyd yn rhaglenni 2007-2013 yn erbyn y boblogaeth ddi-waith fyrdymor gyffredinol. |
| **Rhif adnabod yr amcan penodol** | 1.2 |
| **Teitl yr amcan penodol** | Cynyddu cyflogadwyedd pobl sy'n Economaidd anweithgar ac sy'n Ddi-waith yn yr Hirdymor sy'n 25 oed a throsodd sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth. |
| **Canlyniadau y mae'r Aelod-wladwriaethau yn ceisio eu cyflawni gyda chymorth yr Undeb** | 1. Prif ffocws yr Amcan Penodol hwn yw cynyddu cyflogadwyedd unigolion dros 25 oed sy'n Economaidd anweithgar sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth ac unigolion dros 25 oed sy'n Ddi-waith yn yr Hirdymor sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth. Fel y nodir yn y strategaeth, ceir nifer o nodweddion ar gyfer y demograffig economaidd anweithgar neu ddi-waith yn yr hirdymor sy'n gysylltiedig â chyfraddau uwch na'r cyfartaledd o anweithgarwch economaidd neu ddiweithdra hirdymor. Dangosir bod y rhwystrau hyn yn lluosog ac yn gymhleth ac maent yn cynnwys anableddau neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith, lefel |

compare report

| | |
|---|---|
| | isel o sgiliau, os o gwbl, ac unigolion mewn cartrefi diwaith. Mae'r rhestr lawn o'r rhwystrau y mae angen ymdrin â hwy yn Adran 2.A.6.1<br>2. Ni cheir unrhyw fesurau cyflogadwyedd penodol ar lefel genedlaethol na rhanbarthol. Efallai y bydd yn bosibl drwy gefnogi'r grwpiau targed i gael gwaith er mwyn cyfrannu at ostyngiadau mewn lefelau Anweithgarwch Economaidd neu Ddiweithdra Hirdymor ymhlith y grŵp targed. Fodd bynnag, mae'r data hyn yn destun ffactorau allanol sylweddol ac ni wnaiff y canlyniadau hyn yn unig wir adlewyrchu'r buddsoddiadau cyffredinol o fewn yr Amcan Penodol.<br>3. Felly, bydd y canlyniadau uniongyrchol yn canolbwyntio ar nifer o ddangosyddion procsi ar gyfer cyflogadwyedd er mwyn cynnwys nifer y grwpiau targed penodol sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad perthnasol i waith pan fyddant yn gadael, y nifer sy'n cwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle gwirfoddoli ac, ar gyfer y garfan Economaidd Anweithgar, y nifer sy'n mynd ati i chwilio am waith pan fyddant yn gadael.<br>4. Yn ogystal, caiff dangosyddion canlyniadau eu cynnwys ar gyfer y nifer sy'n dod yn gyflogedig ac yn hunangyflogedig pan fyddant yn gadael ac er mwyn dangos tystiolaeth bellach o gynaliadwyedd canlyniad cyflogaeth y nifer mewn cyflogaeth neu sy'n hunangyflogedig chwe mis ar ôl gadael. Efallai y bydd hefyd yn bosibl, drwy waith gwerthuso, i fesur yr effaith tymor hwy ar gyfraddau Anweithgarwch Economaidd a Diweithdra Hirdymor mewn ffordd sy'n rhoi cyfrif am yr amrywiaeth o ffactorau allanol sy'n effeithio ar y dangosyddion lefel macro hyn.<br>5. Pennwyd llinellau sylfaen ar gyfer y dangosyddion canlyniadau yn seiliedig ar weithgarwch cymaradwy a gefnogir drwy ddarpariaeth ESF flaenorol neu weithgarwch tebyg rywle arall. Pennwyd targedau ar sgiliau a chymwysterau er mwyn adlewyrchu'r ffocws ychwanegol ar y rhai heb unrhyw sgiliau a chynnwys ardystiad sy'n berthnasol i waith. O ran canlyniadau cyflogaeth, pennwyd targedau uchelgeisiol a wnaiff helpu i wella canlyniadau cyflogaeth pob grŵp targed penodol tuag at rai'r boblogaeth gyffredinol neu'r rhai sydd agosaf at y farchnad lafur. Dim ond anelu at gyfateb i'r llinellau sylfaen presennol a wnaiff rhai targedau. Mae hyn yn adlewyrchu natur newydd ac ansicr y targedau hyn lle nad yw dangosyddion sylfaenol yn cyfateb yn uniongyrchol ond maent yn feincnod defnyddiol i weithio iddynt. |
| **Rhif adnabod yr amcan penodol** | 1.3 |
| **Teitl yr amcan penodol** | Gostwng cyfraddau tangyflogaeth neu absenoldeb ar gyfer unigolion cyflogedig, diogelu'r rhai sydd â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith a / neu rwystrau eraill i ymgysylltu â'r farchnad lafur mewn ffordd gynaliadwy a chynyddu eu cyfranogiad yn y farchnad lafur. |

compare report

| | |
|---|---|
| **Canlyniadau y mae'r Aelod-wladwriaethau yn ceisio eu cyflawni gyda chymorth yr Undeb** | 1. Nod yr Amcan Penodol hwn fydd gostwng cyfraddau tangyflogaeth neu absenoldeb o ganlyniad i rwystrau fel salwch, anableddau neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith, cyfrifoldebau gofalu neu ofal plant, gan atal rhwystrau o'r fath rhag dod yn ffactorau sy'n ysgogi tlodi ac allgáu o lafur. Targedir y rhai sydd â chontractau cyflogaeth eisoes a bydd y camau a gymerir yn ategu'r rhai a gymerir mewn perthynas â chyfranogwyr di-waith yn Amcanion Penodol 1 a 2 uchod. Canolbwyntir yn benodol ar y rhai sydd ag anableddau neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith a'r rhai sy'n ddi-waith ac sy'n wynebu rhwystrau i gyflogaeth lawn.<br>2. Diffinnir tangyflogaeth fel tanddefnydd gallu i gynhyrchu unigolion cyflogedig h.y. pan fydd materion neu rwystrau penodol yn atal unigolion cyflogedig rhag gallu defnyddio eu gallu presennol yn llawn. Felly, bydd y canlyniadau penodol yn canolbwyntio ar fesurau a all ddangos defnydd pellach o allu pan adewir darpariaeth ESF a byddant yn cynnwys, er enghraifft, fwy o oriau gwaith neu gael contract parhaol.<br>3. Mae nifer o fesurau Cymru ehangach wedi'u cynnwys yn yr adran strategaeth y bydd yr Amcan Penodol hwn yn ceisio dylanwadu arnynt ac sy'n llywio'r rhesymeg dros ymyrryd. Mae'r rhain yn cynnwys oriau a gollir oherwydd salwch a nifer y cyflogeion sy'n absennol am bedair wythnos a gweithio rhan amser fel canran o gyflogaeth.<br>4. Bydd yn anos dylanwadu ar gyfraddau absenoldeb yn arbennig ar lefel genedlaethol ac felly bydd y canlyniadau mesuradwy uniongyrchol hefyd yn canolbwyntio ar y rhai ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o absenoldeb pan adewir darpariaeth ESF.<br>5. Bydd yr Amcan Penodol hefyd yn gweithio gyda micro-fusnesau a busnesau bach a chanolig er mwyn annog datblygu'r gweithlu a mabwysiadu arferion gwaith hyblyg. Mesurir yr elfen benodol hon drwy nifer y busnesau sydd wedi mabwysiadu neu wedi gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro. Bydd y dangosydd canlyniadau hwn hefyd yn gwneud cyfraniad allweddol at yr agenda Themâu Trawsbynciol.<br>6. Pennwyd llinellau sylfaen ar gyfer y dangosyddion canlyniadau yn seiliedig ar weithgarwch cymaradwy a gefnogir drwy ddarpariaeth ESF flaenorol neu weithgarwch tebyg rywle arall. Gosodwyd targedau i gyfateb i'r llinellau sylfaen lle y bo'n berthnasol. Dengys profiad o raglenni 2007-2013 fod y canlyniadau hyn yn cynrychioli uchelgeisiau realistig yn y meysydd hyn.<br>7. Mae mesurau canlyniadau o ran dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o absenoldeb a sefyllfa well y farchnad lafur ar ôl gadael yn cyflwyno dull targedu newydd i'r rhaglenni ESF, gan ganolbwyntio ar grwpiau demograffig penodol o fewn y gweithlu a nodi canlyniad penodol a ddymunir ar gyfer y grwpiau hyn. Nid yw mesurau o'r fath wedi bod ar waith o'r blaen o fewn rhaglenni ESF ac nid oes data cenedlaethol cymaradwy ar gael oherwydd natur benodol iawn targedu demograffig. Oherwydd y ffactorau hyn ni fu modd pennu llinellau |

compare report

| | |
|---|---|
| | sylfaen ar gyfer y dangosyddion hyn. Fodd bynnag, mae targedau uchelgeisiol ond cyflawnadwy wedi cael eu pennu ar gyfer y mesurau canlyniadau hyn, gan adlewyrchu'r ymrwymiad o fewn y rhaglenni i sicrhau mantais ystyrlon i'r grwpiau targed hyn a hefyd gydnabod cymhlethdodau ymyriadau yn y maes hwn. Caiff gwerthusiadau eu defnyddio hefyd i fesur effeithiolrwydd camau gweithredu a'r allbynnau a'r canlyniadau a gyflawnir. |

compare report

**Tabl 4: Dangosyddion canlyniadau cyffredin y mae gwerth targed wedi'i bennu ar eu cyfer a dangosyddion canlyniadau rhaglen benodol sy'n cyfateb i'r amcan penodol (yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi a chategori rhanbarth)** (ar gyfer ESF)

**Blaenoriaeth fuddsoddi : 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd**

| Rhif Adnabod | Dangosydd | Categori rhanbarth | Uned fesur ar gyfer dangosydd | Dangosydd allbwn cyffredin a ddefnyddir fel sail i bennu targedau | Gwerth sylfaenol | | | Uned fesur ar gyfer llinell sylfaen a tharged | Blwyddyn sylfaenol | Gwerth targed (2023) | | | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | C | GN | T | | | C | GN | T | | |
| 102A6 | Pobl economaidd anweithgar (25 oed a throsodd), nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant, sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sydd mewn cyflogaeth, gan gynnwys hunangyflogaeth, chwe mis ar ôl gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 20.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 45.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 102B6 | Pobl ddi-waith yn yr hirdymor (25 oed a throsodd) sydd â rhwystrau cymhleth i gael cyflogaeth sydd mewn cyflogaeth, gan gynnwys hunangyflogaeth, chwe mis ar ôl gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 25.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 45.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1100A | Pobl ddi-waith yn yr hirdymor (25 oed a 25 oed a throsodd), nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant, sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad sy'n berthnasol i waith pan fyddant yn gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 40.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 50.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1101B | Unigolion yr effeithir arnynt gan ddiswyddiad sydd mewn cyflogaeth pan fyddant yn gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 50.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 55.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1102A | Pobl economaidd anweithgar (25 oed a throsodd), nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant, sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n dechrau gweithio, gan gynnwys hunangyflogaeth, pan fyddant yn gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 14.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 20.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1102B | Pobl ddi-waith yn yr hirdymor (25 oed a throsodd) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n dechrau gweithio, gan gynnwys hunangyflogaeth, pan fyddant yn gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 20.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 25.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1103 | Pobl economaidd anweithgar (25 oed a throsodd), nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant, sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth pan eir ati i chwilio am waith pan fyddant yn gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 25.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 25.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1104A | Pobl economaidd anweithgar (25 oed a throsodd), nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant, sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n cynyddu cyflogadwyedd drwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle gwirfoddoli | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 54.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 54.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1104B | Pobl ddi-waith yn yr hirdymor (25 oed a throsodd), sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n cynyddu cyflogadwyedd drwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle gwirfoddoli | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 54.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 54.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 110A6 | Cyfranogwyr di-waith byrdymor sydd â sgiliau isel neu anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith sydd mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 33.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 45.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 110B6 | Unigolion yr effeithir arnynt gan ddiswyddiad sydd mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 55.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 60.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1110 | Pobl economaidd anweithgar (25 oed a throsodd), nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant, sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad sy'n berthnasol i waith pan fyddant yn gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 40.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 50.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1110A | Cyfranogwyr di-waith byrdymor sydd â sgiliau isel neu anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith sydd mewn cyflogaeth pan fyddant yn gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 30.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 33.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1112 | Cyfranogwyr di-waith byrdymor sydd â sgiliau isel neu anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith sy'n ennill cymhwyster pan fyddant yn gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 40.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 50.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1113 | Unigolion yr effeithir arnynt gan ddiswyddiad sy'n ennill cymhwyster pan fyddant yn gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 40.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 70.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1118 | Busnesau a gefnogir sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 50.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 50.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1120 | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith sydd mewn sefyllfa well o ran y farchnad lafur pan fyddant yn gadael fel mwy o oriau, contract parhaol | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 0.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 50.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1170 | Cyfranogwyr tangyflogedig sydd mewn sefyllfa well o ran y farchnad lafur pan fyddant yn gadael, fel mwy o oriau, contract parhaol | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 0.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 40.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1171 | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o absenoldeb | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 0.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 50.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |

compare report

**2.A.6 Cam gweithredu i'w gefnogi o dan y flaenoriaeth fuddsoddi** (yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi)

***2.A.6.1 Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt, ynghyd â'u cyfraniad disgwyliedig i'r amcanion penodol gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nodi prif grwpiau targed, tiriogaethau penodol a dargedir a mathau o fuddiolwyr***

| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |
|---|---|

1. Datblygwyd camau o dan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon er mwyn trechu tlodi ac achosion tlodi drwy gefnogi mynediad at gyflogaeth gynaliadwy.
2. **Amcan Penodol 1**
3. Wrth gyflawni yn erbyn **Amcan Penodol 1**, bydd camau o dan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon yn targedu'r rhai sydd agosaf at y farchnad lafur, sydd dros 25 oed, sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi. Bydd y camau a gymerir yn cefnogi'r rhai sy'n ddi-waith yn y byrdymor (hyd at 12 mis) yn bennaf sydd â lefel isel o sgiliau, os o gwbl, neu anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio a'r rhai y mae diswyddiad wedi effeithio arnynt (sef y rhai sydd wedi cael hysbysiad diswyddo ffurfiol a'r rhai sydd wedi cael eu diswyddo yn y tri mis diwethaf).
4. Bydd y camau a gymerir yn rhan o ddull gweithredu cydgysylltiedig o fewn yr Echel Blaenoriaeth i dargedu unigolion sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi, gan gynnwys y rhai a all gael eu dal, neu sy'n wynebu'r risg o gael eu dal, mewn cylchoedd cyflog isel dim cyflog, er mwyn goresgyn rhwystrau i gael cyflogaeth gynaliadwy fel dull o drechu ac atal tlodi. Bydd y camau a gymerir yn sicrhau bod unigolion yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth integredig a phersonol sydd wedi'i dylunio i ddiwallu eu hamrywiaeth o anghenion, a thrwy hynny osgoi unrhyw ofyniad i gyfranogwyr fod yn destun amrywiaeth lluosog a chymhleth o ymyriadau.
5. Mae'r dirywiad yn y diwydiannau sgiliau isel traddodiadol wedi gadael gweithwyr sgiliau isel a'r rhai y mae diswyddiad wedi effeithio arnynt naill ai'n wynebu risg o ddiweithdra hirdymor neu'n agored i gylchoedd gwaith a diweithdra, gan gael eu dal mewn cyfnodau cyfnewidiol o gyflog isel neu ddim cyflog. Yn yr un modd, mae gan y rhai ag anableddau neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith gyfraddau cyflogaeth isel ac maent yn wynebu'r risg fwyaf o dlodi a diweithdra tymor hwy. Bydd buddsoddiadau yn darparu atebion adweithiol ac ymatebol i fynd i'r afael ag amrywiadau yn y farchnad lafur, gan helpu i gynyddu cyflogadwyedd ac annog arallgyfeirio i gyfleoedd cyflogaeth mwy cynaliadwy.
6. Gall cymorth parhaus i gynnal cyflogaeth fod yn ffactor allweddol er mwyn atal a thorri cylchoedd gwaith a diweithdra, yr effaith 'drws tro'. Gall ymyriadau fod am gyfnod byr a, lle y bo'n briodol, gynnig mesurau priodol, fel mentora, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd canlyniadau cyflogaeth.
7. Gallai'r camau dangosol a allai gael eu cymryd i gefnogi Amcan Penodol 1 a'r grwpiau targed a nodwyd uchod gynnwys:
    - Camau i gynorthwyo'r rhai â lefel isel o sgiliau, os o gwbl, neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio i gael cyflogaeth gynaliadwy, gan gynnwys chwilio am swydd a chysoni sgiliau a chymwyseddau presennol â chyfleoedd gwaith;
    - Camau i gynorthwyo'r rhai â sgiliau isel, os o gwbl, neu anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio, a'r rhai y mae diswyddiad wedi effeithio arnynt, i ddiweddaru neu wella eu sgiliau a'u cymwysterau;

compare report

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |
|---|---|

- o Gweithgareddau sy'n rhoi mynediad i gyfleoedd cyflogaeth ehangach a mwy cynaliadwy drwy ymdrin ag anableddau neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio fel rhwystr i gyflogaeth gynaliadwy;
- o Camau i gynorthwyo unigolion y mae diswyddiad wedi effeithio arnynt i arallgyfeirio opsiynau cyflogaeth ac achub ar gyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy, yn enwedig mewn meysydd twf economaidd sy'n dod i'r amlwg; neu
- o Camau wedi'u targedu i ymdrin ag achosion cysylltiedig ehangach y cylch cyflog isel / dim cyflog ymhlith y grŵp targed fel rheoli dyledion a chyllid neu gyfrifoldebau gofal a gofal plant.

8. **Amcan Penodol 2**
9. Wrth gyflawni yn erbyn Amcan Penodol 2, bydd camau o dan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon yn targedu'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur ac sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth. Yn unol â'r strategaeth dlodi yn Adran 5 ceir dau brif grŵp targed o fewn yr Amcan Penodol hwn. Cydnabyddir mai'r grwpiau targed sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi ac er eu bod ar wahân gellir ymdrin â hwy drwy'r Amcan Penodol unigol oherwydd bydd y rhwystrau a wynebir ganddynt yn debyg. Bydd y grwpiau targed yn Economaidd Anweithgar (25 oed a throsodd), ddim mewn addysg na hyfforddiant ac â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth, ac yn Ddi-waith yn yr hirdymor (25 oed a throsodd), sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth.
10. Bydd gan y grŵp targed Economaidd Anweithgar un neu ragor o'r rhwystrau canlynol i gyflogaeth; lefel isel o sgiliau, os o gwbl; anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio (gan gynnwys camddefnyddio sylweddau neu alcohol); cyfrifoldebau gofal neu ofal plant; dros 54 oed; neu o gartref diwaith. Yn yr un modd, bydd gan y grŵp diwaith hirdymor un neu ragor o'r rhwystrau canlynol: lefel isel o sgiliau, os o gwbl; anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio (gan gynnwys camddefnyddio sylweddau neu alcohol); o grŵp Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig; neu o gartref diwaith. Gall meini prawf cymhwysedd gwahanol sydd a wnelo â rhaglenni Lles Llywodraeth y DU fod yn gymwys; ymdrinnir â'r meini prawf hyn drwy ddogfennaeth canllaw ar gymhwysedd Cymru, sydd ar gael drwy wefan WEFO ac a gaiff ei diweddaru drwy gydol cyfnod y Rhaglen.
11. Bydd y camau a gymerir yn rhan o ddull gweithredu cydgysylltiedig o fewn yr Echel Blaenoriaeth er mwyn cynorthwyo'r grwpiau targed i gynyddu cyflogadwyedd, ymdrin â rhwystrau i gymryd rhan yn y farchnad lafur, cael cyflogaeth gynaliadwy ac achub ar y cyfleoedd y gall cyflogaeth eu cynnig i drechu tlodi.
12. Mae unigolion, fel y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, yn wynebu sawl rhwystr cymhleth i gael cyflogaeth am gyfnod estynedig, gan gynnwys sgiliau a chymwysterau, trafnidiaeth, gofal a gofal plant, rhwystrau ariannol ac emosiynol yn ogystal ag agweddau tuag at waith a dibyniaeth ar les. Mae cyfnodau diweddar o ddirwasgiad ac ansicrwydd yn y farchnad lafur wedi peri heriau ychwanegol i'r unigolion hyn wrth gystadlu am y cyfleoedd sydd ar gael. Bydd y camau a gymerir yn cefnogi gweithgareddau er mwyn helpu i ymdrin â'r rhwystrau lluosog a chymhleth hyn ac yn sicrhau bod unigolion yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth integredig a phersonol sydd wedi'i dylunio i ddiwallu eu hamrywiaeth o anghenion, a thrwy hynny osgoi unrhyw ofyniad i gyfranogwyr fod yn destun amrywiaeth lluosog a chymhleth o ymyriadau.

compare report

| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |
|---|---|

13. Bydd ymyriadau yn bersonol ac yn canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn o ran eu dulliau ymgysylltu a chyflawni. Bydd yr hyn a gyflawnir wedi'i integreiddio â strategaethau ehangach eraill er mwyn mynd i'r afael â diweithdra, tlodi a chymunedau difreintiedig. Yn unol â phrif egwyddor cefnogi cyflogaeth fel llwybr allan o dlodi, tra'n darparu cymorth unigol wedi'i deilwra, bydd ymyriadau'n canolbwyntio ar gyflogaeth barhaol fel y canlyniad a ddymunir.
14. Bydd newidiadau parhaus i system Les Llywodraeth y DU yn dwyn heriau i'r broses o weithredu camau o dan yr Amcan Penodol hwn. Dengys ymchwil[1] y bydd camau diwygio lles presennol yn anghymesur o atchwelol yng Nghymru, gan gael mwy o effaith ar y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi, gan gynnwys grwpiau cydraddoldeb cydnabyddedig. Bydd camau integredig sy'n gyson o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon yn gweithio i ategu darpariaeth prif ffrwd er mwyn cynorthwyo'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf i ail-ymgysylltu â'r farchnad lafur a chael cyflogaeth gynaliadwy ac, wrth wneud hynny, bydd yn gyson â'r Argymhelliad sy'n Benodol i Wlad o leihau tlodi plant mewn cartrefi incwm isel, sydd hefyd yn nodi effaith bosibl Diwygio Lles mewn perthynas â'r nod hwn.
15. Gallai'r camau dangosol a allai gael eu cymryd i gefnogi **Amcan Penodol 2** a'r grwpiau targed a nodwyd uchod gynnwys:
    - Gweithgareddau, gan gynnwys datblygu atebion arloesol, i ymdrin â'r rhwystrau cymhleth a wynebir gan y grŵp targed wrth gael cyflogaeth gynaliadwy a gwella cyflogadwyedd a'u goresgyn, er enghraifft drwy ddarparu cymorth mentor;
    - Camau i ymdrin â rhwystrau fel gofal neu ofal plant, gan gynnwys camau arloesol sy'n gysylltiedig â gwella argaeledd gofal plant fforddiadwy o ansawdd:
    - Camau i gynorthwyo'r grwpiau targed i achub ar gyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy, yn enwedig ym meysydd twf economaidd a chyflogaeth, gan gynnwys sgiliau chwilio am swydd, ysgrifennu CV a chyfweld sylfaenol;
    - Camau i wella cyflogadwyedd, gan gynnwys cefnogi mynediad at brofiad gwaith neu wirfoddoli sy'n canolbwyntio ar waith fel llwybr i gyflogaeth neu hunangyflogaeth lle y bo'n briodol;
    - Camau sy'n diweddaru ac yn gwella lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau hanfodol, drwy ennill cymwysterau neu ardystiad sy'n berthnasol i waith;
    - Cynorthwyo'r grŵp targed Economaidd Anweithgar i feithrin hunanhyder a'r canfyddiad o waith fel opsiwn ystyrlon a realistig; neu
    - Camau wedi'u targedu, lle y bo'n briodol, i ymdrin â rhwystrau cysylltiedig eraill i gyflogaeth gynaliadwy ymhlith y grŵp targed fel cyfnodau hir o ddiweithdra, TGCh, trafnidiaeth a rheoli dyledion a chyllid.
16. **Amcan Penodol 3**
17. Wrth gyflawni yn erbyn **Amcan Penodol 3**, bydd camau o dan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon yn targedu unigolion cyflogedig sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi neu allgáu o gyflogaeth gynaliadwy. Canolbwyntir ar y rhai mewn gwaith sydd â chyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith neu sy'n wynebu rhwystrau i ymgysylltu â'r farchnad lafur mewn ffordd gynaliadwy, a all achosi tangyflogaeth, absenoldeb oherwydd salwch neu golli swydd.

compare report

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |
|---|---|

18. Bydd y camau a gymerir yn rhan o ddull gweithredu cydgysylltiedig o fewn yr Echel Blaenoriaeth er mwyn cynnal cyflogaeth gynaliadwy fel dull o atal tlodi. Bydd y camau a gymerir yn ymdrin â rhwystrau i gyflogadwyedd, datblygiad a symudedd llafur sy'n gysylltiedig ag iechyd, anableddau a chamddefnyddio sylweddau neu rwystrau mwy personol fel mynediad i gyflogaeth lawn-amser, oedran a chyfrifoldebau gofalu a gofal plant. Bydd y camau a gymerir yn sicrhau bod unigolion yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth integredig a phersonol sydd wedi'i dylunio i ddiwallu eu hamrywiaeth o anghenion, a thrwy hynny osgoi unrhyw ofyniad i gyfranogwyr fod yn destun amrywiaeth lluosog a chymhleth o ymyriadau.
19. Caiff camau ategol ychwanegol eu cymryd gyda busnesau bach a chanolig er mwyn annog newid diwylliannol mewn sefydliadau tuag at weithlu iach a mwy amrywiol. Cynorthwyir cyflogwyr i wella hyblygrwydd yn y gweithle ac fe'u hanogir i fabwysiadu arferion gwaith hyblyg a hyrwyddo buddiannau gweithle iach i sefydliad.
20. Gan ategu amcanion penodol y themâu trawsbynciol a'r egwyddorion llorweddol, bydd buddsoddiadau yn anelu at ymdrin â rhwystrau sy'n cael effaith anghymesur ar un neu ragor o'r grwpiau cydraddoldeb a gydnabyddir.
21. Gallai'r camau dangosol a allai gael eu cymryd i gefnogi Amcan Penodol 3 a'r grwpiau targed a nodwyd uchod gynnwys:
    - Gweithgareddau sy'n helpu pobl (rhai cyflogedig a hunangyflogedig) ar gamau cynnar absenoldeb oherwydd salwch i ddychwelyd i'r gwaith ac aros yno, er mwyn atal tlodi drwy golli gwaith;
    - Gweithgareddau arloesol sy'n gweithio gyda chyfranogwyr cyflogedig er mwyn helpu i ymdrin â rhwystrau i symudedd yn y farchnad lafur (heb gynnwys sgiliau) ac achosion tangyflogaeth fel salwch, cyfrifoldebau gofalu neu ofal plant, rhwystrau trafnidiaeth a chamddefnyddio alcohol;
    - Gweithgareddau gyda chyflogwyr sy'n helpu i ddatblygu'r gweithlu a hyrwyddo trefniadau gweithio hyblyg; neu
    - Gweithgareddau gyda chyflogwyr er mwyn ymdrin â materion sy'n gysylltiedig ag iechyd o fewn y gweithle a datblygu neu wella rhaglenni gweithle neu iechyd galwedigaethol priodol, gan fabwysiadu dulliau cydweithredol o ddarparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol.
22. Mae'r camau arfaethedig a ddisgrifir uchod o fewn pob Amcan Penodol yn darparu meysydd gweithredu dangosol y gallai gweithrediadau eu datblygu. Disgwylir i bob gweithrediad nodi gweithgareddau manwl gywir a phenodol yn y meysydd gweithredu uchod. Dylai'r gweithgareddau hyn gael eu dylunio i ddiwallu anghenion penodol grŵp/grwpiau targed wedi'u nodi'r gweithrediad a'r canlyniadau a geisir. Dylid cyflwyno tystiolaeth er mwyn profi effeithlonrwydd a chymhwysedd y gweithgareddau penodol hyn.
23. Disgwylir i fuddiolwyr cyllid o dan bob un o'r Amcanion Penodol uchod gynnwys y sector cyhoeddus (awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru); sefydliadau anllywodraethol (gan gynnwys y Trydydd Sector); prifysgolion; a'r sector preifat.

compare report

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |
|---|---|
| [1] Adams, S a Phillips, D Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2013); *An ex-ante analysis of the effects of the UK government's welfare reforms on labour supply in Wales (Adroddiad 75 y Sefydliad Astudiaethau Cyllid)* | |

### *2.A.6.2 Egwyddorion arweiniol ar gyfer dewis gweithrediadau*

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |
|---|---|

1. Bydd yr egwyddorion cyffredin canlynol yn llywio'r broses o ddewis gweithrediadau ar gyfer pob Blaenoriaeth fuddsoddi yn y dyfodol:
   - Ffocws penodol ar gefnogi swyddi cynaliadwy, cyflogaeth a thwf a gweithrediadau sy'n hwyluso rôl y trydydd sector a'r sector preifat;
   - Dylai ymyriadau geisio integreiddio canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, sy'n gyson â phrif egwyddor drefniadol datblygu cynaliadwy ac yn cyfrannu at ganlyniadau'r themâu trawsbynciol;
   - Cyfleoedd i sicrhau mwy o gyllid o ddefnyddio cronfeydd yr UE, yn enwedig â'r sector preifat a'r trydydd sector; a hefyd fuddsoddiadau mwy cydweithredol lle y gallant ychwanegu gwerth a chyflawni canlyniadau;
   - Gwerth ychwanegol clir o gymharu â ffyrdd eraill o gefnogi a chyflawni polisi, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn;
   - Bydd tystiolaeth o gyfle yn sail i'r gwaith o ddylunio a chyflawni gweithrediadau gyda buddsoddiadau yn adeiladu ar arbenigedd sy'n bodoli eisoes ac sy'n dod i'r amlwg, gyda chyfalaf dynol yn helpu i ddiwallu anghenion busnesau yn y dyfodol;
   - Bydd blaenoriaethu gweithrediadau strategol allweddol sy'n ategu'r Amcanion Penodol ac yn cyflawni canlyniadau sylweddol yn rhan greiddiol o ddull rheoli portffolio o gyflawni rhaglenni;
   - Mae angen rhoi strategaethau ymadael clir ar waith o'r cychwyn sy'n ystyried yn llawn rôl y trydydd sector a'r sector preifat, yn adeiladu cadernid cymdeithasol ac yn trechu tlodi o fewn cymunedau, hyrwyddo cydraddoldeb a sicrhau effeithiau gwaddol.
2. Bydd angen i weithrediadau ystyried amrywiaeth o ddulliau targedu er mwyn darparu ffocws ar gyfer buddsoddi. Bydd graddau'r targedu yn amrywio yn ôl y math o ymyriad a, lle y bo'n briodol, dylai adlewyrchu'r canlynol:
   - nodi'n glir y **grwpiau targed penodol**, eu hanghenion a sut y bydd camau gweithredu yn diwallu'r anghenion hyn ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol fel y bo'n briodol;
   - **sectorau twf** (e.e. yn benodol sectorau allweddol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, meysydd Her Fawr yn Gwyddoniaeth i Gymru a'r Strategaeth Arloesi sy'n cael ei datblygu);
   - ardaloedd lle ceir **cyfle daearyddol penodol** (e.e. Ardaloedd Menter, unrhyw Ddinas-Ranbarth bosibl neu gyfle rhanbarthol arall, Ardal Gwella Busnes, Ardal Wledig neu Ardal Adfywio).
3. **Egwyddorion ychwanegol sy'n berthnasol i'r Flaenoriaeth Fuddsoddi benodol**

compare report

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |
|---|---|

4. Yn unol â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a'r strategaeth a amlinellir yn Adran 5 ar gyfer ymdrin â'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi, anfantais ac allgáu. Rhaid i ymyriadau gael eu hintegreiddio â strategaethau ehangach eraill er mwyn mynd i'r afael â bod heb waith a chymunedau difreintiedig.
5. Yn unol â phrif egwyddor cefnogi cyflogaeth fel llwybr allan o dlodi, caiff yr holl weithgarwch ei gynllunio gyda ffocws ar sicrhau bod unigolion yn dychwelyd i'r gwaith (er mwyn cyflawni canlyniad o ran swydd) a chaiff pob ymyriad ac unrhyw gymorth a roddir o ran sgiliau ei ddylunio er mwyn helpu unigolion i gyflawni'r nod hwn.
6. Bydd ymyriadau o ran sgiliau, lle y bo angen, yn ceisio sicrhau bod unigolion yn cyflawni neu'n datblygu, lle y bo modd, i lefel ganolraddol ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF) neu uwch, gan amlinellu llwybrau datblygu clir ar gyfer y rhai â lefel isel o sgiliau, os o gwbl.
7. Dylai'r camau a gymerir fod yn hyblyg ac ymateb i amrywiadau yn y farchnad lafur; defnyddio ac ymateb i GFL, sy'n nodi anghenion o ran sgiliau a thueddiadau dros y blynyddoedd i ddod fel ffordd o sicrhau bod cyflenwad cyflogaeth yn bodloni galw cyflogaeth.
8. Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol y sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus.
9. Oni nodir fel arall yn y dangosyddion allbynnau ar gyfer y flaenoriaeth fuddsoddi hon, bydd angen i'r holl weithrediadau sy'n ceisio cymorth o fewn y flaenoriaeth fuddsoddi hon bennu targedau allbwn priodol ar lefel gweithrediad, o leiaf, o fewn y categorïau canlynol.
   - Rhyw;
   - Oedran (dros 54 oed);
   - Anabledd;
   - Cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith;
   - Mudwyr / BME / Lleiafrifoedd (gan gynnwys cymunedau ymylol fel y Roma);
   - Cyfrifoldebau Gofal / Gofal Plant.

compare report

### 2.A.6.3 *Defnydd arfaethedig o offerynnau ariannol*(lle y bo'n briodol)

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |
|---|---|

1. Daeth yr asesiad ex-ante o'r defnydd o Offerynnau Ariannol (OA) yn ESF i'r casgliad, yn y rhan fwyaf o achosion, mai potensial cyfyngedig oedd gan OA wrth gymryd y camau a amlinellir uchod ac mae unrhyw ddull gweithredu posibl yn debygol o fod yn llai effeithiol nag un sy'n seiliedig ar grantiau o ran cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Nododd nad oedd OA ar gyfer y camau arfaethedig yn debygol o fod yn gost-effeithiol a nododd bryderon ynghylch y budd busnes ac felly botensial i ad-dalu a fyddai, ar gyfer camau a oedd yn canolbwyntio ar alluogi pobl i gael gwaith, yn seiliedig ar leihau nifer yr hawlwyr budd-daliadau, sy'n fater nad yw wedi'i ddatganoli i Gymru.

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |
|---|---|
| 2. Argymhellodd y cam cyntaf ymchwil ychwanegol ar werth OA wrth gynorthwyo cyfranogwyr i symud i mewn i hunangyflogaeth ac entrepreneuriaeth gan ei bod yn bosibl bod lle i wneud hynny. Fodd bynnag, nododd casgliadau ymchwil bellach ar yr ail gam nad yw dull gweithredu sy'n seiliedig ar fenthyciadau yn debygol o fod yn ddull cyflawni priodol na chost-effeithiol. Felly, ni chynigir defnyddio OA wrth gymryd camau o fewn y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon. Bydd ymyriadau yn cysylltu â chamau drwy flaenoriaeth Cystadleurwydd BBaCh yr ERDF er mwyn cefnogi sefydlu busnes, hunangyflogaeth ac entrepreneuriaeth. | |

***2.A.6.4 Defnydd arfaethedig o brosiectau mawr*** (lle y bo'n briodol)

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |
|---|---|
| 1. Nid yw hyn yn gymwys i ESF | |

***2.A.6.5 Dangosyddion allbwn yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi a, lle y bo'n briodol, gategori rhanbarth***

compare report

**Tabl 5:** Dangosyddion canlyniadau cyffredin a rhaglen benodol (yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi wedi'u dadansoddi yn ôl categori rhanbarth ar gyfer ESF, a lle y bo'n briodol, ERDF)

| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | | **9i-Cynhwysiant Gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Adnabod** | **Dangosydd** | **Uned fesur** | **Cronfa** | **Categori rhanbarth (lle y bo'n berthnasol)** | **Gwerth targed (2023)** | | | **Ffynhonnell data** | **Amlder adrodd** |
| | | | | | **C** | **GN** | **T** | | |
| 1002 | Pobl economaidd anweithgar (25 oed a throsodd), heb fod mewn addysg na hyfforddiant ac sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth (sgiliau isel neu dim sgiliau; anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio; cyfrifoldebau gofal neu ofal plant; dros 54; o gartref heb waith) | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 36,000.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1003 | Pobl ddi-waith yn yr hirdymor (25 oed a throsodd) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth (sgiliau isel neu dim sgiliau; anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio; o grŵp Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig; o gartref heb waith) | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 10,800.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1013A | Di-waith byrdymor â lefel isel o sgiliau, os o gwbl, neu ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 5,999.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1013B | Unigolion y mae diswyddiad yn effeithio arnynt | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 12,001.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |

| Blaenoriaeth fuddsoddi | | 9i-Cynhwysiant Gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Adnabod** | **Dangosydd** | **Uned fesur** | **Cronfa** | **Categori rhanbarth (lle y bo'n berthnasol)** | **Gwerth targed (2023)** | | | **Ffynhonnell data** | **Amlder adrodd** |
| | | | | | **C** | **GN** | **T** | | |
| 1022 | Cyfranogwyr Cyflogedig, gan gynnwys hunangyflogedig ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 4,000.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1023 | Cyfranogwyr a dangyflogir sy'n wynebu rhwystrau i gyflogaeth lawn | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 4,000.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1025 | Nifer y busnesau micro, bach a chanolig sy'n cael cymorth | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 2,000.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1026 | Rhaglenni iechyd yn y gweithle | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 300.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |

## 2.A.7 Arloesedd cymdeithasol, cydweithredu trawswladol a chyfraniad at amcan thematig 1-7

| Echel blaenoriaeth | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy |
|---|---|

1. **Hyrwyddo Arloesedd Cymdeithasol (AC) o fewn yr Echel Blaenoriaeth**
2. Anogir pob gweithrediad i ystyried y cyfleoedd y mae AC yn eu cynnig er mwyn treialu neu ddatblygu dulliau cyflawni arloesol. Anogir gweithrediadau i ystyried opsiynau i gyflawni gweithgareddau AC bach er mwyn ystyried modelau cyflawni amgen neu dargedu grwpiau penodol gyda'r nod o ymgorffori a mwyhau gwaith cyflawni llwyddiannus. Bydd treialu o'r fath ar raddfa fach, yn enwedig drwy waith comisiynu neu gaffael, yn cynnwys y trydydd sector, grwpiau cymunedol a phartneriaid cymdeithasol mewn dull gweithredu seiliedig ar risg lle datblygir modelau cyflawni newydd a all ychwanegu at fodelau cyflawni llwyddiannus sydd eisoes ar waith a'u hategu.
3. Gallai meysydd posibl ar gyfer camau gweithredu AC yn y rhaglen gynnwys y canlynol:
    - targedu grwpiau penodol nas cynrychiolir yn ddigonol gyda'r nod o fwyhau i weithgarwch craidd a chyflawni canlyniadau cydraddoldeb gwell;
    - treialu modelau cyflawni newydd, ar sail risg, yn enwedig o fewn methodoleg gyflawni neu ddulliau gweithredu sefydledig;
    - cefnogi'r gwaith o dreialu a datblygu strategaethau ymadael cynaliadwy drwy brofi modelau cyflawni newydd.
4. Efallai y bydd cyfleoedd AC yn datblygu wrth i weithrediadau ddatblygu. Ni fydd angen i weithgarwch AC gael ei gwmpasu'n llawn. Fodd bynnag, bydd angen i egwyddor a dulliau treialu ac yna brif ffrydio gwersi a ddysgwyd gael eu hamlinellu lle rhagwelir camau gweithredu AC. Dylai fod gan Ymyriadau strategol mwy sail dystiolaeth sy'n dynodi lle byddai'r gwaith o dreialu dulliau gweithredu fwyaf effeithiol.

compare report

| Echel blaenoriaeth | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy |
|---|---|

5. Bydd camau gweithredu AC yn destun gwaith monitro penodol a gwaith gwerthuso mwy manwl gywir gyda'r gwersi a ddysgir yn cael eu lledaenu o fewn gweithrediadau ac ar draws WEFO. Gall camau gweithredu AC ddigwydd fel elfennau ar wahân o weithrediadau strategol mwy neu fel gweithrediadau annibynnol ar wahân.
6. Gallai camau penodol o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon gynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol:
   - Dulliau arloesol o ymgysylltu â'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o anfantais, sydd bellaf o'r farchnad lafur neu sy'n wynebu rhwystrau cymhleth lluosog i gyflogaeth gyda'r nod o wella canlyniadau integreiddio cymdeithasol, cyfranogiad yn y farchnad lafur a chyflogaeth gynaliadwy;
   - Camau arloesol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gofal plant fforddiadwy o ansawdd lle mae gofal plant yn rhwystr i gyflogaeth gynaliadwy;
   - Dulliau arloesol o ymdrin â materion tlodi sy'n ymwneud â thangyflogaeth, gan gynnwys rhwystrau sy'n gysylltiedig ag iechyd, gofal neu ofal plant.
7. Drwy hyn bydd hefyd yn bosibl ymgorffori cysylltiadau â grwpiau LEADER o fewn EAFRD (neu Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd (FLAG) o fewn EMFF). Bydd grwpiau LEADER neu FLAG yn gallu cymryd rhan mewn prosesau comisiynu ar gyfer camau AC, yn enwedig ar gyfer treialu dulliau newydd o weithredu gyda'r nod o brif ffrydio modelau cyflawni llwyddiannus. Bydd y grwpiau hyn hefyd yn gallu gweithio drwy'r dulliau gweithredu rhanbarthol a gofodol a ddisgrifir yn y Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU ac yn Adran 4 o'r RhW hon er mwyn annog prif ffrydio gweithgarwch a ariennir drwy gronfeydd ESI eraill i mewn i gynigion ESF cydweithredol.
8. **Darpariaeth Benodol ar gyfer Cydweithredu Trawswladol**
9. Bydd camau cydweithredu trawswladol yn targedu'r gwaith o ddiwallu anghenion penodol o fewn GCC tra'n cynyddu'r gwerth ychwanegol a all gael ei gyflawni gan gydweithredu trawswladol. Bydd y camau a gymerir yn cynnwys rhanddeiliaid o'r sector cyhoeddus, addysg uwch ac addysg bellach, y trydydd sector a'r sector preifat. Gall gweithrediadau gynnwys gweithgarwch cydweithredu trawswladol yn llawn neu gynnwys cydweithredu trawswladol fel un elfen o fewn y gweithrediad ehangach.
10. Disgwylir i gamau gweithredu gefnogi cydweithredu trawswladol ag Aelod-wladwriaethau eraill sy'n wynebu heriau tebyg i GCC ac sy'n gweithio tuag at nodau cyffredin. Dylai camau gweithredu gefnogi gwaith partneriaeth trawswladol er mwyn rhannu arfer da a datblygu a threialu atebion arloesol, datblygu a rhannu sgiliau a phrofiad lefel uchel a datblygu a rhannu sgiliau ac arbenigedd a wnaiff gefnogi economi fodern sy'n seiliedig ar wybodaeth a marchnad lafur fodern, hyblyg ac ystwyth.
11. Gallai camau penodol o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon gynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol:
   - Camau i rannu arfer da a datblygu dulliau arloesol o gefnogi'r rhai sy'n ddi-waith yn yr hirdymor ac yn economaidd anweithgar sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth i gael mynediad at y farchnad lafur;
   - Camau i rannu arfer da a datblygu dulliau arloesol o ymdrin â rhwystrau sy'n cyfyngu ar symudedd unigolyn cyflogedig yn y farchnad lafur, yn achosi tangyflogaeth neu'n peryglu ei gyflogaeth barhaol.

compare report

| Echel blaenoriaeth | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy |
|---|---|

12. **Cyfraniad yr ESF at Amcanion Thematig 1-7**
13. Bydd buddsoddiadau ESF mewn cyfalaf dynol yn canolbwyntio ar anghenion menter a busnes yn y dyfodol ac yn cyflawni yn eu herbyn, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu economi fodern sy'n seiliedig ar wybodaeth. Bwriedir i fuddsoddiadau ESF a wneir o dan AThau 8, 9 a 10 ategu buddsoddiadau a wneir o dan gronfeydd ESI ATh 1-7 a chyfuno â hwy. Lle gellir dangos ychwanegiad clir at ddarpariaeth o dan EAFRD ac EMFF, bydd unigolion o gymunedau ffermio a physgota yn gallu cael cymorth ESF. Bydd y dull gweithredu hwn yn hwyluso ac yn galluogi'r broses o gyflawni nodau ac amcanion Cronfeydd ESI yng Nghymru yn gyffredinol, ynghyd â chefnogi'r dull integredig o weithredu a amlinellir yn Adran 4.
14. Bydd ymyriadau ESF yn yr Echel Blaenoriaeth hon yn ategu ymyriadau ERDF, EAFRD ac EMFF o dan ATh3 er mwyn ysgogi twf busnes, datblygu cadwyni cyflenwi lleol sy'n cysylltu â chyfleoedd twf economaidd, annog busnesau newydd a gwella cynhyrchiant BBaChau drwy:
    - Gynyddu cyflenwad unigolion sy'n barod i weithio a chysylltu'n well gyflenwad y gweithlu â galw cyflogwyr, gan helpu BBaChau i dyfu a chynyddu cynhyrchiant, gan gynnwys drwy arallgyfeirio ac ehangu i farchnadoedd newydd;
    - Hyrwyddo entrepreneuriaeth a hunangyflogaeth fel dull o alluogi pobl i symud allan o dlodi ac ymgysylltu â'r farchnad lafur, gan sicrhau eu bod yn gallu cael cymorth a chyngor ariannol drwy gronfeydd ESI eraill;
    - Cynyddu cynhyrchiant drwy gefnogi unigolion a busnesau er mwyn mynd i'r afael â thangyflogaeth sy'n deillio o rwystrau yn y gwaith, megis cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio a lleihau nifer yr oriau a gollir oherwydd salwch.
15. Bydd y dull integredig o drechu tlodi ar draws rhaglenni cronfeydd ESI yn gweld ymyriadau ESF o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon yn integreiddio â chamau gweithredu ERDF ac EAFRD o dan ATh4 a 7 er mwyn cynyddu symudedd trefol a llafur i ac o ganolfannau cyflogaeth a threfol allweddol ac er mwyn gwella cysylltedd gwledig. Trwy hyn sicrheir bod ymyriadau ESF i ymdrin â rhwystrau i gael cyflogaeth gynaliadwy yn ategu atebion trafnidiaeth gynaliadwy er mwyn gwella hygyrchedd ffisegol canolfannau cyflogaeth. Hefyd, ategir buddsoddiadau ERDF er mwyn lleihau nifer a gostwng canran y cartrefi sy'n byw mewn tlodi tanwydd o dan ATh4, gan liniaru effeithiau tlodi a galluogi pobl i symud allan o dlodi ac i mewn i gyflogaeth.

compare report

## 2.A.8 Fframwaith perfformiad

**Tabl 6: Fframwaith perfformiad yr echel blaenoriaeth** (yn ôl cronfa ac, ar gyfer ERDF ac ESF, categori rhanbarth)

| **Echel blaenoriaeth** | | | **1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Adnabod** | **Math o Ddangosydd** | **Dangosydd neu gam gweithredu allweddol** | **Uned fesur, lle y bo'n briodol** | **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Carreg filltir ar gyfer 2018** | | | **Targed terfynol (2023)** | | | **Ffynhonnell data** | **Esboniad o berthnasedd dangosydd, lle y bo'n briodol** |
| | | | | | | **C** | **GN** | **T** | **C** | **GN** | **T** | | |
| P1F | F | Gwariant Cymwys | Ewros | ESF | Llai datblygedig | | | 53,000,000 | | | 238,000,000.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | |
| 1002 | H | Pobl economaidd anweithgar (25 oed a throsodd), heb fod mewn addysg na hyfforddiant ac sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth (sgiliau isel neu dim sgiliau; anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio; cyfrifoldebau gofal neu ofal plant; dros 54; o gartref heb waith) | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 9,182 | | | 36,000.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Mae cyfranogwyr anweithgar a chyfranogwyr hirdymor ill dau yn sicrhau cynrychiolaeth briodol o'r flaenoriaeth a'i Blaenoriaeth Fuddsoddi. Gyda'i gilydd, maent yn cwmpasu tua 60% o weithgareddau o dan yr Echel Blaenoriaeth yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a'r holl Echel Blaenoriaeth yn Nwyrain Cymru. |
| 1003 | H | Pobl ddi-waith yn yr hirdymor (25 oed a throsodd) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth (sgiliau isel neu dim sgiliau; anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio; o grŵp Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig; o gartref heb waith) | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 2,755 | | | 10,800.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Mae cyfranogwyr anweithgar a chyfranogwyr hirdymor ill dau yn sicrhau cynrychiolaeth briodol o'r flaenoriaeth a'i Blaenoriaeth Fuddsoddi. Gyda'i gilydd, maent yn cwmpasu tua 60% o weithgareddau o dan yr Echel Blaenoriaeth yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a'r holl Echel Blaenoriaeth yn Nwyrain Cymru. |

### Gwybodaeth ansodddol ychwanegol am sefydlu'r fframwaith perfformiad

1. *Dangosyddion ariannol*
2. Targed 2023 yw cyfanswm y dyraniad Gwariant Cymwys ar gyfer yr Echel Blaenoriaeth, tra bod targed 2018 yn seiliedig ar Wariant Cymwys N+3.
3. *Dangosyddion allbwn*
4. Roedd y camau cyffredinol a gymerwyd i bennu targedau o fewn rhaglen ESF GCC 2014-2020 a rhaglen ESF DC yn cynnwys mapio gweithgarwch o brosiectau priodol a chymaradwy wedi'u hariannu o dan Raglen Gydgyfeirio ESF GCC 2007-2013. Dewiswyd y rhain er mwyn adlewyrchu orau y camau wedi'u targedu a'r gweithgarwch arfaethedig i'w ariannu fel yr amlinellir yn Rhaglenni ESF 2014-2020. Cafodd cyflawniadau prosiectau hyd yn hyn o ran gweithgarwch wedi'i fapio eu cymharu â'r gwariant hyd yn hyn a chafodd targedau terfynol cyfredol prosiectau eu cymharu â chyfanswm y dyraniad ariannol. Yna cafodd y cymarebau eu graddio yn ôl dyraniadau ariannu dangosol o dan Amcanion Penodol y dyfodol pob un o'r Blaenoriaethau Buddsoddi er mwyn pennu cyfres o dargedau ar gyfer y dangosyddion.
5. Mewn rhai achosion, lle'r oedd uchelgais rhaglenni 2014-2020 yn wahanol iawn i'r hyn a gyflawnwyd yn 2007-13, cymerir camau seiliedig ar bolisi gan ddewis targedau cymaradwy sy'n adlewyrchu pwyslais y rhaglen o fewn pob blaenoriaeth a'r dyheadau a'r amcanion ar gyfer newid.. Ymhob achos, defnyddir tystiolaeth o gostau Uned ac ati o fewn y rhaglen gyfredol i sicrhau bod y targedau hyn sy'n seiliedig ar bolisi yn gyflawnadwy o fewn y paramedrau ariannu sydd ar gael. Yn ogystal, defnyddir Ystadegau Gwladol, lle maent ar gael, yn seiliedig ar y gyfran gyfredol o'r boblogaeth ar gyfer grwpiau demograffig allweddol, er mwyn darparu targedau dyheadol i sicrhau bod cronfeydd yn cael eu dosbarthu'n deg. Ategir hyn gan dystiolaeth a phrofiad ychwanegol o gyfnod rhaglennu cyfredol 2007-2013 a'r targedu a amlinellir yn y rhaglenni ESF arfaethedig. Mewn rhai achosion defnyddiwyd cyfuniad o'r dulliau hyn.

compare report

6. Targedau 2023 yw’r rhai terfynol ar gyfer y dangosydd Allbwn hwn o dan yr Echel Blaenoriaeth, tra bod targedau 2018 yn seiliedig ar yr un gymhareb â tharged Dangosydd Ariannol 2018, a chostau uned.

### 2.A.9 Categorïau ymyrryd

Categorïau ymyrryd sy’n cyfateb i gynnwys yr echel blaenoriaeth yn seiliedig ar gyfundrefn enwi a fabwysiadwyd gan y Comisiwn, a dadansoddiad dangosol o gymorth yr Undeb.

### Tablau 7-11: Categorïau ymyrryd

**Tabl 7: Dimensiwn 1 - Maes ymyrryd**

| **Echel blaenoriaeth** | | **1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy** | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 109. Cynhwysiant Gweithredol, gan gynnwys gyda’r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd | 187,774,437.00 |

compare report

**Tabl 8: Dimensiwn 2 - Math o gyllid**

| **Echel blaenoriaeth** | | **1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy** | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 01. Grant nad yw’n ad-daladwy | 187,774,437.00 |

**Tabl 9: Dimensiwn 3 - Math o diriogaeth**

| **Echel blaenoriaeth** | | **1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy** | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 01. Ardaloedd Trefol Mawr (poblog iawn poblogaeth >50 000) | 23,077,478.00 |
| ESF | Llai datblygedig | 02. Ardaloedd trefol bach (dwysedd canolrannol poblogaeth >5 000) | 137,770,104.00 |
| ESF | Llai datblygedig | 03. Ardaloedd gwledig (tenau eu poblogaeth) | 26,926,855.00 |

**Tabl 10: Dimensiwn 4 - Dulliau cyflawni tiriogaethol**

| Echel blaenoriaeth | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy | | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 07. Ddim yn gymwys | 187,774,437.00 |

**Tabl 11: Dimensiwn 6 - Thema eilaidd ESF** (ESF a YEI yn unig)

| Echel blaenoriaeth | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy | | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 02. Arloesedd cymdeithasol | 48,991,109.00 |
| ESF | Llai datblygedig | 08. Ddim yn gymwys | 146,973,328.00 |

## 2.A.10 Crynodeb o'r defnydd arfaethedig o gymorth technegol gan gynnwys, lle y bo angen, gamau i atgyfnerthu adnoddau gweinyddol awdurdodau sydd ynghlwm wrth brosesau rheoli'r rhaglenni a buddiolwyr (lle y bo'n briodol) (yn ôl echel blaenoriaeth)

| Echel blaenoriaeth: | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy |
|---|---|
| 1. Ymdrinnir â'r defnydd arfaethedig o Gymorth Technegol yn yr Echel Blaenoriaeth benodol ar gyfer Cymorth Technegol. | |

compare report

### 2.A.1 Echel blaenoriaeth

| | |
|---|---|
| **Rhif adnabod yr echel blaenoriaeth** | 2 |
| **Teitl yr echel blaenoriaeth** | Sgiliau ar gyfer Twf |

☐ Caiff yr echel blaenoriaeth gyfan ei gweithredu drwy offerynnau ariannol yn unig
☐ Caiff yr echel blaenoriaeth gyfan ei gweithredu drwy offerynnau ariannol yn unig a sefydlwyd ar lefel yr Undeb
☐ Caiff yr echel blaenoriaeth gyfan ei gweithredu drwy waith datblygu lleol a arweinir gan y gymuned
☐ Ar gyfer ESF: Mae'r echel blaenoriaeth gyfan yn ymrwymedig i arloesedd cymdeithasol neu gydweithredu trawswladol, neu'r ddau
☐ Ar gyfer ERDF: Mae'r echel blaenoriaeth gyfan wedi'i neilltuo ar gyfer gweithrediadau sydd wedi'u hanelu at ailadeiladu mewn ymateb i drychinebau mawr neu naturiol rhanbarthol
☐ Ar gyfer ERDF: Mae'r echel blaenoriaeth gyfan wedi'i neilltuo ar gyfer BBaChau (Erthygl 39)

**2.A.2 Cyfiawnhad dros sefydlu echel blaenoriaeth sy'n cwmpasu mwy nag un categori o ranbarth, amcan thematig neu gronfa** (lle y bo'n gymwys)

1. Datblygwyd yr Echel Blaenoriaeth yn unol â nodau ac amcanion y rhaglen ESF yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCC) ac yn arbennig:
2. *Nod:*
    - *Buddsoddi mewn sgiliau fel ysgogwr cynhyrchiant a thwf, cefnogi datblygiad gyrfa a gwella cymysgedd sgiliau ac amrywiaeth ein gweithlu.*
3. *Amcanion:*
    - *Cynyddu lefelau sgiliau'r gweithlu, cynyddu nifer y bobl sydd wedi cymhwyso i lefel ganolraddol neu uwch, lleihau nifer y bobl heb unrhyw sgiliau neu sgiliau sylfaenol yn unig a chynyddu sgiliau lefel uwch ym maes ymchwil ac arloesedd*
    - *Lleihau anghydraddoldebau yn y farchnad lafur ymhlith menywod a grwpiau cydraddoldeb cydnabyddedig.*
4. Fel y cydnabyddir yn yr Argymhellion sy'n Benodol i Wlad, mae buddsoddi mewn sgiliau yn ffactor ysgogi allweddol wrth ddatblygu economi fodern sy'n seiliedig ar wybodaeth ac wrth ymateb i newidiadau economaidd ac addasu iddynt[1][2]. Ceir cysylltiad cryf rhwng cymwysterau a sgiliau, cyflogaeth ac enillion, â'r rhai mewn gwaith rhan amser sy'n fwy tebygol o feddu ar lefel isel o sgiliau[3], sy'n pwysleisio rôl datblygu sgiliau wrth ymdrin â thlodi mewn gwaith, uwchsgilio'r rhai â sgiliau sylfaenol, os o gwbl, er mwyn eu helpu i ddatblygu o fewn y farchnad lafur[4][5].
5. Mae'r Echel Blaenoriaeth wedi cael ei datblygu i gydgysylltu buddsoddiad sgiliau yng ngweithlu GCC. Bydd Gwybodaeth am y Farchnad Lafur yn ategu buddsoddiadau ac yn sicrhau bod ymyriadau'n diwallu anghenion meysydd twf economaidd allweddol a chyfleoedd yng Nghymru.
6. Bydd y fframwaith hwn ac Amcanion Thematig cysylltiedig y Comisiwn Ewropeaidd, (9) *(8) – hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd a chefnogi symudedd llafur* a (9) (10) - *Buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes*)

compare report

sy'n canolbwyntio ar ddull gweithredu a arweinir gan y galw, yn sicrhau bod gan gyflogwyr weithlu sydd â chymwysterau addas a bod lefelau datblygu sgiliau a chyrhaeddiad yn gyson â gweithgarwch twf. Hefyd, drwy uwchsgilio gweithwyr â lefel isel o sgiliau ac felly ymdrin â ffactor cyfranogol pwysig i dlodi mewn gwaith, bydd yn ategu Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy, fel rhan o ddull integredig o drechu tlodi.

7. Mae cynnwys y Flaenoriaeth Fuddsoddi seiliedig ar gydraddoldeb o fewn Amcan Thematig (8) yn seiliedig ar brofiad a llwyddiant y dull gweithredu hwn yn rhaglenni ESF 2007-2013. Bydd buddsoddi yn sgiliau menywod yn y gweithlu, fel rhan o'r flaenoriaeth sgiliau ehangach, yn darparu dull integredig cydlynol thematig o ymgorffori ymyriadau sgiliau ar sail anghenion yr economi a chyflogwyr. Bydd hyn hefyd yn ategu camau cydraddoldeb ar draws y rhaglenni ac amcanion y Themâu Trawsbynciol.
8. Diwallu anghenion cyflogwyr a'r economi ehangach fydd egwyddor sylfaenol yr holl ymyriadau sgiliau a arweinir gan alw o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon. Caiff galw ei gyfleu mewn sawl ffordd, gan gynnwys yn uniongyrchol drwy gyflogwyr neu drwy dystiolaeth ymchwil ar feysydd cyfle neu dwf economaidd.

[1] Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) (2009); *Economic Impact of Training and Education in Basic Skills.Summary of Evidence*

[2] UKCES (2010), *The Value of Skills: An Evidence Review*, Gorffennaf

compare report

[3] Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (2013); *Skills and the Quality of Work in Wales, 2006-2012*: *pennod 3:Broad Skills*

[4] Llywodraeth Cymru (2013); *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi*

[5] Y Comisiwn Ewropeaidd (2010), Platform against Poverty, COM(2010) 758 Terfynol

### 2.A.3 Cronfa, categori rhanbarth a sail gyfrifo ar gyfer cymorth yr Undeb

| Cronfa | Categori rhanbarth | Y sail gyfrifo (cyfanswm y gwariant cymwys neu wariant cyhoeddus cymwys) | Categori rhanbarth ar gyfer y rhanbarthau pellaf a gogleddol prin eu poblogaeth (lle y bo'n briodol) |
|---|---|---|---|
| ESF | Llai datblygedig | Cyfanswm | |

## 2.A.4 Blaenoriaeth fuddsoddi

| | |
|---|---|
| **Rhif adnabod y flaenoriaeth fuddsoddi** | 10iii |
| **Teitl y flaenoriaeth fuddsoddi** | Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir |

## 2.A.5 Amcanion penodol sy'n cyfateb i'r flaenoriaeth fuddsoddi a'r canlyniadau disgwyliedig

| | |
|---|---|
| **Rhif adnabod yr amcan penodol** | 2.1 |
| **Teitl yr amcan penodol** | Cynyddu lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau sy'n berthnasol i waith, y rhai yn y gweithlu sydd â sgiliau isel os o gwbl |
| **Canlyniadau y mae'r Aelod-wladwriaethau yn ceisio eu cyflawni gyda chymorth yr Undeb** | 1. Prif ffocws yr Amcan Penodol hwn yw gwella lefelau sgiliau a chymwysterau, gan gynnwys sgiliau galwedigaethol, unigolion cyflogedig (gan gynnwys y rhai hunangyflogedig) yn GCC sydd â lefel isel o sgiliau, os o gwbl. Bydd yn targedu'r rhai â chymwysterau ISCED Lefel 2 (addysg uwchradd isaf) neu is, gan gynnwys y rhai heb unrhyw gymwysterau ffurfiol, gan ganolbwyntio ar wella eu lefelau cymwysterau ac ymdrin â'r bylchau mewn sgiliau ar y lefel hon.<br>2. Fel y nodir yn y Strategaeth, o blith yr oedolion hynny o oedran gweithio a gyflogir yng Nghymru, mae'r ffigurau mwyaf diweddar yn dangos nad oes gan tua 43% unrhyw gymwysterau neu mae'n lefel isel (hyd at ac yn cynnwys NQF Lefel 2). Ar lefel fanylach, o blith yr oedolion o oedran gweithio mewn cyflogaeth, nid oes gan 6.9% unrhyw gymwysterau o gwbl, tra bod gan 14.1% gymwysterau islaw NQF Lefel 2 ac mae gan 21.7% gymwysterau NQF lefel 2.<br>3. Er nad oes unrhyw fesurau penodol ar gyfer bylchau mewn sgiliau, mae ymchwil yn awgrymu eu bod yn fwy cyffredin ymhlith galwedigaethau llai medrus, gyda sgiliau sy'n benodol i'r gwaith (sgiliau technegol, ymarferol a phenodol i'r gwaith) a sgiliau hanfodol a sylfaenol (fel cynllunio a threfnu, cyfathrebu ar lafar, ymdrin â chwsmeriaid a datrys problemau) yn cael eu nodi'n enghreifftiau o brinder sgiliau.[1] Mae hyn yn dynodi bod angen nid yn unig gynyddu'r lefel lle mae'r rhai â lefel isel o sgiliau, os o gwbl, yn ennill cymwysterau ond hefyd sicrhau eu bod yn ennill cymwysterau mewn sgiliau sy'n berthnasol i anghenion cyflogwyr. Felly, bydd y canlyniadau uniongyrchol yn canolbwyntio ar nifer yr aelodau o'r grŵp targed penodol sy'n ennill cymwysterau ISCED Lefelau 1 a 2 mewn sgiliau hanfodol a thechnegol neu benodol i'r gwaith. Bydd y canlyniadau hyn yn gwella lefelau cymwysterau'r rhai â lefel isel o sgiliau, os o gwbl, ac yn uwchraddio ac yn diweddaru sgiliau'r rhai sydd eisoes wedi ennill cymwysterau ISCED Lefelau 1 a 2, gan roi'r sgiliau a'r cymwysterau sy'n berthnasol i anghenion cyflogwyr iddynt. |

compare report

| | |
|---|---|
| | 4. Caiff effaith tymor hwy yr ymyriadau hyn ar lefelau sgiliau cyffredinol y gweithlu ei mesur drwy werthuso rhaglenni, a wnaiff ystyried effaith ymyriadau ESF yng nghyd-destun yr amrywiaeth o ffactorau allanol sy'n dylanwadu ar y mesurau hyn.<br>5. Pennwyd llinellau sylfaen ar gyfer y dangosyddion canlyniadau yn seiliedig ar weithgarwch cymaradwy a gefnogir drwy ddarpariaeth ESF flaenorol. Defnyddiwyd canfyddiadau o Arolwg yr ESF o'r Bobl a Adawodd yn 2012 er mwyn helpu i nodi targedau uchelgeisiol ond cyflawnadwy sy'n cynrychioli cynnydd gwirioneddol ar y llinellau sylfaen ac yn adlewyrchu ein dyheadau o fewn dyluniad y rhaglenni ar gyflawni cymwysterau gan y grŵp targed.<br><br>[1] UKCES (2013), Employer Skills Survey 2013 – Wales report |
| **Rhif adnabod yr amcan penodol** | 2.2 |
| **Teitl yr amcan penodol** | Cynyddu nifer y bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a phenodol i waith ar lefel ganolraddol ac uwch. |
| **Canlyniadau y mae'r Aelod-wladwriaethau yn ceisio eu cyflawni gyda chymorth yr Undeb** | 1. Prif ffocws yr Amcan Penodol hwn, yn unol â'r Argymhellion sy'n Benodol i Wlad, fydd cynyddu nifer y bobl yn y gweithlu yn GCC sydd â sgiliau technegol a phenodol i waith ar lefel ganolraddol ac uwch. Bydd yn targedu'r rhai sydd â chymwysterau i ISCED Lefel 2 (addysg uwchradd is) ac uwch, gan eu datblygu i ISCED Lefel 3 (addysg uwchradd uwch) o leiaf, tra hefyd yn uwchraddio ac yn diweddaru sgiliau'r rhai sydd eisoes wedi ennill cymwysterau i ISCED Lefel 3 ac uwch.<br>2. Fel y nodwyd yn y Strategaeth, o blith yr oedolion o oedran gweithio sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru, dengys y ffigurau mwyaf diweddar fod gan 21.7% gymwysterau NQF lefel 2, tra bod 57.3% yn gymwys i NQF lefel 3 neu uwch ac mae 37.2% yn gymwys i NQF lefel 4 ac uwch.<br>3. Nid yw'r mesurau hyn yn darparu mesurau uniongyrchol o berthnasedd na natur gyfredol sgiliau'r gweithlu. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dangos bod prinder sgiliau parhaus ar lefel ganolraddol[1], tra bod tua 69 o'r holl swyddi gwag lle ceir prinder sgiliau wedi'u priodoli i ddiffyg sgiliau technegol, ymarferol neu benodol i waith[2]. Yn 2013, nododd 39% o gyflogwyr yn y DU sy'n recriwtio staff â sgiliau a gwybodaeth STEM eu bod yn ei chael hi'n anodd recriwtio sgiliau o'r fath[3] tra bod 72% o gyflogwyr yn disgwyl y bydd angen i rai o'u staff o leiaf gaffael sgiliau neu wybodaeth newydd dros y 12 mis nesaf. Ymhlith y rhesymau cyffredin dros |

compare report

| | |
|---|---|
| | uwchsgilio mae gofynion deddfwriaethol neu reoliadol newydd, cyflwyno technolegau neu gyfarpar newydd, cyflwyno arferion gwaith newydd a datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd.[4]<br>4. Felly, bydd y canlyniadau uniongyrchol yn canolbwyntio ar nifer yr aelodau o'r grŵp targed penodol sy'n ennill cymwysterau ISCED Lefelau 3 ac uwch mewn sgiliau technegol a phenodol i'r gwaith. Bydd y canlyniadau hyn yn cynyddu'r nifer sy'n ennill cymwysterau i ISCED Lefel 3 ac uwch ac yn diweddaru sgiliau'r rhai sydd eisoes wedi ennill cymwysterau i'r lefel honno, gan sicrhau bod eu cymwysterau a'u set sgiliau yn gyfredol ac yn berthnasol i anghenion cyflogwyr.<br>5. Caiff effaith tymor hwy yr ymyriadau hyn ar lefelau sgiliau cyffredinol y gweithlu ei mesur drwy werthuso rhaglenni, a wnaiff ystyried effaith ymyriadau ESF yng nghyd-destun yr amrywiaeth o ffactorau allanol sy'n dylanwadu ar y mesurau hyn.<br>6. Pennwyd llinellau sylfaen ar gyfer y dangosyddion canlyniadau yn seiliedig ar weithgarwch cymaradwy a gefnogir drwy ddarpariaeth ESF flaenorol. Pennwyd targedau er mwyn adlewyrchu cynnydd gwirioneddol ar y llinellau sylfaen, gan adlewyrchu ein dyheadau yn nyluniad y rhaglen ar gyflawni cymwysterau gan y grŵp targed.<br>compare report<br>[1] UKCES, Wales Future Skills Assessment ac UKCES (2013), *Employer Skills Survey 2013 – Wales report*<br>[2] UKCES (2013), *Employer Skills Survey 2013 – Wales report*<br>[3] Pearson/CBI Education ac Arolygon Sgiliau 2008 a 2013<br>[4] UKCES (2013), *Employer Skills Survey 2013 – Wales report* |
| **Rhif adnabod yr amcan penodol** | 2.3 |
| **Teitl yr amcan penodol** | Cynyddu nifer y bobl â graddau neu gymhwyster cyfatebol sy'n cyflawni gweithgareddau ymchwil ac arloesedd ym myd busnes. |
| **Canlyniadau y mae'r Aelod-wladwriaethau yn ceisio eu cyflawni gyda chymorth yr Undeb** | 1. Prif ffocws yr Amcan Penodol hwn fydd cynyddu nifer yr unigolion sydd â sgiliau lefel uwch ym maes ymchwil ac arloesedd er mwyn cefnogi uchelgais ehangach i Gymru i gynyddu gweithgarwch ymchwil ac arloesedd o fewn busnesau[1]. Bydd ymyriadau yn canolbwyntio ar feysydd yr Her Fawr fel y'u nodwyd yn *Gwyddoniaeth i Gymru: Agenda strategol ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd yng Nghymru*[2], a hwyluso'r |

broses o fasnacheiddio ymchwil. Caiff camau gweithredu eu targedi at y rhai sydd wedi graddio neu wedi ennill cymhwyster cyfatebol o leiaf.

2. Mae arloesedd yn dibynnu ar bobl sy'n gallu cynhyrchu a chymhwyso gwybodaeth a syniadau yn y gweithle; mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn argymell ffocws ar alluogi pobl i ddysgu sgiliau arloesedd a defnyddio'r sgiliau hyn yn y ffordd orau bosibl yn y gwaith.[3] Fodd bynnag, dengys ffigurau o 2012, o blith pedair gwlad y DU, mai Cymru sydd â'r ganran isaf o oedolion o oedran gweithio sydd wedi cymhwyso i NQF Lefel 7-8 (8.1% yn Lloegr, 8.2% yn yr Alban, 7.4% yng Nghymru a 7.5% yng Ngogledd Iwerddon). Mae'r gyfradd ganrannol i Gymru, sef 7.4% hefyd islaw cyfartaledd y DU, sef 8.1%.[4] At hynny, nododd Arolwg Arloesedd y DU[5] mai dim ond 15% o fusnesau sy'n arloesi yn cydweithredu â phrifysgolion yn y DU. Er nad yw'r ffigur hwn yn benodol i GCC, mae'n awgrymu bod cryn le i sicrhau mwy o ryngweithio rhwng busnesau a sefydliadau addysg uwch.
3. Felly, bydd y canlyniadau uniongyrchol yn canolbwyntio ar gynyddu'r cyflenwad o unigolion sy'n ymgymryd â gweithgareddau ymchwil ac arloesedd ar Lefelau 7-8 cymwysterau ISCED ar y cyd â'r sector preifat ac wedi'i lywio gan anghenion y sector hwnnw ac yn canolbwyntio ar feysydd yr Her Fawr. Caiff hyn ei gyflawni drwy fesur nifer y busnesau sy'n cydweithredu â darparwyr dysgu mewn gweithgareddau ymchwil ac arloesedd a nifer yr unigolion sy'n ennill cymhwyster pan fyddant yn gadael (ISCED Lefel 7 neu 8).
4. Efallai y bydd yn bosibl hefyd, drwy werthuso, ystyried, gan gynnwys yr holl ffactorau allanol sy'n dylanwadu ar y mesurau hyn, effaith yr ymyriadau ESF hyn yn y tymor hwy ar fesurau ehangach gweithgarwch ymchwil ac arloesedd o fewn busnesau a chydweithrediad rhwng busnesau a phrifysgolion.
5. Mae llinellau sylfaen a thargedau ar gyfer cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau ISCED 7 ac 8 wedi bod yn seiliedig, yn fras, ar weithgarwch cymaradwy a gefnogir drwy ddarpariaeth ESF flaenorol. Fodd bynnag, yn unol â dyheadau ein rhaglen, mae cwmpas y gweithgarwch hwn dipyn yn dynnach nag mewn rhaglenni blaenorol, felly ystyrir bod cadw'r llinell sylfaen yn darged trwyadl a heriol. Mae'r dangosydd canlyniadau o ran cyfranogwyr mewn cyflogaeth ar ôl gadael y rhaglen yn fesur newydd ar gyfer ESF. Mae llinellau sylfaen a gwerthoedd targed wedi cael eu pennu ar sail ffigurau yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch o ran cyrchfannau'r rhai sy'n gadael addysg uwch, cyrsiau ôl-raddedig.

compare report

[1] Fel y nodwyd yn Llywodraeth Cymru (2014); *Arloesi Cymru – Strategaeth Arloesi Cymru*

| | |
|---|---|
| | [2] Mae meysydd yr Her Fawr "Gwyddorau Bywyd ac Iechyd"; "Uwch Beirianneg a Deunyddiau"; "Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd"; a "TGCh a'r Economi Ddigidol" yn pennu ffocws ar gyfer gweithgareddau ymchwil arloesol yng Nghymru yn adeiladu ar gryfderau sy'n bodoli eisoes ac yn darparu llwybrau clir o ymchwil i fasnacheiddio.<br><br>[3] Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2011); *Skills for Innovation and Research*<br><br>[4] UKCES (Tachwedd 2012); *UK Skill levels and international competitiveness Evidence Report 70*<br><br>[5] *UK Innovation Survey 2011* (2012), BIS |

compare report

**Tabl 4: Dangosyddion canlyniadau cyffredin y mae gwerth targed wedi'i bennu ar eu cyfer a dangosyddion canlyniadau rhaglen benodol sy'n cyfateb i'r amcan penodol (yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi a chategori rhanbarth)** (ar gyfer ESF)

**Blaenoriaeth fuddsoddi : 10iii - Gwella mynediad cyfartal at ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir**

| Rhif Adnabod | Dangosydd | Categori rhanbarth | Uned fesur ar gyfer dangosydd | Dangosydd allbwn cyffredin a ddefnyddir fel sail i bennu targedau | Gwerth sylfaenol | | | Uned fesur ar gyfer llinell sylfaen a tharged | Blwyddyn sylfaenol | Gwerth targed (2023) | | | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | C | GN | T | | | C | GN | T | | |
| 1108F | Cyfranogwyr â gradd neu gymhwyster cyfatebol sydd mewn cyflogaeth pan fyddant yn gadael - benyw | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 48.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 52.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1108M | Cyfranogwyr â gradd neu gymhwyster cyfatebol sydd mewn cyflogaeth pan fyddant yn gadael - gwryw | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 48.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 52.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1174F | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol, sy'n meithrin sgiliau hanfodol neu'n ennill cymhwyster technegol neu benodol i waith pan fyddant yn gadael - Benyw | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 34.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 72.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1174M | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol sy'n meithrin sgiliau hanfodol neu'n ennill cymhwyster technegol neu benodol i waith pan fyddant yn gadael - Gwryw | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 38.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 72.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1175F | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig sydd â hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is (ISCED 2) sy'n meithrin sgiliau hanfodol neu'n ennill cymhwyster technegol neu benodol i waith ar lefel uwchradd is (ISCED 2) pan fyddant yn gadael - benyw | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 34.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 72.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1175M | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig sydd â hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is (ISCED 2) sy'n meithrin sgiliau hanfodol neu'n ennill cymhwyster technegol neu benodol i waith ar lefel uwchradd is (ISCED 2) pan fyddant yn gadael - Gwryw | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 38.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 72.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1177F | Cyfranogwyr â gradd neu gymhwyster cyfatebol sy'n ennill cymhwyster pan fyddant yn gadael ar lefel Meistr (ISCED 7) neu Ddoethuriaeth (ISCED 8) - benyw | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 63.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 63.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1177M | Cyfranogwyr â gradd neu gymhwyster cyfatebol sy'n ennill cymhwyster pan fyddant yn gadael ar lefel Meistr (ISCED 7) neu Ddoethuriaeth (ISCED 8) - gwryw | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 63.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 63.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1180F | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (ISCED 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i waith pan fyddant yn gadael ar lefel uwchradd uwch (ISCED 3) neu uwch - benyw | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 57.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 60.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1180M | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (ISCED 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i waith pan fyddant yn gadael ar lefel uwchradd uwch (ISCED 3) neu uwch - gwryw | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 57.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 60.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1181F | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig ag addysg uwchradd uwch (ISCED 3) neu uwch sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i waith ar lefel uwchradd uwch (ISCED 3) pan fyddant yn gadael - benyw | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 44.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 60.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1181M | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig ag addysg uwchradd uwch (ISCED 3) neu uwch sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i waith ar lefel uwchradd uwch (ISCED 3) pan fyddant yn gadael - gwryw | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 44.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 60.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |

compare report

## 2.A.6 Cam gweithredu i'w gefnogi o dan y flaenoriaeth fuddsoddi (yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi)

### *2.A.6.1 Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt, ynghyd â'u cyfraniad disgwyliedig i'r amcanion penodol gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nodi prif grwpiau targed, tiriogaethau penodol a dargedir a mathau o fuddiolwyr*

| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | 10iii - Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir |
|---|---|

1. **Amcan Penodol 1**
2. Wrth gyflawni yn erbyn Amcan Penodol 1, bydd y camau a gymerir o dan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon yn gweithredu fel rhan o Echel Blaenoriaeth gydgysylltiedig er mwyn sicrhau bod y gweithlu yn GCC yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i alluogi twf a mwy o gynhyrchiant tra hefyd yn hwyluso datblygiad gyrfa a threchu tlodi mewn gwaith. Bydd y camau a gymerir yn targedu unigolion cyflogedig a hunangyflogedig sydd â lefel isel o sgiliau, os o gwbl, gyda'r nod o feithrin sgiliau hanfodol a pherthnasol i waith hyd at ISCED Lefel 2. Bydd

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 10iii - Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir |
|---|---|

y camau a gymerir yn rhoi blaenoriaeth i gyflawni cymwysterau fel y prif allbwn. Fodd bynnag, bydd unigolion yn cael cymorth i ddilyn hyfforddiant a dysgu ymhellach lle y bo'n briodol.

3. Caiff camau gweithredu eu cydgysylltu fel rhan o'r Echel Blaenoriaeth gyffredinol er mwyn cefnogi ymyriadau a arweinir gan alw i ymdrin â bylchau mewn sgiliau allweddol yn y farchnad lafur a all helpu i gyflawni twf economaidd a datblygiad unigol. Bydd Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (GFL), a nodir gan ddefnyddio galw busnesau ac ymchwil economaidd, yn allweddol i gefnogi ymyriadau wedi'u targedu.
4. Erys sgiliau hanfodol a sylfaenol, fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau Llywodraeth Cymru[1], yn flaenoriaeth o hyd. Ategir hyn gan ddatblygiad sgiliau technegol neu benodol i waith a arweinir gan alw. Bydd buddsoddiadau yn canolbwyntio ar ddatblygu i ISCED Lefel 2 er mwyn cynyddu budd posibl y buddsoddiad mewn sgiliau ac effeithiau cadarnhaol posibl ar drechu tlodi mewn gwaith.
5. Mae dros 90% o swyddi newydd yn gofyn am sgiliau rhyngrwyd sylfaenol, gyda nifer gynyddol o gyfleoedd gwaith a datblygu yn cael eu hysbysebu ar-lein. Felly, cymerir camau i feithrin sgiliau er mwyn dileu'r rhwystrau i ymgysylltu â thechnoleg.
6. Gallai'r camau dangosol a allai gael eu cymryd i gefnogi **Amcan Penodol 1** a'r grwpiau targed a nodwyd uchod gynnwys:
    - Camau i ddarparu sgiliau sylfaenol a hanfodol ar gyfer ISCED Lefelau 1 (cynradd) a 2 (addysg uwchradd is) ar gyfer unigolion cyflogedig sydd â lefel isel o sgiliau (cymwysterau hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is ISCED Lefel 2) neu sydd heb unrhyw gymwysterau ffurfiol.
    - Camau i ddarparu cymwysterau galwedigaethol technegol neu benodol i waith ar gyfer ISCED Lefelau 1 (cynradd) a 2 (addysg uwchradd is) ar gyfer unigolion cyflogedig sydd â lefel isel o sgiliau (cymwysterau hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is ISCED Lefel 2) neu sydd heb unrhyw gymwysterau ffurfiol.
    - Darparu prentisiaethau ar gyfer ISCED Lefelau 1 a 2 ar gyfer unigolion yn y grwpiau targed, a chamau i annog argaeledd prentisiaethau a'u derbyn;
    - Meithrin sgiliau ar gyfer ISCED Lefelau 1 a 2 er mwyn dileu'r rhwystrau i ddefnyddio technoleg, megis sgiliau digidol, gostwng cyfraddau ynysu cymdeithasol a sicrhau bod mwy o bobl yn achub ar gyfleoedd datblygu yn y gwaith ar-lein.
7. **Amcan Penodol 2**
8. Wrth gyflawni yn erbyn Amcan Penodol 2, bydd y camau a gymerir o dan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau technegol a phenodol i waith canolraddol a lefel uwch ar gyfer ISCED Lefel 3 ac uwch.
9. Bydd y camau gweithredu yn cydnabod bod galluogi unigolion cyflogedig i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i lywio twf economaidd yn cynnwys uwchsgilio ein gweithlu yn ogystal â diweddaru a mireinio sgiliau sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol. Felly, bydd y camau a gymerir yn targedu unigolion sydd â chymwysterau ISCED Lefel 2, gyda'r nod o'u datblygu i ISCED Lefel 3 ac uwch, ac unigolion sydd eisoes yn meddu ar gymwysterau ISCED Lefelau 3 ac uwch, gan sicrhau bod eu sgiliau yn dal i fod yn gyfredol a'u bod yn diwallu anghenion cyflogwyr.

compare report

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 10iii - Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir |
|---|---|

10. Wrth gyflawni hyn, bydd camau gweithredu yn datblygu sgiliau galwedigaethol technegol a phenodol i waith ar gyfer ISCED Lefel 3 neu uwch. Bydd y camau a gymerir yn rhoi blaenoriaeth i gyflawni cymwysterau fel y prif allbwn. Fodd bynnag, bydd unigolion yn cael cymorth i ddilyn hyfforddiant a dysgu ymhellach lle y bo'n briodol.
11. Caiff camau gweithredu eu cydgysylltu fel rhan o'r Echel Blaenoriaeth gyffredinol er mwyn cefnogi ymyriadau a arweinir gan alw i ymdrin â bylchau mewn sgiliau allweddol yn y farchnad lafur a all helpu i gyflawni twf economaidd a datblygiad unigol. Cynllunnir camau gweithredu i ddiwallu anghenion cyflogwyr, hwyluso twf sefydliadau a'u gallu i addasu i heriau economaidd a heriau o fewn y farchnad lafur a helpu unigolion i ffynnu a datblygu o fewn y farchnad lafur.
12. Gallai'r camau dangosol a allai gael eu cymryd i gefnogi **Amcan Penodol 2** a'r grwpiau targed a nodwyd uchod gynnwys:
    - Darparu prentisiaethau a phrentisiaethau lefel uwch ar gyfer ISCED Lefel 3 (addysg uwchradd uwch) neu uwch ar gyfer unigolion yn y grwpiau targed, a chamau i annog argaeledd prentisiaethau a phrentisiaethau lefel uwch a'r defnydd ohonynt;
    - Camau i ddarparu cymwysterau galwedigaethol technegol a phenodol i waith lefel uwch ar gyfer ISCED Lefel 3 (addysg uwchradd uwch) ac uwch ar gyfer unigolion cyflogedig yn y grwpiau targed er mwyn uwchsgilio'r gweithlu ac ymdrin â bylchau, prinder a diffyg cyfatebiaeth o ran sgiliau;
    - Ymyriadau wedi'u targedu er mwyn ysgogi'r galw am sgiliau a datblygu'r gweithlu a darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer ISCED Lefel 3 (addysg uwchradd uwch) ac uwch er mwyn cefnogi twf sefydliadau a'u gallu i addasu i heriau economaidd a heriau o fewn y farchnad lafur, gan gynnwys Gwaith Perfformiad Uchel.
13. **Amcan Penodol 3**
14. Wrth gyflawni yn erbyn **Amcan Penodol 3**, bydd camau o dan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon yn targedu unigolion sydd wedi graddio neu wedi ennill cymhwyster cyfatebol o leiaf. Gallant fod yn gyflogedig, yn ddi-waith neu mewn addysg llawn amser pan fyddant yn cofrestru ar gyfer ESF. Bydd camau gweithredu yn gweithio drwy'r byd academaidd a'r sector preifat er mwyn datblygu'r sgiliau uwch ar ISCED Lefelau 7 ac 8 sydd eu hangen i ysgogi, annog a chefnogi ymchwil ac arloesedd er mwyn cefnogi uchelgeisiau ehangach Cymru i gynyddu ymchwil ac arloesedd.
15. Bydd camau gweithredu yn rhan o ddull gweithredu cydgysylltiedig yn yr Echel Blaenoriaeth i ymgorffori ymchwil ac arloesedd mewn busnesau drwy sicrhau buddsoddiadau yn ôl y galw sy'n alinio sgiliau lefel uwch â buddiannau clir i fusnesau, masnach a'r economi. Bydd pob cam gweithredu yn gyson â meysydd yr Her Fawr a nodir yn *Gwyddoniaeth i Gymru: Agenda strategol ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd yng Nghymru* sef:
    - Gwyddorau Bywyd ac Iechyd;
    - Uwch Beirianneg a Deunyddiau;
    - Ynni Carbon Isel a'r Amgylchedd;

compare report

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 10iii - Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir |
|---|---|

  - Maes sylfaenol TGCh a'r Economi Ddigidol.

16. Drwy ganolbwyntio ar fuddsoddiadau yn ôl y galw sy'n ymateb i wybodaeth am y farchnad lafur, bydd y camau gweithredu yn alinio buddsoddiadau yn y cyfalaf dynol (y gweithlu medrus) ag anghenion a blaenoriaethau busnesau[2]. Drwy wneud hyn, maent yn anelu at ysgogi cynnydd o ran faint o weithgarwch ymchwil ac arloesedd yr ymgymerir ag ef, a'i ansawdd, gan gefnogi mwy o fasnacheiddio ymchwil a chynyddu buddsoddi mewn gweithgareddau ymchwil ac arloesedd fel canran. Drwy wneud hyn, bydd camau gweithredu yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at gamau a gefnogir gan raglenni eraill a ariennir gan yr UE, yn arbennig rhaglenni ERDF a Horizon 2020.
17. Gallai'r camau dangosol a allai gael eu cymryd i gefnogi **Amcan Penodol 3** a'r grwpiau targed a nodwyd uchod gynnwys:
    - Camau gweithredu i gyflwyno cymwysterau ymchwil ac arloesedd ar Lefel 7 (Meistr) ac 8 (Doethuriaeth) ISCED mewn partneriaeth rhwng darparwyr dysgu a busnesau ac yn gyson â meysydd yr Her Fawr sy'n ymwneud â "Gwyddorau Bywyd ac Iechyd"; "Uwch Beirianneg a Deunyddiau"; "Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd"; a "TGCh a'r Economi Ddigidol";
    - Camau gweithredu a ysgogir gan y sector preifat ar y cyd â darparwyr dysgu er mwyn cynyddu'r cyflenwad o unigolion sydd â sgiliau uwch ym maes ymchwil ac arloesedd.
18. Mae'r camau arfaethedig a ddisgrifir uchod o fewn pob Amcan Penodol yn darparu meysydd gweithredu dangosol y gallai gweithrediadau eu datblygu. Disgwylir i bob gweithrediad nodi gweithgareddau manwl gywir a phenodol yn y meysydd gweithredu uchod. Dylai'r gweithgareddau hyn gael eu dylunio i ddiwallu anghenion penodol grŵp/grwpiau targed wedi'u nodi'r gweithrediad a'r canlyniadau a geisir. Dylid cyflwyno tystiolaeth er mwyn profi effeithlonrwydd a chymhwysedd y gweithgareddau penodol hyn.
19. Disgwylir i fuddiolwyr cyllid o dan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon ac o dan bob un o'r Amcanion Penodol uchod gynnwys y sector cyhoeddus (awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru); sefydliadau anllywodraethol (gan gynnwys y Trydydd Sector); darparwyr addysg; prifysgolion; a'r sector preifat.

compare report

[1] Llywodraeth Cymru (2014); *Cynllun gweithredu ar gyfer sgiliau - Cyflawni'r datganiad polisi ar sgiliau*
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/skills-implementation-plan/?skip=1&lang=cy

[2] Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (2011); *Sgiliau ar gyfer Swyddi: Blaenoriaethau*

*2.A.6.2 Egwyddorion arweiniol ar gyfer dewis gweithrediadau*

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | 10iii - Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir |

1. Nodir yr egwyddorion cyffredinol i lywio'r broses o ddewis gweithrediadau yn y dyfodol ar gyfer pob Blaenoriaeth Fuddsoddi, gan gynnwys targedu dulliau fel bod gan fuddsoddiad ffocws, yn adran egwyddorion cyffredin Blaenoriaeth Fuddsoddi 9i "Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd". Bydd yr egwyddorion dewis cyffredin hyn yr un mor gymwys i'r flaenoriaeth fuddsoddi hon.
2. **Egwyddorion ychwanegol sy'n berthnasol i'r Flaenoriaeth Fuddsoddi benodol**
3. Dylai buddsoddi mewn sgiliau a chymwysterau anelu at sicrhau bod unigolion yn cyflawni neu'n datblygu, lle y bo modd, i lefel ganolraddol neu uwch ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF), gan amlinellu llwybrau datblygu clir ar gyfer y rhai â lefel isel o sgiliau, os o gwbl.
4. Dylai camau gweithredu gael eu harwain gan alw, bod yn hyblyg ac ymateb i amrywiadau yn y farchnad lafur; defnyddio ac ymateb i Wybodaeth am y Farchnad Lafur er mwyn nodi anghenion o ran sgiliau a wnaiff ategu twf economaidd a buddsoddiad.
5. Dylai dyluniad gweithrediad ystyried yr angen i ysgogi galw cyflogwyr am sgiliau a chymell cyfraniadau priodol gan gyflogwyr neu gyfranogwyr, yn enwedig am sgiliau lefel uwch, er mwyn helpu i feithrin diwylliant rhannu costau cryfach o fewn gweithrediadau.
6. Bydd camau gweithredu yn gyson â Strategaethau Sgiliau Llywodraeth Cymru a Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Sgiliau, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol[1] ac, yn unol â Chynllun Gweithredu Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru, a bydd ymyriadau sgiliau yn gyson â mentrau ehangach sy'n targedu tlodi, yn benodol tlodi mewn gwaith.
7. Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol y sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus.
8. Oni nodir fel arall yn y dangosyddion allbynnau ar gyfer y flaenoriaeth fuddsoddi hon, bydd angen i'r holl weithrediadau sy'n ceisio cymorth o fewn y flaenoriaeth fuddsoddi hon bennu targedau allbwn lefel gweithredu priodol, o leiaf, o fewn y categorïau canlynol:
   - Rhyw;
   - Oedran (o dan 25 oed, dros 54 oed);
   - Anabledd;
   - Cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith;
   - Mudwyr / BME / Lleiafrifoedd (gan gynnwys cymunedau ymylol fel y Roma);
   - Cyfrifoldebau Gofal / Gofal Plant.

compare report

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 10iii - Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir |
|---|---|
| [1] Llywodraeth Cymru (2014); *Datganiad Polisi ar Sgiliau;*Llywodraeth Cymru (2014); *Cynllun gweithredu ar gyfer sgiliau - Cyflawni'r datganiad polisi ar sgiliau* http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/skills-implementation-plan/?skip=1&lang=cy | |

### *2.A.6.3 Defnydd arfaethedig o offerynnau ariannol* (lle y bo'n briodol)

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 10iii - Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir |
|---|---|
| 1. Daeth cam cyntaf yr asesiad ex-ante o'r defnydd o Offerynnau Ariannol (OA) yn ESF i'r casgliad, yn y rhan fwyaf o achosion, mai potensial cyfyngedig oedd gan OA wrth gymryd y camau a amlinellir uchod ac mae unrhyw ddull gweithredu posibl yn debygol o fod yn llai effeithiol nag un sy'n seiliedig ar grantiau o ran cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Argymhellodd y cam cyntaf y dylid cynnal ymchwil ychwanegol yn ystod yr ail gam ar werth AC wrth gyflawni gweithgareddau Ymchwil ac Arloesedd gan ei bod yn bosibl bod lle i wneud hynny. Fodd bynnag, daeth yr ail gam i'r casgliad mai prin oedd y cyfle i ddefnyddio AC yn effeithiol yn y maes hwn. Nododd fod gormod o ffactorau amrywiol a oedd y tu hwnt i gwmpas yr ymyriadau a fyddai'n dylanwadu ar broses gyflawni lwyddiannus. Felly, ni chynigir defnyddio OA wrth gymryd camau o fewn y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon. | |

compare report

### *2.A.6.4 Defnydd arfaethedig o brosiectau mawr* (lle y bo'n briodol)

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 10iii - Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir |
|---|---|
| 1. Nid yw hyn yn gymwys i ESF | |

### *2.A.6.5 Dangosyddion allbwn yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi a, lle y bo'n briodol, gategori rhanbarth*

**Tabl 5:** Dangosyddion canlyniadau cyffredin a rhaglen benodol (yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi wedi'u dadansoddi yn ôl categori rhanbarth ar gyfer ESF, a lle y bo'n briodol, ERDF)

| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | | **10iii - Gwella mynediad cyfartal at ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Adnabod** | **Dangosydd** | **Uned fesur** | **Cronfa** | **Categori rhanbarth (lle y bo'n berthnasol)** | **Gwerth targed (2023)** | | | **Ffynhonnell data** | **Amlder adrodd** |
| | | | | | **C** | **GN** | **T** | | |
| 1008 | Nifer y busnesau sy'n cydweithredu â darparwyr dysgu mewn gweithgareddau Ymchwil ac Arloesedd | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 754.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1172F | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol - benyw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 0.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1172M | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol - gwryw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 0.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1173F | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig â chymwysterau hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is (ISCED 2) - benyw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 31,692.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1173M | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig â chymwysterau hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is (ISCED 2) - gwryw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 26,841.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1176F | Cyfranogwyr â gradd neu gymhwyster cyfatebol - benyw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 724.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1176M | Cyfranogwyr â gradd neu gymhwyster cyfatebol - gwryw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 784.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1178F | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (ISCED 2) - benyw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 23,874.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1178M | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (ISCED 2) - gwryw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 20,693.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1179F | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig ag addysg uwchradd uwch (ISCED 3) neu uwch - benyw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 9,814.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1179M | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig ag addysg uwchradd uwch (ISCED 3) neu uwch - gwryw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 10,780.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |

compare report

## 2.A.4 Blaenoriaeth fuddsoddi

| | |
|---|---|
| **Rhif adnabod y flaenoriaeth fuddsoddi** | 8iv |
| **Teitl y flaenoriaeth fuddsoddi** | Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal |

## 2.A.5 Amcanion penodol sy'n cyfateb i'r flaenoriaeth fuddsoddi a'r canlyniadau disgwyliedig

| | |
|---|---|
| **Rhif adnabod yr amcan penodol** | 2.4 |
| **Teitl yr amcan penodol** | Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu. |
| **Canlyniadau y mae'r Aelod-wladwriaethau yn ceisio eu cyflawni gyda chymorth yr Undeb** | 1. Prif ffocws yr Amcan Penodol hwn yw gwella sefyllfa menywod yn y gweithle. Bydd yn benodol yn targedu menywod cyflogedig, gan ategu ymyriadau a ddatblygir o dan Echel Blaenoriaeth 1 i gynyddu cyflogadwyedd y menywod hyn sydd agosaf at y farchnad lafur ac sydd wedi'u dal mewn cylchoedd dim cyflog / cyflog isel a'r menywod hynny sy'n economaidd anweithgar neu'n ddi-waith yn yr hirdymor ac sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth.<br>2. Bydd yr Amcan Penodol, sy'n cydnabod yr amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar sefyllfa menywod yn y gweithlu, fel yr amlinellir yn y Strategaeth, hefyd yn targedu cyflogwyr i gynyddu eu hymwybyddiaeth o anfantais ar sail rhyw yn y gweithlu a chefnogi'r gwaith o ddatblygu polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth ac arferion gwaith hyblyg.<br>3. Er bod rhai mesurau lefel uchel o sefyllfa menywod yn y gweithlu (fel y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, cynrychiolaeth menywod mewn uwch rolau a chanran y menywod sy'n gweithio'n rhan amser), mae ystod eang o ffactorau allanol yn dylanwadu ar y mesurau hyn yn uniongyrchol. Ni all ymyriadau ESF a gyflawnir ar eu pen eu hunain arwain at unrhyw newidiadau sylweddol i'r mesurau hyn.<br>4. Felly, bydd canlyniadau uniongyrchol yr Amcan Penodol hwn yn canolbwyntio ar nifer yr aelodau o'r grŵp targed sy'n ennill cymhwyster pan fyddant yn gadael a nifer y cyfranogwyr sydd mewn gwell sefyllfa yn y farchnad lafur (fel datblygu i rolau uwch, codiad cyflog neu fwy o oriau gwaith neu symud i batrymau gwaith mwy hyblyg) pan maent yn gadael. Hefyd, mesurir nifer y busnesau sy'n mabwysiadu strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth o ganlyniad i ymyriadau ESF.<br>5. Gall hefyd fod yn bosibl, drwy waith gwerthuso, i ystyried effaith tymor hwy yr ymyriadau hyn ar fesurau economaidd-gymdeithasol ehangach sy'n ymwneud â sefyllfa menywod yn y gweithlu mewn ffordd sy'n rhoi cyfrif am yr amrywiaeth o ffactorau allanol sy'n dylanwadu ar y mesurau hyn.<br>6. Pennwyd llinellau sylfaen ar gyfer y dangosyddion canlyniadau yn seiliedig ar weithgarwch cymaradwy a gefnogir drwy ddarpariaeth ESF flaenorol. Pennwyd y targed ar gyfer cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster |

compare report

| | |
|---|---|
| | pan fyddant yn gadael er mwyn cynnal y lefel uchel o gyflawniad yn erbyn y mesur hwn mewn darpariaeth ESF bresennol, tra bod y targed ar gyfer busnesau a gynorthwyir sy’n mabwysiadu strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cynrychioli ein huchelgais i adeiladu ar gyflawniad cyfredol a chynyddu ar y llinell sylfaen. Mae’r targed sydd ynghlwm wrth gyfranogwyr sydd mewn gwell sefyllfa yn y farchnad lafur pan fyddant yn gadael yn cynrychioli uchelgais i gyflawni cynnydd gwirioneddol o ran y llinell sylfaen tra’i bod yn cael ei phennu ar lefel realistig sy’n cydnabod y’i mesurir ar yr adeg pan fo cyfranogwr yn gadael ymyriad. |

compare report

**Tabl 4: Dangosyddion canlyniadau cyffredin y mae gwerth targed wedi'i bennu ar eu cyfer a dangosyddion canlyniadau rhaglen benodol sy'n cyfateb i'r amcan penodol (yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi a chategori rhanbarth)** (ar gyfer ESF)

| **Blaenoriaeth fuddsoddi : 8iv - Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal** | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Adnabod** | **Dangosydd** | **Categori rhanbarth** | **Uned fesur ar gyfer dangosydd** | **Dangosydd allbwn cyffredin a ddefnyddir fel sail i bennu targedau** | **Gwerth sylfaenol** | | | **Uned fesur ar gyfer llinell sylfaen a tharged** | **Blwyddyn sylfaenol** | **Gwerth targed (2023)** | | | **Ffynhonnell data** | **Amlder adrodd** |
| | | | | | **C** | **GN** | **T** | | | **C** | **GN** | **T** | | |
| CR03 | cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster pan fyddant yn gadael | Llai datblygedig | Nifer | Cyflogedig, gan gynnwys hunangyflogedig | | | 75.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 75.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1101 | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig sydd mewn sefyllfa well o ran y farchnad lafur pan fyddant yn gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 14.00 | Cymhareb (%) | | | | 40.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1109 | Busnesau a gefnogir sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 45.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 50.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |

## 2.A.6 Cam gweithredu i'w gefnogi o dan y flaenoriaeth fuddsoddi (yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi)

### *2.A.6.1 Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt, ynghyd â'u cyfraniad disgwyliedig i'r amcanion penodol gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nodi prif grwpiau targed, tiriogaethau penodol a dargedir a mathau o fuddiolwyr*

| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | 8iv - Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal |
|---|---|

compare report

1. **Amcan Penodol 4**
2. Wrth gyflawni yn erbyn Amcan Penodol 4, bydd camau o fewn y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon yn mynd ati'n bennaf i dargedu menywod â rhai camau sefydliadol ategol a seiliedig ar fusnes yn unig. Wrth godi materion cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y gweithlu, gall dynion cyflogedig hefyd weld buddiannau anuniongyrchol, er nad hwy fydd y grŵp targed.
3. Rhoddir pwyslais ar gamau gweithredu a darparu sgiliau er mwyn gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu, gan gefnogi eu datblygiad i rolau uwch, eu galluogi i gynyddu eu horiau gwaith neu eu galluogi i gael budd o arferion gwaith mwy hyblyg, yn ogystal â gwella eu sicrwydd swydd a'u galluogi i gael ystod ehangach o opsiynau cyflogaeth. Codi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr ac eraill o anfantais rhwng dynion a merched yn y gweithlu.
4. Bydd y camau a gymerir yn rhan o Echel Blaenoriaeth gydgysylltiedig er mwyn cynyddu lefelau sgiliau menywod yn y gweithlu a chodi ymwybyddiaeth cyflogwyr o faterion yn ymwneud ag anfantais ar sail rhyw yn y gweithlu. Bydd camau gweithredu yn blaenoriaethu cymwysterau ar bob lefel i gyfranogwyr. Fodd bynnag, caiff unigolion eu helpu i gael hyfforddiant a dysgu ymhellach os yw'n berthnasol hefyd. At hynny, gan ategu'r amcanion cyffredinol o ran Themâu Trawsbynciol, bydd gan fwy o gyflogwyr bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith.

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 8iv - Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal |
|---|---|

5. Cymerir camau i leihau'r dangynrychiolaeth bresennol o fenywod ar lefelau uwch drwy eu helpu i ddatblygu yn y gweithle, cynyddu eu lefelau sgiliau a'u rhoi mewn gwell sefyllfa i gyflawni eu potensial llawn a chamu ymlaen yn eu gyrfa. Bydd y camau a gymerir yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed drwy raglenni 2007-2013 a ledled Cymru i fynd i'r afael â chydraddoldeb rhywiol yn y gweithle a'i hyrwyddo.
6. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cefnogi'r farn y bydd camau i godi ymwybyddiaeth cyflogwyr o anfantais rhwng y rhywiau yn y gweithle ac sy'n helpu i ddatblygu polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn galluogi cyflogwyr i ymdrin â materion sy'n achosi anfantais rhwng y rhywiau. Bydd yn cefnogi ymdrechion i ymdrin â stereoteipio ar sail rhyw, a thrwy hynny yn galluogi mwy o ddynion a menywod i weithio mewn meysydd anhraddodiadol.
7. Hefyd, bydd camau sy'n helpu i gynnig atebion gwaith hyblyg ac ymarferol i ferched yn eu helpu i ddod yn fwy effeithiol a chynaliadwy yn y gweithle a'u galluogi i gyflawni eu llawn botensial. Mae camau i fabwysiadu arferion gwaith hyblyg yn debygol o fod o fudd mawr i fenywod, a all fod yn destun cyfle anghyfartal neu hyd yn oed wahaniaethu o ran hawliau beichiogrwydd a mamolaeth, neu'r angen i ddarparu gofal plant.
8. Hefyd, mae potensial i gamau a gefnogir o dan yr Amcan Penodol hwn gynnig rhai buddiannau anuniongyrchol i ddynion drwy'r camau cadarnhaol a gymerir i ymdrin â stereoteipio ar sail rhyw, a thrwy hynny helpu mwy o ddynion a menywod i weithio mewn meysydd anhraddodiadol.
9. Gallai'r camau dangosol a allai gael eu cymryd i gefnogi **Amcan Penodol 4** a'r grwpiau targed a nodwyd uchod gynnwys:
    - Camau sy'n cynnig arferion gwaith hyblyg ac atebion i fenywod er mwyn rhoi mwy o sicrwydd swydd iddynt, ynghyd â mwy o oriau gwaith neu oriau gwaith mwy hyblyg, mwy o gyflog a/neu ddatblygiad gyrfa;
    - Ymyriadau sy'n rhoi'r cymorth a'r sgiliau angenrheidiol i fenywod ddatblygu yn eu gyrfa ac yn y gweithle;
    - Camau sy'n codi ymwybyddiaeth cyflogwyr o anfantais rhwng y rhywiau yn y gweithle ac sy'n helpu i ddatblygu polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth ac arferion gwaith hyblyg.
10. Mae'r camau arfaethedig a ddisgrifir uchod o fewn pob Amcan Penodol yn darparu meysydd gweithredu dangosol y gallai gweithrediadau eu datblygu. Disgwylir i bob gweithrediad nodi gweithgareddau manwl gywir a phenodol yn y meysydd gweithredu uchod. Dylai'r gweithgareddau hyn gael eu dylunio i ddiwallu anghenion penodol grŵp/grwpiau targed wedi'u nodi'r gweithrediad a'r canlyniadau a geisir. Dylid cyflwyno tystiolaeth er mwyn profi effeithlonrwydd a chymhwysedd y gweithgareddau penodol hyn.
11. Disgwylir mai'r buddiolwyr cyllid o dan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon ac o dan yr Amcan Penodol uchod fydd y sector cyhoeddus (awdurdodau lleol; Llywodraeth Cymru); sefydliadau anllywodraethol (gan gynnwys y Trydydd Sector); a'r sector preifat.

compare report

### *2.A.6.2 Egwyddorion arweiniol ar gyfer dewis gweithrediadau*

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | 8iv - Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal |

1. Nodir yr egwyddorion cyffredinol i lywio'r broses o ddewis gweithrediadau yn y dyfodol ar gyfer pob Blaenoriaeth Fuddsoddi, gan gynnwys targedu dulliau fel bod gan fuddsoddiad ffocws, yn adran egwyddorion cyffredin Blaenoriaeth Fuddsoddi 9i "Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd". Bydd yr egwyddorion cyffredin hyn yr un mor gymwys i'r Flaenoriaeth Fuddsoddi hon.
2. **Egwyddorion ychwanegol sy'n berthnasol i'r Flaenoriaeth Fuddsoddi benodol**
3. Dylai buddsoddiadau mewn sgiliau geisio sicrhau bod unigolion yn cyflawni neu'n datblygu, lle y bo modd, i lefel ganolraddol ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF) neu uwch, gan amlinellu llwybrau datblygu clir ar gyfer y rhai â lefel isel o sgiliau, os o gwbl.
4. Dylai camau gweithredu gael eu harwain gan alw, bod yn hyblyg ac ymateb i amrywiadau yn y farchnad lafur; defnyddio ac ymateb i GFL er mwyn nodi anghenion o ran sgiliau a wnaiff ategu twf economaidd a buddsoddiad.
5. Bydd gan gamau gweithredu gysylltiadau cryf â thema drawsbynciol ehangach Cydraddoldeb a chamau gweithredu mewn Echelau Blaenoriaeth a Blaenoriaethau Buddsoddi eraill er mwyn mynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw a helpu dynion a menywod mewn meysydd gwaith anhraddodiadol.
6. Bydd camau gweithredu yn gyson â Strategaethau Sgiliau Llywodraeth Cymru a Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Sgiliau[1], y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac, yn unol â Chynllun Gweithredu Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru, a bydd ymyriadau sgiliau yn gyson â mentrau ehangach sy'n targedu tlodi, yn benodol tlodi mewn gwaith.
7. Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus.
8. Oni nodir fel arall yn y dangosyddion allbynnau ar gyfer y flaenoriaeth fuddsoddi hon, bydd angen i'r holl weithrediadau sy'n ceisio cymorth o fewn y flaenoriaeth fuddsoddi hon bennu targedau allbwn lefel gweithredu priodol, o leiaf, o fewn y categorïau canlynol:
    - Rhyw;
    - Oedran (o dan 25 oed, dros 54 oed);
    - Anabledd;
    - Cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith;
    - Mudwyr / BME / Lleiafrifoedd (gan gynnwys cymunedau ymylol fel y Roma);
    - Cyfrifoldebau Gofal / Gofal Plant.
9. Ar gyfer AP4 rhagwelir, ar lefel rhaglen, o blith targed cyfanswm y Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig yn nhabl 5; bydd 32% dros 54 oed, bydd gan 3% anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith a bydd 29% yn gweithio'n rhan amser.

compare report

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 8iv - Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal |
|---|---|
| [1] Llywodraeth Cymru (2014); *Datganiad Polisi ar Sgiliau;*Llywodraeth Cymru (2014); *Cynllun gweithredu ar gyfer sgiliau - Cyflawni'r datganiad polisi ar sgiliau* http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/skills-implementation-plan/?skip=1&lang=cy | |

***2.A.6.3 Defnydd arfaethedig o offerynnau ariannol*** (lle y bo'n briodol)

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 8iv - Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal |
|---|---|
| 1. Ni wnaeth yr asesiad ex-ante o'r defnydd o Offerynnau Ariannol (OA) yn ESF adolygu'n benodol y camau gweithredu yn yr Amcan Penodol hwn. Fodd bynnag, wrth adolygu'r elfennau sy'n weddill o'r rhaglenni ESF ystyriwyd nifer o gamau yn seiliedig ar gydraddoldeb a chyfle cyfartal a daeth y gwerthusiad i'r casgliad, yn y rhan fwyaf o achosion, mai potensial cyfyngedig oedd gan OA wrth gymryd y camau a amlinellir uchod ac mae unrhyw ddull gweithredu posibl yn debygol o fod yn llai effeithiol nag un sy'n seiliedig ar grantiau o ran cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Felly, ni chynigir defnyddio OA wrth gymryd camau o fewn y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon. | |

compare report

***2.A.6.4 Defnydd arfaethedig o brosiectau mawr*** (lle y bo'n briodol)

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 8iv - Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal |
|---|---|
| 1. Nid yw hyn yn gymwys i ESF | |

### *2.A.6.5 Dangosyddion allbwn yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi a, lle y bo'n briodol, gategori rhanbarth*

**Tabl 5:** Dangosyddion canlyniadau cyffredin a rhaglen benodol (yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi wedi'u dadansoddi yn ôl categori rhanbarth ar gyfer ESF, a lle y bo'n briodol, ERDF)

| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | | **8iv - Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Adnabod** | **Dangosydd** | **Uned fesur** | **Cronfa** | **Categori rhanbarth (lle y bo'n berthnasol)** | **Gwerth targed (2023)** | | | **Ffynhonnell data** | **Amlder adrodd** |
| | | | | | **C** | **GN** | **T** | | |
| CO05 | Cyflogedig, gan gynnwys hunangyflogedig | Nifer | ESF | Llai datblygedig | 0.00 | 4,400.00 | 4,400.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| CO23 | nifer y busnesau micro, bach a chanolig a gaiff cymorth (gan gynnwys busnesau cydweithredol, busnesau'r economi gymdeithasol) | Nifer | ESF | Llai datblygedig | 0.00 | 0.00 | 800.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |

## 2.A.7 Arloesedd cymdeithasol, cydweithredu trawswladol a chyfraniad at amcan thematig 1-7

| **Echel blaenoriaeth** | **2 - Sgiliau ar gyfer Twf** |
|---|---|

1. **Hyrwyddo Arloesedd Cymdeithasol (AC) o fewn yr Echel Blaenoriaeth**
2. Anogir pob gweithrediad i ystyried y cyfleoedd y mae Arloesedd Cymdeithasol (AC) yn eu cynnig o ran treialu neu ddatblygu dulliau cyflawni arloesol. Anogir gweithrediadau i ystyried opsiynau i gyflawni gweithgareddau AC bach er mwyn ystyried modelau cyflawni amgen neu dargedu grwpiau penodol gyda'r nod o ymgorffori a mwyhau gwaith cyflawni llwyddiannus. Bydd treialu o'r fath ar raddfa fach, yn enwedig drwy waith comisiynu neu gaffael, yn cynnwys y trydydd sector, grwpiau cymunedol a phartneriaid cymdeithasol mewn dull gweithredu seiliedig ar risg lle datblygir modelau cyflawni newydd a all ychwanegu at fodelau cyflawni llwyddiannus sydd eisoes ar waith a'u hategu.
3. Gallai meysydd posibl ar gyfer camau gweithredu AC yn y rhaglen gynnwys y canlynol:
    - targedu grwpiau penodol nas cynrychiolir yn ddigonol gyda'r nod o fwyhau i weithgarwch craidd a chyflawni canlyniadau cydraddoldeb gwell;
    - treialu modelau cyflawni newydd, ar sail risg, yn enwedig o fewn methodoleg gyflawni neu ddulliau gweithredu sefydledig;
    - cefnogi'r gwaith o dreialu a datblygu strategaethau ymadael cynaliadwy drwy brofi modelau cyflawni newydd.
4. Efallai y bydd cyfleoedd AC yn datblygu wrth i weithrediadau ddatblygu. Ni fydd angen i weithgarwch AC gael ei gwmpasu'n llawn. Fodd bynnag, bydd angen i egwyddor a dulliau treialu ac yna brif ffrydio gwersi a ddysgwyd gael eu hamlinellu lle rhagwelir camau gweithredu AC. Dylai fod gan Ymyriadau strategol mwy sail dystiolaeth sy'n dynodi lle byddai'r gwaith o dreialu dulliau gweithredu fwyaf effeithiol.
5. Bydd camau gweithredu AC yn destun gwaith monitro penodol a gwaith gwerthuso mwy manwl gywir gyda'r gwersi a ddysgir yn cael eu lledaenu o fewn gweithrediadau ac ar draws WEFO. Gall camau gweithredu AC ddigwydd fel elfennau ar wahân o weithrediadau strategol mwy neu fel gweithrediadau annibynnol ar wahân.

compare report

| Echel blaenoriaeth | 2 - Sgiliau ar gyfer Twf |
|---|---|

6. Gallai camau penodol o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon gynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol:
   - Dulliau arloesol o gefnogi'r gwaith o dargedu grwpiau targed penodol a gaiff eu tangynrychioli.
7. Drwy hyn bydd hefyd yn bosibl ymgorffori cysylltiadau â grwpiau LEADER o fewn EAFRD (neu Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd (FLAG) o fewn EMFF). Bydd grwpiau LEADER neu FLAG yn gallu cymryd rhan mewn prosesau comisiynu ar gyfer camau AC, yn enwedig ar gyfer treialu dulliau newydd o weithredu gyda'r nod o brif ffrydio modelau cyflawni llwyddiannus. Bydd y grwpiau hyn hefyd yn gallu gweithio drwy'r dulliau gweithredu rhanbarthol a gofodol a ddisgrifir yn y Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU ac yn Adran 4 o'r RhW hon er mwyn annog prif ffrydio gweithgarwch a ariennir drwy gronfeydd ESI eraill i mewn i gynigion ESF cydweithredol.
8. **Darpariaeth Benodol ar gyfer Cydweithredu Trawswladol**
9. Bydd camau cydweithredu trawswladol yn targedu'r gwaith o ddiwallu anghenion penodol o fewn GCC tra'n cynyddu'r gwerth ychwanegol a all gael ei gyflawni gan gydweithredu trawswladol.
10. Bydd y camau a gymerir yn cynnwys rhanddeiliaid o'r sector cyhoeddus, addysg uwch ac addysg bellach, y trydydd sector a'r sector preifat. Gall gweithrediadau gynnwys gweithgarwch cydweithredu trawswladol yn llawn neu gynnwys cydweithredu trawswladol fel un elfen o fewn y gweithrediad ehangach.
11. Disgwylir i gamau gweithredu gefnogi cydweithredu trawswladol ag Aelod-wladwriaethau eraill sy'n wynebu heriau tebyg i GCC ac sy'n gweithio tuag at nodau cyffredin. Dylai camau gweithredu gefnogi gwaith partneriaeth trawswladol er mwyn rhannu arfer da a datblygu a threialu atebion arloesol, datblygu a rhannu sgiliau a phrofiad lefel uchel a datblygu a rhannu sgiliau ac arbenigedd a wnaiff gefnogi economi fodern sy'n seiliedig ar wybodaeth a marchnad lafur fodern, hyblyg ac ystwyth.
12. Gallai camau penodol o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon gynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol:
    - Camau i ddatblygu a rhannu arbenigedd ym maes ymchwil ac arloesedd, gan gynnwys hwyluso'r gwaith o fasnacheiddio ymchwil a gefnogir gan gronfeydd trawswladol yr UE fel Horizon 2020;
    - Camau i gefnogi gwaith partneriaeth er mwyn datblygu dulliau cyffredin ac arloesol o gryfhau'r gallu i arloesi, moderneiddio ac addasu i heriau economaidd-gymdeithasol newydd o fewn y farchnad lafur, gan gynnwys ymdrin â materion demograffig fel gweithlu sy'n heneiddio.
13. **Cyfraniad yr ESF at Amcanion Thematig 1-7**
14. Bydd buddsoddiadau ESF mewn cyfalaf dynol yn canolbwyntio ar anghenion menter a busnes yn y dyfodol ac yn cyflawni yn eu herbyn, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu economi fodern sy'n seiliedig ar wybodaeth. Bwriedir i fuddsoddiadau ESF a wneir o dan Amcanion Thematig (ATh) 8, 9 a 10 ategu buddsoddiadau a wneir gan gronfeydd ESI o dan ATh 1-7 a chyfuno â hwy. Lle gellir dangos ychwanegiad clir at ddarpariaeth o dan EAFRD ac EMFF, bydd unigolion sydd ynghlwm wrth ffermio, pysgota a dyframaeth yn gallu cael cymorth ESF. Bydd y dull gweithredu hwn yn hwyluso ac yn galluogi'r broses o gyflawni nodau ac amcanion Cronfeydd ESI yng Nghymru yn gyffredinol, ynghyd â chefnogi'r dull integredig o weithredu a amlinellir yn Adran 4.

compare report

| Echel blaenoriaeth | 2 - Sgiliau ar gyfer Twf |
|---|---|

15. Bydd buddsoddiadau ESF yn yr Echel Blaenoriaeth hon i uwchsgilio'r gweithlu, ymdrin â bylchau penodol mewn sgiliau a chefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau technegol a lefel uwch yn:
    - ategu ac yn ychwanegu gwerth at fuddsoddiadau ERDF, EAFRD ac EMFF o dan ATh3 er mwyn cynyddu cynhyrchiant a chystadleurwydd BBaCh, gan gynnwys drwy helpu BBaChau i dyfu a chynyddu cynhyrchiant drwy arallgyfeirio i farchnadoedd newydd;
    - helpu i wireddu potensial buddsoddiadau a gefnogir gan ERDF, EAFRD ac EMFF ym maes TGCh a thechnolegau arloesol ac sy'n dod i'r amlwg (gan gynnwys carbon isel) o dan ATh 1, 2 a 4 sy'n anelu at helpu busnesau i addasu, tyfu a bod yn gystadleuol a chynyddu gallu ac adnoddau busnesau Cymreig i ennill busnes mewn perthynas â datblygu a gosod y technolegau hyn;
    - ategu camau gweithredu EAFRD ac EMFF o dan ATh 2, 3 a 4 er mwyn helpu busnesau gwledig ac arfordirol (gan gynnwys pysgodfeydd a dyframaeth) i fabwysiadu technoleg newydd a dod yn fwy effeithlon, ynghyd â datblygu cadwyni cyflenwi lleol sy'n cysylltu â chyfleoedd twf economaidd. Hefyd, ceir potensial i ymyriadau sgiliau ategu mesurau seiliedig ar dir a gefnogir gan raglen EAFRD o dan ATh 5 a 6.
16. Bydd buddsoddiadau ESF yn yr Echel Blaenoriaeth hon i gynyddu nifer yr unigolion â'r sgiliau arbenigol yn:
    - cefnogi amcanion rhaglen ERDF (o dan ATh 1) i gynyddu faint o gyllid cystadleuol a phreifat a gaiff sefydliadau ymchwil yng Nghymru, gan gynyddu lefelau arloesedd o fewn busnesau Cymreig a masnacheiddio ymyriadau ymchwil ac arloesedd;
    - ategu camau gweithredu EMFF i gynyddu gallu ymchwil ac arloesedd a manteisio i'r eithaf arno ym maes technolegau, cynhyrchion a gwasanaethau carbon isel;
    - ategu camau gweithredu a ystyrir gan raglen EAFRD er mwyn helpu Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a threialu prosesau a chynhyrchion newydd cyn y cam masnachol.

compare report

## 2.A.8 Fframwaith perfformiad

**Tabl 6: Fframwaith perfformiad yr echel blaenoriaeth** (yn ôl cronfa ac, ar gyfer ERDF ac ESF, categori rhanbarth)

| Echel blaenoriaeth | 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhif Adnabod | Math o Ddangosydd | Dangosydd neu gam gweithredu allweddol | Uned fesur, lle y bo'n briodol | Cronfa | Categori rhanbarth | Carreg filltir ar gyfer 2018 | | | Targed terfynol (2023) | | | Ffynhonnell data | Esboniad o berthnasedd dangosydd, lle y bo'n briodol |
| | | | | | | C | GN | T | C | GN | T | | |
| P2F | F | Gwariant Cymwys | Ewros | ESF | Llai datblygedig | | | 133,000,000 | | | 471,000,000.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Mae'r dangosyddion hyn yn cwmpasu Amcan Penodol 1 i gyd a 60% o Amcan Penodol 2 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n cyfateb i tua 66% o'r Echel Blaenoriaeth. |
| 1172F | H | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol - benyw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 0 | | | 0.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Mae'r dangosyddion hyn yn cwmpasu Amcan Penodol 1 i gyd a 60% o Amcan Penodol 2 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n cyfateb i tua 66% o'r Echel Blaenoriaeth. |

| Echel blaenoriaeth | | | 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhif Adnabod | Math o Ddangosydd | Dangosydd neu gam gweithredu allweddol | Uned fesur, lle y bo'n briodol | Cronfa | Categori rhanbarth | Carreg filltir ar gyfer 2018 | | | Targed terfynol (2023) | | | Ffynhonnell data | Esboniad o berthnasedd dangosydd, lle y bo'n briodol |
| | | | | | | C | GN | T | C | GN | T | | |
| 1172M | H | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol - gwryw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 0 | | | 0.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Mae'r dangosyddion hyn yn cwmpasu Amcan Penodol 1 i gyd a 60% o Amcan Penodol 2 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n cyfateb i tua 66% o'r Echel Blaenoriaeth. |
| 1173F | H | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig â chymwysterau hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is (ISCED 2) - benyw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 8801 | | | 31,692.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Mae'r dangosyddion hyn yn cwmpasu Amcan Penodol 1 i gyd a 60% o Amcan Penodol 2 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n cyfateb i tua 66% o'r Echel Blaenoriaeth. |
| 1173M | H | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig â chymwysterau hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is (ISCED 2) - gwryw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 9666 | | | 26,000.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Mae'r dangosyddion hyn yn cwmpasu Amcan Penodol 1 i gyd a 60% o Amcan Penodol 2 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n cyfateb i tua 66% o'r Echel Blaenoriaeth. |
| 1178F | H | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (ISCED 2) - benyw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 3,732 | | | 23,874.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Mae'r dangosyddion hyn yn cwmpasu Amcan Penodol 1 i gyd a 60% o Amcan Penodol 2 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n cyfateb i tua 66% o'r Echel Blaenoriaeth. |
| 1178M | H | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (ISCED 2) - gwryw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 4,099 | | | 20,693.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Mae'r dangosyddion hyn yn cwmpasu Amcan Penodol 1 i gyd a 60% o Amcan Penodol 2 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n cyfateb i tua 66% o'r Echel Blaenoriaeth. |

## Gwybodaeth ansodddol ychwanegol am sefydlu'r fframwaith perfformiad

1. *Dangosyddion ariannol*
2. Targed 2023 yw cyfanswm y dyraniad Gwariant Cymwys ar gyfer yr Echel Blaenoriaeth, tra bod targed 2018 yn seiliedig ar Wariant Cymwys N+3.
3. *Dangosyddion allbwn*
4. Roedd y camau cyffredinol a gymerwyd i bennu targedau o fewn rhaglen ESF GCC 2014-2020 a rhaglen ESF DC yn cynnwys mapio gweithgarwch o brosiectau priodol a chymaradwy wedi'u hariannu o dan Raglen Gydgyfeirio ESF GCC 2007-2013. Dewiswyd y rhain er mwyn adlewyrchu orau y camau wedi'u targedu a'r gweithgarwch arfaethedig i'w ariannu fel yr amlinellir yn Rhaglenni ESF 2014-2020. Cafodd cyflawniadau prosiectau hyd yn hyn o ran gweithgarwch wedi'i fapio eu cymharu â'r gwariant hyd yn hyn a chafodd targedau terfynol cyfredol prosiectau eu cymharu â chyfanswm y dyraniad ariannol. Yna cafodd y cymarebau eu graddio yn ôl dyraniadau ariannu dangosol o dan Amcanion Penodol y dyfodol pob un o'r Blaenoriaethau Buddsoddi er mwyn pennu cyfres o dargedau ar gyfer y dangosyddion.
5. Mewn rhai achosion, lle'r oedd uchelgais rhaglenni 2014-2020 yn wahanol iawn i'r hyn a gyflawnwyd yn 2007-13, cymerir camau seiliedig ar bolisi gan ddewis targedau cymaradwy sy'n adlewyrchu pwyslais y rhaglen o fewn pob blaenoriaeth a'r dyheadau a'r amcanion ar gyfer newid.. Ymhob achos, defnyddir tystiolaeth o gostau Uned ac ati o fewn y rhaglen gyfredol i sicrhau bod y targedau hyn sy'n seiliedig ar bolisi yn gyflawnadwy o fewn y paramedrau ariannu sydd ar gael. Yn ogystal, defnyddir Ystadegau Gwladol, lle maent ar gael, yn seiliedig ar y gyfran gyfredol o'r boblogaeth ar gyfer grwpiau demograffig allweddol, er mwyn darparu targedau dyheadol i sicrhau bod cronfeydd yn cael eu dosbarthu'n deg. Ategir hyn gan dystiolaeth a phrofiad ychwanegol o gyfnod rhaglennu cyfredol 2007-2013 a'r targedu a amlinellir yn y rhaglenni ESF arfaethedig. Mewn rhai achosion defnyddiwyd cyfuniad o'r dulliau hyn.
6. Targed 2023 yw'r targed terfynol ar gyfer y dangosydd Allbwn hwn o dan yr Echel Blaenoriaeth, tra bod targed 2018 yn seiliedig ar yr un gymhareb â tharged dangosydd ariannol 2018, a chostau uned.

compare report

## 2.A.9 Categorïau ymyrryd

Categorïau ymyrryd sy'n cyfateb i gynnwys yr echel blaenoriaeth yn seiliedig ar gyfundrefn enwi a fabwysiadwyd gan y Comisiwn, a dadansoddiad dangosol o gymorth yr Undeb.

## Tablau 7-11:Categorïau ymyrryd

**Tabl 7: Dimensiwn 1 - Maes ymyrryd**

| Echel blaenoriaeth | 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 105. Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal | 21,422,486.00 |
| ESF | Llai datblygedig | 117. Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir | 318,217,266.00 |

**Tabl 8:Dimensiwn 2 - Math o gyllid**

| Echel blaenoriaeth | | 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 01. Grant nad yw'n ad-daladwy | 339,639,752.00 |

compare report

**Tabl 9: Dimensiwn 3 - Math o diriogaeth**

| Echel blaenoriaeth | | 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 01. Ardaloedd Trefol Mawr (poblog iawn poblogaeth >50 000) | 42,319,667.00 |
| ESF | Llai datblygedig | 02. Ardaloedd trefol bach (dwysedd canolrannol poblogaeth >5 000) | 217,911,651.00 |
| ESF | Llai datblygedig | 03. Ardaloedd gwledig (tenau eu poblogaeth) | 79,408,434.00 |

**Tabl 10: Dimensiwn 4 - Dulliau cyflawni tiriogaethol**

| Echel blaenoriaeth | | 2- Sgiliau ar gyfer Twf | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 07. Ddim yn gymwys | 339,639,752.00 |

**Tabl 11:Dimensiwn 6 - Thema eilaidd ESF** (ESF a YEI yn unig)

| **Echel blaenoriaeth** | **2- Sgiliau ar gyfer Twf** | | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 01. cefnogi'r newid i economi carbon isel sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon | 17,852,072.00 |
| ESF | Llai datblygedig | 04. Cryfhau ymchwil, datblygiad technolegol ac arloesedd | 35,704,143.00 |
| ESF | Llai datblygedig | 07. Cydraddoldeb rhwng y rhywiau | 21,422,486.00 |
| ESF | Llai datblygedig | 08. Ddim yn gymwys | 272,851,051.00 |

## 2.A.10 Crynodeb o'r defnydd arfaethedig o gymorth technegol gan gynnwys, lle y bo angen, gamau i atgyfnerthu adnoddau gweinyddol awdurdodau sydd ynghlwm wrth brosesau rheoli a rheolaeth y rhaglenni a buddiolwyr (lle y bo'n briodol) (yn ôl echel blaenoriaeth)

| **Echel blaenoriaeth:** | **2- Sgiliau ar gyfer Twf** |
|---|---|
| 1. Ymdrinnir â'r defnydd arfaethedig o Gymorth Technegol yn yr Echel Blaenoriaeth benodol ar gyfer Cymorth Technegol. | |

compare report

### 2.A.1 Echel blaenoriaeth

| | |
|---|---|
| **Rhif adnabod yr echel blaenoriaeth** | 3 |
| **Teitl yr echel blaenoriaeth** | Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc |

☐ Caiff yr echel blaenoriaeth gyfan ei gweithredu drwy offerynnau ariannol yn unig
☐ Caiff yr echel blaenoriaeth gyfan ei gweithredu drwy offerynnau ariannol yn unig a sefydlwyd ar lefel yr Undeb
☐ Caiff yr echel blaenoriaeth gyfan ei gweithredu drwy waith datblygu lleol a arweinir gan y gymuned
☐ Ar gyfer ESF: Mae'r echel blaenoriaeth gyfan yn ymrwymedig i arloesedd cymdeithasol neu gydweithredu trawswladol, neu'r ddau
☐ Ar gyfer ERDF: Mae'r echel blaenoriaeth gyfan wedi'i neilltuo ar gyfer gweithrediadau sydd wedi'u hanelu at ailadeiladu mewn ymateb i drychinebau mawr neu naturiol rhanbarthol
☐ Ar gyfer ERDF: Mae'r echel blaenoriaeth gyfan wedi'i neilltuo ar gyfer BBaChau (Erthygl 39)

**2.A.2 Cyfiawnhad dros sefydlu echel blaenoriaeth sy'n cwmpasu mwy nag un categori o ranbarth, amcan thematig neu gronfa** (lle y bo'n gymwys)

1. Datblygwyd yr Echel Blaenoriaeth yn unol â nodau ac amcanion Rhaglen ESF yn GCC ac yn arbennig:
2. *Nod:*
   - *Buddsoddi yn ein pobl ifanc er mwyn creu gweithlu ffyniannus ac ymatebol at y dyfodol sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i ymateb i anghenion economi heriol sy'n seiliedig ar wybodaeth.*
3. *Amcanion:*
   - *Cynyddu lefelau cyflogaeth a chyrhaeddiad addysgol ymhlith pobl ifanc, a thrwy hynny leihau tlodi ac anfantais ymhlith ein pobl ifanc;*
   - *Lleihau anghydraddoldebau yn y farchnad lafur ymhlith menywod a grwpiau cydraddoldeb cydnabyddedig*
4. Mae'r dirywiad economaidd diweddar wedi cael effaith sylweddol ar gyflogaeth pobl ifanc fel y dangosir yn y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol. Mae'r broses o gefnogi pobl ifanc drwy addysg i mewn i gyflogaeth yn gofyn am ddull gweithredu di-dor, gan dalu sylw arbennig i bwyntiau pontio allweddol.
5. Mae'r Echel Blaenoriaeth wedi cael ei datblygu ar sail fframwaith thematig er mwyn hyrwyddo lefelau cyflogaeth a chyrhaeddiad uwch ymhlith pobl ifanc, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, a thrwy hynny gysoni â'r Argymhellion sy'n Benodol i Wlad. Bydd yr Echel Blaenoriaeth hon a'r Amcanion Thematig cysylltiedig a ddewiswyd (9)(8) - hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd a chefnogi symudedd llafur a (9)(10) - *Buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes* yn cynyddu'n sylweddol effaith ymyriadau i helpu ein pobl ifanc i ddatblygu drwy addysg i mewn i gyflogaeth gynaliadwy, gan gynyddu gwaddol hirdymor posibl buddsoddiadau.

compare report

6. Bydd yr Echel Blaenoriaeth yn gyson iawn â Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru[1], gan gefnogi'r gwaith o nodi, olrhain a mapio gwasanaethau a chanlyniadau i bobl ifanc o addysg i mewn i gyflogaeth. Bydd y fath gysoni yn sicrhau bod dull cyson o gefnogi ein pobl ifanc ar waith a bod buddsoddiad ESF yn ychwanegu gwerth at ddull integredig o gyflawni nod y rhaglen.
7. Yn unol â'r dull gweithredu uchod, mae'r diffiniad o 'bobl ifanc' wedi cael ei estyn i 0-24 oed (11-19 oed gynt), gan sicrhau bod buddsoddiadau ESF yn cefnogi unigolion wrth iddynt symud drwy addysg brif ffrwd i mewn i gyflogaeth gynaliadwy, gan leihau'r risg y byddant yn dod yn rhai nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) a sicrhau bod ymyriadau yn dechrau'n gynnar ac yn ymdrin â chyfnodau pontio allweddol.
8. Un her allweddol fydd gwneud defnydd effeithiol o ymyriadau er mwyn ymateb i ofynion y farchnad lafur, nodi ac achub ar gyfleoedd twf a pharhau i gynyddu cystadleurwydd GCC. Dengys tystiolaeth fod angen i'r grwpiau galwedigaethol sy'n tyfu gyflymaf feddu ar sgiliau NQF Lefelau 3, 4 ac uwch; mae'r galwedigaethau sy'n dirywio gyflymaf yn seiliedig ar NQF Lefel 2 ac is[2]. Ystyrir bod sgiliau STEM hefyd yn hanfodol i feysydd cyflogaeth a thwf yn y dyfodol[3][4]. Yn 2013, nododd 39% o gyflogwyr yn y DU sy'n recriwtio staff â sgiliau STEM eu bod yn ei chael hi'n anodd recriwtio sgiliau o'r fath[5].
9. Drwy gysoni ymyriadau o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon sicrheir bod sgiliau a dyheadau gyrfa ein pobl ifanc yn gyson â gofynion cyflogwyr, cyfleoedd twf sy'n dod i'r amlwg ac anghenion hirdymor yr economi.

compare report

[1] Llywodraeth Cymru 2013); http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?lang=cy

[2] UKCES (2011); *Sgiliau ar gyfer Swyddi: The National Skills Audit for Wales 2011*

[3] Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (2011); *Sgiliau ar gyfer Swyddi: Priorities July 2011*

[4] Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch Cyngor Cryno gan y Panel Sector

[5] Pearson/CBI Education ac Arolygon Sgiliau 2008 a 2013

### 2.A.3 Cronfa, categori rhanbarth a sail gyfrifo ar gyfer cymorth yr Undeb

| Cronfa | Categori rhanbarth | Y sail gyfrifo (cyfanswm y gwariant cymwys neu wariant cyhoeddus cymwys) | Categori rhanbarth ar gyfer y rhanbarthau pellaf a gogleddol prin eu poblogaeth (lle y bo'n briodol) |
|---|---|---|---|
| ESF | Llai datblygedig | Cyfanswm | |

### 2.A.4 Blaenoriaeth fuddsoddi

| | |
|---|---|
| **Rhif adnabod y flaenoriaeth fuddsoddi** | 10i |
| **Teitl y flaenoriaeth fuddsoddi** | Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a'i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio ag addysg a hyfforddiant |

### 2.A.5 Amcanion penodol sy'n cyfateb i'r flaenoriaeth fuddsoddi a'r canlyniadau disgwyliedig

| | |
|---|---|
| **Rhif adnabod yr amcan penodol** | 3.2 |
| **Teitl yr amcan penodol** | Lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 24 oed sy'n wynebu risg o ddod yn NEET. |
| **Canlyniadau y mae'r Aelod-wladwriaethau yn ceisio eu cyflawni gyda chymorth yr Undeb** | 1. Mae'r Amcan Penodol hwn yn anelu at leihau'r risg o ddod yn NEET ymhlith pobl ifanc 11-24 oed gan ganolbwyntio'n arbennig ar y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf. Bydd y buddsoddiadau yn ategu camau gweithredu ar draws y flaenoriaeth, gan dargedu NEET a Diweithdra Ieuenctid drwy gymryd camau cynnar mewn perthynas â'r rhai nad ydynt mewn addysg er mwyn lleihau'r risg y byddant yn rhoi'r gorau i addysg neu ddim yn cael gwaith ar ôl addysg.<br>2. Drwy gysoni buddsoddiadau o fewn y flaenoriaeth hon â Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru a'i safonau craidd ar nodi'r rhai sy'n wynebu risg o ddod yn NEET ar gam cynnar sicrheir bod dull cyson o nodi ac olrhain unigolion o fewn y garfan hon.<br>3. Ar lefel graidd, mae'r broses o nodi unigolion yn gynnar yn canolbwyntio ar ddangosyddion presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad wrth ddiffinio'r risg o ddod yn NEET er y gall dangosyddion lleol eraill gael eu hychwanegu. Felly, prif ganlyniad ymyriadau o fewn yr Amcan Penodol hwn fydd lleihau'r risg o ddod yn NEET fel y'i mesurir gan y systemau olrhain o fewn y fframwaith.<br>4. Ymhlith mesurau ychwanegol llai o risg, bydd mesur nifer y cymwysterau a enillir a, chan adlewyrchu pwysigrwydd targedu pwyntiau pontio allweddol wrth leihau'r risg o ddod yn NEET, fesur y datblygiad i mewn i addysg bellach neu hyfforddiant.<br>5. Drwy gysoni â'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, sicrheir hefyd fod camau gweithredu o fewn yr Amcan Penodol hwn yn helpu i ymdrin, yn y tymor hwy, â materion strwythurol a pharhaus diffyg ymgysylltu a geir mewn unrhyw amgylchiadau economaidd. |

compare report

| | |
|---|---|
| | 6. Pennwyd llinellau sylfaen ar gyfer y dangosyddion canlyniadau yn seiliedig ar weithgarwch cymaradwy a gefnogir drwy ddarpariaeth ESF flaenorol neu weithgarwch tebyg rywle arall. Ar gyfer y mesur llai o risg o ddod yn NEET, ni fu modd pennu llinell sylfaen gan fod y Fframwaith yn gam newydd sydd, yn rhannol, yn ymateb i'r gwersi a ddysgwyd drwy ESF a gweithgarwch arall ar yr angen am ddulliau nodi cynnar a chyson. Am yr un rheswm hwn, nid oes modd pennu gwerth targed ar gyfer y dangosydd hwn ar hyn o bryd. Felly, nodwyd Cynllun Gweithredu yn Nhabl 25 yn Adran 9 er mwyn pennu'r gwerth targed hwn erbyn diwedd mis Chwefror 2016.<br>7. Ar gyfer y mesurau eraill, mae'r targedau'n adlewyrchu llinellau sylfaen sydd â diffiniad blaenorol ehangach o'r Risg o NEET ac felly maent yn dal i fod yn heriol ar gyfer y garfan fwy diffiniedig hon. |
| **Rhif adnabod yr amcan penodol** | 3.3 |
| **Teitl yr amcan penodol** | Cynyddu lefelau cofrestru a chyrhaeddiad pynciau STEM ymhlith pobl ifanc 11-19 oed. |
| **Canlyniadau y mae'r Aelod-wladwriaethau yn ceisio eu cyflawni gyda chymorth yr Undeb** | 1. Prif ffocws yr Amcan Penodol hwn yw cynyddu lefelau astudio pynciau STEM ymhlith pobl ifanc 11-19 oed yn GCC a'u lefelau cyrhaeddiad. Bydd yn targedu disgyblion mewn addysg uwchradd, gan roi sylw penodol i ymyriadau dros gyfnod estynedig er mwyn gwella cyfraddau cyfranogi mewn pynciau STEM ar ôl 16 oed a chynyddu cyfranogiad merched mewn pynciau STEM.<br>2. Fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth, mae lefelau cofrestru TGAU Cymru ar gyfer pynciau STEM wedi gostwng 12% dros y blynyddoedd diwethaf.[1] gyda gostyngiad cyfatebol mewn lefelau cyrhaeddiad yn ystod y cyfnod 2008-2013.<br>3. Hefyd, ceir gostyngiad sylweddol mewn lefelau cyfranogi o ran pynciau STEM ar ôl 16 oed, yn enwedig ymhlith merched, gyda ffigurau Cymru yn is na gweddill y DU[2]. Heblaw am TGCh, mae cyfran y myfyrwyr Safon Uwch sy'n astudio pynciau STEM wedi gostwng rhwng 2001 a 2013. Yn 2013, roedd 17% o fechgyn yn astudio gwyddoniaeth Safon Uwch, tra roedd 10.7% o ferched yn gwneud hynny. Ar gyfer TGCh a phynciau CDTh[3], mae'r ffigurau yn 10% ar gyfer bechgyn a 5% ar gyfer merched. Mae'r graddau bioleg a ffiseg Safon Uwch a gyflawnir gan fyfyrwyr yng Nghymru hefyd yn is na myfyrwyr yn Lloegr.<br>4. Felly, bydd y canlyniadau uniongyrchol yn canolbwyntio ar nifer yr aelodau o'r grŵp targed sy'n cwblhau hyfforddiant mewn pynciau STEM a nifer y rhai yn y grŵp targed sy'n parhau i astudio pwnc STEM ar ôl 16 oed. Caiff effaith tymor hwy yr ymyriadau hyn ar fesurau ehangach fel lefelau cofrestru Safon Uwch mewn pynciau STEM a lefelau cyrhaeddiad mewn pynciau STEM ar gyfer TGAU a Safon Uwch ei hystyried fel rhan o'r gwaith o werthuso rhaglenni, a wnaiff ystyried effaith ymyriadau ESF yng nghyd-destun yr amrywiaeth o ffactorau allanol sy'n dylanwadu ar y mesurau hyn. |

compare report

| | |
|---|---|
| | 5. Pennwyd llinellau sylfaen ar gyfer y dangosyddion canlyniadau yn seiliedig ar weithgarwch cymaradwy a gefnogir drwy ddarpariaeth ESF flaenorol. Mae'r disgwyliad y bydd y gweithgarwch hwn yn ymyriad mwy dwys ac estynedig na darpariaeth flaenorol yn arwain at y penderfyniad i bennu gwerthoedd targed a wnaiff gynnal y llinell sylfaen. Mae'r dangosydd canlyniadau sy'n mesur cyfran y cyfranogwyr sy'n parhau i astudio pynciau STEM ar ôl 16 oed yn fesur newydd ar gyfer darpariaeth ESF felly mae data cenedlaethol ar y cyfraddau cyfranogi ymhlith y cohort ôl-16 ehangach wedi cael eu defnyddio i lywio'r broses o bennu'r llinell sylfaen. Mae'r targed yn adlewyrchu uchelgais y rhaglen i sicrhau gwelliant gwirioneddol ar y llinell sylfaen hon.<br><br>[1] Llywodraeth Cymru (2012), *Gwyddoniaeth i Gymru: Agenda strategol ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd yng Nghymru*<br><br>[2] Y Gymdeithas Frenhinol, *State of the nation, Preparing for the transfer to STEM higher education*, 15 Chwefror 2011 https://royalsociety.org/education/policy/state-of-nation/higher-education/ fel y nodwyd yn *Gwyddoniaeth i Gymru: Agenda strategol ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd yng Nghymru* Llywodraeth Cymru (2012).<br><br>[3] Crefft, Dylunio a Thechnoleg |
| **Rhif adnabod yr amcan penodol** | 3.4 |
| **Teitl yr amcan penodol** | Cynyddu sgiliau'r gweithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. |
| **Canlyniadau y mae'r Aelod-wladwriaethau yn ceisio eu cyflawni gyda chymorth yr Undeb** | 1. Nod yr amcan hwn yw cynyddu sgiliau gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn ardal y rhaglen er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth a gwella datblygiad a chyrhaeddiad ein plant yn eu blynyddoedd cynnar. Bydd cyfranogwyr eisoes wedi'u cyflogi yng ngweithlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Oherwydd natur y ddarpariaeth, bydd hyn yn cynnwys y rhai a all fod yn rhan o weithlu'r sector cyhoeddus, yn enwedig y rhai mewn 'lleoliadau a gynhelir' ond ni fydd yn cynnwys athrawon.<br>2. Fel y nodir yn yr astudiaeth o Ddarpariaeth Effeithiol Addysg Cyn Ysgol ar yr hyn sy'n gwneud lleoliad blynyddoedd cynnar o ansawdd da[1], mae'r gweithlu yn ganolog i wella ansawdd. Cydnabyddir bod llawer o ffactorau hynod gymhleth a rhyng-ddibynnol sy'n dylanwadu ar ddatblygiad plant. Fodd bynnag, dangoswyd mai gofal plant o ansawdd uchel yw'r strategaeth ymyrraeth gynnar unigol fwyaf effeithiol a buddiol o ran cost i wella canlyniadau datblygiadol plant, yn enwedig datblygiad ieithyddol a gwybyddol[2]. Mae cysylltiad annatod |

compare report

| | |
|---|---|
| | rhwng ansawdd cymorth y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a sgiliau a chymwysterau'r gweithlu. Cynhaliodd Cyngor Gofal Cymru astudiaeth o Weithlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru yn 2010. Mae'r astudiaeth yn adlewyrchu lefelau sgiliau cyffredinol gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ar y pryd a helpodd i ategu'r gwaith o ddatblygu a phennu dangosyddion canlyniadau a thargedau cysylltiedig. Prif ganlyniadau uniongyrchol yr Amcan Penodol fydd nifer y cyfranogwyr o'r sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant sy'n ennill cymhwyster pan fyddant yn gadael. Gall fod yn bosibl, os ailadroddir yr astudiaeth o Weithlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru, i werthuso effaith gyffredinol y gweithlu ar yr Amcan Penodol hwn hefyd.<br>3. Nid oes unrhyw linellau sylfaen penodol ar gyfer y dangosyddion canlyniadau uniongyrchol gan fod hwn yn faes gweithgarwch newydd i ESF. Defnyddiwyd gweithgarwch cymaradwy a allai adlewyrchu'r lefelau sgiliau, os nad y sector penodol, i bennu llinellau sylfaen priodol. Gallai'r astudiaeth o'r gweithlu yn 2010 a nodir uchod fod yn llinell sylfaen ddefnyddiol i werthuso effaith buddsoddiadau yn y dyfodol.<br><br>[1] Sylva, K et al (2007); *Effective pre-school and primary education: findings from the pre-school period. Teaching and Learning Research Briefing no. 24*<br><br>[2] Watson, J., White, A., Taplin, S., & Huntsman, L. (2005); *Active engagement of families in early intervention programs*. Sydney, NSW: Adran Gwasanaethau Cymunedol (DoCS) NSW, y Ganolfan Rhiant ac Ymchwil. |

compare report

**Tabl 4: Dangosyddion canlyniadau cyffredin y mae gwerth targed wedi'i bennu ar eu cyfer a dangosyddion canlyniadau rhaglen benodol sy'n cyfateb i'r amcan penodol (yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi a chategori rhanbarth)** (ar gyfer ESF)

**Blaenoriaeth fuddsoddi : 10i - Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a'i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da, gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio ag addysg a hyfforddiant**

| Rhif Adnabod | Dangosydd | Categori rhanbarth | Uned fesur ar gyfer dangosydd | Dangosydd allbwn cyffredin a ddefnyddir fel sail i bennu targedau | Gwerth sylfaenol | | | Uned fesur ar gyfer llinell sylfaen a tharged | Blwyddyn sylfaenol | Gwerth targed (2023) | | | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | C | GN | T | | | C | GN | T | | |
| 1125 | Cyfranogwyr sy'n wynebu risg o ddod yn NEET (11-24 oed) sy'n ennill cymwysterau pan fyddant yn gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 7.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 7.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1127 | Cyfranogwyr sy'n wynebu risg o ddod yn NEET (11-24 oed) sydd mewn addysg neu hyfforddiant pan fyddant yn gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 19.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 19.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1128 | Cyfranogwyr sy'n wynebu risg o ddod yn NEET (11-24 oed) sy'n wynebu llai o risg o ddod yn NEET pan fyddant yn gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 0.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 0.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1129F | Pobl ifanc 11-19 oed sy'n cwblhau hyfforddiant mewn Mathemateg, Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg - benyw | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 47.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 55.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1129M | Pobl ifanc 11-19 oed sy'n cael ac yn cwblhau hyfforddiant mewn Mathemateg, Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg - gwryw | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 53.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 55.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1130F | Pobl ifanc 11-19 oed sy'n parhau i astudio Mathemateg, Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - benyw | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 11.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 45.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1130M | Pobl ifanc 11-19 oed sy'n parhau i astudio Mathemateg, Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - gwryw | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 17.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 45.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1184F | Cyflogedig gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig o'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n ennill cymwysterau pan fyddant yn gadael - benyw | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 57.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 77.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1184M | Cyflogedig gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig o'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n ennill cymwysterau pan fyddant yn gadael - gwryw | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 57.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 77.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |

compare report

## 2.A.6 Cam gweithredu i'w gefnogi o dan y flaenoriaeth fuddsoddi (yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi)

### *2.A.6.1 Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt, ynghyd â'u cyfraniad disgwyliedig i'r amcanion penodol gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nodi prif grwpiau targed, tiriogaethau penodol a dargedir a mathau o fuddiolwyr*

| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | 10i - Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a'i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da, gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio ag addysg a hyfforddiant |
|---|---|

1. **Amcan Penodol 2**
2. O fewn thema 'Cyrhaeddiad ac Ymgysylltiad Pobl Ifanc', cymerir camau drwy ddau Amcan Penodol gwahanol sy'n gweithredu fel rhan o Echel Blaenoriaeth gydgysylltiedig er mwyn diwallu anghenion tymor hwy ein pobl ifanc.
3. Wrth gyflawni yn erbyn **Amcan Penodol 2**, bydd y camau a gymerir o fewn y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon yn targedu pobl ifanc 11-24 oed, sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddod yn NEET, gan gefnogi'r broses o bontio rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd ac i mewn i gyflogaeth a darparu amrywiaeth o ymyriadau a fydd yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at wasanaethau prif ffrwd ond heb eu dyblygu. Bydd ymyriadau yn canolbwyntio ar y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o ymddieithrio neu o ddod yn NEET, fel y nodir drwy'r system nodi ac olrhain a amlinellir yn Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru.

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 10i - Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a'i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da, gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio ag addysg a hyfforddiant |
|---|---|

4. Oherwydd natur y garfan NEET bydd camau gweithredu, yn naturiol, yn canolbwyntio ar bobl ifanc o grwpiau penodol, gan gynnwys troseddwyr ifanc, pobl ifanc o gefndiroedd Duon a Lleiafrifoedd Ethnig, mamau yn eu harddegau a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig a phobl ifanc sydd wedi gadael gofal a allai fod yn wynebu rhwystrau ychwanegol i ymgysylltu neu ddatblygu, ond ni fyddant yn gyfyngedig iddynt.
5. Bydd camau gweithredu yn rhoi blaenoriaeth i gymwysterau a deilliannau dysgu pellach ar gyfer cyfranogwyr. Fodd bynnag, gan ddefnyddio'r system nodi ac olrhain o fewn y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, cyflawnir canlyniadau sy'n gysylltiedig â lleihau'r risg o NEET hefyd.
6. Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, caiff camau gweithredu eu cynllunio i fynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n effeithio ar gyrhaeddiad a chyflogadwyedd pobl ifanc ar oedran iau, gan gynnwys dyheadau gwael a methu â chyflawni cyrhaeddiad mewn cyfnodau pontio allweddol. Mae mwy o gystadleurwydd yn y farchnad lafur yn rhoi mwy o ffocws ar bwysigrwydd cefnogi ymgysylltu a chyrhaeddiad cynnar[1].
7. Gall ymyrraeth gynnar i leihau'r risg o ddod yn NEET gael effeithiau hirdymor sylweddol hefyd. Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn nodi bod methiant i ymgysylltu â phobl ifanc yn cynyddu'r costau sy'n gysylltiedig ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac mae'n cyfrannu at yr heriau sy'n gysylltiedig â diweithdra hirdymor. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn amcangyfrif bod cost gydol oes y niferoedd cyfredol o bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET yn £626 miliwn mewn costau cyllid cyhoeddus ac yn £1.21 biliwn mewn costau adnoddau[2]

compare report

8. Gan gefnogi'r Themâu Trawsbynciol a amlinellir yn Adran 11, bydd camau gweithredu hefyd yn ymdrin â'r bwlch clir mewn cyrhaeddiad yn 15 oed rhwng bechgyn a merched (y naill yn 89% a'r llall yn 82%)[3]. Bydd camau gweithredu yn atgyfnerthu dewisiadau mewn modd cadarnhaol ac yn helpu i gael gwared ar stereoteipiau rhyw traddodiadol ym maes cyflogaeth a dysgu, gan ehangu gorwelion ar gyfer swyddi neu sectorau cyflogaeth anhraddodiadol.
9. Gallai'r camau dangosol a allai gael eu cymryd i gefnogi **Amcan Penodol 2** a'r grwpiau targed a nodwyd uchod gynnwys:
   - Camau cynnar wedi'u targedu er mwyn trechu dadrithiad, cynnig mynediad i ystod ehangach ac arloesol o opsiynau dysgu sy'n ategu'r broses o feithrin sgiliau galwedigaethol a lefel uwch ac atal pobl ifanc rhag gadael byd addysg;
   - Camau sy'n helpu pobl ifanc i feithrin y sgiliau sy'n eu galluogi i fod yn fwy hyblyg a gallu addasu mewn marchnad lafur sy'n newid yn gyflym a chael gwaith parhaol, annog cysylltiadau rhwng dewisiadau gyrfaol a thueddiadau tymor hwy o ran y farchnad lafur a threchu stereoteipiau rhywiol traddodiadol yn y gweithle;
   - Helpu ymarferwyr i ddatblygu er mwyn ymgysylltu'n well â phobl ifanc sydd wedi dadrithio a gwella'r cysylltiadau â'r sector preifat ynghyd â'r wybodaeth amdano;
   - Dileu'r rhwystrau i ddysgu, helpu i feithrin annibyniaeth, a rhoi cyngor mentora ac eirioli unigol i bobl ifanc.
10. **Amcan Penodol 3**

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | 10i - Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a'i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da, gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio ag addysg a hyfforddiant |

11. Wrth gyflawni yn erbyn **Amcan Penodol 3**, bydd camau gweithredu o fewn y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon yn targedu pobl ifanc 11-19 oed, gyda'r nod o gynyddu lefelau diddordeb a chyrhaeddiad mewn perthynas â phynciau STEM, yn enwedig ymhlith merched. Bydd camau gweithredu yn cyfoethogi'r cwricwlwm pynciau STEM craidd, gan ategu ac ychwanegu gwerth at wasanaethau prif ffrwd, ond heb eu dyblygu.
12. Bydd camau gweithredu yn ennyn mwy o ddiddordeb mewn pynciau STEM er mwyn cynyddu lefelau cyrhaeddiad yn 16 oed a chynyddu lefelau cofrestru pynciau STEM ar ôl 16 oed, gan hyrwyddo llwybrau STEM drwy'r ysgol uwchradd a, naill ai'n uniongyrchol neu drwy fynediad at addysg uwch, i mewn i gyflogaeth. Rhoddir sylw i ddatblygu'r ymgysylltiad â phynciau STEM ar gam cynnar o addysg uwchradd a chyfuno a chynnal yr ymgysylltiad hwn drwy'r pwyntiau pontio allweddol yn 14 oed (Cyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4) ac 16 oed (y newid o addysg orfodol i addysg a hyfforddiant ôl-16). Disgwylir i gamau gweithredu fod yn ymyriadau estynedig dros gyfnod hir a chynnwys nifer fawr o oriau cyswllt.
13. Bydd camau gweithredu hefyd yn ennyn mwy o ddiddordeb ymhlith merched mewn pynciau STEM, gan gynyddu lefelau cyrhaeddiad cyn ac ar ôl 16 oed a chynyddu lefelau cofrestru pynciau STEM ar ôl 16 oed ymhlith merched. Bydd camau gweithredu yn atgyfnerthu dewisiadau mewn modd cadarnhaol ac yn helpu i gael gwared ar stereoteipiau rhyw traddodiadol ym maes cyflogaeth a dysgu, gan ehangu gorwelion ar gyfer swyddi neu sectorau cyflogaeth anhraddodiadol ac ymdrin â thangynrychiolaeth bresennol merched mewn pynciau STEM mewn addysg uwch a gyrfaoedd sy'n seiliedig ar STEM.
14. Bwriedir i bob ymyriad gynyddu cyflogadwyedd pobl ifanc yn y dyfodol ac, felly, bydd yn ymateb i anghenion cyflogwyr, gan flaenoriaethu deilliannau dysgu pellach i gyfranogwyr. Yn unol â thystiolaeth bod ymwneud cyflogwyr yn hanfodol i ysgogi ac ysbrydoli pobl ifanc[4], caiff camau gweithredu sy'n mynd ati i ymgysylltu â chyflogwyr a'u cynnwys eu hannog.
15. Gallai'r camau dangosol a allai gael eu cymryd i gefnogi **Amcan Penodol 3** a'r grwpiau targed a nodwyd uchod gynnwys:
    - camau sy'n cynyddu lefelau ymgysylltu a chyrhaeddiad pobl ifanc 11-16 oed mewn pynciau STEM ac yn cynyddu cyfran y garfan sy'n parhau i astudio pynciau STEM ar ôl 16 oed;
    - camau sy'n cynyddu lefelau ymgysylltu a chyrhaeddiad merched 11-19 oed mewn pynciau STEM, gan gynyddu cyfran y merched sy'n parhau i astudio pynciau STEM ar ôl 16 oed a chau'r bwlch cyfranogi rhwng bechgyn a merched;
    - camau sy'n hyrwyddo llwybrau gyrfa sy'n gysylltiedig â STEM, gan annog cysylltiadau rhwng dewisiadau gyrfa a thueddiadau tymor hwy yn y farchnad lafur ac ymdrin â stereoteipiau rhyw mewn cyflogaeth.
16. **Amcan Penodol 4**
17. Wrth gyflawni yn erbyn **Amcan Penodol 4**, bydd camau o fewn y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon yn targedu oedolion sy'n rhan o weithlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Bydd y camau a gymerir yn canolbwyntio'n bennaf ar y rhai â lefel isel o sgiliau, os o gwbl, gyda'r nod o ddatblygu i lefel ganolraddol neu uwch, ond byddant hefyd yn cynnwys y rhai â chymwysterau lefel ganolraddol er mwyn cynyddu nifer yr arweinwyr lleoliad.

compare report

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 10i - Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a'i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da, gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio ag addysg a hyfforddiant |
|---|---|

18. O fewn thema 'Blynyddoedd Cynnar', bydd camau gweithredu yn rhan o Echel Blaenoriaeth gydgysylltiedig a fydd yn cyflawni gwaddol hirdymor er mwyn ymdrin â chyrhaeddiad ein pobl ifanc a'u rhagolygon cyflogaeth yn y dyfodol, drwy fuddsoddiadau ochr gyflenwi, sy'n sail gadarn i ddatblygiad ein plant yn y dyfodol.
19. Bydd camau gweithredu yn blaenoriaethu cymwysterau fel y prif ganlyniad uniongyrchol. Oherwydd natur y sector ac amlygrwydd lleoliadau sector cyhoeddus yn y sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, bydd camau gweithredu yn cynnwys cyfranogwyr o weithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant y Sector Cyhoeddus. Ni fydd hyn yn cynnwys athrawon.
20. Mae datblygiad gwybyddol yn y blynyddoedd cynnar o bwys mawr i ddeilliannau diweddarach ac mae perfformiad gwybyddol yn dair a phump oed yn gysylltiedig â chyflawniad ysgol, cyrhaeddiad academaidd a chanlyniadau galwedigaethol diweddarach[5]. Dengys ymchwil yr effaith y caiff addysg gynnar o ansawdd uchel i blant dwy oed ar gyfleoedd diweddarach mewn bywyd[6] ac fel modd i roi terfyn ar drosglwyddo tlodi plant rhwng y cenedlaethau. Mae ansawdd gofal plant yn hynod bwysig i'r grwpiau mwyaf difreintiedig lle mae gofal o ansawdd uchel yn hybu datblygiad[7].
21. Mae adolygiad Nutbrown[8] yn dangos tystiolaeth bod gwella cymwysterau gofalwyr (ac felly ansawdd cyffredinol gofal plant) yn arwain at wella cyrhaeddiad plant bach a bydd plant â chyrhaeddiad uchel yn llai tebygol o ddod yn NEET yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae ymchwil i dlodi plant[9] yn tanlinellu pwysigrwydd gwella rhianta a datblygiad cynnar plant fel ffordd o roi terfyn ar drosglwyddo tlodi plant rhwng y cenedlaethau.
22. Ochr yn ochr â hyn, a chan ategu'r themâu trawsbynciol, bydd camau gweithredu yn targedu'r gwaith o hyrwyddo gwell cydbwysedd ac amrywiaeth rhwng y rhywiau ymhlith gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod y camau hyn yn debygol o gyflawni effeithiau cadarnhaol i ddynion sydd am ymuno â'r sector. Mae hefyd yn dod i'r casgliad bod plant yn debygol o gael budd o'r camau mwy cytbwys hyn, a all helpu i herio safbwyntiau traddodiadol ynghylch rolau ar sail rhywedd[10].
23. Gallai'r camau dangosol a allai gael eu cymryd i gefnogi **Amcan Penodol 4** a'r grwpiau targed a nodwyd uchod gynnwys:
    - Helpu i feithrin sgiliau yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant gan gynnwys ymarferwyr gofal plant presennol a phosibl.
24. Mae'r camau a gynllunnir a ddisgrifir uchod o fewn pob thema yn darparu meysydd gweithredu dangosol y gallai gweithrediadau sy'n cyflawni'r Amcan Penodol hwn eu datblygu. Disgwylir i bob gweithrediad nodi gweithgareddau manwl gywir a phenodol yn y meysydd gweithredu uchod. Dylai'r gweithgareddau hyn gael eu dylunio i ddiwallu anghenion penodol grŵp/grwpiau targed wedi'u nodi'r gweithrediad a'r canlyniadau a geisir. Dylid cyflwyno tystiolaeth er mwyn profi effeithlonrwydd a chymhwysedd y gweithgareddau penodol hyn.
25. Disgwylir i fuddiolwyr cyllid gynnwys y sector cyhoeddus (awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru); sefydliadau anllywodraethol; darparwyr addysg; prifysgolion a'r sector preifat.

compare report

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 10i - Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a'i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da, gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio ag addysg a hyfforddiant |
|---|---|


[1] UKCES (2011); *The Youth Enquiry:Employer Perspectives on Tackling Youth Unemployment*

[2] Swyddfa Archwilio Cymru (2014); *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*

[3] Datganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2010); *Educational Attainment of Young People by Age 19, 2008/09*

[4] Er enghraifft, mae'r CBI wedi nodi y gall y safbwynt 'bywyd go iawn' y gall cyflogwyr ei gynnig i ddysgu helpu i dynnu sylw pobl ifanc at werth ymarferol a chwmpas creadigol pynciau STEM. Dyfynnwyd yn Engineering UK 2014 http://www.engineeringuk.com/Research/Engineering_UK_Report_2014/

*[5] Duncan, G.J., Dowsett, C.J., Claessens, A., Magnuson,K., Hudson, A.C., Klebov, P., Pagani, L., Feinstein, L., Engel, M., Brooks-Gunn, J., Sexton, H. a Duckworth, K,* (2007) *School readiness and later achievement. Development Psychology, 43(6), 1428-1446.*

[6] Field MP, F. (2010); *The Foundation Years:Preventing poor children becoming poor adults. The report of the Independent Review on Poverty and Life Chances*

[7] *Sammons, P. et al (2004); The Effective Provision of Pre-School Education Project; Findings from Pre-school to end Key Stage 1*

[8] Yr Athro Cathy Nutbrown (2012); *FOUNDATIONS FOR QUALITY The independent review of early education and childcare qualifications*

[9] Field MP, F. (2010); *The Foundation Years:Preventing poor children becoming poor adults. The report of the Independent Review on Poverty and Life Chances*

[10] Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb


compare report

*2.A.6.2 Egwyddorion arweiniol ar gyfer dewis gweithrediadau*

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | 10i - Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a'i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da, gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio ag addysg a hyfforddiant |

1. Nodir yr egwyddorion cyffredinol i lywio'r broses o ddewis gweithrediadau yn y dyfodol ar gyfer pob Blaenoriaeth Fuddsoddi, gan gynnwys targedu dulliau fel bod gan fuddsoddiad ffocws, yn adran egwyddorion cyffredin Blaenoriaeth Fuddsoddi 9i "Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd". Bydd yr egwyddorion cyffredin hyn yr un mor gymwys i'r Flaenoriaeth Fuddsoddi hon.
2. **Egwyddorion ychwanegol sy'n berthnasol i'r Flaenoriaeth Fuddsoddi benodol**
3. Rhaid i gamau gweithredu o dan Amcan Penodol 2 a 3 ymateb i ofynion y farchnad lafur, nodi ac achub ar gyfleoedd twf a pharhau i gynyddu cystadleurwydd yr ardal. Rhaid i gamau gweithredu ddiwallu anghenion yr economi, bod yn gyson â gwybodaeth am y farchnad lafur a bod yn gysylltiedig â chyflogwyr er mwyn sicrhau bod sgiliau, ymyriadau a dyheadau gyrfa ein pobl ifanc yn gyson â galw cyflogwyr a chyfleoedd twf sy'n dod i'r amlwg.
4. Bydd ymyriadau yn integreiddio â chamau gweithredu o fewn Amcan Penodol 1 o'r echel blaenoriaeth hon er mwyn cefnogi datblygiad ar adegau pontio allweddol a byddant yn gweithio gyda mentrau ehangach sy'n anelu at ddiwallu anghenion ein pobl ifanc.
5. Rhaid i gamau gweithredu o dan Amcan Penodol 2 a 3 fod yn gyson â Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru[1].
6. Rhaid i gamau gweithredu o dan Amcan Penodol 4 fod yn gyson â Chynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Llywodraeth Cymru a chefnogi camau ehangach ESF, Llywodraeth Cymru a chymdeithasol er mwyn rhoi'r cychwyn gorau i'n plant mewn bywyd a gwella eu cyfleoedd mewn bywyd. Rhaid i bob ymyriad feithrin cysylltiadau effeithiol â strategaethau ehangach sy'n ymdrin â datblygiad y blynyddoedd cynnar a mentrau yn seiliedig ar deuluoedd gan gyfrannu at raglenni ehangach i fynd i'r afael â thlodi a chynhwysiant cymdeithasol.
7. Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol y sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus.
8. Oni nodir fel arall yn y dangosyddion allbynnau ar gyfer y flaenoriaeth fuddsoddi hon, bydd angen i'r holl weithrediadau sy'n ceisio cymorth o fewn y flaenoriaeth fuddsoddi hon bennu targedau allbwn lefel gweithredu priodol, o leiaf, o fewn y categorïau canlynol:
    - Rhyw;
    - Anabledd;
    - Cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith;
    - Mudwyr / BME / Lleiafrifoedd (gan gynnwys cymunedau ymylol fel y Roma);
    - Cyfrifoldebau Gofal / Gofal Plant.
9. Ar gyfer AP2 rhagwelir, ar lefel rhaglen, o blith y targed cyfanswm sy'n wynebu risg o ddod yn NEET (11-24 oed, gwryw a benyw) yn nhabl 5 y bydd gan 10% anabledd.

compare report

| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | 10i - Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a’i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da, gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio ag addysg a hyfforddiant |
|---|---|
| [1] Llywodraeth Cymru: http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?lang=cy | |

### *2.A.6.3 Defnydd arfaethedig o offerynnau ariannol* (lle y bo’n briodol)

| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | 10i - Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a’i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da, gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio ag addysg a hyfforddiant |
|---|---|
| 1. Daeth yr asesiad ex-ante o’r defnydd o Offerynnau Ariannol yn ESF i’r casgliad bod OA ar gyfer y camau arfaethedig yn amhriodol, yn annhebygol o fod yn gost-effeithiol ac yn rhy ddibynnol ar ganlyniadau cyflogaeth ansicr. Felly, ni chynigir defnyddio OA i gyflawni’r camau arfaethedig. | |

### *2.A.6.4 Defnydd arfaethedig o brosiectau mawr* (lle y bo’n briodol)

compare report

| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | 10i - Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a’i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da, gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio ag addysg a hyfforddiant |
|---|---|
| 1. Nid yw hyn yn gymwys i ESF. | |

### *2.A.6.5 Dangosyddion allbwn yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi a, lle y bo’n briodol, gategori rhanbarth*

**Tabl 5:** Dangosyddion canlyniadau cyffredin a rhaglen benodol (yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi wedi’u dadansoddi yn ôl categori rhanbarth ar gyfer ESF, a lle y bo’n briodol, ERDF)

| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | | **10i - Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a’i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da, gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio ag addysg a hyfforddiant** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Adnabod** | **Dangosydd** | **Uned fesur** | **Cronfa** | **Categori rhanbarth (lle y bo’n berthnasol)** | **Gwerth targed (2023)** | | | **Ffynhonnell data** | **Amlder adrodd** |
| | | | | | **C** | **GN** | **T** | | |
| 1028 | Cyfranogwyr sy’n wynebu risg o ddod yn NEET (11-24 oed) | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 49,700.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |

| Blaenoriaeth fuddsoddi | | 10i - Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a'i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da, gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio ag addysg a hyfforddiant | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Adnabod** | **Dangosydd** | **Uned fesur** | **Cronfa** | **Categori rhanbarth (lle y bo'n berthnasol)** | **Gwerth targed (2023)** | | | **Ffynhonnell data** | **Amlder adrodd** |
| | | | | | **C** | **GN** | **T** | | |
| 1030M | Pobl Ifanc 11-19 oed - Gwryw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 8,400.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1031 | Pobl Ifanc 11-19 oed - Benyw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 15,000.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1032F | Cyflogedig gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig o'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant - Benyw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 2,700.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1032M | Cyflogedig gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig o'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant - Gwryw | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 300.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |

## 2.A.4 Blaenoriaeth fuddsoddi

| | |
|---|---|
| **Rhif adnabod y flaenoriaeth fuddsoddi** | 8ii |
| **Teitl y flaenoriaeth fuddsoddi** | Integreiddio pobl ifanc yn y farchnad lafur yn gynaliadwy, yn enwedig y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, gan gynnwys pobl ifanc sy'n wynebu risg o allgáu cymdeithasol a phobl ifanc o gymunedau ymylol, gan gynnwys drwy weithredu'r Warant Ieuenctid |

compare report

## 2.A.5 Amcanion penodol sy'n cyfateb i'r flaenoriaeth fuddsoddi a'r canlyniadau disgwyliedig

| | |
|---|---|
| **Rhif adnabod yr amcan penodol** | 3.1 |
| **Teitl yr amcan penodol** | Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed Nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET). |
| **Canlyniadau y mae'r Aelod-wladwriaethau yn ceisio eu cyflawni gyda chymorth yr Undeb** | 1. Nod yr Amcan Penodol hwn, fel rhan o'r dull integredig o fewn y flaenoriaeth i ymdrin â materion NEET a Diweithdra ymhlith Pobl Ifanc, yw lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET. Bydd hyn yn cynnwys y rhai sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar.<br>2. Yn unol â'r Argymhellion sy'n Benodol i Wlad, effaith buddsoddiadau yn yr Amcan Penodol hwn, gan ystyried cyfraddau mewnlif ac all-lif, fydd gostwng cyfraddau diweithdra ieuenctid yn GCC. Bydd hefyd yn lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET.<br>3. Bydd canlyniadau uniongyrchol y buddsoddiadau ESF yn canolbwyntio ar fesur nifer y bobl ifanc 16-24 oed a ddosberthir yn NEET sy'n symud i mewn i naill ai Addysg neu Gyflogaeth o ganlyniad i gymorth ESF. Bydd dangosyddion canlyniadau ychwanegol hefyd yn mesur nifer y bobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET sy'n ennill cymhwyster fel llwybr i gyflogaeth gynaliadwy, gan hefyd adlewyrchu'r Argymhellion sy'n Benodol i Wlad i leihau nifer y bobl ifanc â lefel isel o sgiliau sylfaenol. |

| | |
|---|---|
| | 4. Pennwyd llinellau sylfaen ar gyfer y dangosyddion canlyniadau yn seiliedig ar weithgarwch cymaradwy a gefnogir drwy ddarpariaeth ESF flaenorol neu weithgarwch tebyg rywle arall. Pennwyd targedau er mwyn adlewyrchu'r uchelgais gyffredinol i helpu'r rhai sy'n NEET i gael cyflogaeth gan adeiladu ar lwyddiant sylweddol yn y rhaglen gyfredol. Mae targedau eraill yn adlewyrchu llinellau sylfaen oherwydd ystyrir bod y rhain yn briodol heb amharu ar yr angen am ganlyniadau cyflogaeth. |

compare report

**Tabl 4: Dangosyddion canlyniadau cyffredin y mae gwerth targed wedi'i bennu ar eu cyfer a dangosyddion canlyniadau rhaglen benodol sy'n cyfateb i'r amcan penodol (yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi a chategori rhanbarth)** (ar gyfer ESF)

**Blaenoriaeth fuddsoddi : 8ii - Integreiddio pobl ifanc yn y farchnad lafur yn gynaliadwy (ESF), yn enwedig y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, gan gynnwys pobl ifanc sy'n wynebu risg o allgáu cymdeithasol a phobl ifanc o gymunedau ymylol, gan gynnwys drwy weithredu'r Warant Ieuenctid**

| Rhif Adnabod | Dangosydd | Categori rhanbarth | Uned fesur ar gyfer dangosydd | Dangosydd allbwn cyffredin a ddefnyddir fel sail i bennu targedau | Gwerth sylfaenol | | | Uned fesur ar gyfer llinell sylfaen a tharged | Blwyddyn sylfaenol | Gwerth targed (2023) | | | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | C | GN | T | | | C | GN | T | | |
| 1123 | Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sydd mewn addysg/hyfforddiant pan fyddant yn gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 17.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 17.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1124 | Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) sy'n dechrau gweithio pan fyddant yn gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 25.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 28.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |
| 1183 | Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) sy'n ennill cymwysterau pan fyddant yn gadael | Llai datblygedig | Cymhareb | | | | 18.00 | Cymhareb (%) | 2013 | | | 20.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |

## 2.A.6 Cam gweithredu i'w gefnogi o dan y flaenoriaeth fuddsoddi (yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi)

### *2.A.6.1 Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt, ynghyd â'u cyfraniad disgwyliedig i'r amcanion penodol gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nodi prif grwpiau targed, tiriogaethau penodol a dargedir a mathau o fuddiolwyr*

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 8ii - Integreiddio pobl ifanc yn y farchnad lafur yn gynaliadwy (ESF), yn enwedig y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, gan gynnwys pobl ifanc sy'n wynebu risg o allgáu cymdeithasol a phobl ifanc o gymunedau ymylol, gan gynnwys drwy weithredu'r Warant Ieuenctid |
|---|---|

compare report

1. **Amcan Penodol 1**
2. Wrth gyflawni yn erbyn Amcan Penodol 1, bydd y camau a gymerir o dan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon yn targedu pobl ifanc o oedran gweithio (o 16 oed hyd at a chan gynnwys 24 oed) a ddosberthir yn NEET gan gynnwys y rhai sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar.
3. Fel rhan o thema 'Cyflogaeth Ieunctid', bydd camau gweithredu yn rhan o Echel Blaenoriaeth gydgysylltiedig sy'n diwallu anghenion tymor hwy ein pobl ifanc, gan gynnig amrywiaeth o ymyriadau i ategu a hwyluso mynediad at gyflogaeth estynedig i'r rhai sy'n barod i weithio ac i'r rhai y gallai fod angen sgiliau ychwanegol neu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar waith arnynt.
4. Bydd camau gweithredu yn blaenoriaethu canlyniadau cyflogaeth ar gyfer cyfranogwyr. Fodd bynnag, bydd unigolion hefyd yn cael cymorth i ddysgu ymhellach, ennill cymwysterau a dilyn hyfforddiant fel rhan o'r gwaith o gefnogi mynediad a datblygiad i gyflogaeth gynaliadwy. Yn achos y bobl ifanc hynny o fewn y grŵp targed hwn a all fod wedi profi cyfnodau hir o ddiweithdra, gall ymyriadau fod am gyfnod byr a, lle y bo'n briodol, ddarparu mesurau priodol, fel mentora, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd canlyniadau cyflogaeth.
5. Bydd buddsoddiadau ESF drwy'r Flaenoriaeth Fuddsoddi hon yn gyson â Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau yn ychwanegu gwerth at ddarpariaeth bresennol sydd wedi'i mapio ac yn cael eu cyflawni fel rhan o ymateb cydgysylltiedig i ateb yr heriau sy'n wynebu pobl ifanc wrth gael Cyflogaeth Gynaliadwy. Bydd camau gweithredu hefyd yn helpu i gyflawni

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 8ii - Integreiddio pobl ifanc yn y farchnad lafur yn gynaliadwy (ESF), yn enwedig y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, gan gynnwys pobl ifanc sy'n wynebu risg o allgáu cymdeithasol a phobl ifanc o gymunedau ymylol, gan gynnwys drwy weithredu'r Warant Ieuenctid |
|---|---|

Gwarant Ieuenctid Llywodraeth Cymru, ac ychwanegu gwerth ati, gan wella'r dulliau o helpu unigolion i gael hyfforddiant swydd o ansawdd da, neu addysg barhaus i'r sawl sydd y tu hwnt i'r cyfnod pontio cychwynnol o addysg orfodol.

6. Bydd newidiadau parhaus yn system Les Llywodraeth y DU yn creu heriau wrth geisio cyflawni'r agenda cyflogaeth ieuenctid o fewn y flaenoriaeth hon. Bydd angen i ymyriadau ategu darpariaeth prif ffrwd, ac ychwanegu gwerth ati, tra'n osgoi dyblygu. Bydd hyn yn gofyn am beth hyblygrwydd er mwyn addasu i'r amgylchedd newidiol. Ymdrinnir ag egwyddorion cymhwysedd penodol sy'n seiliedig ar raglenni prif ffrwd Llywodraeth y DU drwy ddogfennaeth canllaw ar gymhwysedd Cymru, sydd ar gael drwy wefan WEFO ac a gaiff ei diweddaru drwy gydol cyfnod y Rhaglen.
7. Gallai'r camau dangosol a allai gael eu cymryd i gefnogi **Amcan Penodol 1** a'r grwpiau targed a nodwyd uchod gynnwys:
    - Camau i sicrhau bod pobl ifanc yn cael y sgiliau, y cymwyseddau a'r profiad angenrheidiol sy'n eu galluogi i gael gwaith cynaliadwy, gan gynnwys hunangyflogaeth;
    - Camau i helpu pobl ifanc i ddychwelyd i addysg neu hyfforddiant er mwyn datblygu ymhellach sgiliau ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol;
    - Camau i helpu pobl ifanc i gael cyflogaeth barhaol a'i chynnal;
    - Gweithgareddau gyda mentrau ac addysgwyr er mwyn herio tybiaethau a stereoteipiau traddodiadol a gwella cyfraddau cyfranogi mewn galwedigaethau a sectorau lle na chaiff rhyw benodol neu grŵp cydraddoldeb cydnabyddedig ei gynrychioli'n ddigonol.
8. Mae'r camau a gynllunnir a ddisgrifir uchod yn darparu meysydd gweithredu dangosol y gallai gweithrediadau sy'n cyflawni'r Amcan Penodol hwn eu datblygu. Disgwylir i bob gweithrediad nodi gweithgareddau manwl gywir a phenodol yn y meysydd gweithredu uchod. Dylai'r gweithgareddau hyn gael eu dylunio i ddiwallu anghenion penodol grŵp/grwpiau targed wedi'u nodi'r gweithrediad a'r canlyniadau a geisir. Dylid cyflwyno tystiolaeth er mwyn profi effeithlonrwydd a chymhwysedd y gweithgareddau penodol hyn.
9. Disgwylir mai buddiolwyr cyllid fydd y sector cyhoeddus (awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru); sefydliadau anllywodraethol (gan gynnwys y Trydydd Sector); darparwyr addysg; prifysgolion; a'r sector preifat.

compare report

***2.A.6.2 Egwyddorion arweiniol ar gyfer dewis gweithrediadau***

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 8ii - Integreiddio pobl ifanc yn y farchnad lafur yn gynaliadwy (ESF), yn enwedig y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, gan gynnwys pobl ifanc sy'n wynebu risg o allgáu cymdeithasol a phobl ifanc o gymunedau ymylol, gan gynnwys drwy weithredu'r Warant Ieuenctid |
|---|---|

1. Nodir yr egwyddorion cyffredinol i lywio'r broses o ddewis gweithrediadau yn y dyfodol ar gyfer pob Blaenoriaeth Fuddsoddi, gan gynnwys targedu dulliau fel bod gan fuddsoddiad ffocws, yn adran egwyddorion cyffredin Blaenoriaeth Fuddsoddi 9i "Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd". Bydd yr egwyddorion cyffredin hyn yr un mor gymwys i'r flaenoriaeth fuddsoddi hon.

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 8ii - Integreiddio pobl ifanc yn y farchnad lafur yn gynaliadwy (ESF), yn enwedig y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, gan gynnwys pobl ifanc sy'n wynebu risg o allgáu cymdeithasol a phobl ifanc o gymunedau ymylol, gan gynnwys drwy weithredu'r Warant Ieuenctid |
|---|---|

2. **Egwyddorion ychwanegol sy'n berthnasol i'r Flaenoriaeth Fuddsoddi benodol**
3. Rhaid dylunio camau gweithredu fel eu bod yn gyson ag egwyddorion sicrhau bod gan gyflogwyr weithlu sy'n meddu ar gymwysterau addas ar gyfer y dyfodol, bod datblygiad sgiliau a lefelau cyrhaeddiad yn gyson â gweithgaredd twf a bod pobl ifanc yn cymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant priodol er mwyn bodloni meysydd twf cyflogaeth a gofynion cyflogwyr. Bydd GFL yn rhan allweddol o'r broses o gefnogi buddsoddiadau i gysoni ymyriadau ag anghenion cyflogwyr nawr ac yn y dyfodol.
4. Bydd ymyriadau yn integreiddio â chamau gweithredu o fewn Amcan Penodol 2 o'r echel blaenoriaeth hon er mwyn cefnogi datblygiad ar bwyntiau pontio allweddol a byddant yn gweithio gyda mentrau ehangach sy'n anelu at ddiwallu anghenion ein pobl ifanc.
5. Rhaid i gamau gweithredu fod yn gyson â Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru ynghyd â'i Chynllun Gweithredu cysylltiedig[1].
6. Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol y sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus.
7. Oni nodir fel arall yn y dangosyddion allbynnau ar gyfer y flaenoriaeth fuddsoddi hon, bydd angen i'r holl weithrediadau sy'n ceisio cymorth o fewn y flaenoriaeth fuddsoddi hon bennu targedau allbwn lefel gweithredu priodol, o leiaf, o fewn y categorïau canlynol:
   - Rhyw;
   - Anabledd;
   - Cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith;
   - Mudwyr / BME / Lleiafrifoedd (gan gynnwys cymunedau ymylol fel y Roma);
   - Cyfrifoldebau Gofal / Gofal Plant.
8. Ar gyfer AP1 rhagwelir, ar lefel rhaglen, o blith y targed cyfanswm cyfranogwyr NEET (16-24 oed, gwryw a benyw) yn nhabl 5 y bydd gan 24% anabledd.

compare report

[1] Llywodraeth Cymru: http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?lang=cy

### *2.A.6.3 Defnydd arfaethedig o offerynnau ariannol* (lle y bo'n briodol)

| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | 8ii - Integreiddio pobl ifanc yn y farchnad lafur yn gynaliadwy (ESF), yn enwedig y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, gan gynnwys pobl ifanc sy'n wynebu risg o allgáu cymdeithasol a phobl ifanc o gymunedau ymylol, gan gynnwys drwy weithredu'r Warant Ieuenctid |
|---|---|

1. Daeth yr asesiad ex-ante o'r defnydd o Offerynnau Ariannol yn ESF i'r casgliad bod OA ar gyfer y camau arfaethedig yn amhriodol, yn annhebygol o fod yn gost-effeithiol ac yn rhy ddibynnol ar ganlyniadau cyflogaeth ansicr. Felly, ni chynigir defnyddio OA i gyflawni'r camau arfaethedig. Ystyriwyd bod peth cyfle i ddefnyddio OA ESF er mwyn cefnogi hunangyflogaeth, yn enwedig ar gyfer dechrau busnes. Fodd bynnag, ystyriwyd y byddai'n fwy cost-effeithiol i sicrhau gwell integreiddio â gweithgarwch wedi'i ariannu gan ERDF yn y maes hwn.

### *2.A.6.4 Defnydd arfaethedig o brosiectau mawr* (lle y bo'n briodol)

| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | 8ii - Integreiddio pobl ifanc yn y farchnad lafur yn gynaliadwy (ESF), yn enwedig y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, gan gynnwys pobl ifanc sy'n wynebu risg o allgáu cymdeithasol a phobl ifanc o gymunedau ymylol, gan gynnwys drwy weithredu'r Warant Ieuenctid |
|---|---|

1. Nid yw hyn yn gymwys i ESF.

compare report

### *2.A.6.5 Dangosyddion allbwn yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi a, lle y bo'n briodol, gategori rhanbarth*

**Tabl 5:** Dangosyddion canlyniadau cyffredin a rhaglen benodol (yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi wedi'u dadansoddi yn ôl categori rhanbarth ar gyfer ESF, a lle y bo'n briodol, ERDF)

| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | | **8ii - Integreiddio pobl ifanc yn y farchnad lafur yn gynaliadwy (ESF), yn enwedig y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, gan gynnwys pobl ifanc sy'n wynebu risg o allgáu cymdeithasol a phobl ifanc o gymunedau ymylol, gan gynnwys drwy weithredu'r Warant Ieuenctid** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Adnabod** | **Dangosydd** | **Uned fesur** | **Cronfa** | **Categori rhanbarth (lle y bo'n berthnasol)** | **Gwerth targed (2023)** | | | **Ffynhonnell data** | **Amlder adrodd** |
| | | | | | **C** | **GN** | **T** | | |
| 1027 | Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 42,700.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Chwarterol |

### 2.A.7 Arloesedd cymdeithasol, cydweithredu trawswladol a chyfraniad at amcan thematig 1-7

| **Echel blaenoriaeth** | **3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc** |
|---|---|

1. **Hyrwyddo Arloesedd Cymdeithasol (AC) o fewn yr Echel Blaenoriaeth.**
2. Anogir pob gweithrediad i ystyried y cyfleoedd y mae Arloesedd Cymdeithasol (AC) yn eu cynnig o ran treialu neu ddatblygu dulliau cyflawni arloesol. Anogir gweithrediadau i ystyried opsiynau i gyflawni gweithgareddau AC bach a wnaiff ystyried modelau cyflawni amgen neu

dargedu grwpiau penodol gyda'r nod o ymgorffori a mwyhau gwaith cyflawni llwyddiannus. Bydd treialu o'r fath ar raddfa fach, yn enwedig drwy waith comisiynu neu gaffael, yn cynnwys y trydydd sector, grwpiau cymunedol a phartneriaid cymdeithasol mewn dull gweithredu seiliedig ar risg lle datblygir modelau cyflawni newydd a all ychwanegu at fodelau cyflawni llwyddiannus sydd eisoes ar waith a'u hategu.

3. Gallai meysydd posibl ar gyfer camau gweithredu AC yn y rhaglen gynnwys y canlynol:
   - targedu grwpiau penodol nas cynrychiolir yn ddigonol gyda'r nod o fwyhau i weithgarwch craidd a chyflawni canlyniadau cydraddoldeb gwell;
   - treialu modelau cyflawni newydd, ar sail risg, yn enwedig o fewn methodoleg gyflawni neu ddulliau gweithredu sefydledig;
   - cefnogi'r gwaith o dreialu a datblygu strategaethau ymadael cynaliadwy drwy brofi modelau cyflawni newydd.
4. Efallai y bydd cyfleoedd AC yn datblygu wrth i weithrediadau ddatblygu. Ni fydd angen i weithgarwch AC gael ei gwmpasu'n llawn. Fodd bynnag, bydd angen i egwyddor a dulliau treialu ac yna brif ffrydio gwersi a ddysgwyd gael eu hamlinellu lle rhagwelir camau gweithredu AC. Dylai fod gan ymyriadau sy'n debygol o gyflawni canlyniadau sylweddol sail dystiolaeth sy'n dynodi lle byddai'r gwaith o dreialu dulliau gweithredu fwyaf effeithiol.
5. Bydd camau gweithredu AC yn destun gwaith monitro penodol a gwaith gwerthuso mwy manwl gywir gyda'r gwersi a ddysgir yn cael eu lledaenu o fewn gweithrediadau ac ar draws WEFO. Gall camau gweithredu AC ddigwydd fel elfennau ar wahân o weithrediadau strategol mwy neu fel gweithrediadau annibynnol ar wahân.
6. Gallai camau penodol o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon gynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol:
   - Dulliau arloesol o ymgysylltu â phobl ifanc sydd bellaf o'r farchnad lafur ac sy'n wynebu rhwystrau cymhleth a hirdymor, gan eu helpu i gael mynediad at y farchnad lafur a chael cyflogaeth gynaliadwy.
   - Dulliau arloesol o dargedu'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddod yn NEET er mwyn cynyddu lefelau ymgysylltu a chyrhaeddiad a gostwng cyfraddau Gadael yr Ysgol yn Gynnar.
7. Drwy hyn bydd hefyd yn bosibl ymgorffori cysylltiadau â grwpiau LEADER o fewn EAFRD (neu Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd (FLAG) o fewn EMFF). Bydd grwpiau LEADER neu FLAG yn gallu cymryd rhan mewn prosesau comisiynu ar gyfer camau AC, yn enwedig ar gyfer treialu dulliau newydd o weithredu gyda'r nod o brif ffrydio modelau cyflawni llwyddiannus. Bydd y grwpiau hyn hefyd yn gallu gweithio drwy'r dulliau gweithredu rhanbarthol a gofodol a ddisgrifir yn y Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU ac yn Adran 4 o'r RhW hon er mwyn annog prif ffrydio gweithgarwch a ariennir drwy gronfeydd ESI eraill i mewn i gynigion ESF cydweithredol.
8. **Darpariaeth Benodol ar gyfer Cydweithredu Trawswladol**
9. Bydd camau cydweithredu trawswladol yn targedu'r gwaith o ddiwallu anghenion penodol o fewn GCC tra'n cynyddu'r gwerth ychwanegol a all gael ei gyflawni gan gydweithredu trawswladol.

compare report

| Echel blaenoriaeth | 3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc |
|---|---|

10. Bydd y camau a gymerir yn cynnwys rhanddeiliaid o'r sector cyhoeddus, addysg uwch ac addysg bellach, y trydydd sector a'r sector preifat. Gall gweithrediadau gynnwys gweithgarwch cydweithredu trawswladol yn llawn neu gynnwys cydweithredu trawswladol fel un elfen o fewn y gweithrediad ehangach.
11. Disgwylir i gamau gweithredu gefnogi cydweithredu trawswladol ag Aelod- wladwriaethau eraill sy'n wynebu heriau tebyg i GCC ac sy'n gweithio tuag at nodau cyffredin. Dylai camau gweithredu gefnogi gwaith partneriaeth trawswladol er mwyn rhannu arfer da a datblygu a threialu atebion arloesol, datblygu a rhannu sgiliau a phrofiad lefel uchel a datblygu a rhannu sgiliau ac arbenigedd a wnaiff gefnogi economi fodern sy'n seiliedig ar wybodaeth a marchnad lafur fodern, hyblyg ac ystwyth.
12. Gallai camau penodol o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon gynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol:
    - Camau i rannu arfer da a datblygu dulliau cyffredin ac arloesol o gefnogi pobl ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n NEET, i gael mynediad at y farchnad lafur;
    - Camau i rannu arfer da a datblygu dulliau cyffredin ac arloesol o drechu dadrithio ymhlith pobl ifanc a datblygu opsiynau dysgu arloesol.
13. **Cyfraniad yr ESF at Amcanion Thematig 1-7**
14. Bydd buddsoddiadau ESF mewn cyfalaf dynol yn canolbwyntio ar anghenion menter a busnes yn y dyfodol ac yn cyflawni yn eu herbyn, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu economi fodern sy'n seiliedig ar wybodaeth. Bwriedir i fuddsoddiadau ESF a wneir o dan Amcanion Thematig (ATh) 8, 9 a 10 ategu buddsoddiadau a wneir gan gronfeydd ESI o dan ATh 1-7 a chyfuno â hwy. Lle gellir dangos ychwanegiad clir at ddarpariaeth o dan EAFRD ac EMFF, bydd unigolion o gymunedau ffermio a physgota yn gallu cael cymorth ESF. Bydd y dull gweithredu hwn yn hwyluso ac yn galluogi'r broses o gyflawni nodau ac amcanion Cronfeydd ESI yng Nghymru yn gyffredinol, ynghyd â chefnogi'r dull integredig o weithredu a amlinellir yn Adran 4.
15. Bydd buddsoddiadau o fewn y flaenoriaeth hon yn ennyn diddordeb pobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau'r gweithlu cymwys sydd ei angen ar gyflogwyr yn y dyfodol. Drwy wneud hyn, bydd camau gweithredu yn ategu ymyriadau ERDF, EAFRD ac EMFF o dan ATh3 er mwyn ysgogi twf busnes, arallgyfeirio ac ehangu i farchnadoedd newydd, datblygu cadwyni cyflenwi lleol sy'n cysylltu â chyfleoedd twf economaidd, annog busnesau newydd a gwella cynhyrchiant BBaChau.
16. Bydd cynorthwyo pobl ifanc i feithrin sgiliau entrepreneuraidd hefyd yn ategu ymyriadau ERDF ac yn integreiddio â hwy o dan ATh3 er mwyn hyrwyddo entrepreneuriaeth. Caiff yr entrepreneuriaid ifanc hynny sydd am fod yn hunangyflogedig gymorth a chyngor ariannol drwy ERDF, EAFRD ac EMFF, gan osgoi dyblygu gweithgarwch.
17. Bydd camau a gymerir i gynorthwyo pobl ifanc i gael mynediad at y farchnad lafur yn cyd-fynd ag ERDF ac EAFRD. Ymyriadau o dan ATh4 a 7 i gynyddu symudedd trefol a llafur i ac o ganolfannau cyflogaeth a threfol allweddol a gwella cysylltedd gwledig, a thrwy hynny sicrhau bod ymyriadau ESF i alluogi pobl ifanc i gael cyflogaeth gynaliadwy yn ategu atebion trafnidiaeth gynaliadwy er mwyn gwella hygyrchedd ffisegol canolfannau cyflogaeth.

compare report

| Echel blaenoriaeth | 3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc |
|---|---|

18. Bydd ymyriadau ESF o ran cyrhaeddiad pobl ifanc, yn enwedig STEM, yn cefnogi’r gwaith o ddatblygu gweithlu’r dyfodol sy’n meddu ar y sgiliau arbenigol a lefel uwch sydd eu hangen i wireddu potensial buddsoddiadau mewn TGCh a thechnolegau arloesol, sy’n dod i’r amlwg o dan ATh1, 2 a 4 a gefnogir gan ERDF. Bydd camau gweithredu hefyd yn datblygu gweithlu’r dyfodol a all wireddu potensial camau gweithredu EAFRD ac EMFF o dan ATh 2, 3 a 4 er mwyn helpu busnesau gwledig ac arfordirol i fabwysiadu technoleg newydd a dod yn fwy effeithlon, ynghyd â datblygu cadwyni cyflenwi lleol sy’n cysylltu â chyfleoedd twf economaidd.

## 2.A.8 Fframwaith perfformiad

**Tabl 6: Fframwaith perfformiad yr echel blaenoriaeth** (yn ôl cronfa ac, ar gyfer ERDF ac ESF, categori rhanbarth)

| Echel blaenoriaeth | 3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Adnabod** | **Math o Ddangosydd** | **Dangosydd neu gam gweithredu allweddol** | **Uned fesur, lle y bo’n briodol** | **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Carreg filltir ar gyfer 2018** | | | **Targed terfynol (2023)** | | | **Ffynhonnell data** | **Esboniad o berthnasedd dangosydd, lle y bo’n briodol** |
| | | | | | | **C** | **GN** | **T** | **C** | **GN** | **T** | | |
| P3F | F | Gwariant Cymwys | Ewros | ESF | Llai datblygedig | | | 83,941,491 | | | 329,093,318.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | |
| 1027 | H | Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 10,891 | | | 42,700.00 | Systemau Gwybodaeth Reoli | Mae cyfranogwyr NEET (16-24 oed) yn sicrhau cynrychiolaeth briodol o’r Echel Blaenoriaeth, gan ffurfio tua 55% o weithgareddau o dan yr Echel Blaenoriaeth yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd a thua 75% o’r Echel Blaenoriaeth yn Nwyrain Cymru. |

compare report

**Gwybodaeth ansodddol ychwanegol am sefydlu’r fframwaith perfformiad**

1. *Dangosyddion ariannol*
2. Targed 2023 yw cyfanswm y dyraniad Gwariant Cymwys ar gyfer yr Echel Blaenoriaeth, tra bod targed 2018 yn seiliedig ar Wariant Cymwys N+3.
3. *Dangosyddion allbwn*
4. Roedd y camau cyffredinol a gymerwyd i bennu targedau o fewn rhaglen ESF GCC 2014-2020 a rhaglen ESF DC yn cynnwys mapio gweithgarwch o brosiectau priodol a chymaradwy wedi’u hariannu o dan Raglen Gydgyfeirio ESF GCC 2007-2013. Dewiswyd y rhain er mwyn adlewyrchu orau y camau wedi’u targedu a’r gweithgarwch arfaethedig i’w ariannu fel yr amlinellir yn Rhaglenni ESF 2014-2020. Cafodd cyflawniadau prosiectau hyd yn hyn o ran gweithgarwch wedi’i fapio eu cymharu â’r gwariant hyd yn hyn a chafodd targedau terfynol cyfredol prosiectau eu cymharu â chyfanswm y dyraniad ariannol. Yna cafodd y cymarebau eu graddio yn ôl dyraniadau ariannu dangosol o dan Amcanion Penodol y dyfodol pob un o’r Blaenoriaethau Buddsoddi er mwyn pennu cyfres o dargedau ar gyfer y dangosyddion.
5. Mewn rhai achosion, lle’r oedd uchelgais rhaglenni 2014-2020 yn wahanol iawn i’r hyn a gyflawnwyd yn 2007-13, cymerir camau seiliedig ar bolisi gan ddewis targedau cymaradwy sy’n adlewyrchu pwyslais y rhaglen o fewn pob blaenoriaeth a’r dyheadau a’r amcanion ar gyfer newid..

Ymhob achos, defnyddir tystiolaeth o gostau Uned ac ati o fewn y rhaglen gyfredol i sicrhau bod y targedau hyn sy’n seiliedig ar bolisi yn gyflawnadwy o fewn y paramedrau ariannu sydd ar gael. Yn ogystal, defnyddir Ystadegau Gwladol, lle maent ar gael, yn seiliedig ar y gyfran gyfredol o’r boblogaeth ar gyfer grwpiau demograffig allweddol, er mwyn darparu targedau dyheadol i sicrhau bod cronfeydd yn cael eu dosbarthu’n deg. Ategir hyn gan dystiolaeth a phrofiad ychwanegol o gyfnod rhaglennu cyfredol 2007-2013 a’r targedu a amlinellir yn y rhaglenni ESF arfaethedig. Mewn rhai achosion defnyddiwyd cyfuniad o’r dulliau hyn.

6. Targedau 2023 yw’r rhai terfynol ar gyfer y dangosydd Allbwn hwn o dan yr Echel Blaenoriaeth, tra bod targedau 2018 yn seiliedig ar yr un gymhareb â tharged Dangosydd Ariannol 2018, a chostau uned.

### 2.A.9 Categorïau ymyrryd

Categorïau ymyrryd sy’n cyfateb i gynnwys yr echel blaenoriaeth yn seiliedig ar gyfundrefn enwi a fabwysiadwyd gan y Comisiwn, a dadansoddiad dangosol o gymorth yr Undeb.

### Tablau 7-11:Categorïau ymyrryd

compare report

**Tabl 7: Dimensiwn 1 - Maes ymyrryd**

| **Echel blaenoriaeth** | **3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc** | | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | | 103. Integreiddio pobl ifanc yn y farchnad lafur yn gynaliadwy, yn enwedig y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, gan gynnwys pobl ifanc sy’n wynebu risg o allgáu cymdeithasol a phobl ifanc o gymunedau ymylol, gan gynnwys drwy weithredu’r Warant Ieuenctid | 134,592,585.00 |
| ESF | | 115. Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a’i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio ag addysg a hyfforddiant | 110,121,206.00 |

**Tabl 8:Dimensiwn 2 - Math o gyllid**

| **Echel blaenoriaeth** | | **3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc** | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 01. Grant nad yw’n ad-daladwy | 244,713,791.00 |

**Tabl 9: Dimensiwn 3 - Math o diriogaeth**

| **Echel blaenoriaeth** | **3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc** | | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | | 01. Ardaloedd Trefol Mawr (poblog iawn poblogaeth >50 000) | 27,628,187.00 |
| ESF | Llai datblygedig | 02. Ardaloedd trefol bach (dwysedd canolrannol poblogaeth >5 000) | 170,614,455.00 |
| ESF | Llai datblygedig | 03. Ardaloedd gwledig (tenau eu poblogaeth) | 46,471,149.00 |

**Tabl 10: Dimensiwn 4 - Dulliau cyflawni tiriogaethol**

| **Echel blaenoriaeth** | **3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc** | | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 07. Ddim yn gymwys | 244,713,791.00 |

**Tabl 11:Dimensiwn 6 - Thema eilaidd ESF** (ESF a YEI yn unig)

| **Echel blaenoriaeth** | **3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc** | | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 08. Ddim yn gymwys | 244,713,791.00 |

compare report

### 2.A.10 Crynodeb o'r defnydd arfaethedig o gymorth technegol gan gynnwys, lle y bo angen, gamau i atgyfnerthu adnoddau gweinyddol awdurdodau sydd ynghlwm wrth brosesau rheoli a rheolaeth y rhaglenni a buddiolwyr (lle y bo'n briodol) (yn ôl echel blaenoriaeth)

| **Echel blaenoriaeth:** | **3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc** |
|---|---|
| o Ymdrinnir â'r defnydd arfaethedig o Gymorth Technegol yn yr Echel Blaenoriaeth benodol ar gyfer Cymorth Technegol. | |

### 2.A.1 Echel blaenoriaeth

| | |
|---|---|
| **Rhif adnabod yr echel blaenoriaeth** | 5 |
| **Teitl yr echel blaenoriaeth** | Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol |

☐ Caiff yr echel blaenoriaeth gyfan ei gweithredu drwy offerynnau ariannol yn unig
☐ Caiff yr echel blaenoriaeth gyfan ei gweithredu drwy offerynnau ariannol yn unig a sefydlwyd ar lefel yr Undeb
☐ Caiff yr echel blaenoriaeth gyfan ei gweithredu drwy waith datblygu lleol a arweinir gan y gymuned
☐ Ar gyfer ESF: Mae'r echel blaenoriaeth gyfan yn ymrwymedig i arloesedd cymdeithasol neu gydweithredu trawswladol, neu'r ddau
☐ Ar gyfer ERDF: Mae'r echel blaenoriaeth gyfan wedi'i neilltuo ar gyfer gweithrediadau sydd wedi'u hanelu at ailadeiladu mewn ymateb i drychinebau mawr neu naturiol rhanbarthol
☐ Ar gyfer ERDF: Mae'r echel blaenoriaeth gyfan wedi'i neilltuo ar gyfer BBaChau (Erthygl 39)

**2.A.2 Cyfiawnhad dros sefydlu echel blaenoriaeth sy'n cwmpasu mwy nag un categori o ranbarth, amcan thematig neu gronfa** (lle y bo'n gymwys)
Mae'r echel blaenoriaeth hon yn cwmpasu un categori o ranbarth, ond caiff ei chydlynu'n agos â blaenoriaeth unfath o dan raglen ESF arall Cymru (categori gwahanol o ranbarth). Dim ond un amcan thematig ac un gronfa a gwmpesir ganddo.

compare report

Mae sail dystiolaeth gynyddol sy'n dangos pwysigrwydd gallu sefydliadol fel ffactor sy'n effeithio ar lwyddiant cymharol buddsoddiadau rhanbarthol (OECD). Mae sicrhau bod y gallu cywir ar waith felly yn gallu cynyddu effaith buddsoddiadau rhanbarthol; ac mae trefniadau aneffeithiol yn cael effaith negyddol. Fel y cyfryw, gall diffyg gallu mewn rhanbarthau yng Nghymru danseilio buddsoddiadau a wneir ar draws y gyfres gyfan o raglenni Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yng Nghymru a thu hwnt. Gall trefniadau rhanbarthol sy'n gweithredu yn effeithiol integreiddio buddsoddiadau mewn lleoedd yn well a gwella effeithiolrwydd ac effaith y buddsoddiadau hynny yn gyfunol ac yn unigol.

Dechreuodd rhaglenni 2007-2013 ESF broses ranbartholi yng Nghymru, gan gefnogi'r gwaith o greu partneriaethau sgiliau rhanbarthol a meithrin gallu ar gyfer cydweithredu gwell. Ers i raglenni 2014-2020 gael eu negodi yn 2014 mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu fframwaith polisi cydlynol ymhellach sy'n ymrwymo i ranbartholi yn yr ardaloedd hynny lle mae'n rhoi gwerth am arian; gan ddarparu sail gadarn y gellir creu'r newidiadau mewn cyflwr sydd eu hangen arni ar gyfer y cam nesaf. Mae hyn yn cynnwys:

- **Ffyniant i Bawb (Medi 2017).** Mae hyn yn nodi *"Dim ond drwy weithio'n agosach, ar sail ranbarthol gyson, y gall cydnerthedd ac ymatebolrwydd gwasanaethau gael eu cynnal yn y dyfodol".* Gwneir ymrwymiadau i ymateb i anghenion amrywiol rhanbarthau gwahanol, gan weithio gyda phartneriaid yn y rhanbarthau hynny mewn meysydd megis sgiliau a datblygiad economaidd.

- **Cynllun Gweithredu ar yr Economi (Rhagfyr 2017).** Mae hyn yn disgrifio'r angen i sicrhau *"bod pawb a phopeth sy'n chwarae rhan yn ein heconomi - o'r Bargeinion Dinesig sydd wrthi'n cael eu datblygu a'r strwythurau ar gyfer diwygio llywodraeth leol, i Fanc Datblygu newydd Cymru a'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol - yn gweithio gyda'i gilydd a chyda busnesau a phartneriaid eraill ar gynllun clir, gan wneud hynny mewn partneriaeth newydd, strategol a mwy cydweithredol er mwyn cefnogi'r cryfderau unigryw sydd gan y rhanbarthau"*

- **Cynllun Cyflogadwyedd (Mawrth 2018).**Nododd hyn amrywiaeth o gamau gweithredu perthnasol, megis yr angen i *"flaenoriaethu cyd-leoli gwasanaethau lleol i symleiddio cymorth cyflogadwyedd i'r unigolyn"*, *"i ddarparu darlun cyfannol o gymorth cyflogadwyedd lleol a rhanbarthol"* ac i *"gryfhau llywodraethiant ac arbenigedd y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau eu bod yn darparu arweiniad rhanbarthol a gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur"*. Gan weithio ar y cyd â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi bydd hyn yn *"annog twf ac arloesi lleol a rhanbarthol o ran sgiliau"*.

Mae cynlluniau ar gyfer rhanbartholi ledled Cymru wedi cael eu datblygu dros amser, wedi'u hysgogi i ddechrau gan fuddsoddiadau a wnaed gan ESF yn ystod 2007-2013. At hynny, mae cynigion ar gyfer diwygio llywodraeth leol yn adlewyrchu'r realiti sy'n wynebu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gyda chyllidebau sy'n lleihau, galwadau cynyddol ar wasanaethau, a phoblogaeth sy'n heneiddio. Gallai buddsoddiad ychwanegol penodol ysgogi diwygiadau cyflymach, ehangach a mwy systematig a gallai ddangos gwerth ychwanegol sylweddol o ran hyrwyddo diwygiadau strwythurol ym maes gwasanaethau cyhoeddus a chydweithredu.

compare report

### 2.A.3 Cronfa, categori rhanbarth a sail gyfrifo ar gyfer cymorth yr Undeb

| Cronfa | Categori rhanbarth | Y sail gyfrifo (cyfanswm y gwariant cymwys neu wariant cyhoeddus cymwys) | Categori rhanbarth ar gyfer y rhanbarthau pellaf a gogleddol prin eu poblogaeth (lle y bo'n briodol) |
|---|---|---|---|
| ESF | Llai datblygedig | Cyfanswm | |

### 2.A.4 Blaenoriaeth fuddsoddi

| | |
|---|---|
| **Rhif adnabod y flaenoriaeth fuddsoddi** | 11i |
| **Teitl y flaenoriaeth fuddsoddi** | Buddsoddi mewn gallu sefydliadol ac yn effeithlonrwydd gweinyddiaethau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyda'r nod o ddiwygio, rheoleiddio'n well a llywodraethu'n dda |

### 2.A.5 Amcanion penodol sy'n cyfateb i'r flaenoriaeth fuddsoddi a'r canlyniadau disgwyliedig

| | |
|---|---|
| **Rhif adnabod yr amcan penodol** | 5 |
| **Teitl yr amcan penodol** | Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol |

| | |
|---|---|
| **Canlyniadau y mae'r Aelod-wladwriaethau yn ceisio eu cyflawni gyda chymorth yr Undeb** | Mae'r dangosydd canlyniadau a ddewiswyd yn ystyried canllawiau'r Comisiwn (*Guidance Document on Indicators of Public Administration Capacity*<br><br>*Building*, 2014) sy'n nodi'n glir bod angen i ddangosyddion fod yn gysylltiedig â gallu/newid cyflwr y corff cyhoeddus (e.e. strwythurau integredig newydd neu fodelau cyflawni), nid y newid perfformiad (h.y. effeithiau ar wasanaethau), sy'n fesur o effaith.<br><br>Mae'r dangosydd yn uniongyrchol gysylltiedig â dangosydd craidd y Comisiwn Ewropeaidd, sy'n cynnig dangosydd canlyniadau eang a all nodi canlyniad amrywiaeth o weithgarwch. Unedau â chymorth yn yr achos hwn fydd endidau yn bennaf sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus (cyrff cenedlaethol, rhanbarthol, llywodraeth leol, a chyrff trydydd sector), ond gall buddiolwyr (sy'n cyflawni prosiectau) ddarparu arbenigedd i'r unedau hynny â chymorth (e.e. Addysg Uwch/Addysg Bellach, sefydliadau ymchwil).<br><br>Canlyniad canolog buddsoddiad fydd datblygu a lledaenu dulliau, gweithdrefnau ac adnoddau gweithio gwell. Caiff hyn ei nodi gan un dangosydd canlyniad ar gyfer datblygu dulliau, gweithdrefnau ac adnoddau newydd; yr ystyrir eu bod wedi eu datblygu unwaith y cânt eu dosbarthu. |

compare report

**Tabl 4: Dangosyddion canlyniadau cyffredin y mae gwerth targed wedi'i bennu ar eu cyfer a dangosyddion canlyniadau rhaglen benodol sy'n cyfateb i'r amcan penodol (yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi a chategori rhanbarth)** (ar gyfer ESF)

| **Blaenoriaeth fuddsoddi : 11i - Buddsoddi mewn gallu sefydliadol ac yn effeithlonrwydd gweinyddiaethau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyda'r nod o ddiwygio, rheoleiddio'n well a llywodraethu'n dda** | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Adnabod** | **Dangosydd** | **Categori rhanbarth** | **Uned fesur ar gyfer dangosydd** | **Dangosydd allbwn cyffredin a ddefnyddir fel sail i bennu targedau** | **Gwerth sylfaenol** | | | **Uned fesur ar gyfer llinell sylfaen a tharged** | **Blwyddyn sylfaenol** | **Gwerth targed (2023)** | | | **Ffynhonnell data** | **Amlder adrodd** |
| | | | | | **C** | **GN** | **T** | | | **C** | **GN** | **T** | | |
| 1185 | **Nifer y dulliau, gweithdrefnau ac adnoddau newydd a ddatblygwyd ac a ddosbarthwyd** | Llai datblygedig | Nifer | | | | 0.00 | Nifer | 2018 | | | 8.00 | Data monitro | Chwarterol |

## 2.A.6 Cam gweithredu i'w gefnogi o dan y flaenoriaeth fuddsoddi (yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi)

### *2.A.6.1 Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt, ynghyd â'u cyfraniad disgwyliedig i'r amcanion penodol gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nodi prif grwpiau targed, tiriogaethau penodol a dargedir a mathau o fuddiolwyr*

| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | 11i - Buddsoddi mewn gallu sefydliadol ac yn effeithlonrwydd gweinyddiaethau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyda'r nod o ddiwygio, rheoleiddio'n well a llywodraethu'n dda |
|---|---|

Wrth gyflawni'r canlyniadau a geisir bydd angen cyfres o fuddsoddiadau ategol mewn pobl, sefydliadau a systemau. Disgwylir i bob buddsoddiad fod wedi'i alinio'n uniongyrchol ag agenda ranbartholi Llywodraeth Cymru, fel y'i disgrifir yn Ffyniant i Bawb[1], y Cynllun Gweithredu ar yr Economi[2], a'r Cynllun Cyflogadwyedd[3]. Mae'r rhain, ynghyd â chynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer diwygio llywodraeth leol, yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer gweithgarwch o dan y Flaenoriaeth hon.

Bydd angen i'n dull gweithredu fod yn hyblyg ac ymatebol. Bydd yn newid dros amser, wrth i'r tasgau yr ymgymerir â hwy newid. Bydd rhai elfennau craidd, cyffredin a rhywfaint o ddarpariaeth bwrpasol, gan gydnabod y bydd gallu a galluogrwydd penodol yn amrywio rhwng rhanbarthau ac endidau.

Er y bydd y pwyslais siŵr o fod ar rôl llywodraeth leol a'r cyfleoedd penodol i integreiddio a thrawsnewid sy'n deillio o'r ffaith y bydd y sefydliadau hynny yn dod at ei gilydd, bydd angen i'r Amcan Penodol hefyd sicrhau bod rhanddeiliaid eraill, yn enwedig y trydydd sector a chyrff cyflawni eraill, yn rhan ganolog o'r cynigion, yn dibynnu ar y gwasanaeth/gweithgarwch sy'n cael ei archwilio.

compare report

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 11i - Buddsoddi mewn gallu sefydliadol ac yn effeithlonrwydd gweinyddiaethau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyda'r nod o ddiwygio, rheoleiddio'n well a llywodraethu'n dda |
|---|---|

Mae llywodraethu yn arbennig o bwysig i'r sector cyhoeddus oherwydd yr atebolrwydd a ddelir gan randdeiliaid. Gall llywodraethu da gynyddu ymddiriedaeth, ymgysylltu â dinasyddion a chyfalaf cymdeithasol. Ni ddylai unrhyw broses o ddiwygio strwythurau llywodraethu arwain at strwythurau gorgymhleth: o gofio pa mor fach yw Cymru, gallai hyn gael effaith negyddol ar y gwasanaethau a ddarperir

Mae'r dull o ymdrin â'r Flaenoriaeth hon yn ceisio dysgu gwersi o brofiad blaenorol ac o brofiadau eraill, drwy fabwysiadu dull mwy cynyddrannol sy'n canolbwyntio ar y newidiadau mewn cyflwr, yn hytrach na'r effaith hirdymor a ddymunir (sy'n ddibynnol ar ffactorau y tu allan i reolaeth rhaglen fuddsoddi ESF). Yn benodol, byddwn yn ceisio adeiladu ar y cynnydd cadarn a wnaed hyd yma i wella rhanbartholi a chydweithredu rhwng darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, megis datblygu partneriaethau sgiliau rhanbarthol a gwella'r broses integredig o gynllunio a darparu gweithgareddau datblygu economaidd a sgiliau mewn mannau. Bydd natur cynigion diwygio Llywodraeth Leol sy'n dod i'r amlwg yn creu heriau o ran gweithredu'r flaenoriaeth hon, a bydd angen dull hyblyg, fesul cam o weithredu, ond bydd pob opsiwn a ystyrir yn atgyfnerthu'r cydweithredu a'r gwaith rhanbarthol drwy symleiddio trefniadau a hyrwyddo cydweithredu. Mae gwerth ychwanegol, yn enwedig o ran rhoi diwygiadau ar waith y bu eu hangen ers amser hir, yn amlwg.

compare report

Disgwylir i waith rhanbarthol a gwaith cynllunio ganolbwyntio ar gydlynu tirwedd polisi a chynllunio tameidiog ar draws rhanbarthau Cymru, yn enwedig ar gyfer datblygu economaidd, sgiliau, defnydd strategol o dir, a chynllunio trafnidiaeth. Mae mentrau amrywiol yn gweithredu ar sail ôl troed rhanbarthol, a chaiff problemau gallu eu creu, aneffeithlonrwydd posibl a risgiau i ddulliau cynllunio strategol ac integredig. Er enghraifft, mae trefniadau gwahanol ar gyfer Bargeinion Dinesig, Bargeinion Twf, blaenoriaethu cyllid ESI, sgiliau, cynllunio buddsoddiadau adfywio rhanbarthol, ac amrywiaeth o fentrau gofodol eraill y gellid eu cydlynu a'u hintegreiddio'n fwy effeithiol pe gellid mynd i'r afael â gwendidau strwythurol hirsefydlog.

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 11i - Buddsoddi mewn gallu sefydliadol ac yn effeithlonrwydd gweinyddiaethau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyda'r nod o ddiwygio, rheoleiddio'n well a llywodraethu'n dda |
|---|---|

Disgwylir i arloesedd cymdeithasol ac arloesedd ym maes darparu gwasanaethau hefyd fod yn nodwedd amlwg yn y flaenoriaeth hon. Mae ESF yn cynnig cyfle i ddatblygu, treialu, gwerthuso a dosbarthu ffyrdd newydd o weithio ar draws gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft drwy gymhwyso technoleg newydd megis y defnydd o ddata mawr.

Gall y camau dangosol a allai gael eu cymryd i gefnogi'r Amcan Penodol gynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig i hyn):

1. Asesiadau o allu a galluogrwydd ar gyfer cydweithredu, gan gynnwys datblygu / cymhwyso pecynnau cymorth a throsglwyddo dulliau a gweithdrefnau newydd / gwell. Gallai hyn gynnwys gweithgarwch trawswladol a meincnodi rhyngwladol.

Meithrin gallu a galluogrwydd o fewn partneriaethau presennol, a'u symud i sail fwy cynaliadwy. Er enghraifft, mynd i'r afael â bylchau penodol yn y ddarpariaeth, buddsoddi mewn sgiliau, llywodraethu, integreiddio meysydd polisi gwahanol, neu ddefnyddio adnoddau, dulliau a gweithdrefnau newydd.

Buddsoddiadau penodol ar gyfer partneriaethau rhanbarthol neu gydweithredol penodol lle y cwblhawyd asesiad gallu a galluogrwydd a lle mae cynllun clir i fynd i'r afael â chyfyngiadau a gwendidau yn gynaliadwy ar waith.

Gweithgareddau arloesol sy'n hyrwyddo arloesedd cymdeithasol, y defnydd o dechnoleg newydd / technegau, darparu gwasanaethau newydd, ac integreiddio gwasanaethau. Gellid disgwyl i gymorth gwmpasu datblygu syniadau, treialu, gwerthuso a dosbarthu canlyniadau.

compare report

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 11i - Buddsoddi mewn gallu sefydliadol ac yn effeithlonrwydd gweinyddiaethau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyda'r nod o ddiwygio, rheoleiddio'n well a llywodraethu'n dda |
|---|---|

Datblygu a rhoi dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau integredig ar waith, yn gysylltiedig â diwygio llywodraeth leol, gan gynnwys sgiliau a gwasanaethau a rennir (e.e. drwy ddatrysiadau digidol, darpariaeth ar-lein, gweinyddu cyfunol, siopau un stop, gwasanaethau ar y cyd/a rennir, gwasanaethau arbenigol cyfun ac ati).

Hyfforddiant i roi'r sgiliau, yr enghreifftiau a'r adnoddau i staff fel y gellir sicrhau newid sefydliadol a gwelliant mewn gwasanaethau, yn enwedig arweinyddiaeth.

.

Disgwylir i bob gweithrediad nodi gweithgareddau manwl gywir a phenodol yn y meysydd gweithredu uchod. Dylai'r gweithgareddau hyn gael eu dylunio i ddiwallu anghenion penodol grŵp/grwpiau targed wedi'u nodi'r gweithrediad a'r canlyniadau a geisir. Dylid cyflwyno tystiolaeth er mwyn profi effeithlonrwydd a chymhwysedd y gweithgareddau penodol hyn.

compare report

Disgwylir i fuddiolwyr cyllid o dan bob un o'r Amcanion Penodol uchod gynnwys y sector cyhoeddus (awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru); sefydliadau anllywodraethol (gan gynnwys y Trydydd Sector); Sefydliadau Ymchwil a chyrff addysg uwch ac addysg bellach; a'r sector preifat. Disgwylir i'r buddiolwr terfynol fod yn gysylltiedig â llunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus a chynllunio rhanbarthol.

Ni fydd gweithrediadau'n cefnogi costau rhedeg parhaus ac ni fwriedir iddynt ond mynd i'r afael â bylchau mewn cyllid ym maes arferol darparu gwasanaethau. Rhaid i weithrediadau ddangos y bydd buddsoddiad yn arwain at newid mewn cyflwr ar gyfer y bartneriaeth neu'r gwasanaeth cysylltiedig a bod yn gynaliadwy yn yr hirdymor unwaith y bydd y gweithrediad wedi ei gwblhau.

[1] http://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 11i - Buddsoddi mewn gallu sefydliadol ac yn effeithlonrwydd gweinyddiaethau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyda'r nod o ddiwygio, rheoleiddio'n well a llywodraethu'n dda |
|---|---|

[2] [http://gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf

[3] [http://gov.wales/docs/dcells/publications/3curriculum-plan-cy.pdf

### *2.A.6.2 Egwyddorion arweiniol ar gyfer dewis gweithrediadau*

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 11i - Buddsoddi mewn gallu sefydliadol ac yn effeithlonrwydd gweinyddiaethau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyda'r nod o ddiwygio, rheoleiddio'n well a llywodraethu'n dda |
|---|---|

Bydd yr egwyddorion cyffredin canlynol yn llywio'r broses o ddewis gweithrediadau ar draws yr holl Flaenoriaethau Buddsoddi yn y dyfodol:

Ffocws ar gefnogi swyddi cynaliadwy, cynhyrchiant, cyflogaeth a thwf a gweithrediadau sy'n hwyluso rôl y trydydd sector a'r sector preifat wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus;

compare report

Dylai ymyriadau geisio integreiddio canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, sy'n gyson â phrif egwyddor drefniadol datblygu cynaliadwy ac yn cyfrannu at ganlyniadau'r themâu trawsbynciol;

Cyfleoedd i gyflawni mwy o elw o ddefnyddio cronfeydd yr UE, yn enwedig â'r sector preifat a'r trydydd sector; a hefyd fuddsoddiadau mwy cydweithredol lle y gallant ychwanegu gwerth a chyflawni canlyniadau;

Gwerth ychwanegol clir o gymharu â ffyrdd eraill o gefnogi a chyflawni polisi, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn;

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 11i - Buddsoddi mewn gallu sefydliadol ac yn effeithlonrwydd gweinyddiaethau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyda'r nod o ddiwygio, rheoleiddio'n well a llywodraethu'n dda |
|---|---|

Bydd tystiolaeth o gyfle yn sail i'r gwaith o lunio a chyflawni gweithrediadau gyda buddsoddiadau yn adeiladu ar arbenigedd sy'n bodoli eisoes ac sy'n dod i'r amlwg, gyda chyfalaf dynol yn helpu i ddiwallu anghenion yn y dyfodol;

Bydd blaenoriaethu gweithrediadau strategol allweddol sy'n ategu'r Amcanion Penodol ac yn cyflawni canlyniadau sylweddol yn rhan greiddiol o ddull rheoli portffolio o gyflawni rhaglenni;

Mae angen rhoi strategaethau ymadael clir ar waith o'r cychwyn sy'n ystyried yn llawn rôl y trydydd sector a'r sector preifat, yn adeiladu cadernid cymdeithasol ac yn trechu tlodi o fewn cymunedau, hyrwyddo cydraddoldeb a chyflawni effeithiau gwaddol.

compare report

Bydd angen i weithrediadau ystyried amrywiaeth o ddulliau targedu er mwyn darparu ffocws ar gyfer buddsoddi. Bydd graddau'r targedu yn amrywio yn ôl y math o ymyriad a, lle y bo'n briodol, dylai adlewyrchu'r canlynol:

Nodi'n glir y grwpiau targed penodol, eu hanghenion a sut y bydd camau gweithredu yn diwallu'r anghenion hyn ar lefel genedlaethol, lefel ranbarthol neu lefel leol fel y bo'n briodol;

Sectorau twf (e.e. yn benodol y sectorau Thematig a Sylfaen Cenedlaethol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, meysydd Her Fawr yn Gwyddoniaeth i Gymru a'r meysydd arbenigedd yn Arloesedd Cymru);

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 11i - Buddsoddi mewn gallu sefydliadol ac yn effeithlonrwydd gweinyddiaethau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyda'r nod o ddiwygio, rheoleiddio'n well a llywodraethu'n dda |
|---|---|

Ardaloedd â chyfle daearyddol penodol (e.e. Dinas-ranbarth neu gyfle rhanbarthol arall, anghenion sgiliau rhanbarthol, Ardal Wledig neu Ardal Adfywio).

**Egwyddorion ychwanegol sy'n berthnasol i'r Flaenoriaeth Fuddsoddi benodol**

Bydd disgwyl i bob ymyriad ddangos ei fod yn gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd gysylltiedig o weithio.

Bydd angen alinio ymyriadau â'r fframwaith polisi ar gyfer rhanbartholi, gan gynnwys Ffyniant i Bawb, y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, y Cynllun Cyflogadwyedd a chynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer diwygio llywodraeth leol

Lle y bo'n bosibl, dylid ystyried opsiynau ar gyfer hyfforddiant achrededig, gan gydnabod na fydd hyn bob amser yn bosibl.

Ac eithrio camau gweithredu arloesol, disgwylir i ymyriadau dargedu diwygiadau sy'n meithrin gallu cynaliadwy yn yr hirdymor, gyda ffocws ar integreiddio a thrawsnewid y ddarpariaeth o ran gwasanaethau cyhoeddus (e.e. newid strwythurol, systemig, llorweddol)

compare report

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 11i - Buddsoddi mewn gallu sefydliadol ac yn effeithlonrwydd gweinyddiaethau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyda'r nod o ddiwygio, rheoleiddio'n well a llywodraethu'n dda |
|---|---|

Er y gall y buddiolwr (h.y. gweithrediadau cyflawni) fod yn ehangach (e.e. hefyd yn cynnwys Addysg Uwch/Addysg Bellach), grwpiau targed y flaenoriaeth hon fydd:

Gweinyddiaeth gyhoeddus yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol

Rhanddeiliaid, megis partneriaid cymdeithasol, cyrff anllywodraethol/swyddogion cymorth cymunedol

Unigolion sy'n gweithio o fewn yr endidau a nodwyd uchod a gyda hwy

compare report

### 2.A.6.3 *Defnydd arfaethedig o offerynnau ariannol* (lle y bo'n briodol)

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 11i - Buddsoddi mewn gallu sefydliadol ac yn effeithlonrwydd gweinyddiaethau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyda'r nod o ddiwygio, rheoleiddio'n well a llywodraethu'n dda |
|---|---|

Ni chynigir defnyddio Offerynnau Ariannol i gyflawni'r camau arfaethedig.

### 2.A.6.4 *Defnydd arfaethedig o brosiectau mawr* (lle y bo'n briodol)

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 11i - Buddsoddi mewn gallu sefydliadol ac yn effeithlonrwydd gweinyddiaethau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyda'r nod o ddiwygio, rheoleiddio'n well a llywodraethu'n dda |
|---|---|

Nid yw hyn yn gymwys i ESF.

| Blaenoriaeth fuddsoddi | 11i - Buddsoddi mewn gallu sefydliadol ac yn effeithlonrwydd gweinyddiaethau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyda'r nod o ddiwygio, rheoleiddio'n well a llywodraethu'n dda |
|---|---|
| | |

***2.A.6.5 Dangosyddion allbwn yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi a, lle y bo'n briodol, gategori rhanbarth***

**Tabl 5:** Dangosyddion canlyniadau cyffredin a rhaglen benodol (yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi wedi'u dadansoddi yn ôl categori rhanbarth ar gyfer ESF, a lle y bo'n briodol, ERDF)

| **Blaenoriaeth fuddsoddi** | | **11i - Buddsoddi mewn gallu sefydliadol ac yn effeithlonrwydd gweinyddiaethau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyda'r nod o ddiwygio, rheoleiddio'n well a llywodraethu'n dda** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Adnabod** | **Dangosydd** | **Uned fesur** | **Cronfa** | **Categori rhanbarth (lle y bo'n berthnasol)** | **Gwerth targed (2023)** | | | **Ffynhonnell data** | **Amlder adrodd** |
| | | | | | **C** | **GN** | **T** | | |
| CO22 | nifer y prosiectau sy'n targedu gweinyddiaethau cyhoeddus neu wasanaethau cyhoeddus yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 4.00 | Data monitro | Chwarterol |
| 1180 | Nifer y dulliau, prosesau ac adnoddau sy'n cael eu datblygu gyda chymorth | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 10.00 | Data monitro | Chwarterol |
| 1181 | Nifer yr endidau* sy'n cymryd rhan mewn prosiectau sy'n targedu gweinyddiaethau cyhoeddus neu wasanaethau cyhoeddus yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 15.00 | Data monitro | Chwarterol |

compare report

**2.A.7 Arloesedd cymdeithasol, cydweithredu trawswladol a chyfraniad at amcan thematig 1-7**

| **Echel blaenoriaeth** | **5 - Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol** |
|---|---|

**Hyrwyddo Arloesedd Cymdeithasol (AC) o fewn yr Echel Blaenoriaeth**

Anogir pob gweithrediad i ystyried y cyfleoedd y mae AC yn eu cynnig er mwyn treialu neu ddatblygu dulliau cyflawni arloesol. Anogir gweithrediadau i ystyried opsiynau i gyflawni gweithgareddau AC bach er mwyn ystyried modelau cyflawni amgen neu dargedu grwpiau penodol gyda'r nod o ymgorffori a mwyhau gwaith cyflawni llwyddiannus. Bydd treialu o'r fath ar raddfa fach, yn enwedig drwy waith comisiynu neu gaffael, yn cynnwys y trydydd sector, grwpiau cymunedol a phartneriaid cymdeithasol mewn dull gweithredu seiliedig ar risg lle datblygir modelau cyflawni newydd a all ychwanegu at fodelau cyflawni llwyddiannus sydd eisoes ar waith a'u hategu.

Gallai meysydd posibl ar gyfer camau gweithredu AC ar draws y rhaglen gynnwys y canlynol:

- o targedu grwpiau penodol nas cynrychiolir yn ddigonol gyda'r nod o fwyhau i weithgarwch craidd a chyflawni canlyniadau cydraddoldeb gwell;

| Echel blaenoriaeth | 5 - Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol |
|---|---|

- treialu modelau cyflawni newydd, ar sail risg, yn enwedig o fewn methodoleg gyflawni neu ddulliau gweithredu sefydledig;
- cefnogi'r gwaith o dreialu a datblygu strategaethau ymadael cynaliadwy drwy brofi modelau cyflawni newydd.

Efallai y bydd cyfleoedd AC yn datblygu wrth i weithrediadau ddatblygu. Ni fydd angen i weithgarwch AC gael ei gwmpasu'n llawn. Fodd bynnag, bydd angen i egwyddor a dulliau treialu ac yna brif ffrydio gwersi a ddysgwyd gael eu hamlinellu lle rhagwelir camau gweithredu AC. Dylai fod gan Ymyriadau strategol mwy sail dystiolaeth sy'n dynodi lle byddai'r gwaith o dreialu dulliau gweithredu fwyaf effeithiol.

Bydd camau gweithredu AC yn destun gwaith monitro penodol a gwaith gwerthuso mwy manwl gywir gyda'r gwersi a ddysgir yn cael eu lledaenu o fewn gweithrediadau ac ar draws WEFO. Gall camau gweithredu AC ddigwydd fel elfennau ar wahân o weithrediadau strategol mwy neu fel gweithrediadau annibynnol ar wahân.

Gallai camau penodol o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon gynnwys, ymhlith eraill:

- Dulliau gweithredu arloesol o drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus gyda'r nod o wella effeithlonrwydd, gwella gwasanaethau cyhoeddus, eu gwneud yn fwy cynaliadwy, a gwella integreiddio cymdeithasol a mynediad at wasanaethau;
- Camau gweithredu arloesol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu systemau hollol newydd, prosesau a gwasanaethau, megis defnyddiau newydd ar gyfer data ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau;

compare report

Drwy hyn bydd hefyd yn bosibl ymgorffori cysylltiadau â grwpiau LEADER o fewn EAFRD (neu Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd (FLAG) o fewn EMFF). Bydd grwpiau LEADER neu FLAG yn gallu cymryd rhan mewn prosesau comisiynu ar gyfer camau AC, yn enwedig ar gyfer treialu dulliau newydd o weithredu gyda'r nod o brif ffrydio modelau cyflawni llwyddiannus. Bydd y grwpiau hyn hefyd yn gallu gweithio drwy'r dulliau gweithredu rhanbarthol a gofodol a ddisgrifir yn y Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU ac yn Adran 4 o'r RhW hon er mwyn annog prif ffrydio gweithgarwch a ariennir drwy gronfeydd ESI eraill i mewn i gynigion ESF cydweithredol.

**Darpariaeth Benodol ar gyfer Cydweithredu Trawswladol**

Bydd camau cydweithredu trawswladol yn targedu'r gwaith o ddiwallu anghenion penodol o fewn GCC tra'n cynyddu'r gwerth ychwanegol a all gael ei gyflawni gan gydweithredu trawswladol. Bydd y camau a gymerir yn cynnwys rhanddeiliaid o'r sector cyhoeddus, addysg uwch ac addysg bellach, y trydydd sector a'r sector preifat. Gall gweithrediadau gynnwys gweithgarwch cydweithredu trawswladol yn llawn neu gynnwys cydweithredu trawswladol fel un elfen o fewn y gweithrediad ehangach.

| Echel blaenoriaeth | 5 - Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol |
|---|---|

Disgwylir i gamau gweithredu gefnogi cydweithredu trawswladol ag Aelod-wladwriaethau eraill sy’n wynebu heriau tebyg i GCC ac sy’n gweithio tuag at nodau cyffredin. Dylai camau gweithredu gefnogi gwaith partneriaeth trawswladol er mwyn rhannu arfer da a datblygu a threialu atebion arloesol, datblygu a rhannu sgiliau a phrofiad lefel uchel a datblygu a rhannu sgiliau ac arbenigedd a wnaiff gefnogi economi fodern sy’n seiliedig ar wybodaeth a marchnad lafur fodern, hyblyg ac ystwyth.

Gallai camau penodol o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon gynnwys, ymhlith eraill:

1. Camau gweithredu i rannu arfer da a datblygu dulliau arloesol o drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus, diwygio llywodraeth leol a chynllunio rhanbarthol;
2. Trosglwyddo a throsi profiad rhyngwladol i gyd-destun Cymreig.

**Cyfraniad yr ESF at Amcanion Thematig 1-7**

Mae buddsoddiadau ESF o dan yr Echel Blaenoriaeth hon yn sylfaenol i gefnogi dinasyddion ar draws yr economi gyfan, a chefnogi busnesau wedyn drwy ddarparu’r cyd-destun cynllunio a buddsoddi gorau posibl. Bydd y flaenoriaeth hon yn sicrhau bod adnoddau a gallu addas ar gael i ddiwallu anghenion menter a busnes yn y dyfodol, gan gefnogi’r gwaith o ddatblygu economi fodern sy’n seiliedig ar wybodaeth. Bwriedir i fuddsoddiadau ESF ategu buddsoddiadau a wneir o dan gronfeydd ESI ATh 1-7 a chyfuno â hwy. Bydd y dull gweithredu hwn yn hwyluso ac yn galluogi’r broses o gyflawni nodau ac amcanion Cronfeydd ESI yng Nghymru yn gyffredinol, ynghyd â chefnogi’r dull integredig o weithredu a amlinellir yn Adran 4.

compare report

Bydd ymyriadau ESF yn yr Echel Blaenoriaeth hon yn ategu ymyriadau ERDF, EAFRD ac EMFF o dan ATh3 er mwyn ysgogi twf busnes, datblygu cadwyni cyflenwi lleol sy’n cysylltu â chyfleoedd twf economaidd, annog busnesau newydd a gwella cynhyrchiant BBaChau drwy:

1. Gwella’r ddarpariaeth o ran gwasanaethau cyhoeddus, cynyddu atyniad lleoedd a darparu unigolion sy’n barod i weithio, a helpu BBaChau i dyfu a chynyddu cynhyrchiant, gan gynnwys drwy arallgyfeirio ac ehangu i farchnadoedd newydd;
2. Gwella cydgysylltu a chynllunio rhanbarthol i gefnogi cyd-destun cynllunio mwy cynaliadwy, rhagweladwy a dibynadwy i annog buddsoddiadau hirdymor;
3. Cynyddu cynhyrchiant drwy gefnogi unigolion a busnesau er mwyn mynd i’r afael â thangyflogaeth sy’n deillio o rwystrau yn y gwaith, megis cyflyrau iechyd sy’n cyfyngu ar y gallu i weithio a lleihau nifer yr oriau a gollir oherwydd salwch.

Bydd y dull integredig o drechu tlodi ar draws rhaglenni cronfeydd ESI yn gweld ymyriadau ESF o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon yn integreiddio â chamau gweithredu ERDF ac EAFRD o dan ATh4 a 7 er mwyn cynyddu symudedd trefol a llafur i ac o ganolfannau cyflogaeth a threfol allweddol ac

| Echel blaenoriaeth | 5 - Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol |
|---|---|
| er mwyn gwella cysylltedd gwledig. Trwy hyn sicrheir bod ymyriadau ESF i ymdrin â rhwystrau i gael cyflogaeth gynaliadwy yn ategu atebion trafnidiaeth gynaliadwy er mwyn gwella hygyrchedd ffisegol canolfannau cyflogaeth. Hefyd, ategir buddsoddiadau ERDF er mwyn lleihau nifer a gostwng canran y cartrefi sy'n byw mewn tlodi tanwydd o dan ATh4, gan liniaru effeithiau tlodi a galluogi pobl i symud allan o dlodi ac i mewn i gyflogaeth. | |

## 2.A.8 Fframwaith perfformiad

**Tabl 6: Fframwaith perfformiad yr echel blaenoriaeth** (yn ôl cronfa ac, ar gyfer ERDF ac ESF, categori rhanbarth)

| Echel blaenoriaeth | | 5 - Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhif Adnabod | Math o Ddangosydd | Dangosydd neu gam gweithredu allweddol | Uned fesur, lle y bo'n briodol | Cronfa | Categori rhanbarth | Carreg filltir ar gyfer 2018 | | | Targed terfynol (2023) | | | Ffynhonnell data | Esboniad o berthnasedd dangosydd, lle y bo'n briodol |
| | | | | | | C | GN | T | C | GN | T | | |
| CO22 | H | nifer y prosiectau sy'n targedu gweinyddiaethau cyhoeddus neu wasanaethau cyhoeddus yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol | Nifer | ESF | Llai datblygedig | | | 1 | | | 4.00 | Data monitro | |
| P1F | F | Gwariant Cymwys | Ewros | ESF | Llai datblygedig | | | 0 | | | 22,000,000.00 | Data monitro | |

compare report

### Gwybodaeth ansodddol ychwanegol am sefydlu'r fframwaith perfformiad

## 2.A.9 Categorïau ymyrryd

Categorïau ymyrryd sy'n cyfateb i gynnwys yr echel blaenoriaeth yn seiliedig ar gyfundrefn enwi a fabwysiadwyd gan y Comisiwn, a dadansoddiad dangosol o gymorth yr Undeb.

### Tablau 7-11:Categorïau ymyrryd

**Tabl 7: Dimensiwn 1 - Maes ymyrryd**

| Echel blaenoriaeth | 5 - Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol | | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 119. Buddsoddi mewn gallu sefydliadol ac yn effeithlonrwydd gweinyddiaethau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyda'r nod o ddiwygio, rheoleiddio'n well a llywodraethu'n dda | 16,380,000.00 |

**Tabl 8:Dimensiwn 2 - Math o gyllid**

| **Echel blaenoriaeth** | **5 - Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol** | | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 01. Grant nad yw'n ad-daladwy | 16,380,000.00 |

**Tabl 9: Dimensiwn 3 - Math o diriogaeth**

| **Echel blaenoriaeth** | **5 - Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol** | | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 07. Ddim yn gymwys | 16,380,000.00 |

**Tabl 10: Dimensiwn 4 - Dulliau cyflawni tiriogaethol**

| **Echel blaenoriaeth** | **5 - Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol** | | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 07. Ddim yn gymwys | 16,380,000.00 |

**Tabl 11:Dimensiwn 6 - Thema eilaidd ESF** (ESF a YEI yn unig)

compare report

| **Echel blaenoriaeth** | **5 - Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol** | | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 08. Ddim yn gymwys | 16,380,000.00 |

## 2.A.10 Crynodeb o'r defnydd arfaethedig o gymorth technegol gan gynnwys, lle y bo angen, gamau i atgyfnerthu adnoddau gweinyddol awdurdodau sydd ynghlwm wrth brosesau rheoli a rheolaeth y rhaglenni a buddiolwyr (lle y bo'n briodol) (yn ôl echel blaenoriaeth)

| **Echel blaenoriaeth:** | **5 - Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol** |
|---|---|
| | |

## 2.B Disgrifiad o'r echelau blaenoriaeth ar gyfer cymorth technegol

### 2.B.1 Echel blaenoriaeth

| | |
|---|---|
| **Rhif adnabod yr echel blaenoriaeth** | 4 |
| **Teitl yr echel blaenoriaeth** | Cymorth Technegol |

### 2.B.2 Cyfiawnhad dros sefydlu echel blaenoriaeth sy'n cwmpasu mwy nag un categori o ranbarth(lle y bo'n gymwys)

1. Caiff camau a ariennir Cymorth Technegol (CT), fel gyda rhaglenni 2007-2013, eu datblygu fel rhan o flaenoriaethau mono gronfa ond fe'u cyflawnir gan yr Awdurdod Rheoli (ARh) a'r rhanddeiliaid perthnasol fel rhan o gamau cydweithredol ac integredig ar draws rhaglenni ERDF ac ESF ardaloedd rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru. Adlewyrchir y dull gweithredu a amlinellir yn yr echel blaenoriaeth isod ar draws yr ardaloedd rhaglen hyn ac fe'u hadlewyrchir yn y dangosyddion canlyniadau ac allbwn a ddewisir.
2. Mae'r dull gweithredu yn adeiladu ar y broses lwyddiannus o gyflawni gweithgarwch CT yn rhaglenni 2007-2013 a ddefnyddiodd CT i wella trefniadau gweithredu, gan ddarparu adnoddau ychwanegol ym maes cefnogi a datblygu rhaglen, gweithgarwch ymchwil a monitro a hyrwyddo rhaglen. Hefyd, defnyddiwyd CT i gefnogi costau cyflogau yn uniongyrchol gan yr ARh a'r rhanddeiliaid perthnasol.
3. Ystyrir bod cefnogi costau cyflog uniongyrchol o fewn rhaglenni 2014-2020 yr ARh, yr Awdurdod Ardystio (AA), yr Awdurdod Archwilio a phartneriaid yn elfen bwysig o gyflawni'r rhaglenni. Ar gyfer rhaglenni 2014-2020, cynigir y dylid defnyddio CT i barhau i gefnogi'r swyddi hynny a nodwyd yn rhaglen 2007-2013 fel rhai a oedd yn cynyddu capasiti swyddogaethau gweinyddol yr awdurdodau a'r partneriaid perthnasol. Yn unol â hyn, caiff unrhyw swyddi ychwanegol newydd ar gyfer rhaglenni 2014-2020 i ddatblygu ymhellach swyddogaeth archwilio a gweinyddol yr ARh, AA a'r Awdurdod Archwilio eu cefnogi gan CT hefyd. Defnyddir adnoddau Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid ochr yn ochr ag adnoddau CT.
4. Cynhaliwyd nifer o werthusiadau lefel rhaglen ac adolygiadau allanol yn ystod rhaglenni 2007-2013[1] sydd wedi cwmpasu nifer o feysydd a gefnogir gan weithgarwch wedi'i ariannu CT gan gynnwys:
   - y trefniadau rheoli a monitro rhaglen gwell, i gynnwys swyddogaeth y Swyddog Datblygu Prosiect (SDP);
   - arweiniad a chymorth arbenigol a thechnegol, gan gynnwys y Timau Ewropeaidd Arbenigol (TEA) a'r timau Trawsbynciol;
   - ymchwil a gwerthuso;
   - gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, gan gynnwys gweithredu llinell gymorth i gwsmeriaid;
   - trefniadau cryfach ym maes archwilio a rheoli achosion o afreoleidd-dra
5. Dangosodd canfyddiadau'r gwerthusiadau fod cefnogaeth gyffredinol i rôl SDP a gwasanaethau cymorth i fuddiolwyr, a gyflwynir drwy'r ARh a'r TEA sy'n cynnig buddiannau rhaglen gwirioneddol ac yn sicrhau bod y prosesau arfarnu a rheoli yn cael eu deall yn dda a'u gweithredu'n

compare report

effeithiol. Mae'r broses lwyddiannus o reoli rhaglenni 2007-2013 Cymru hefyd wedi cael ei chydnabod drwy nifer o wobrau i Gymru gan gynnwys Gwobrau 'Rhanbarth Rhagoriaeth' a phedair gwobr RegioStarts seiliedig ar brosiect.

6. Mae'n bwysig bod cronfeydd CT yn cael eu defnyddio yn ystod rhaglenni 2014-2020 er mwyn cynnal y sefyllfa gref hon a chyflawni rhagor o welliannau.

[1] The Guilford Review of Implementation Arrangements (2012): WEFO Customer Insight Survey 2009: The Effectiveness of Implementation in the 2007-2013 Structural Funds Programming Period Final Report. (Ionawr 2011); Thematic Evaluations of 2007-2013 EU Structural Funds Programmes; a Spatial European Teams Evaluation (Tachwedd 2010).

### 2.B.3 Cronfa a chategori rhanbarth

| Cronfa | Categori rhanbarth | Y sail gyfrifo (cyfanswm y gwariant cymwys neu wariant cyhoeddus cymwys) |
|---|---|---|
| ESF | Llai datblygedig | Cyfanswm |

### 2.B.4 Amcanion penodol a chanlyniadau disgwyliedig

compare report

| Rhif Adnabod | Amcan penodol | Canlyniadau y mae'r Aelod-wladwriaethau yn ceisio eu cyflawni gyda chymorth yr Undeb |
|---|---|---|
| 4.1 | Sicrhau bod rhaglenni 2014-2020 yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol. | 3. Nod Amcan Penodol 1 yw sicrhau bod y rhaglenni'n cael eu cyflawni mewn ffordd effeithlon ac effeithiol yng Nghymru. Y mesur allweddol sy'n sail i'r amcan hwn ac sy'n ffurfio rhan o'r adroddiad cydymffurfiaeth ar gyfer y rhaglen yw'r gyfradd afreoleidd-dra. Mae'r mesur hwn yn nodi cyfanswm gwerth afreoleidd-dra'r rhaglen a adroddwyd i OLAF fel canran o gyfanswm y gwariant cymwys ardystiedig a hawliwyd gan brosiectau.<br>4. Yn 2013 roedd y gyfradd afreoleidd-dra ar gyfer y rhaglen yn 0.41%, ymhell islaw'r trothwy o 2% a ddefnyddir gan y CE i gymryd camau cywirol.<br>5. Hefyd, caiff cyfradd wallau WEFO, a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Archwilio yn yr Adroddiad Rheoli Blynyddol, ei defnyddio fel mesur er mwyn cefnogi a mesur y broses o gyflawni'r Amcan Penodol. Roedd cyfradd wallau WEFO ym mis Rhagfyr 2012 ar gyfer ardaloedd y rhaglen yn 0.17%. |

## 2.B.5 Dangosyddion canlyniadau

**Tabl 12: Dangosyddion canlyniadau sy'n benodol i raglen** (yn ôl amcan penodol) (ar gyfer ERDF/ESF/Cronfa Cydlyniant)

| **Echel blaenoriaeth** | | **4.1 - Sicrhau bod rhaglenni 2014-2020 yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol.** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Adnabod** | **Dangosydd** | **Uned fesur** | **Gwerth sylfaenol** | | | **Blwyddyn sylfaenol** | **Gwerth targed (2023)** | | | **Ffynhonnell data** | **Amlder adrodd** |
| | | | **C** | **GN** | **T** | | **C** | **GN** | **T** | | |
| TAR1 | Cyfradd Afreoleidd-dra'r Awdurdod Rheoli | Cymhareb | | | 0.41% | 2013 | | | Llai na 2% | Adroddiad Cydymffurfiaeth WEFO | Blynyddol |
| TAR2 | Cyfradd Wallau WEFO | Cymhareb | | | 0.17% | 2012 | | | Llai na 2% | Adroddiad Cydymffurfiaeth yr Awdurdod Archwilio | Blynyddol |

## 2.B.4 Amcanion penodol a chanlyniadau disgwyliedig

| **Rhif Adnabod** | **Amcan penodol** | **Canlyniadau y mae'r Aelod-wladwriaethau yn ceisio eu cyflawni gyda chymorth yr Undeb** |
|---|---|---|
| 4.2 | Rhoi cyngor o ansawdd uchel i bartneriaid allweddol sydd ynghlwm wrth ddylunio a chyflawni gweithrediadau. | 4. Nod Amcan Penodol 2 yw gwella lefelau boddhad cwsmeriaid drwy roi cyngor o ansawdd uchel i bartneriaid allweddol sydd ynghlwm wrth ddylunio a chyflawni gweithrediadau. Wedi'i fesur ar draws gweithgarwch a ariennir CT ar gyfer yr holl gronfeydd Strwythurol yng Nghymru mae'n adlewyrchu boddhad buddiolwyr â'r gwasanaeth a gafwyd gan WEFO ar gyfer yr holl weithrediadau cymeradwy.<br>5. Y gyfradd boddhad cwsmeriaid gyffredinol sylfaenol, sy'n dyddio o 2009, yw 45%.[1]<br><br>[1] Arolwg WEFO o Farn Cwsmeriaid 2009 - Dyma ganran y rhyngweithio, lle cafodd y gweithrediad ei gymeradwyo, yr oedd y buddiolwr yn fodlon neu'n fodlon iawn ar y gwasanaeth a gafwyd |

compare report

## 2.B.5 Dangosyddion canlyniadau

**Tabl 12: Dangosyddion canlyniadau sy'n benodol i raglen** (yn ôl amcan penodol) (ar gyfer ERDF/ESF/Cronfa Cydlyniant)

| Echel blaenoriaeth | | 4.2 - Rhoi cyngor o ansawdd uchel i bartneriaid allweddol sy'n rhan o'r gwaith o ddylunio a chyflawni gweithrediadau. | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Adnabod** | **Dangosydd** | **Uned fesur** | **Gwerth sylfaenol** | | | **Blwyddyn sylfaenol** | **Gwerth targed (2023)** | | | **Ffynhonnell data** | **Amlder adrodd** |
| | | | **C** | **GN** | **T** | | **C** | **GN** | **T** | | |
| TAR3 | Boddhad Cwsmeriaid | Cymhareb | | | 45.00 | 2009 | | | 50.00 | Arolwg o Farn Cwsmeriaid | Unwaith yn ystod y cyfnod rhaglennu |

## 2.B.4 Amcanion penodol a chanlyniadau disgwyliedig

| Rhif Adnabod | Amcan penodol | Canlyniadau y mae'r Aelod-wladwriaethau yn ceisio eu cyflawni gyda chymorth yr Undeb |
|---|---|---|
| 4.3 | Gwella'r broses o integreiddio buddsoddiadau â chronfeydd ESI eraill ynghyd â rhaglenni ehangach a arweinir gan y Comisiwn ac sy'n seiliedig ar Sector, a'u gwneud yn fwy ategol. | 2. Nod Amcan Penodol 3 yw sicrhau bod y rhaglenni'n ategu'r holl gronfeydd ESI yng Nghymru, ynghyd â rhaglenni ehangach y Comisiwn, Llywodraeth Cymru ac a Arweinir gan y Sector a'u bod yn cael eu hintegreiddio â hwy. Caiff y gweithgarwch hwn ei fesur yn bennaf ar ffurf allbynnau fel nifer y prosiectau cydweithredol a gyflawnir. |

compare report

## 2.B.5 Dangosyddion canlyniadau

**Tabl 12: Dangosyddion canlyniadau sy'n benodol i raglen** (yn ôl amcan penodol) (ar gyfer ERDF/ESF/Cronfa Cydlyniant)

| Echel blaenoriaeth | | 4.3 - Gwella'r broses o integreiddio buddsoddiadau â chronfeydd ESI eraill ynghyd â rhaglenni ehangach a arweinir gan y Comisiwn ac sy'n seiliedig ar Sector, a'i gwneud yn haws iddynt ategu ei gilydd. | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Adnabod** | **Dangosydd** | **Uned fesur** | **Gwerth sylfaenol** | | | **Blwyddyn sylfaenol** | **Gwerth targed (2023)** | | | **Ffynhonnell data** | **Amlder adrodd** |
| | | | **C** | **GN** | **T** | | **C** | **GN** | **T** | | |

## 2.B.6 Camau gweithredu i'w cefnogi a'u cyfraniad disgwyliedig at yr amcanion penodol (yn ôl echel blaenoriaeth)

2.B.6.1 *Disgrifiad o'r camau i'w cefnogi a'u cyfraniad disgwyliedig at yr amcanion penodol*

| Echel blaenoriaeth | 4 - Cymorth Technegol |
|---|---|
| 1. Mae CT yn adnodd hanfodol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Rhaglen yn effeithiol. Mae'r broses o gyflawni rhaglenni 2014-2020 yn gofyn am bwyslais parhaus ar waith cyflenwi strategol gyda mwy o gysoni ac unioni â buddsoddiadau Cronfa ESI drwy grynodi adnoddau er mwyn cyflawni canlyniadau cynaliadwy ar gyfer swyddi a thwf. | |

| Echel blaenoriaeth | 4 - Cymorth Technegol |
|---|---|

2. Yng Nghymru, ceir nifer o feysydd allweddol a gaiff eu datblygu a'u cyflawni gan sefydliadau partner a'r ARh ei hun er mwyn cyflawni'r amcanion a sicrhau bod rhaglenni'n cyflawni'r lefel o integreiddio, crynodi a ffocws sydd ei hangen. Nid yw'r camau a gymerir yn annibynnol ar unrhyw un o'r amcanion ac felly maent wedi'u grwpio ar sail chwe maes buddsoddi allweddol a fydd, gyda'i gilydd, yn sicrhau bod yr amcanion a'r canlyniadau cysylltiedig wedi'u cyflawni.
3. Bydd costau cyflog, fel gyda rhaglenni 2007-13, yn rhan bwysig o'r broses o gyflawni gweithgarwch a ariennir CT ar gyfer yr ARh, yr Awdurdod Archwilio, yr Awdurdod Ardystio a phartneriaid cyflenwi ehangach. Eir i'r costau cyflog hyn fel rhan o'r holl weithgareddau a nodir isod, a gwellir y gallu i gyflawni amcanion cyffredinol y flaenoriaeth CT.
4. Mae gan yr ARh a'i bartneriaid gryn brofiad yn gweithredu CT yn y ffordd hon. Bydd yr holl swyddi a ariennir drwy CT yn amodol ar bolisïau Adnoddau Dynol a chydnabyddiaeth y sefydliad cyflogi.
5. **Rheoli**
6. Bydd y gwaith o integreiddio cronfeydd yn dwyn heriau gweinyddol newydd i'r ARh, er enghraifft wrth gyflwyno mwy o rôl ar gyfer Offerynnau Ariannol ac integreiddio swyddogaethau arbenigol fel Themâu Trawsbynciol[1] (ThTau). Bydd camau gweithredu yn gwella ac yn atgyfnerthu cymorth a datblygiad rhaglenni strategol ac integredig.
7. Bydd y camau gweithredu yn cynnwys:
   - Parhau i wella'r swyddogaeth rheoli rhaglen fewnol wrth ddatblygu a chyflawni rhaglenni integredig a chynaliadwy;
   - Parhau i ddatblygu gwybodaeth arbenigol yr ARh a'r rhanddeiliaid drwy weithgareddau hyfforddi a rhwydweithio rheolaidd;
   - Cefnogi gweithrediadau sy'n gysylltiedig â rheoli arloesedd, cydweithredu trawswladol, rhannu arfer da a phrif ffrydio;
   - Camau, yn unol â'r rhai a amlinellir yn Adran 10, sy'n ceisio lleihau'r baich gweinyddol ar fuddiolwyr;
   - Darparu cyngor technegol a swyddogaethau arbenigol o ansawdd uchel, mewn meysydd sy'n ymwneud â'r canlynol, er enghraifft: gwaith caffael, arbenigedd ariannol (i gynnwys Offerynnau Ariannol) a gwyddonol, datblygu prosiect, datrys cwynion, arloesedd a chydymffurfiaeth;
   - Datblygu a gwella systemau TG pwrpasol ac integredig ar gyfer cyflwyno Cronfeydd ESI a helpu e-Gydlyniant;
   - Rhoi cyngor a chymorth arbenigol i brosiectau ar integreiddio, gweithredu a monitro'r ThTau.
8. **Partneriaeth a Rhwydweithio**
9. Mae partneriaethau a rhwydweithiau cryf wrth wraidd y broses lwyddiannus o weithredu'r rhaglenni ac integreiddio cronfeydd ESI ar bob lefel. Bydd yr ARh yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid, gan gynnwys partneriaid cymdeithasol, a rhanddeiliaid allweddol wrth weithredu a chyflawni rhaglenni.
10. Bydd y camau gweithredu yn cynnwys:
    - Annog a hwyluso prosiectau cydweithredol a ffyrdd cydweithredol o weithredu;
    - Cysoni â rhaglenni a arweinir gan y Comisiwn Ewropeaidd, cronfa ESI a seiliedig ar Sector;

compare report

| Echel blaenoriaeth | 4 - Cymorth Technegol |
|---|---|

- Gwella'r gallu i gydgysylltu ar draws rhaglenni ac integreiddio cronfeydd ESI â gwariant a rhaglenni cenedlaethol;
- Atgyfnerthu dulliau cydgysylltu a chysylltu â phartneriaethau a hyrwyddo gwaith partneriaeth.

11. **Monitro**
12. Sefydlir un Pwyllgor Monitro Rhaglenni (PMRh) i oruchwylio effeithiolrwydd ac ansawdd rhaglenni Cronfeydd ESI ynghyd â'r broses o'u hintegreiddio[2]. Lle y bo cymhwysedd yn caniatáu, defnyddir CT er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei rheoli mewn ffordd effeithlon ac effeithiol drwy gefnogi dyletswyddau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni.
13. Bydd yr ARh yn sefydlu Ysgrifenyddiaeth i reoli trefniadau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni ar gyfer holl raglenni Cronfa ESI. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cymeradwyo, yn rheoli ac yn monitro'r holl wariant CT a ddatgenir mewn perthynas â chyfarfodydd a swyddogaethau'r Pwyllgor, gan sicrhau na chaiff gwariant ei ddatgan fwy nag unwaith yn erbyn Cronfa ESI wahanol. Dyrennir costau'r Pwyllgor ar draws rhaglenni Cronfa ESI, yn seiliedig ar faint cymharol (gwerth cyfraniad yr UE) pob rhaglen.
14. Bydd y camau gweithredu yn cynnwys:
    - Gwell cymorth rheoli i'r Pwyllgor a gwell adroddiadau i'r Comisiwn Ewropeaidd;
    - Gwariant ar y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn cynnwys treuliau a ffioedd ar gyfer arbenigwyr penodedig (caiff arbenigwyr a benodir i'r Pwyllgor ar sail teilyngdod gydnabyddiaeth yn unol ag arfer arferol Llywodraeth Cymru).
15. **Ymchwil a Gwerthuso**
16. Mae Ymchwil a Gwerthuso yn parhau i chwarae rhan ganolog yn y gwaith o helpu'r ARh i reoli rhaglenni'n effeithiol. Bydd y tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso arbenigol o fewn yr ARh yn parhau i ddylunio, cynnal a rheoli gwerthusiadau lefel rhaglen a darparu neu gyrchu cyngor ac arweiniad arbenigol ar gyfer gwerthusiadau lefel prosiect.
17. Bydd y camau gweithredu yn cynnwys:
    - Gwaith ymchwil a gwerthuso ar lefel rhaglenni, yn cynnwys ymchwilio i'r ThTau;
    - Rhoi cyngor a chanllawiau ar werthuso i sefydliadau noddi;
    - Lledaenu gwybodaeth am ymchwil a gwerthuso a digwyddiadau gweithdy;
    - Rheoli ymarferion ymchwil a gwerthuso, er enghraifft drwy'r Grŵp Cynghori ar Werthusiadau.
18. **Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd**
19. Mae llwyddiant y broses o integreiddio rhaglenni a ariennir gan ESI yn dibynnu i raddau helaeth ar ddealltwriaeth eang ymhlith y noddwyr, y partneriaid a'r rhanddeiliaid o'i chynnwys, rheoliadau llywodraethu, a nodau ac amcanion. Mae hefyd yn hanfodol y rhoddir cyhoeddusrwydd eang i fanteision a chyflawniadau'r rhaglen er mwyn amlygu'r gwerth a ychwanegir gan y gwaith partneriaeth rhwng yr UE a Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid.
20. Bydd y camau gweithredu yn cynnwys:

compare report

| Echel blaenoriaeth | 4 - Cymorth Technegol |
|---|---|

- Lledaenu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a chyfathrebu yn cynnwys canllawiau i bartneriaid a noddwyr, seminarau a gweithdai a digwyddiadau rhwydweithio;
- Lledaenu a hyrwyddo effeithiau gwell integreiddio â chronfeydd ESI a rhaglenni sector ehangach e.e. Horizon 2020;
- Datblygu a chynnal a chadw gwefan WEFO;
- Mentrau amrywiaeth a hygyrchedd;
- Gweithredu Llinell Gymorth.

21. **Archwilio a Rheoli**
22. Mae WEFO a'r Awdurdod Archwilio wedi meithrin cryn gryfder ym maes archwilio a rheoli o fewn rhaglenni 2007-2013. Bydd gwella'r swyddogaethau archwilio a rheoli ymhellach, ochr yn ochr ag uned gydymffurfio ddynodedig yn sicrhau bod WEFO yn parhau i adeiladu ar gryfderau a ddatblygwyd ac yn achub ar y cyfle y gall buddsoddiadau cronfeydd strwythurol ei gynnig.
23. Bydd y camau gweithredu yn cynnwys:
    - Trefniadau archwilio gwell i sicrhau bod y rhain yn gweithio'n effeithiol, gan wella ansawdd ac amseroldeb;
    - Gwella gwaith monitro a chyflwyno adroddiadau o ran afreoleidd-dra;
    - Gwell cymorth i drechu twyll a llygredd;
    - Rhoi cyngor a chanllawiau cyson i noddwyr a phartneriaid drwy uned gydymffurfio WEFO.

compare report

[1] Arolwg WEFO o Farn Cwsmeriaid 2009 a The Effectiveness of Implementation in the 2007-2013 Structural Funds Programming Period

[2] ERDF ac ESF (Rhanbarthau Llai Datblygedig a Mwy Datblygedig) ac EAFRD

*2.B.6.2 Dangosyddion allbwn y disgwylir iddynt gyfrannu at ganlyniadau*

***Tabl 13: Dangosyddion allbwn*** (yn ôl echel blaenoriaeth) (ar gyfer ERDF/ESF/Cronfa Cydlyniant)

| Echel blaenoriaeth | 4 - Cymorth Technegol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhif Adnabod | Dangosydd (enw'r dangosydd) | Uned fesur | Gwerth targed (2023) (dewisol) | | | Ffynhonnell data |
| | | | C | GN | T | |
| TAO1 | Nifer y digwyddiadau hyfforddiant a gynhaliwyd | Nifer | | | 10.00 | Data monitro |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TAO10 | Nifer yr e-gylchlythyrau a gyhoeddwyd | Nifer | | | 72.00 | Data monitro |
| TAO11 | Canran yr ymholiadau a ddatryswyd o fewn pum diwrnod gwaith | Cymhareb | | | 75.00 | Data monitro |
| TAO12 | Nifer yr ymweliadau archwilio | Cymhareb | | | 50.00 | Data monitro |
| TAO2 | Contract Fframwaith ar gyfer Arbenigedd ar waith ar gyfer cyflawni prosiectau | Nifer | | | 1.00 | Data monitro |
| TAO3 | Nifer y prosiectau sy'n cael asesiad ffurfiol o integreiddio themâu trawsbynciol | Cymhareb | | | 90.00 | Data monitro |
| TAO4 | Nifer yr adroddiadau ymchwil a gyhoeddwyd | Nifer | | | 20.00 | Data monitro |
| TAO5 | Nifer y prosiectau a gafodd gyngor Monitro a Gwerthuso | Cymhareb | | | 100.00 | Data monitro |
| TAO6 | Nifer y digwyddiadau lledaenu | Nifer | | | 6.00 | Data monitro |
| TAO7 | Nifer y digwyddiadau a drefnwyd gan WEFO | Nifer | | | 10.00 | Data monitro |
| TAO8 | Nifer y datganiadau i'r wasg a gyhoeddwyd | Nifer | | | 150.00 | Data monitro |
| TAO9 | Nifer y lansiadau prosiect proffil uchel | Cymhareb | | | 50.00 | Data monitro |

## 2.B.7 Categorïau ymyrryd (yn ôl echel blaenoriaeth)

Categorïau ymyrryd sy'n cyfateb yn seiliedig ar gyfundrefn enwi a fabwysiadwyd gan y Comisiwn, a dadansoddiad dangosol o gymorth yr Undeb

compare report

### Tablau 14-16:Categorïau ymyrryd

**Tabl 14: Dimensiwn 1 - Maes ymyrryd**

| **Echel blaenoriaeth** | **4 - Cymorth Technegol** | | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ Swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 121. Paratoi, gweithredu, monitro ac arolygu | 5,616,382.00 |
| ESF | Llai datblygedig | 122. Gwerthuso ac astudiaethau | 5,616,382.00 |
| ESF | Llai datblygedig | 123. Gwybodaeth a chyfathrebu | 4,814,042.00 |

**Tabl 15: Dimensiwn 2 - Math o gyllid**

| **Echel blaenoriaeth** | **4 - Cymorth Technegol** | | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ Swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 01. Grant nad yw'n ad-daladwy | 16,046,806.00 |

**Tabl 16: Dimensiwn 3 – Math o diriogaeth**

| **Echel blaenoriaeth** | **4 - Cymorth Technegol** | | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Cod** | **€ Swm** |
| ESF | Llai datblygedig | 07. Ddim yn gymwys | 16,046,806.00 |

compare report

# 3. CYNLLUN ARIANNU

## 3.1 Dyraniad ariannol o bob cronfa a symiau ar gyfer cronfa perfformiad wrth gefn

### Tabl 17

| Cronfa | Categori rhanbarth | 2014 | | 2015 | | 2016 | | 2017 | | 2018 | | 2019 | | 2020 | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Prif ddyraniad | Cronfa perfformiad wrth gefn | Prif ddyraniad | Cronfa perfformiad wrth gefn | Prif ddyraniad | Cronfa perfformiad wrth gefn | Prif ddyraniad | Cronfa perfformiad wrth gefn | Prif ddyraniad | Cronfa perfformiad wrth gefn | Prif ddyraniad | Cronfa perfformiad wrth gefn | Prif ddyraniad | Cronfa perfformiad wrth gefn | Prif ddyraniad | Cronfa perfformiad wrth gefn |
| ESF | Llai datblygedig | 101,444,057.00 | 6,475,154.00 | 103,474,987.00 | 6,604,786.00 | 105,546,285.00 | 6,736,997.00 | 108,163,658.00 | 6,904,063.00 | 110,328,293.00 | 7,042,231.00 | 112,536,175.00 | 7,183,160.00 | 114,788,043.00 | 7,326,897.00 | 756,281,498.00 | 48,273,288.00 |
| **Cyfanswm** | | **101,444,057.00** | **6,475,154.00** | **103,474,987.00** | **6,604,786.00** | **105,546,285.00** | **6,736,997.00** | **108,163,658.00** | **6,904,063.00** | **110,328,293.00** | **7,042,231.00** | **112,536,175.00** | **7,183,160.00** | **114,788,043.00** | **7,326,897.00** | **756,281,498.00** | **48,273,288.00** |

## 3.2 Cyfanswm y dyraniadau ariannol yn ôl cronfa a chydariannu cenedlaethol (€)

### Tabl 18a:Cynllun ariannu

compare report

| Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Y sail dros gyfrifo cymorth yr Undeb (Cyfanswm y gost gymwys neu'r gost gymwys gyhoeddus) | Cymorth yr Undeb (a) | Gwrthran genedlaethol (b) = (c) + (d) | Dadansoddiad dangosol o'r wrthran genedlaethol | | Cyfanswm yr arian (e) = (a) + (b) | Cyfradd gydariannu (f) = (a) / (e) (2) | Cyfraniadau EIB (g) | Prif ddyraniad | | Cronfa perfformiad wrth gefn | | Swm cronfa perfformiad wrth gefn fel cyfran o gyfanswm cymorth yr Undeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Arian cyhoeddus cenedlaethol (c ) | Arian preifat cenedlaethol (d) (1) | | | | Cymorth yr Undeb (h) = (a) - (j) | Gwrthran Genedlaethol (i) = (b) – (k) | Cymorth yr Undeb (j) | Gwrthran Genedlaethol (k) = (b) * ((j) / (a) | (l) = (j) / (a) * 100 |
| 1 | ESF | Llai datblygedig | Cyfanswm | 187,774,437.00 | 50,022,762.00 | 41,015,801.00 | 9,006,961.00 | 237,797,199.00 | 78.9641079835% | 0.00 | 176,279,001.00 | 46,960,399.00 | 11,495,436.00 | 3,062,363.00 | 6.12% |
| 2 | ESF | Llai datblygedig | Cyfanswm | 339,639,752.00 | 131,347,341.00 | 90,153,873.00 | 41,193,468.00 | 470,987,093.00 | 72.1123268658% | 0.00 | 318,845,996.00 | 123,305,866.00 | 20,793,756.00 | 8,041,475.00 | 6.12% |
| 3 | ESF | Llai datblygedig | Cyfanswm | 244,713,791.00 | 84,379,527.00 | 77,629,000.00 | 6,750,527.00 | 329,093,318.00 | 74.3599999195% | 0.00 | 229,732,527.00 | 79,213,852.00 | 14,981,264.00 | 5,165,675.00 | 6.12% |
| 5 | ESF | Llai datblygedig | Cyfanswm | 16,380,000.00 | 5,372,197.00 | 3,966,670.00 | 1,405,527.00 | 21,752,197.00 | 75.3027383855% | | 15,377,168.00 | 5,043,295.00 | 1,002,832.00 | 328,902.00 | 6.12% |
| 4 | ESF | Llai datblygedig | Cyfanswm | 16,046,806.00 | 5,533,084.00 | 5,533,084.00 | 0.00 | 21,579,890.00 | 74.3599990547% | 0.00 | 16,046,806.00 | 5,533,084.00 | | | |
| **Cyfanswm** | **ESF** | **Llai datblygedig** | | **804,554,786.00** | **276,654,911.00** | **218,298,428.00** | **58,356,483.00** | **1,081,209,697.00** | **74.4124648745%** | | **756,281,498.00** | **260,056,496.00** | **48,273,288.00** | **16,598,415.00** | **6.00%** |
| **Prif gyfanswm** | | | | **804,554,786.00** | **276,654,911.00** | **218,298,428.00** | **58,356,483.00** | **1,081,209,697.00** | **74.4124648745%** | **0.00** | **756,281,498.00** | **260,056,496.00** | **48,273,288.00** | **16,598,415.00** | |

(1) I'w gwblhau dim ond pan fydd echelau blaenoriaeth wedi'u mynegi yng nghyfanswm y costau.

**(2) Gellir talgrynnu'r gyfradd hon i'r cyfanrif agosaf yn y tabl. Yr union gymhareb a ddefnyddir i ad-dalu taliadau yw cymhareb (f).**

## Tabl 18b:Menter Cyflogaeth Ieuenctid - dyraniadau penodol ESF a Menter Cyflogaeth Ieuenctid (lle y bo'n briodol)

| Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Y sail dros gyfrifo cymorth yr Undeb (Cyfanswm y gost gymwys neu'r gost gymwys gyhoeddus) | Cymorth yr Undeb (a) | Gwrthran genedlaethol (b) = (c) + (d) | Dadansoddiad dangosol o'r wrthran genedlaethol | | Cyfanswm yr arian (e) = (a) + (b) | Cyfradd gydariannu (f) = (a)/(e) (2) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Arian cyhoeddus cenedlaethol (c ) | Arian preifat cenedlaethol (d) (1) | | |
| **Cyfanswm** | | | | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | | **0.00%** |

| Cymhareb | % |
|---|---|
| Cymhareb ESF ar gyfer rhanbarthau llai datblygedig | 0.00% |
| Cymhareb ESF ar gyfer rhanbarthau trawsnewid | 0.00% |
| Cymhareb ESF ar gyfer rhanbarthau mwy datblygedig | 0.00% |

(1) I'w gwblhau dim ond pan fydd echelau blaenoriaeth wedi'u mynegi yng nghyfanswm y costau.
(2) Gellir talgrynnu'r gyfradd hon i'r cyfanrif agosaf yn y tabl. Yr union gymhareb a ddefnyddir i ad-dalu taliadau yw cymhareb (f).

## Tabl 18c:Dadansoddiad o'r cynllun ariannol yn ôl echel blaenoriaeth, categori o ranbarth ac amcan thematig

compare report

| Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Amcan thematig | Cymorth yr Undeb | Gwrthran genedlaethol | Cyfanswm yr arian |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy | ESF | Llai datblygedig | Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, trechu tlodi ac unrhyw wahaniaethu | 187,774,437.00 | 50,022,762.00 | 237,797,199.00 |
| Sgiliau ar gyfer Twf | ESF | Llai datblygedig | Hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd a chefnogi symudedd llafur | 21,422,486.00 | 7,386,514.00 | 28,809,000.00 |
| Sgiliau ar gyfer Twf | ESF | Llai datblygedig | Buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes | 318,217,266.00 | 123,960,827.00 | 442,178,093.00 |
| Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc | ESF | Llai datblygedig | Hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd a chefnogi symudedd llafur | 134,592,585.00 | 46,408,740.00 | 181,001,325.00 |
| Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc | ESF | Llai datblygedig | Buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes | 110,121,206.00 | 37,970,787.00 | 148,091,993.00 |
| Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol | ESF | Llai datblygedig | Gwella gallu sefydliadol awdurdodau cyhoeddus a rhanddeiliaid a threfn gweinyddu cyhoeddus effeithlon | 16,380,000.00 | 5,372,197.00 | 21,752,197.00 |
| **Cyfanswm** | | | | **788,507,980.00** | **271,121,827.00** | **1,059,629,807.00** |

## Tabl 19: Swm dangosol o gymorth i'w ddefnyddio ar gyfer amcanion newid yn yr hinsawdd

| Echel blaenoriaeth | Swm dangosol o gymorth i'w ddefnyddio ar gyfer amcanion newid yn yr hinsawdd (€) | Cyfran o gyfanswm y dyraniad i'r rhaglen weithredol (%) |
|---|---|---|
| 2 | 17,852,072.00 | 2.22% |
| Cyfanswm | **17,852,072.00** | **2.22%** |

**4. DULL INTEGREDIG O GYFLAWNI GWAITH DATBLYGU TIRIOGAETHOL**

Disgrifiad o'r ymagwedd integredig tuag at ddatblygu tiriogaethol, gan ystyried a yw cynnwys ac amcanion y rhaglen weithredol yn rhoi sylw i'r Cytundeb Partneriaeth a dangos sut mae'r rhaglen weithredol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y rhaglen a'r canlyniadau disgwyliedig

3. Mae rhaglenni cronfeydd ESI Cymru wedi cael eu datblygu i gyd gyda'i gilydd, gan fwrw golwg cyfannol ar draws Cymru gyfan a cheisio ymdrin â materion strwythurol mewn ffordd gydlynol a chydgysylltiedig. Rhan allweddol o gyflawni hyn mewn ffordd integredig, grynodedig a syml fydd targedu pob cronfa yn effeithiol, gan gynnwys gwaith targedu yn seiliedig ar anghenion a chyfleoedd tiriogaethol parhaus. Mae hyn yn fodd i adlewyrchu gwahanol anghenion datblygu tiriogaethol yn y ffordd fwyaf priodol (lefel genedlaethol, rhanbarthol, isranbarthol neu leol). Nid yw rhanbarthau NUTS2 yn ystyried ardaloedd economaidd swyddogaethol is-ranbarthol yng Nghymru, fel Dinas-Ranbarth Caerdydd yn y de-ddwyrain neu Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe yn y de-orllewin[1]. Felly anogir dulliau integredig o gyflawni gwaith datblygu tiriogaethol, waeth y ffiniau hyn. Ceir amlinelliad o'r dull gweithredu hwn ar gyfer holl gronfeydd ESI yn y Cytundeb Partneriaeth. Mae Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd Cymru2] yn ategu'r gwahanol Raglenni Gweithredol, gan helpu i nodi gwaith targedu gofodol allweddol sydd eisoes yn mynd rhagddo a chyfleoedd allweddol i fuddsoddi yn y dyfodol.
4. Mae strategaethau gofodol allweddol yn dod i'r amlwg gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu ardaloedd trefol allweddol (strategaethau Dinas-Ranbarth, ardaloedd gwledig (mentrau Ardaloedd Twf[3]), a safleoedd strategol (Ardaloedd Menter[4]). Mae gan bob menter ei threfniadau cynllunio a llywodraethu strategol ei hun, a ategir drwy waith cynllunio llywodraeth leol a rhanbarthol (e.e. Partneriaethau Dysgu Rhanbarthol). Nodir anghenion cyffredin clir ar draws pob dadansoddiad gofodol, gan gynnwys datblygu sgiliau er mwyn ymateb i anghenion a galwadau a nodwyd gan gyflogwyr, yn ogystal â chynyddu cysylltedd, datblygu seilwaith strategol a denu buddsoddiad gan y sector preifat. Felly, mae cysondeb â'r dulliau gweithredu hyn yn gyson iawn ag amcanion y Rhaglenni Gweithredol, yn arbennig lle gellir cefnogi datblygiad mas critigol.
5. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn gweithio gyda buddiolwyr i nodi'r pecyn ariannu mwyaf priodol ar draws cronfeydd ESI. Bydd hyn yn hynod bwysig i fuddsoddiadau sy'n ceisio targedu'r rhai sy'n wynebu risg o dlodi, anfantais ac allgáu, fel y nodir yn Adran 5, a chysylltu'r grwpiau targed hyn â chyfle economaidd a thwf yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

compare report

[1] I weld yr adroddiad ar Ddinas-Ranbarthau: http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/publications/120711cityregions/?lang=cy

[2] Gweler: http://wefo.wales.gov.uk/applyingforfunding/funding2014-2020/epf/?skip=1&lang=cy

[3] Er enghraifft ym Mhowys (http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/policy/plgzones/?lang=cy) a Dyffryn Teifi (http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/policy/teifi/?lang=cy)

[4] Nodwyd Saith Ardal Fenter ledled Cymru, gyda phob un yn canolbwyntio ar sectorau penodol. Rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.enterprisezones.wales.gov.uk

**4.1 Datblygiadau Lleol dan Arweiniad Cymunedau** (lle y bo'n briodol)

Sut y defnyddir offerynnau datblygu lleol dan arweiniad cymunedau a'r egwyddorion ar gyfer nodi'r meysydd lle y cânt eu gweithredu

1. Nodir y dull o gyflawni Datblygiadau Lleol o dan Arweiniad Cymunedau (DLlAC) yn y Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU a bydd yn canolbwyntio ar y dull integredig o gyflawni gwaith datblygu tiriogaethol a ddisgrifir uchod ac yn y Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU. Ni ragwelir unrhyw gefnogaeth uniongyrchol i DLlAG fel y nodir yn Erthygl 32 o'r Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin ar gyfer y Rhaglen Weithredol hon; fodd bynnag, er mwyn sicrhau dull integredig o gyflawni gwaith datblygu tiriogaethol anogir cysylltiadau uniongyrchol rhwng DLlAG a gefnogir drwy'r EAFRD (o dan LEADER) neu EMFF (Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd - FLAG) a buddsoddiadau a wneir o dan ESF.
2. Bydd y broses ranbarthol o gydgysylltu a chyflawni strategaethau rhanbarthol a ddisgrifir yn y Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU yn creu cysylltiadau rhwng buddsoddiadau DLlAG a wneir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig (a mentrau cymunedol eraill a ariennir y tu allan i fframwaith ariannu ESI) a'r cyfleoedd ar gyfer buddsoddiadau integredig rhanbarthol o dan yr ESF. Rhagwelir y bydd gan y gwaith ymgysylltu rhanbarthol cryfach a gyflwynir yn rhaglenni 2014-2020 (ac a argymhellwyd gan Adroddiad Guilford) ran amlwg i'w chwarae wrth nodi unrhyw gysylltiadau rhwng gwahanol gronfeydd ESI.
3. Mae'r Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU hefyd yn nodi'r gydberthynas rhwng buddsoddiadau DLlAG o dan y Cynllun Datblygu Gwledig. Yn ymarferol gallai hyn fod ar dair ffurf:
    - Caiff camau peilot llwyddiannus o dan LEADER neu gynlluniau Cymunedol eraill (e.e. Cymunedau yn Gyntaf) eu datblygu o fod yn gamau peilot lleol fel rhan o gynlluniau arddangos rhanbarthol neu o fewn gweithgarwch cyflawni cenedlaethol;
    - bydd grwpiau LEADER (neu bartneriaethau cymunedol eraill) yn gymwys i wneud cais uniongyrchol i'r Awdurdod Rheoli os byddant yn datblygu cynllun sy'n gweddu i strategaeth y rhaglen;
    - anogir Grwpiau LEADER (neu bartneriaethau cymunedol eraill) i gefnogi'r cyfleoedd Arloesedd Cymdeithasol fel y'u hamlinellir ymhob Echel Blaenoriaeth.
4. Er mwyn hwyluso'r cysylltiadau hyn, mae nifer o swyddogaethau gweinyddol wedi cael eu dwyn ynghyd fel y disgrifir yn y Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU. Mae'r rhain yn cynnwys; un Pwyllgor Monitro Rhaglenni ar gyfer ERDF, ESF ac EAFRD; un tîm Monitro a Gwerthuso Ymchwil; un Uned Themâu Trawsbynciol; un bwrdd rheoli Cronfeydd ESI; un porth gwefan ar gyfer cronfeydd ESI; ac un set o reolau a chanllawiau cymhwysedd cenedlaethol.

compare report

**4.2 Camau integredig ar gyfer gwaith datblygu trefol cynaliadwy** (lle y bo'n briodol)
Lle y bo'n briodol, swm dangosol cymorth ERDF ar gyfer camau integredig dros ddatblygu trefol cynaliadwy i'w cymryd yn unol â'r darpariaethau o dan Erthygl 7(2) o Reoliad (UE) Rhif 1301/2013 a'r dyraniad dangosol o gymorth ESF ar gyfer camau integredig.

1. Ni ddefnyddir unrhyw ESF i gefnogi gwaith datblygu trefol cynaliadwy yn unol â'r darpariaethau o dan Erthygl 7(2) o Reoliad ERDF, gan nad yw'r cam hwn yn rhan o raglen ERDF. Fodd bynnag, disgwylir i ddyluniad buddsoddiadau ESF roi sylw priodol i gamau a ariennir gan ERDF sy'n cefnogi gwaith datblygu trefol cynaliadwy sy'n bodloni ysbryd y rheoliadau. Felly, anogir awdurdodau rhanbarthol a threfol i ystyried cyfleoedd i ddatblygu rhaglenni buddsoddi ategol integredig, gan ddefnyddio ESF ar y cyd â buddsoddiadau ehangach (gan gynnwys cronfeydd ESI eraill) er mwyn cyflawni yn erbyn strategaethau tiriogaethol integredig.

compare report

**Tabl 20: Camau integredig dros ddatblygu trefol cynaliadwy – symiau dangosol o gymorth ERDF ac ESF**

| Cronfa | Cymorth ERDF ac ESF (dangosol) (€) | Cyfran cyfanswm dyraniad y gronfa i'r rhaglen |
|---|---|---|
| Cyfanswm ESF | 0.00 | 0.00% |
| **CYFANSWM ERDF+ESF** | **0.00** | **0.00%** |

**4.3 Buddsoddiad Tiriogaethol Integredig** (lle y bo'n briodol)

Sut y defnyddir Buddsoddiadau Tiriogaethol Integredig (BTIau) (fel y'u diffiniwyd yn Erthygl 36 o Reoliad (UE) Rhif 1303/2013) heblaw mewn achosion a gwmpesir gan 4.2 a'u dyraniad ariannol dangosol o bob echel blaenoriaeth.

1. Ar gychwyn y rhaglen, nid oes unrhyw fwriad uniongyrchol i ddefnyddio cyfryngau Buddsoddiad Tiriogaethol Integredig (ITI). Amlinellir y dull gweithredu hwn a chyfnod adolygu yn y bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU.
2. Ar hyn o bryd, teimlir y gellir cyflawni'r un buddiannau drwy drefniadau gweithredu a gynlluniwyd gan Gymru na fyddent yn gofyn am ragddewis dyraniadau ariannol neu ofynion adrodd a monitro newydd. Mae Awdurdodau Rheoli Cymru yn ceisio sicrhau mwy o integreiddio a chydgysylltu rhwng holl gronfeydd ESI yng Nghymru, ac fel gwlad fach gallant weithio'n agos gyda phartneriaid ledled Cymru i gyflawni buddsoddiadau tiriogaethol integredig heb fod angen cyflwyno trefniadau gweinyddol newydd.
3. Anogir awdurdodau rhanbarthol a threfol i ddefnyddio prosesau cynllunio a chydgysylltu sy'n bodoli eisoes (er mwyn cyflawni strategaethau tiriogaethol presennol) er mwyn blaenoriaethu buddsoddiadau ar gyfer eu hardaloedd tiriogaethol. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn gweithio gyda'r awdurdodau hyn er mwyn helpu i nodi'r pecyn ariannu ESI mwyaf priodol, os yw'n berthnasol. Er enghraifft, gallai pecyn cymorth integredig gael ei ddatblygu ar draws cronfeydd ESI er mwyn helpu i ddatblygu Dinas-Ranbarth neu Ardal Fenter, ond nid oes angen i hyn gael ei wneud drwy ITI, dim ond drwy waith cynllunio a chydgysylltu effeithiol.

compare report

**Tabl 21: Dyraniadau ariannol dangosol i ITI heblaw am y rhai a grybwyllwyd o dan bwynt 4.2** (swm cronnol)

| Echel blaenoriaeth | Cronfa | Dyraniad ariannol dangosol (Cymorth yr Undeb) (€) |
|---|---|---|
| Cyfanswm | | **0.00** |

**4.4 Y trefniadau ar gyfer camau rhyngranbarthol a thrawswladol, o fewn y rhaglen weithredol, gyda buddiolwyr wedi'u lleoli yn o leiaf un Aelod-wladwriaeth arall** (lle y bo'n briodol)

1. Her allweddol i'r rhaglen fydd prif ffrydio camau cydweithredu'n fwy effeithiol a chyflawni gwell cydgysylltu rhyngwladol. Mae hyn yn hynod bwysig i fuddsoddiadau sy'n anelu at dargedu heriau a nodau cymdeithasol a rennir fel diweithdra, diweithdra ymhlith pobl ifanc, a symudedd yn y farchnad lafur a'r rhai sy'n targedu grwpiau cydraddoldeb cydnabyddedig a'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi. Disgwylir i weithrediadau a gefnogir yn y meysydd hyn

drwy'r rhaglen hon geisio cyfleoedd i ymgorffori rhyw fath o weithgarwch trawswladol neu gydweithredol, arfer gorau rhyngwladol neu arbenigedd technegol.

2. Hefyd, gwneir cysylltiadau uniongyrchol rhwng y rhaglen hon a'r rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd y mae ardal y rhaglen yn cymryd rhan ynddynt. Ceir nifer o amcanion cyffredin, y ceisir pecynnau ariannu ategol ar eu cyfer, yn arbennig lle bydd buddsoddi mewn sgiliau yn helpu i ategu uchelgeisiau economaidd a buddsoddiadau.

**4.5 Cyfraniad camau a gynllunnir o dan y rhaglen at strategaethau macro-ranbarthol a basn môr, yn amodol ar anghenion ardal y rhaglen fel y'u nodwyd gan yr Aelod-wladwriaeth**(lle y bo'n briodol)

(Lle mae'r Aelod-wladwriaeth a'r rhanbarthau yn cymryd rhan mewn strategaethau macro-ranbarthol a strategaethau basnau môr).

1. Ymgorfforir y DU yn Strategaeth yr Iwerydd a ddisgrifir yn y Cytundeb Partneriaeth. Nid ystyrir bod hyn yn ffactor ysgogi allweddol ar gyfer y rhaglen er y caiff cysylltiadau eu hannog lle bydd cyfleoedd yn codi, yn arbennig wrth ddarparu sgiliau a all gefnogi twf glas a chydweithredu ar ymchwil ac arloesedd.

compare report

## 5. ANGHENION PENODOL ARDALOEDD DAEARYDDOL Y MAE TLODI YN EFFEITHIO ARNYNT FWYAF NEU GRWPIAU TARGED SY'N WYNEBU RISG FWYAF O WAHANIAETHU NEU ALLGÁU CYMDEITHASOL (LLE Y BO'N BRIODOL)

### 5.1 Ardaloedd daearyddol y mae tlodi yn effeithio arnynt fwyaf/grwpiau targed sy'n wynebu risg o wahaniaethu neu allgáu cymdeithasol

1. Yng Nghymru diffinnir tlodi fel a ganlyn: '*Cyflwr hirdymor o ddiffyg adnoddau digonol i fforddio bwyd, amodau byw rhesymol neu amwynderau neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau (megis mynediad i ardaloedd deniadol a mannau agored) y mae eraill mewn cymdeithas yn eu cymryd yn ganiataol*'. Felly, mae cysylltiad cryf rhwng Allgáu Cymdeithasol neu'r gallu i gyfranogi a materion Tlodi.
2. Mae'r Dadansoddiad Economaidd-Gymdeithasol a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) yn dangos nad yw'r rhai sy'n fwy tebygol o wynebu risg o allgáu, tlodi, anfantais neu wahaniaethu wedi'u cyfyngu i unrhyw ardal benodol. Gall gwaith targedu daearyddol sy'n seiliedig ar le drwy, er enghraifft, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011 (MALC) helpu i ddangos lle ceir crynodiadau o anfantais a thlodi.
3. MALC yw'r mesur swyddogol o amddifadedd ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru sef Ardaloedd Cynnydd Ehangach Lleol (ACELlau). Er bod maint daearyddol yr ACELlau hyn yn amrywio eithaf tipyn, ac yn dibynnu ar ddwysedd y boblogaeth leol, bwriedir i'r poblogaethau fod yr un peth yn fras, gyda phoblogaeth gyfartalog o 1,500. Yn MALC 2011, diffinnir yr LAU1 (awdurdod lleol) â'r amddifadedd mwyaf fel yr awdurdod â'r gyfran fwyaf o'i ACELlau yn y 10% mwyaf amddifad o holl ACELlau Cymru. Gellir ystyried bod y fath ddull yn nodi'r crynodiad o'r ardaloedd mwyaf amddifad mewn Awdurdod Lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.
4. Fel y nodwyd yn y Dadansoddiad Economaidd-Gymdeithasol, mae ymyriadau sydd wedi'u dylunio i wella canlyniadau cyflogaeth ac incwm yn fwy tebygol o lwyddo pan fyddant yn canolbwyntio ar unigolion. Fodd bynnag, bydd y ffordd yr aiff Cymru ati i ddatblygu gweithgarwch integredig fel yr amlinellir yn Adran 4 o bwys arbennig i fuddsoddiadau sy'n ceisio targedu'r rhai sy'n wynebu risg o dlodi, anfantais ac allgáu a chysylltu'r grwpiau targed hyn â chyfle economaidd a thwf yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol a buddsoddiadau seiliedig ar le a wneir ar draws cronfeydd ESI. Disgwylir i bob gweithrediad ymgorffori cysylltiadau o'r fath a dulliau gweithredu integredig ar gam cynnar o'r broses ddatblygu.
5. Mae adrannau blaenoriaeth a strategaeth y rhaglen hon wedi'u datblygu'n fras ar sail tri grŵp targed craidd. Gellir eu crynhoi fel y rhai sydd mewn gwaith, y rhai sydd allan o waith a phobl ifanc. Fodd bynnag, cydnabyddir, er y gall y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi, anfantais, gwahaniaethu neu allgáu gael eu canfod i raddau mwy yn y naill neu'r llall o'r grwpiau uchod, nid ydynt yn gyfyngedig i unrhyw un o'r meysydd hyn yn benodol. Mae gwahaniaethu neu allgáu cymdeithasol yn debygol o fod yn gysylltiedig ag unigolion â nodwedd unigol (neu luosog) penodol neu amgylchiad economaidd-gymdeithasol penodol. Mae materion gwahaniaethu, tlodi neu allgáu dyfnach yn debygol o fod yn gysylltiedig lle ceir llawer o amgylchiadau.
6. Rhydd yr AEG, sy'n cyd-fynd â'r rhaglen hon, asesiad cadarn o anghenion y rhai a all wynebu risg o eithrio, anfantais neu wahaniaethu o ganlyniad i un neu fwy

Compare report

o’r nodweddion a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a’u hanghenion penodol o ran cefnogi mynediad i gyflogaeth a sgiliau. Mae’r ‘nodweddion gwarchodedig’ hyn yn cynnwys oedran (gan gwmpasu pob grŵp oedran), anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil ac ethnigrwydd, crefydd neu gred, rhyw / rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol.

7. Mae’r AEG yn tynnu sylw at y ffaith y gall grwpiau â nodweddion a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wynebu problemau penodol sy’n effeithio ar eu gallu i gael mynediad i’r farchnad lafur a datblygu ynddi, ac sy’n golygu eu bod yn wynebu mwy o risg o dlodi ac allgáu. Mae’r AEG: hefyd yn dangos bod diweithdra yn cael effaith anghymesur ar grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig[1], gyda chysylltiad agos rhwng ethnigrwydd a thlodi incwm.
8. Mae’r rhaglen ESF a’r ddogfennaeth gyhoeddedig gysylltiedig, gan gynnwys y dadansoddiad Economaidd-gymdeithasol sy’n cyd-fynd â’r rhaglen hon, yn nodi grwpiau targed neu unigolion ychwanegol sy’n gysylltiedig ag amgylchiadau economaidd-gymdeithasol penodol a’r heriau penodol y gallant eu hwynebu. Gall yr amgylchiadau economaidd hyn fod yn fodd i nodi’r unigolyn neu ddisgrifio’r rhwystr y mae’n ei wynebu i gyfranogi.
9. Gellir crynhoi’r rhain fel a ganlyn
   - cartrefi heb waith;
   - y rhai sydd bellaf o’r farchnad lafur, fel y rhai â phroblemau cymhleth (dibyniaeth ar les, iechyd meddwl, emosiynol neu ariannol neu ddigartrefedd), gan gynnwys y rhai sydd mewn tlodi parhaus;
   - y rhai sy’n ddibynnol ar alcohol neu â phroblemau camddefnyddio sylweddau;
   - y rhai sydd mewn tlodi neu sy’n wynebu risg o dlodi o ganlyniad i dangyflogaeth neu rwystrau i gyflogaeth a chyflogadwyedd;
   - y rhai â phroblemau hygyrchedd gan gynnwys anawsterau i ddefnyddio trafnidiaeth;
   - pobl ifanc, NEET a’r rhai sy’n wynebu risg o ddod yn NEET;
   - y rhai â chyfrifoldebau gofal neu ofal plant, gan gynnwys mamau yn eu harddegau a rhieni unigol;
   - gweithwyr â lefel isel o sgiliau, os o gwbl, sydd naill ai’n wynebu risg o ddiweithdra hirdymor neu sy’n agored i gylchoedd gwaith a diweithdra;
   - y rhai sy’n wynebu tlodi mewn gwaith;
   - y rhai sy’n wynebu risg o lithro allan o gyflogaeth barhaol neu sy’n wynebu rhwystrau unigol neu rwystrau yn y gweithle i ddatblygu yn y gwaith o ganlyniad i faterion fel salwch a chyfrifoldebau gofalu.
10. Po fwyaf cymhleth y rhwystrau neu po fwyaf o nodweddion cydnabyddedig sydd gan unigolion, y mwyaf tebygol y bydd rhywun o ddioddef tlodi neu y mwyaf y risg a wynebir o ddod yn dlawd.
11. Mae gan blant o gefndiroedd tlotach neu ddifreintiedig ac nad oes gan eu mamau gymwysterau ganlyniadau addysgol a galwedigaethol is na phlant eraill[2]. Maent yn wynebu risg o gyrhaeddiad addysgol gwael, yn fwy tebygol o brofi canlyniadau iechyd gwaeth a bydd ganddynt sgiliau a dyheadau is, yn ogystal â bod yn fwy tebygol o gael cyflog isel, bod yn ddiwaith ac yn ddibynnol ar les fel oedolyn[3]. Mae ymchwil i dlodi plant[4] yn tanlinellu pwysigrwydd gwella rhianta a datblygiad cynnar plant fel ffordd o roi terfyn ar drosglwyddo tlodi plant rhwng y cenedlaethau.

compare report

12. Bydd Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru a'r canllawiau cysylltiedig yn allweddol i nodi a thargedu'r bobl ifanc hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddod yn NEET. Bydd systemau nodi cynnar, cyn 16 oed, yn canolbwyntio'n greiddiol ar ddangosyddion presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad er mwyn nodi, blaenoriaethu ac olrhain y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddod yn NEET. Bydd y rhaglenni yn GCC yn targedu'r rhai sydd wedi'u nodi fel y sawl sy'n wynebu'r risg fwyaf o fewn y fframwaith hwn.

[1] Gweler y Sefydliad Cysylltiadau Hiliol: http://www.irr.org.uk/research/statistics/poverty/.

[2] UKCES (2010); *The Value of Skills: An Evidence Review*

[3] 2011 Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru

[4] Field MP, F. (2010); *The Foundation Years:Preventing poor children becoming poor adults. The report of the Independent Review on Poverty and Life Chances*

**5.2 Strategaeth i ymdrin ag anghenion penodol ardaloedd daearyddol yr effeithir arnynt fwyaf gan dlodi/grwpiau targed sy'n wynebu'r risg fwyaf o wahaniaethu neu allgáu cymdeithasol, a lle y bo'n berthnasol, y cyfraniad at y dull integredig a nodir yn y Cytundeb Partneriaeth**

compare report

1. Adlewyrchir yr ymrwymiad i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a threchu tlodi drwy gynnwys amcan llorweddol newydd neu Thema Drawsbynciol ar draws holl gronfeydd ESI a fydd yn rhan annatod o'r rhaglen gyffredinol i weithredu ThTau, gan gynnwys ThT Datblygu Cynaliadwy a ThT Cyfle Cyfartal a nodir yn Adran 11. Ceir manylion y dull hwn o weithredu ynghyd â dull gweithredu cyffredinol cronfeydd ESI i drechu tlodi ac allgáu cymdeithasol yn y Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth (CP) y DU ac ymhelaethir arno isod. Mae'r strategaeth ar gyfer rhaglenni ESF wedi'i datblygu yn unol â'r dull gweithredu cyffredinol hwn.
2. Prif amcanion ThT Trechu Tlodi ar gyfer rhaglenni cronfeydd ESI yng Nghymru yw:
    - creu swyddi a thwf sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth i'r rhai sydd allan o waith;
    - ymdrin â'r rhwystrau i gyflogaeth fel sgiliau gwael, diffyg gofal plant neu opsiynau trafnidiaeth cyfyngedig, gan helpu mwy o bobl i achub ar gyfleoedd cyflogaeth;
    - canolbwyntio ar dwf sy'n gyson ag ymyriadau datblygu sgiliau gan alluogi'r rhai sy'n profi tlodi mewn gwaith i gael swyddi mwy medrus, sy'n talu'n well.
3. Bydd gweithgareddau penodol sydd ynghlwm wrth weithredu'r ThT yn sicrhau bod tlodi, ac anghenion y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi a gwahaniaethu, wrth wraidd yr holl weithrediadau. Bydd y camau gweithredu yn cynnwys:
    - targedau a bennir ar lefel y gweithgareddau i'w cefnogi gan y rhaglen, gan ddarparu ysgogydd pwysig i fynd i'r afael â ThT y rhaglen;
    - Asesiad ThT ar bob cam o ddatblygu gweithrediadau;

- o cyngor arbenigol parhaus i gefnogi gweithrediadau ar y camau datblygu a gweithredu gan roi mewnbwn arbenigol ar gam cynnar yn y broses er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i hyrwyddo'r ThT;
- o cyflwynir rhaglen codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i staff WEFO a buddiolwyr o ran sut i integreiddio'r ThD;
- o paratoi canllawiau ar lefel gweithgarwch ynghyd ag enghreifftiau o astudiaethau achos arfer gorau a fydd yn rhoi gwybodaeth benodol am sut y gall buddiolwyr fynd i'r afael â'r ThT yn eu cynlluniau gweithredu;
- o monitro cynnydd yn rheolaidd, gan hwyluso ymyriadau cynnar os bydd angen;
- o cyflwyno'r adroddiadau diweddaraf i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a rhanddeiliaid eraill.

4. Mae gan Lywodraeth Cymru ffocws trawslywodraethol ar drechu tlodi. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn dadlau bod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal yn ei gwneud hi'n hanfodol, yn yr hinsawdd bresennol, i barhau i ddatblygu'r gwaith o drechu tlodi drwy flaenoriaethu anghenion y tlotaf a diogelu'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi ac allgáu. Rhoddir pwyslais arbennig ar ddarparu gofal plant fforddiadwy, o ansawdd da a chamau wedi'u targedu i helpu pobl i wella eu sgiliau a'u cymwysterau, gan gydnabod mai cyflogaeth yw'r llwybr gorau allan o dlodi.
5. Bydd rhaglenni ESF yn atgyfnerthu disgwyliad Llywodraeth Cymru y cymerir camau integredig o fewn rhaglenni ESI er mwyn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a threchu tlodi, gan gyfrannu hefyd at fenter UE2020 a Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru. Er mwyn i hyn weithio'n effeithiol, bydd angen i weithrediadau ddangos yn glir, ar y cam asesu, integreiddio ymyriadau ESF er mwyn trechu tlodi a gwahaniaethu, gyda buddsoddiadau a chyfleoedd twf economaidd ehangach, gan gynnwys buddsoddiad seiliedig ar le, drwy gronfeydd ESI eraill.
6. Fel y trafodir yn y Bennod ar Gymru yn CP y DU ni chymerir camau sydd ond wedi'u hanelu at ymdrin ag effeithiau tlodi. Bydd rhaglen ESF yn cyflawni rhaglen integredig o ymyriadau sy'n trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol, anweithgarwch economaidd a diweithdra tra hefyd yn cymryd camau ataliol i gynorthwyo'r rhai sy'n wynebu risg o dlodi. Gwelir canlyniadau drwy lai o dlodi a thlodi parhaus, llai o ddiweithdra, gan gynnwys ymhlith pobl ifanc, ac anweithgarwch economaidd. Bydd llai o gartrefi heb waith a chaiff llai o oriau gwaith eu colli oherwydd salwch. Cynyddir lefelau cymwysterau ac enillion, ac o ran yr effeithiau gwaddol tymor hwy, gostyngir cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar, cyfraddau NEET, yn enwedig ymhlith pobl ifanc 16-18 oed, a'r nifer sy'n wynebu risg o ddod yn NEET.
7. Mae rhaglen ESF yn seiliedig ar dair prif Echel Blaenoriaeth: **Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy, Sgiliau ar gyfer Twf a Chyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc.**Yn unol â rheoliadau ESF, byddwn yn neilltuo o leiaf 20% o'n ESF i Amcan Thematig '*hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, trechu tlodi ac unrhyw wahaniaethu*'. Cyflawnir y crynodiad hwn drwy'r flaenoriaeth **Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy**.
8. Yng Nghymru, ystyrir mai hyrwyddo mynediad i gyflogaeth gynaliadwy yw'r prif lwybr i drechu tlodi ac allgáu cymdeithasol a cheir hefyd fuddiannau economaidd sylweddol sy'n deillio o gynyddu cyfraddau cyflogaeth a threchu anweithgarwch economaidd. Hefyd, mae unigolion mewn cartrefi heb waith yn

compare report

fwy tebygol o brofi tlodi parhaus, felly bydd camau sy'n cefnogi'r grŵp hwn yn arbennig yn bwysig, fel camau sy'n helpu pobl i aros mewn gwaith. Gellir hefyd wireddu llawer o fuddiannau tymor hwy eraill o gyflogaeth gynaliadwy, er enghraifft gwell iechyd a lles a threchu anfantais ac amddifadedd.

9. Fodd bynnag, fel y dengys y dystiolaeth uchod, nid yw tlodi, y risg o dlodi, gwahaniaethu nac allgáu wedi'u cyfyngu i unigolion di-waith yn unig. Mae'r rhaglen yn cydnabod hyn a bydd yn ceisio cymryd camau i leihau tlodi a'r risg o dlodi drwy bob blaenoriaeth. Ni fydd y camau hyn eu hunain yn cyfrannu at y targed crynodiad tlodi. Fodd bynnag, byddant yn rhan annatod o ddull cydgysylltiedig a chyfannol o ymdrin â'r grwpiau targed a nodwyd a'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi.
10. Bydd **Echel Blaenoriaeth Sgiliau** ar gyfer Twf yn cefnogi buddsoddiad mewn sgiliau er mwyn helpu pobl i gael gwaith, gan gynnwys y rhai â lefel sylfaenol o sgiliau, os o gwbl, ac felly bydd yn helpu i drechu tlodi mewn gwaith. Bydd camau gweithredu yn helpu'r rhai mewn swyddi cyflog isel, oriau isel neu dros dro, ynghyd â gweithio gyda chyflogwyr i feithrin sgiliau arwain a rheoli er mwyn hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu, datblygu cyflogeion a chyfleoedd i weithwyr rhan amser. Drwy gefnogi datblygiad gwelir buddiannau ehangach o ran cyflogaeth, sydd â'r potensial i alluogi'r di-waith i gael swyddi lefel mynediad.
11. Bydd **Echel Blaenoriaeth Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc** yn cefnogi camau i gynyddu cyfradd cyflogaeth ieuenctid a lleihau effeithiau cyfnodau o ddiweithdra neu NEET ar incwm a thlodi yn yr hirdymor. Bydd cynyddu lefelau ymgysylltu a chyrhaeddiad ymhlith ein pobl ifanc yn lleihau'r risg o NEET neu ddiweithdra yn y dyfodol ac yn lleihau risgiau tymor hwy tlodi. Drwy dargedu'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau blynyddoedd cynnar, gwelir effaith waddol hirdymor ar gyfleoedd bywyd ein plant ieuengaf.

compare report

**Tabl 22: Camau i ymdrin ag anghenion penodol ardaloedd daearyddol y mae tlodi yn effeithio arnynt fwyaf/grwpiau targed sy'n wynebu risg fwyaf o wahaniaethu neu allgáu cymdeithasol**

| Grŵp targed/ardal ddaearyddol | Prif fathau o gamau arfaethedig fel rhan o ddull integredig | Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Blaenoriaeth fuddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|
| Y rhai sy'n wynebu risg o lithro allan o gyflogaeth barhaol neu sy'n wynebu rhwystrau unigol neu rwystrau yn y gweithle i ddatblygu yn y gwaith o ganlyniad i faterion fel salwch a chyfrifoldebau gofalu | Gweithgareddau sy'n helpu pobl (rhai cyflogedig a hunangyflogedig) ar gamau cynnar absenoldeb oherwydd salwch i ddychwelyd i'r gwaith ac aros yno, er mwyn atal tlodi drwy golli gwaith.<br><br>Gweithgareddau arloesol sy'n gweithio gyda chyfranogwyr cyflogedig er mwyn helpu i ymdrin â rhwystrau i symudedd yn y farchnad lafur (heb gynnwys sgiliau) ac achosion tangyflogaeth fel salwch, cyfrifoldebau gofalu neu ofal plant, rhwystrau trafnidiaeth a chamddefnyddio alcohol.<br><br>Gweithgareddau gyda chyflogwyr sy'n helpu i ddatblygu'r gweithlu a hyrwyddo trefniadau gweithio hyblyg.<br><br>Gweithgareddau gyda chyflogwyr er mwyn ymdrin â materion sy'n gysylltiedig ag iechyd o fewn y gweithle a datblygu neu wella rhaglenni gweithle neu iechyd galwedigaethol priodol, gan fabwysiadu dulliau cydweithredol o ddarparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol. | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy | ESF | Llai datblygedig | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |
| Y rhai sy'n wynebu tlodi mewn gwaith | Gweithgareddau sy'n helpu pobl (rhai cyflogedig a hunangyflogedig) ar gamau cynnar absenoldeb oherwydd salwch i ddychwelyd i'r gwaith ac aros yno, er mwyn atal tlodi drwy golli gwaith.<br><br>Gweithgareddau arloesol sy'n gweithio gyda chyfranogwyr cyflogedig er mwyn helpu i | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy | ESF | Llai datblygedig | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |

compare report

| Grŵp targed/ardal ddaearyddol | Prif fathau o gamau arfaethedig fel rhan o ddull integredig | Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Blaenoriaeth fuddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|
| | ymdrin â rhwystrau i symudedd yn y farchnad lafur (heb gynnwys sgiliau) ac achosion tangyflogaeth fel salwch, cyfrifoldebau gofalu neu ofal plant, rhwystrau trafnidiaeth a chamddefnyddio alcohol.<br><br>Gweithgareddau gyda chyflogwyr sy'n helpu i ddatblygu'r gweithlu a hyrwyddo trefniadau gweithio hyblyg.<br><br>Gweithgareddau gyda chyflogwyr er mwyn ymdrin â materion sy'n gysylltiedig ag iechyd o fewn y gweithle a datblygu neu wella rhaglenni gweithle neu iechyd galwedigaethol priodol, gan fabwysiadu dulliau cydweithredol o ddarparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol. | | | | |
| Y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur | Gweithgareddau, gan gynnwys datblygu atebion arloesol, er mwyn ymdrin â'r rhwystrau cymhleth i gael cyflogaeth gynaliadwy a gwella cyflogadwyedd a'u goresgyn, er enghraifft drwy ddarparu cymorth mentor.<br><br>Camau i ymdrin â rhwystrau fel gofal neu ofal plant, gan gynnwys camau arloesol sy'n gysylltiedig â gwella argaeledd gofal plant fforddiadwy o ansawdd.<br><br>Camau i gynorthwyo'r grwpiau targed i achub ar gyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy, yn enwedig ym meysydd twf economaidd a chyflogaeth, gan gynnwys sgiliau chwilio am swydd, ysgrifennu CV a chyfweld sylfaenol. | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy | ESF | Llai datblygedig | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |

compare report

| Grŵp targed/ardal ddaearyddol | Prif fathau o gamau arfaethedig fel rhan o ddull integredig | Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Blaenoriaeth fuddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|
| | Camau i wella cyflogadwyedd, gan gynnwys cefnogi mynediad at brofiad gwaith neu wirfoddoli sy'n canolbwyntio ar waith fel llwybr i gyflogaeth neu hunangyflogaeth lle bo'n briodol<br><br>Camau sy'n diweddaru ac yn gwella lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau hanfodol, drwy ennill cymwysterau neu ardystiad sy'n berthnasol i waith.<br><br>Cynorthwyo'r rhai sy'n Economaidd Anweithgar i feithrin hunanhyder a'r canfyddiad o waith fel opsiwn ystyrlon a realistig.<br><br>Camau wedi'u targedu, lle y bo'n briodol, i ymdrin â rhwystrau cysylltiedig eraill i gyflogaeth gynaliadwy fel cyfnodau hir o ddiweithdra, TGCh, trafnidiaeth a rheoli dyledion a chyllid. | | | | |
| Y rhai sydd mewn tlodi neu sy'n wynebu risg o dlodi o ganlyniad i dangyflogaeth neu rwystrau i gyflogaeth a chyflogadwyedd | Camau i gynorthwyo'r rhai â chyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith i gael cyflogaeth gynaliadwy.<br><br>Camau i gefnogi, diweddaru neu wella eu sgiliau a'u cymwysterau.<br><br>Camau wedi'u targedu er mwyn ymdrin ag achosion cysylltiedig ehangach y cylch cyflog isel / dim cyflog.<br><br>Camau i ymdrin â rhwystrau fel gofal neu ofal plant, gan gynnwys camau arloesol sy'n | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy | ESF | Llai datblygedig | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |

compare report

| Grŵp targed/ardal ddaearyddol | Prif fathau o gamau arfaethedig fel rhan o ddull integredig | Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Blaenoriaeth fuddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|
| | gysylltiedig â gwella argaeledd gofal plant fforddiadwy o ansawdd.<br><br>Camau i gynorthwyo'r grwpiau targed i achub ar gyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy, yn enwedig ym meysydd twf economaidd a chyflogaeth, gan gynnwys sgiliau chwilio am swydd, ysgrifennu CV a chyfweld sylfaenol.<br><br>Camau i wella cyflogadwyedd, gan gynnwys cefnogi mynediad at brofiad gwaith neu wirfoddoli sy'n canolbwyntio ar waith fel llwybr i gyflogaeth neu hunangyflogaeth lle y bo'n briodol<br><br>Cynorthwyo'r rhai sy'n Economaidd Anweithgar i feithrin hunanhyder a'r canfyddiad o waith fel opsiwn ystyrlon a realistig.<br><br>Gweithgareddau arloesol sy'n gweithio gyda chyfranogwyr cyflogedig i'w helpu i ymdrin â rhwystrau i symudedd yn y farchnad lafur.<br><br>Gweithgareddau sy'n helpu pobl ar gamau cynnar absenoldeb oherwydd salwch i ddychwelyd i'r gwaith a pharhau i weithio er mwyn atal tlodi drwy golli eu cyflogaeth<br><br>Gweithgareddau gyda chyflogwyr sy'n helpu i ddatblygu'r gweithlu a hyrwyddo trefniadau gweithio hyblyg.<br><br>Gweithgareddau gyda chyflogwyr i ymdrin â materion sy'n gysylltiedig ag iechyd o fewn y | | | | |

compare report

| Grŵp targed/ardal ddaearyddol | Prif fathau o gamau arfaethedig fel rhan o ddull integredig | Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Blaenoriaeth fuddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|
| | gweithlu a datblygu neu wella rhaglen iechyd galwedigaethol neu weithle briodol. | | | | |
| Y rhai â phroblemau hygyrchedd gan gynnwys anawsterau i ddefnyddio trafnidiaeth | Camau i gynorthwyo unigolion y mae diswyddiad wedi effeithio arnynt i arallgyfeirio opsiynau cyflogaeth ac achub ar gyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy, yn enwedig mewn meysydd twf economaidd sy'n dod i'r amlwg<br><br>Camau wedi'u targedu er mwyn ymdrin ag achosion cysylltiedig ehangach y cylch cyflog isel / dim cyflog.<br><br>Camau, lle y bo'n briodol, i gefnogi hunangyflogaeth fel opsiwn realistig a hyblyg ar gyfer cyflogaeth.<br><br>Cynorthwyo'r grŵp targed Economaidd Anweithgar i feithrin hunanhyder a'r canfyddiad o waith fel opsiwn ystyrlon a realistig.<br><br>Camau wedi'u targedu er mwyn ymdrin â rhwystrau cysylltiedig i gyflogaeth gynaliadwy fel trafnidiaeth.<br><br>Gweithgareddau arloesol sy'n gweithio gyda chyfranogwyr cyflogedig er mwyn helpu i ymdrin â rhwystrau i symudedd yn y farchnad lafur (heb gynnwys sgiliau) ac achosion tangyflogaeth fel rhwystrau trafnidiaeth. | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy | ESF | Llai datblygedig | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |
| Y rhai sy'n ddibynnol ar alcohol neu â phroblemau camddefnyddio sylweddau | Camau i gynorthwyo'r rhai â chyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith er mwyn cael cyflogaeth gynaliadwy, gan gynnwys chwilio am swydd, ysgrifennu CV a sgiliau cyfweld a chysoni | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy | ESF | Llai datblygedig | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |

compare report

| Grŵp targed/ardal ddaearyddol | Prif fathau o gamau arfaethedig fel rhan o ddull integredig | Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Blaenoriaeth fuddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|
| | sgiliau a chymwyseddau presennol â chyfleoedd gwaith<br><br>Camau i ddiweddaru neu wella eu sgiliau a'u cymwysterau<br><br>Camau wedi'u targedu er mwyn ymdrin ag achosion cysylltiedig ehangach y cylch cyflog isel / dim cyflog.<br><br>Gweithgareddau, gan gynnwys datblygu atebion arloesol, er mwyn ymdrin â'r rhwystrau cymhleth i gael cyflogaeth gynaliadwy a gwella cyflogadwyedd a'u goresgyn.<br><br>Camau i wella cyflogadwyedd, gan gynnwys cefnogi mynediad at brofiad gwaith neu wirfoddoli sy'n canolbwyntio ar waith fel llwybr i gyflogaeth neu hunangyflogaeth lle y bo'n briodol<br><br>Cynorthwyo'r rhai sy'n Economaidd Anweithgar i feithrin hunanhyder a'r canfyddiad o waith fel opsiwn ystyrlon a realistig.<br><br>Camau wedi'u targedu, lle y bo'n briodol, i ymdrin â rhwystrau cysylltiedig eraill i gyflogaeth gynaliadwy fel cyfnodau hir o ddiweithdra, TGCh, trafnidiaeth a rheoli dyledion a chyllid.<br><br>Gweithgareddau arloesol sy'n gweithio gyda chyfranogwyr cyflogedig er mwyn helpu i ymdrin â rhwystrau i symudedd yn y farchnad | | | | |

compare report

| Grŵp targed/ardal ddaearyddol | Prif fathau o gamau arfaethedig fel rhan o ddull integredig | Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Blaenoriaeth fuddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|
| | lafur (heb gynnwys sgiliau) ac achosion tangyflogaeth fel salwch, cyfrifoldebau gofalu neu ofal plant, rhwystrau trafnidiaeth a chamddefnyddio alcohol | | | | |
| Y rhai â chyfrifoldebau gofal neu ofal plant, gan gynnwys mamau yn eu harddegau a rhieni unigol | Camau i arallgyfeirio opsiynau cyflogaeth ac achub ar gyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy, yn enwedig mewn meysydd twf economaidd sy'n dod i'r amlwg.<br><br>Camau wedi'u targedu er mwyn ymdrin ag achosion cysylltiedig ehangach y cylch cyflog isel / dim cyflog fel cyfrifoldebau gofal a gofal plant.<br><br>Camau i ymdrin â rhwystrau fel gofal neu ofal plant, gan gynnwys camau arloesol sy'n gysylltiedig â gwella argaeledd gofal plant fforddiadwy o ansawdd.<br><br>Camau i wella cyflogadwyedd, gan gynnwys cefnogi mynediad at brofiad gwaith neu wirfoddoli sy'n canolbwyntio ar waith fel llwybr i gyflogaeth neu hunangyflogaeth lle y bo'n briodol<br><br>Camau sy'n diweddaru ac yn gwella lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau hanfodol, drwy ennill cymwysterau neu ardystiad sy'n berthnasol i waith.<br><br>Cynorthwyo'r grŵp targed Economaidd Anweithgar i feithrin hunanhyder a'r canfyddiad o waith fel opsiwn ystyrlon a realistig. | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy | ESF | Llai datblygedig | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |

compare report

| **Grŵp targed/ardal ddaearyddol** | **Prif fathau o gamau arfaethedig fel rhan o ddull integredig** | **Echel blaenoriaeth** | **Cronfa** | **Categori rhanbarth** | **Blaenoriaeth fuddsoddi** |
|---|---|---|---|---|---|
| | Camau wedi'u targedu, lle y bo'n briodol, i ymdrin â rhwystrau cysylltiedig eraill i gyflogaeth gynaliadwy ymhlith y grŵp targed fel cyfnodau hir o ddiweithdra, TGCh, trafnidiaeth a rheoli dyledion a chyllid.<br><br>Gweithgareddau arloesol sy'n gweithio gyda chyfranogwyr cyflogedig er mwyn helpu i ymdrin â rhwystrau i symudedd yn y farchnad lafur ac achosion tangyflogaeth fel cyfrifoldebau gofalu.<br><br>Gweithgareddau gyda chyflogwyr sy'n helpu i ddatblygu'r gweithlu a hyrwyddo trefniadau gweithio hyblyg. | | | | |
| Gweithwyr â lefel isel o sgiliau, os o gwbl, sydd naill ai'n wynebu risg o ddiweithdra hirdymor neu sy'n agored i gylchoedd gwaith a diweithdra | Camau i gynorthwyo'r rhai â lefel isel o sgiliau, os o gwbl, i gael cyflogaeth gynaliadwy.<br><br>Camau i gynorthwyo'r rhai â lefel isel o sgiliau, os o gwbl, ac y mae diswyddiad wedi effeithio arnynt, i ddiweddaru neu wella eu sgiliau a'u cymwysterau<br><br>Camau i gynorthwyo unigolion y mae diswyddiad wedi effeithio arnynt i arallgyfeirio opsiynau cyflogaeth ac achub ar gyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy, yn enwedig mewn meysydd twf economaidd sy'n dod i'r amlwg<br><br>Camau wedi'u targedu er mwyn ymdrin ag achosion cysylltiedig ehangach y cylch cyflog isel / dim cyflog.<br><br>Gweithgareddau, gan gynnwys datblygu atebion arloesol, er mwyn ymdrin â'r rhwystrau | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy | ESF | Llai datblygedig | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |

compare.report

| Grŵp targed/ardal ddaearyddol | Prif fathau o gamau arfaethedig fel rhan o ddull integredig | Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Blaenoriaeth fuddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|
| | cymhleth i gael cyflogaeth gynaliadwy a gwella cyflogadwyedd a'u goresgyn, er enghraifft drwy ddarparu cymorth mentor.<br><br>Camau i gefnogi mynediad at gyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy, yn enwedig ym meysydd twf economaidd a chyflogaeth, gan gynnwys sgiliau chwilio am swydd , ysgrifennu CV a chyfweld sylfaenol.<br><br>Camau i wella cyflogadwyedd, gan gynnwys cefnogi mynediad at brofiad gwaith neu wirfoddoli sy'n canolbwyntio ar waith fel llwybr i gyflogaeth neu hunangyflogaeth lle y bo'n briodol<br><br>Camau sy'n diweddaru ac yn gwella lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau hanfodol, drwy ennill cymwysterau neu ardystiad sy'n berthnasol i waith<br><br>Cynorthwyo'r grŵp targed Economaidd Anweithgar i feithrin hunanhyder a'r canfyddiad o waith fel opsiwn ystyrlon a realistig. | | | | |
| Cartrefi heb waith | Gweithgareddau, gan gynnwys datblygu atebion arloesol, er mwyn ymdrin â'r rhwystrau cymhleth a wynebir gan y grŵp targed wrth gael cyflogaeth gynaliadwy a gwella cyflogadwyedd a'u goresgyn, er enghraifft drwy ddarparu cymorth mentor.<br><br>Camau i ymdrin â rhwystrau fel gofal neu ofal plant, gan gynnwys camau arloesol sy'n | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy | ESF | Llai datblygedig | 9i - Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd |

compare report

| Grŵp targed/ardal ddaearyddol | Prif fathau o gamau arfaethedig fel rhan o ddull integredig | Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Blaenoriaeth fuddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|
| | gysylltiedig â gwella argaeledd gofal plant fforddiadwy o ansawdd.<br><br>Camau i gynorthwyo'r grwpiau targed i achub ar gyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy, yn enwedig ym meysydd twf economaidd a chyflogaeth, gan gynnwys sgiliau chwilio am swydd, ysgrifennu CV a chyfweld sylfaenol.<br><br>Camau i wella cyflogadwyedd, gan gynnwys cefnogi mynediad at brofiad gwaith neu wirfoddoli sy'n canolbwyntio ar waith fel llwybr i gyflogaeth neu hunangyflogaeth lle y bo'n briodol<br><br>Camau sy'n diweddaru ac yn gwella lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau hanfodol, drwy ennill cymwysterau neu ardystiad sy'n berthnasol i waith<br><br>Cynorthwyo'r grŵp targed Economaidd Anweithgar i feithrin hunanhyder a'r canfyddiad o waith fel opsiwn ystyrlon a realistig<br><br>Camau wedi'u targedu, lle y bo'n briodol, i ymdrin â rhwystrau cysylltiedig eraill i gyflogaeth gynaliadwy ymhlith y grŵp targed fel cyfnodau hir o ddiweithdra, TGCh, trafnidiaeth a rheoli dyledion a chyllid. | | | | |
| Y rhai sy'n wynebu risg o lithro allan o gyflogaeth barhaol neu sy'n wynebu rhwystrau unigol neu rwystrau yn y gweithle i ddatblygu | Camau sy'n cynnig arferion gwaith hyblyg ac atebion i fenywod er mwyn rhoi mwy o sicrwydd swydd iddynt, ynghyd â mwy o oriau gwaith neu oriau gwaith mwy hyblyg, mwy o gyflog a/neu ddatblygiad gyrfa. | 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | ESF | Llai datblygedig | 8iv - Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal |

compare report

| Grŵp targed/ardal ddaearyddol | Prif fathau o gamau arfaethedig fel rhan o ddull integredig | Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Blaenoriaeth fuddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|
| yn y gwaith o ganlyniad i faterion fel salwch a chyfrifoldebau gofalu | Ymyriadau sy'n rhoi'r cymorth a'r sgiliau angenrheidiol i fenywod ddatblygu yn eu gyrfa ac yn y gweithle.<br><br>Camau sy'n codi ymwybyddiaeth cyflogwyr o anfantais rhwng y rhywiau yn y gweithle ac sy'n helpu i ddatblygu polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth ac arferion gwaith hyblyg. | | | | |
| Y rhai sy'n wynebu risg o lithro allan o gyflogaeth barhaol neu sy'n wynebu rhwystrau unigol neu rwystrau yn y gweithle i ddatblygu yn y gwaith o ganlyniad i faterion fel salwch a chyfrifoldebau gofalu | Ymyriadau wedi'u targedu er mwyn ysgogi'r galw am sgiliau a datblygu'r gweithlu a darparu'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn cefnogi twf sefydliadau a'u gallu i addasu i heriau economaidd a heriau o fewn y farchnad lafur | 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | ESF | Llai datblygedig | 10iii - Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir |
| Y rhai sy'n wynebu tlodi mewn gwaith | Camau i feithrin sgiliau sylfaenol a hanfodol unigolion cyflogedig sydd â lefel isel o sgiliau neu sydd heb gymwysterau ffurfiol.<br><br>Camau i sicrhau bod unigolion cyflogedig sydd â lefel isel o sgiliau neu sydd heb gymwysterau ffurfiol yn ennill cymwysterau galwedigaethol technegol neu sy'n benodol i'r swydd.<br><br>Darparu prentisiaethau ar gyfer unigolion cyflogedig sydd â lefel isel o sgiliau neu sydd heb gymwysterau ffurfiol, yn y grwpiau targed, a chamau i annog argaeledd prentisiaethau a'r defnydd ohonynt.<br><br>Meithrin sgiliau er mwyn dileu'r rhwystrau i ddefnyddio technoleg, megis sgiliau digidol, gostwng cyfraddau ynysu cymdeithasol a | 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | ESF | Llai datblygedig | 10iii - Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir |

compare report

| Grŵp targed/ardal ddaearyddol | Prif fathau o gamau arfaethedig fel rhan o ddull integredig | Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Blaenoriaeth fuddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|
| | sicrhau bod mwy o bobl yn achub ar gyfleoedd datblygu yn y gwaith ar-lein. | | | | |
| Y rhai sy'n wynebu tlodi mewn gwaith | Camau sy'n cynnig arferion gwaith hyblyg ac atebion i fenywod er mwyn rhoi mwy o sicrwydd swydd iddynt, ynghyd â mwy o oriau gwaith neu oriau gwaith mwy hyblyg, mwy o gyflog a/neu ddatblygiad gyrfa.<br><br>Ymyriadau sy'n rhoi'r cymorth a'r sgiliau angenrheidiol i fenywod ddatblygu yn eu gyrfa ac yn y gweithle.<br><br>Camau sy'n codi ymwybyddiaeth cyflogwyr o anfantais rhwng y rhywiau yn y gweithle ac sy'n helpu i ddatblygu polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth ac arferion gwaith hyblyg. | 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | ESF | Llai datblygedig | 8iv - Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal |
| Y rhai sydd mewn tlodi neu sy'n wynebu risg o dlodi o ganlyniad i dangyflogaeth neu rwystrau i gyflogaeth a chyflogadwyedd | Camau i feithrin sgiliau sylfaenol a hanfodol unigolion cyflogedig sydd â lefel isel o sgiliau neu sydd heb gymwysterau ffurfiol.<br><br>Camau gweithredu i gyflwyno cymwysterau galwedigaethol technegol neu benodol i waith ar gyfer unigolion cyflogedig sydd â lefel isel o sgiliau neu sydd heb gymwysterau ffurfiol.<br><br>Darparu prentisiaethau ar gyfer unigolion cyflogedig sydd â lefel isel o sgiliau neu sydd heb gymwysterau ffurfiol, yn y grwpiau targed, a chamau i annog argaeledd prentisiaethau a'r defnydd ohonynt<br><br>Meithrin sgiliau er mwyn dileu'r rhwystrau i ddefnyddio technoleg, megis sgiliau digidol, gostwng cyfraddau ynysu cymdeithasol a | 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | ESF | Llai datblygedig | 10iii - Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir |

compare report

| Grŵp targed/ardal ddaearyddol | Prif fathau o gamau arfaethedig fel rhan o ddull integredig | Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Blaenoriaeth fuddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|
| | sicrhau bod mwy o bobl yn achub ar gyfleoedd datblygu yn y gwaith ar-lein. | | | | |
| Y rhai sy'n ddibynnol ar alcohol neu â phroblemau camddefnyddio sylweddau | Ymyriadau wedi'u targedu er mwyn ysgogi'r galw am sgiliau a datblygu'r gweithlu a darparu'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn cefnogi twf sefydliadau a'u gallu i addasu i heriau economaidd a heriau o fewn y farchnad lafur. | 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | ESF | Llai datblygedig | 10iii - Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir |
| Y rhai â chyfrifoldebau gofal neu ofal plant, gan gynnwys mamau yn eu harddegau a rhieni unigol | Camau i feithrin sgiliau sylfaenol a hanfodol unigolion cyflogedig sydd â lefel isel o sgiliau neu sydd heb gymwysterau ffurfiol.<br><br>Camau gweithredu i gyflwyno cymwysterau galwedigaethol technegol neu benodol i waith ar gyfer unigolion cyflogedig sydd â lefel isel o sgiliau neu sydd heb gymwysterau ffurfiol.<br><br>Darparu prentisiaethau ar gyfer unigolion cyflogedig sydd â lefel isel o sgiliau neu sydd heb gymwysterau ffurfiol, yn y grwpiau targed, a chamau i annog argaeledd prentisiaethau a'r defnydd ohonynt.<br><br>Meithrin sgiliau er mwyn dileu'r rhwystrau i ddefnyddio technoleg, megis sgiliau digidol, gostwng cyfraddau ynysu cymdeithasol a sicrhau bod mwy o bobl yn achub ar gyfleoedd datblygu yn y gwaith ar-lein.<br><br>Darparu prentisiaethau a phrentisiaethau lefel uwch ar gyfer unigolion cyflogedig â sgiliau Lefel 2 neu uwch. | 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | ESF | Llai datblygedig | 10iii - Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir |

compare report

| Grŵp targed/ardal ddaearyddol | Prif fathau o gamau arfaethedig fel rhan o ddull integredig | Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Blaenoriaeth fuddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|
| | Camau i ddarparu cymwysterau galwedigaethol technegol a phenodol i swydd canolraddol a lefel uwch.<br><br>Ymyriadau wedi'u targedu er mwyn ysgogi'r galw am sgiliau a datblygu'r gweithlu a darparu'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn cefnogi twf sefydliadau a'u gallu i addasu i heriau economaidd a heriau o fewn y farchnad lafur. | | | | |
| Y rhai â chyfrifoldebau gofal neu ofal plant, gan gynnwys mamau yn eu harddegau a rhieni unigol | Camau sy'n cynnig arferion gwaith hyblyg ac atebion i fenywod er mwyn rhoi mwy o sicrwydd swydd iddynt, ynghyd â mwy o oriau gwaith neu oriau gwaith mwy hyblyg, mwy o gyflog a/neu ddatblygiad gyrfa;<br><br>Ymyriadau sy'n rhoi'r cymorth a'r sgiliau angenrheidiol i fenywod ddatblygu yn eu gyrfa ac yn y gweithle;<br><br>Camau sy'n codi ymwybyddiaeth cyflogwyr o anfantais rhwng y rhywiau yn y gweithle ac sy'n helpu i ddatblygu polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth ac arferion gwaith hyblyg. | 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | ESF | Llai datblygedig | 8iv - Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal |
| Gweithwyr â lefel isel o sgiliau, os o gwbl, sydd naill ai'n wynebu risg o ddiweithdra hirdymor neu sy'n agored i gylchoedd gwaith a diweithdra | Camau i feithrin sgiliau sylfaenol a hanfodol unigolion cyflogedig sydd â lefel isel o sgiliau neu sydd heb gymwysterau ffurfiol.<br><br>Camau i sicrhau bod unigolion cyflogedig sydd â lefel isel o sgiliau neu sydd heb gymwysterau ffurfiol yn ennill cymwysterau galwedigaethol technegol neu sy'n benodol i'r swydd.<br><br>Darparu prentisiaethau ar gyfer unigolion cyflogedig sydd â lefel isel o sgiliau neu sydd | 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | ESF | Llai datblygedig | 10iii - Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir |

compare report

| Grŵp targed/ardal ddaearyddol | Prif fathau o gamau arfaethedig fel rhan o ddull integredig | Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Blaenoriaeth fuddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|
| | heb gymwysterau ffurfiol, yn y grwpiau targed, a chamau i annog argaeledd prentisiaethau a'r defnydd ohonynt.<br><br>Meithrin sgiliau er mwyn dileu'r rhwystrau i ddefnyddio technoleg, megis sgiliau digidol, gostwng cyfraddau ynysu cymdeithasol a sicrhau bod mwy o bobl yn achub ar gyfleoedd datblygu yn y gwaith ar-lein. | | | | |
| Gweithwyr â lefel isel o sgiliau, os o gwbl, sydd naill ai'n wynebu risg o ddiweithdra hirdymor neu sy'n agored i gylchoedd gwaith a diweithdra | Camau sy'n cynnig arferion gwaith hyblyg ac atebion i fenywod er mwyn rhoi mwy o sicrwydd swydd iddynt, ynghyd â mwy o oriau gwaith neu oriau gwaith mwy hyblyg, mwy o gyflog a/neu ddatblygiad gyrfa.<br><br>Ymyriadau sy'n rhoi'r cymorth a'r sgiliau angenrheidiol i fenywod ddatblygu yn eu gyrfa ac yn y gweithle.<br><br>Camau sy'n codi ymwybyddiaeth cyflogwyr o anfantais rhwng y rhywiau yn y gweithle ac sy'n helpu i ddatblygu polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth ac arferion gwaith hyblyg. | 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | ESF | Llai datblygedig | 8iv - Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal |
| Y rhai â chyfrifoldebau gofal neu ofal plant, gan gynnwys mamau yn eu harddegau a rhieni unigol | Camau i sicrhau bod pobl ifanc yn cael y sgiliau, y cymwyseddau a'r profiad angenrheidiol sy'n eu galluogi i gael gwaith cynaliadwy, gan gynnwys hunangyflogaeth.<br><br>Helpu pobl ifanc i gael cyflogaeth a'i chadw am gyfnod estynedig<br><br>Gweithgareddau gyda mentrau ac addysgwyr er mwyn herio tybiaethau a stereoteipiau traddodiadol a gwella cyfraddau cyfranogi mewn galwedigaethau a sectorau lle na chaiff | 3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc | ESF | Llai datblygedig | 8ii - Integreiddio pobl ifanc yn y farchnad lafur yn gynaliadwy (ESF), yn enwedig y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, gan gynnwys pobl ifanc sy'n wynebu risg o allgáu cymdeithasol a phobl ifanc o gymunedau ymylol, gan gynnwys drwy weithredu'r Warant Ieuenctid |

compare report

| Grŵp targed/ardal ddaearyddol | Prif fathau o gamau arfaethedig fel rhan o ddull integredig | Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Blaenoriaeth fuddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|
| | rhyw benodol neu grŵp cydraddoldeb cydnabyddedig ei gynrychioli'n ddigonol. | | | | |
| Y rhai â chyfrifoldebau gofal neu ofal plant, gan gynnwys mamau yn eu harddegau a rhieni unigol | Camau cynnar wedi'u targedu er mwyn trechu dadrithiad, cynnig mynediad i ystod ehangach ac arloesol o opsiynau dysgu sy'n ategu'r broses o feithrin sgiliau galwedigaethol a lefel uwch ac atal pobl ifanc rhag gadael byd addysg.<br><br>Helpu pobl ifanc i feithrin y sgiliau sy'n eu galluogi i fod yn fwy hyblyg a gallu addasu mewn marchnad lafur sy'n newid yn gyflym a chael gwaith parhaol, annog cysylltiadau rhwng dewisiadau gyrfaol a thueddiadau tymor hwy o ran y farchnad lafur a threchu stereoteipiau rhywiol traddodiadol yn y gweithle.<br><br>Helpu ymarferwyr i ddatblygu er mwyn ymgysylltu'n well â phobl ifanc sydd wedi dadrithio a gwella'r cysylltiadau â'r sector preifat ynghyd â'r wybodaeth amdano.<br><br>Dileu'r rhwystrau i ddysgu, helpu i feithrin annibyniaeth, a rhoi cyngor mentora ac eirioli unigol i bobl ifanc.<br><br>Gwella lefelau ymgysylltu a chyrhaeddiad pobl ifanc 11-16 oed mewn pynciau STEM, gan gynyddu cyfraddau cyfranogi ôl-16;<br><br>Gwella lefelau ymgysylltu a chyrhaeddiad merched 11-19 oed mewn pynciau STEM, gan gynyddu cyfran y merched sy'n astudio pynciau STEM ar ôl 16 oed; | 3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc | ESF | Llai datblygedig | 10i - Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a'i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da, gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio ag addysg a hyfforddiant |

compare report

| Grŵp targed/ardal ddaearyddol | Prif fathau o gamau arfaethedig fel rhan o ddull integredig | Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Blaenoriaeth fuddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|
| | Hyrwyddo llwybrau gyrfa sy'n gysylltiedig â STEM, gan annog cysylltiadau rhwng dewisiadau gyrfa a thueddiadau yn y farchnad lafur ac ymdrin â stereoteipiau rhyw traddodiadol.<br><br>Helpu i feithrin sgiliau yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant gan gynnwys ymarferwyr gofal plant presennol a phosibl. | | | | |
| Pobl Ifanc, NEET a'r rhai sy'n wynebu risg o ddod yn NEET | Camau cynnar wedi'u targedu er mwyn trechu dadrithiad, cynnig mynediad i ystod ehangach ac arloesol o opsiynau dysgu sy'n ategu'r broses o feithrin sgiliau galwedigaethol a lefel uwch ac atal pobl ifanc rhag gadael byd addysg.<br><br>Helpu pobl ifanc i feithrin y sgiliau sy'n eu galluogi i fod yn fwy hyblyg a gallu addasu mewn marchnad lafur sy'n newid yn gyflym a chael gwaith parhaol, annog cysylltiadau rhwng dewisiadau gyrfaol a thueddiadau tymor hwy o ran y farchnad lafur a threchu stereoteipiau rhywiol traddodiadol yn y gweithle.<br><br>Helpu ymarferwyr i ddatblygu er mwyn ymgysylltu'n well â phobl ifanc sydd wedi dadrithio a gwella'r cysylltiadau â'r sector preifat ynghyd â'r wybodaeth amdano.<br><br>Dileu'r rhwystrau i ddysgu, helpu i feithrin annibyniaeth, a rhoi cyngor mentora ac eirioli unigol i bobl ifanc.<br><br>Gwella lefelau ymgysylltu a chyrhaeddiad pobl ifanc 11-16 oed mewn pynciau STEM, gan gynyddu cyfraddau cyfranogi ôl-16; | 3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc | ESF | Llai datblygedig | 10i - Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a'i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da, gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio ag addysg a hyfforddiant |

compare report

| Grŵp targed/ardal ddaearyddol | Prif fathau o gamau arfaethedig fel rhan o ddull integredig | Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Blaenoriaeth fuddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwella lefelau ymgysylltu a chyrhaeddiad merched 11-19 oed mewn pynciau STEM, gan gynyddu cyfran y merched sy'n astudio pynciau STEM ar ôl 16 oed;<br><br>Hyrwyddo llwybrau gyrfa sy'n gysylltiedig â STEM, gan annog cysylltiadau rhwng dewisiadau gyrfa a thueddiadau yn y farchnad lafur ac ymdrin â stereoteipiau rhyw traddodiadol.<br><br>Helpu i feithrin sgiliau yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant gan gynnwys ymarferwyr gofal plant presennol a phosibl. | | | | |
| Pobl Ifanc, NEET a'r rhai sy'n wynebu risg o ddod yn NEET | Sicrhau bod pobl ifanc yn cael y sgiliau, y cymwyseddau a'r profiad angenrheidiol sy'n eu galluogi i gael gwaith parhaol, gan gynnwys hunangyflogaeth, a chystadlu mewn amgylchedd gwaith cystadleuol.<br><br>Helpu pobl ifanc i gael gwaith a'i gadw am gyfnod estynedig (gan gynnwys cymorth ariannol i gyflogwyr am hyd at 12 mis o ddechrau'r swydd).<br><br>Gweithgareddau gyda mentrau ac addysgwyr er mwyn herio tybiaethau a stereoteipiau traddodiadol a gwella cyfraddau cyfranogi mewn galwedigaethau a sectorau lle na chaiff rhyw benodol neu grŵp cydraddoldeb cydnabyddedig ei gynrychioli'n ddigonol. | 3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc | ESF | Llai datblygedig | 8ii - Integreiddio pobl ifanc yn y farchnad lafur yn gynaliadwy (ESF), yn enwedig y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, gan gynnwys pobl ifanc sy'n wynebu risg o allgáu cymdeithasol a phobl ifanc o gymunedau ymylol, gan gynnwys drwy weithredu'r Warant Ieuenctid |

compare report

**6. ANGHENION PENODOL ARDALOEDD DAEARYDDOL SY'N DIODDEF DIFFYGION NATURIOL NEU DDEMOGRAFFIG DIFRIFOL A PHARHAOL** (LLE Y BO'N BRIODOL)

1. Ddim yn gymwys.

compare report

## 7. AWDURDODAU A CHYRFF SY'N GYFRIFOL AM REOLI AC ARCHWILIO A RÔL PARTNERIAID PERTHNASOL

### 7.1 Awdurdodau a chyrff perthnasol

**Tabl 23: Awdurdodau a chyrff perthnasol**

| Awdurdod/corff | Enw'r awdurdod/corff, a'r adran/uned | Enw'r person sy'n gyfrifol am yr awdurdod/corff (rôl neu swydd) |
|---|---|---|
| Awdurdod rheoli | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) | Prif Weithredwr WEFO |
| Awdurdod Ardystio | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru | Pennaeth yr Awdurdod Ardystio |
| Awdurdod archwilio | Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (Llywodraeth Cymru) | Dirprwy Gyfarwyddwr, Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd (Llywodraeth Cymru) |
| Y corff y bydd y Comisiwn yn gwneud taliadau iddo | Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol (Llywodraeth Cymru) | Cyfarwyddwr Cyffredinol, Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol |

### 7.2 Cynnwys partneriaid perthnasol

***7.2.1 Camau a gymerir i gynnwys y partneriaid perthnasol yn y gwaith o baratoi'r rhaglen weithredol, a rôl y partneriaid hynny wrth weithredu, monitro a gwerthuso'r rhaglen***

1. Datblygwyd y Rhaglen Weithredol mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. Mae WEFO, fel yr Awdurdod Rheoli, wedi arwain y broses ac wedi bod yn gyfrifol am lunio'r Rhaglenni Gweithredol gan ymgysylltu'n helaeth â phartneriaid ynghylch y gwaith datblygu a'r cynnwys.
2. Mae hyn wedi cynnwys nifer o Grwpiau Cynghori a benodwyd yn benodol a ffrydiau gwaith/gweithgorau arbenigol sydd â chryn ymgysylltu cyhoeddus dros y cyfnod datblygu. Adlewyrchodd aelodaeth pob grŵp ystod lawn o fuddiannau rhanddeiliaid (a'r rhai a nodwyd yn Erthygl 5) o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, ynghyd â chydbwysedd priodol o ran y rhywiau a daearyddiaeth a chyda buddiannau cydraddoldeb ac amgylcheddol yn cael eu cynrychioli. Disgrifir y grwpiau amrywiol isod gyda manylion yr aelodau yn adran 12.3.
3. Cyn dechrau drafftio'r Rhaglen Weithredol, sefydlodd y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd ar y pryd "**Ymarfer Myfyrio**"[1] a roddodd gyfle cynnar i randdeiliaid wneud sylwadau ar y cyfeiriad strategol a blaenoriaethau buddsoddi yn y dyfodol yn seiliedig ar y cynigion deddfwriaethol drafft. Ar y cyfan, roedd partneriaid a rhanddeiliaid yn cefnogi'r egwyddorion a oedd yn ategu'r cynigion deddfu a'r angen i gysoni'r rhaglenni newydd ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl. Drwy hyn bu modd i'r Dirprwy Weinidog amlinellu'r cyfeiriad strategol a nifer o egwyddorion arweiniol y byddai rhaglenni 2014-2020 yn cael eu datblygu yn unol â hwy mewn datganiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Mai 2012[2]. Roedd hyn yn cynnwys yr angen i ganolbwyntio a thargedu ein hadnoddau ar y meysydd hynny sydd fwyaf tebygol o gael effaith drawsnewidiol ar economi Cymru a chyfrannu'n sylweddol at greu swyddi.
4. Cefnogwyd y gwaith cychwynnol drwy'r **Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Raglenni Ewropeaidd**, grŵp gorchwyl a gorffen bach, a sefydlwyd i lunio syniadau a chynghori Gweinidogion yn uniongyrchol ar nifer o faterion strategol

compare report

allweddol. Dewiswyd yr aelodau yn ofalus fel arbenigwyr yn eu maes, gyda'r gallu a'r ddealltwriaeth i gynnig y meddylfryd strategol angenrheidiol ar draws rhaglenni a meysydd polisi. Mae'r grŵp yn cynnwys arbenigwyr allanol â chryn brofiad ac arbenigedd strategol, uwch Swyddogion o brif adrannau gwario Llywodraeth Cymru a chynghorwyr sy'n cynnig cyngor arbenigol, gan gynnwys uwch swyddogion sy'n gyfrifol am ddatblygu a chyflawni rhaglenni Ewropeaidd.

5. Sefydlwyd **Fforwm Partneriaeth Rhaglenni Ewropeaidd** fel y prif gyfrwng i ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol ar ddatblygiadau ariannu Ewropeaidd ar ôl 2013. Sefydlwyd y Fforwm yn 2011 a bu ar waith yn ystod y cyfnod datblygu rhaglenni cyfan; gan gynnig mewnbwn uniongyrchol i'r gwaith o greu'r Rhaglen Weithredol a'r Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU. Daeth yr aelodau yn rhannol o Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan, ac yna fe'i hategwyd gan bartneriaid ychwanegol er mwyn sicrhau bod y Fforwm yn adlewyrchu buddiannau pob grŵp rhanddeiliaid perthnasol yng Nghymru. Drwy sefydlu'r grŵp, cydbwyswyd buddiannau ac adlewyrchwyd lefel briodol o gynrychiolaeth gan y sector preifat, cydbwysedd rhwng y rhywiau, wedi'i ledaenu ar draws cronfeydd, a chynrychiolaeth ddaearyddol.
6. Sefydlwyd **pedwar grŵp ffrwd waith technegol** yng nghanol 2012 er mwyn ystyried manylion technegol a gweithredol rhaglenni 2014 i 2020 a rhoi cyngor ar y cynnwys, y prosesau a'r gweithdrefnau gan adlewyrchu cyfeiriad strategol y Gweinidog. Roedd y rhain yn cwmpasu:
    - Rhaglenni Gweithredol;
    - Cyflenwi a Chydymffurfio;
    - Monitro a Gwerthuso;
    - Cydweithredu Tiriogaethol.
7. Chwaraeodd aelodau o'r llif gwaith Rhaglenni Gweithredol ran uniongyrchol yn y broses o ddiffinio cynnwys y rhaglenni gan gynnwys cyfeiriad y strategaeth a themâu trawsbynciol (egwyddorion llorweddol) tra aeth aelodau o'r llifau gwaith Cyflenwi a Chydymffurfio a Monitro a Gwerthuso ati'n benodol i ystyried a pharatoi canllawiau, dangosyddion a threfniadau cyflenwi a rheoli. Penodwyd aelodau drwy wahodd enwebiadau ac fe'u dewiswyd ar sail profiad rhaglenni wedi'u hariannu gan yr UE a pholisïau perthnasol yr UE, y DU a Chymru, ynghyd â phrofiad pwnc perthnasol a oedd yn briodol i bob llif gwaith. Cynhaliwyd cydbwysedd llawn o ran buddiannau rhanddeiliaid, daearyddiaeth a'r rhywiau.
8. Yn olaf, er mwyn sicrhau bod cynigion yn gyson â pholisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru sefydlwyd **Grŵp Polisi Rhaglenni Ewropeaidd Llywodraeth Cymru**. Dilynodd cyfarfodydd Grŵp Polisi rai'r llif gwaith Rhaglenni Gweithredol a llywiodd y ddau grŵp y cynigion drafft a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar ddechrau 2013. Roedd yr aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr polisi lefel uwch a enwebwyd gan Gyfarwyddwyr Cyffredinol o holl adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru.
9. Lansiwyd **ymgynghoriad cyhoeddus** llawn, 'Cymru a'r UE: Partneriaeth ar gyfer Swyddi a Thwf' ar 14 Ionawr 2013 er mwyn ceisio barn partneriaid ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a Datblygu Gwledig. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 23 Ebrill 2013, a chafwyd 126 o ymatebion i'r cynigion yn ymwneud â'r Gronfa Strwythurol.[3]
10. Ategwyd yr ymgynghoriad gan bedwar digwyddiad rhanddeiliaid rhanbarthol Llywodraeth Cymru, gyda thros 300 o randdeiliaid yn dod i drafod y prif gyfleoedd a heriau mewn cyfres o weithdai. Hefyd, trefnodd nifer o grwpiau

compare report

rhanddeiliaid allanol ddigwyddiadau sectoraidd yn ystod y cyfnod ymgynghori a fynychwyd gan swyddogion WEFO.

11. Penodwyd ymgynghorwyr i ddadansoddi canlyniadau'r ymgynghoriad a chyhoeddwyd eu hadroddiad ar Gronfeydd Strwythurol ar wefannau WEFO[4] a Llywodraeth Cymru ac fe'i cyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid mewn datganiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 9 Gorffennaf 2013. Roedd yr ymgynghorwyr a benodwyd i ddadansoddi'r ymgynghoriad o'r un sefydliad a fu'n gyfrifol am y Gwerthusiad Ex Ante ac felly roedd ganddynt ddealltwriaeth fanwl o'r materion a godwyd.
12. Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynigion Cronfa Strwythurol yn sgil yr ymgynghoriad, o ran y blaenoriaethau buddsoddi a ddewiswyd a phwysigrwydd canolbwyntio adnoddau er mwyn cael effaith drawsnewidiol. Cododd nifer o ymatebwyr bryderon am absenoldeb Blaenoriaeth benodol ar gyfer trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol. Mae rhaglen ESF wedi'i datblygu yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd yn ei Chynllun Gweithredu ar Drechu Tlodi, sy'n nodi mai cyflogaeth yw'r llwybr gorau allan o dlodi.
13. Felly, mae camau i ymdrin â thlodi ac allgáu cymdeithasol yn canolbwyntio ar ddileu rhwystrau i gyflogaeth a helpu pobl i gael gwaith. Gyda hyn fel y brif egwyddor, ail-luniodd WEFO gamau i gefnogi'r rhai sy'n byw mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol, neu sy'n wynebu'r risg o hynny, i fod o fewn Echel Blaenoriaeth 'Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy' gan helpu'r cyfranogwyr hynny i gael gwaith cynaliadwy a sicr a'i gadw. Mae'r Echel Blaenoriaeth hon yn ategu'r thema drawsbynciol ar Drechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.
14. Sefydlwyd un **Pwyllgor Monitro Rhaglenni i Gymru** ar gyfer rhaglenni Buddsoddi Strwythurol ac Ewropeaidd (ESI) 2014-2020 ar ffurf gysgodol a chaiff ei fabwysiadu'n ffurfiol ar ôl i'r Comisiwn Ewropeaidd gymeradwyo'r rhaglenni.
15. Bydd y Pwyllgor hwn yn cwmpasu'r tair cronfa ESI a reolir gan Lywodraeth Cymru (ERDF, ESF, EAFRD) a bydd yn gyfrifol am gymeradwyo meini prawf dewis gweithrediad Cronfeydd Strwythurol, ystyried y cynnydd a wnaed i gyflawni'r amcanion rhaglen cytûn, ac unrhyw ddiwygiadau i'r rhaglenni a chytuno ar y Cynllun Gwerthuso ac unrhyw ddiwygiadau i'r rhaglenni.
16. Mae'r aelodaeth o 27 (a Chadeirydd), sy'n seiliedig ar egwyddorion partneriaeth a llawer o'r arferion gorau a nodir yn y Cod Ymddygiad Ewropeaidd ar Bartneriaeth, yn cynnwys chwe aelod arbenigol a benodwyd drwy broses penodiadau cyhoeddus a 21 o aelodau a enwebwyd ar sail sector. Dewiswyd aelodau o blith y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector (gan gynnwys partneriaid economaidd a chymdeithasol, awdurdodau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; a chynrychiolwyr cymdeithas sifil gan gynnwys cyrff amgylcheddol a chydraddoldeb). Hefyd, dyluniwyd yr aelodaeth i sicrhau cydbwysedd eang rhwng y rhywiau a dosbarthiad ar draws y ddau ranbarth yng Nghymru a'r dimensiwn trefol/gwledig. Paratoir cylch gorchwyl drafft a chytunir arno yn y cyfarfod cyntaf. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau manwl ar sut y gellir ymdrin â gwrthdaro buddiannau posibl.
17. Cefnogwyd sefydlu un Pwyllgor gan ein partneriaid ar sail yr adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus a bydd yn llywio asesiad mwy cyfannol o effaith ac effeithiolrwydd y cronfeydd wrth gyflawni agenda UE2020, yn erbyn y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd ac a gefnogir gan well gwybodaeth reoli a monitro.

compare report

18. Bydd y **Grwpiau Cyflenwi a Chydymffurfio a Gwerthuso** sy'n bodoli eisoes yn parhau i weithredu drwy gydol 2014-2020 er mwyn parhau i roi cyngor ar waith cyflenwi a gweithredu (gan gynnwys cynnwys canllawiau) a threfniadau monitro a gwerthuso. Mae'r grwpiau hyn wedi bodoli drwy gydol cyfnod rhaglenni 2007-13 ac maent yn cynnwys buddiannau rhanddeiliaid eang mewnol Llywodraeth Cymru a buddiannau rhanddeiliaid allanol.
19. Mae'r **Grŵp Cyflenwi a Chydymffurfio** yn grŵp arbenigol technegol a sefydlwyd gan yr Awdurdod Rheoli (WEFO) fel fforwm i bartneriaid roi adborth ar faterion gweithredol gweithredu a chydymffurfio.
20. Mae gwaith y Grŵp yn llywio gwaith y Pwyllgor, ac mae ganddo gylch gwaith penodol i adolygu 'Adroddiad Cydymffurfio' rheolaidd WEFO cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys canlyniadau archwilio a gwallau cyffredin a geir yng ngwaith dilysu rheolwyr. Mae'r grŵp yn helpu'r Pwyllgor i fodloni ei hun ynghylch effeithiolrwydd ac ansawdd gweithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Cymru ym meysydd cyflenwi a chydymffurfio.
21. Rôl **Grŵp Cynghori ar Werthuso** yw cynnig cyngor a chymorth wrth ddylunio astudiaethau gwerthuso, gan reoli ansawdd yr adroddiadau ymchwil terfynol a sicrhau bod canfyddiadau yn cael eu dosbarthu'n eang. Bydd y grŵp hefyd yn monitro'r broses o weithredu'r Strategaeth Monitro a Gwerthuso ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Cymru yn 2014-2020.
22. Nid oes cynlluniau i drosglwyddo rhan o'r cyfrifoldeb am reoli'r Rhaglen Weithredol i Gyrff Canol, er enghraifft drwy ddefnyddio Grantiau Cyffredinol neu Fuddsoddiadau Tiriogaethol Integredig a defnyddio'r darpariaethau a nodir yn erthygl 123(7) o Reoliad Darpariaethau Cyffredin (CPR) UE 1303/2013. Bydd Cyrff Canol, gan ddefnyddio'r darpariaethau a nodir yn erthygl 123(6) o'r CPR, yn cyflawni tasgau dirprwyedig penodol mewn perthynas â rheoli rhai cynlluniau cymorth. Bydd tasgau dirprwyedig yn cynnwys, o leiaf, ddewis prosiectau (buddiolwyr), rhoi dogfennau i fuddiolwyr sy'n nodi'r amodau o ran cymorth a gweinyddiaeth cymorth gwladwriaethol y cynllun. Mae'r Cyrff Canol a ddewisir i reoli'r cynlluniau cymorth yn debygol o fod yn adrannau Llywodraeth Leol.

Compare report

[1] http://wefo.wales.gov.uk/programmes/post2013/reflectionexercise/?lang=cy

[2] http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-chamber-fourth-assembly-rop.htm?act=dis&id=233432&ds=5%2F2012#dat4

[3] http://wales.gov.uk/consultations/businessandeconomy/130114walesandtheeu/?lang=cy&utm_source=130114&utm_medium=wefowebsite&utm_campaign=consultation_cy

[4] http://wefo.wales.gov.uk/news/latest/130115consultation/?lang=cy

***7.2.2 Grantiau cyffredinol*** (ar gyfer ESF, lle y bo'n briodol)

1. *Ni fyddwn yn defnyddio grantiau cyffredinol i weithredu ESF yn Ardal y Rhaglen.*

***7.2.3 Dyrannu swm ar gyfer meithrin gallu*** (ar gyfer yr ESF, lle y bo'n briodol)

1. Anogir cyfranogiad y partneriaid cymdeithasol (busnesau ac undebau llafur) wrth weithredu rhaglen ESF yn GCC. Ni chynigir buddsoddi'n benodol yn y gwaith o feithrin capasiti partneriaid cymdeithasol o fewn prif echelau blaenoriaeth y rhaglen. Fodd bynnag, bydd rôl yn parhau ym maes gweithredu drwy gyflenwi wedi'i gaffael ac fel buddiolwyr sy'n arwain y gwaith o gyflawni gweithrediadau fel yn achos rhaglenni 2007-2013 neu sy'n cymryd rhan ynddo.
2. Rhydd y gweithgareddau canlynol syniad o'r camau a gymerir mewn cydweithrediad agos â'r partneriaid cymdeithasol:
    - Atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng busnes ac addysg sy'n anelu at sicrhau bod integreiddio agosach rhwng anghenion cyflogwyr a chwricwla galwedigaethol a sgiliau sylfaenol;
    - Mwy o rôl i gyfleu gwybodaeth am y farchnad lafur mewn perthynas ag anghenion sgiliau a chyflogaeth yn y dyfodol ar draws Economi Cymru;
    - Camau gweithredu sy'n gwella effeithiolrwydd deialog cymdeithasol a gweithgareddau a gyflawnir ar y cyd gan y partneriaid cymdeithasol, yn enwedig o ran hyblygrwydd gweithwyr a busnesau;
    - Mentrau partneriaeth sy'n anelu at hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cyflogaeth, ac yn y gweithlu yn gyffredinol;
    - Camau i gefnogi iechyd a lles y gweithlu, yn enwedig lle gall iechyd gwael gyfrannu at golli gwaith.
3. Yn ystod cyfnod rhaglen 2007-2013, defnyddiwyd Cymorth Technegol i gefnogi'r gwaith o ymgysylltu â sefydliadau anllywodraethol a gwirfoddol wrth gyflenwi rhaglenni, a datblygu eu capasiti. Mae hyn wedi cynnwys darparu cymorth wedi'i deilwra, gwybodaeth, cyngor a chyfleoedd rhwydweithio. Cynigir y bydd gweithgareddau tebyg yn bosibl drwy weithgareddau Cymorth Technegol o fewn rhaglen ESF fel y disgrifiwyd yn Adran 2.B., a fydd yn cynnwys y canlynol:
    - Rheoli - datblygu ymhellach swyddogaethau a systemau'r Awdurdod Rheoli er mwyn cyflenwi rhaglenni cynaliadwy integredig a rhoi cyngor ac arweiniad arbenigol i fuddiolwyr;
    - Partneriaeth a Rhwydweithio - hwyluso gwaith ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth effeithiol â rhanddeiliaid wrth gefnogi'r broses o roi rhaglenni ar waith;
    - Monitro - sefydlu a chefnogi Pwyllgor Monitro Rhaglen Cronfeydd ESI unigol;
    - Ymchwil a Gwerthuso - parhau i ddarparu gwybodaeth seiliedig ar dystiolaeth o ansawdd er mwyn helpu i gyflenwi rhaglenni;
    - Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd - tynnu sylw at y gwerth a ychwanegir gan yr UE yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid;
    - Archwilio a Rheoli - cyflenwi rhaglenni effeithiol a rhai sy'n cydymffurfio yng Nghymru.

compare report

## 8. CYDGYSYLLTU RHWNG Y CRONFEYDD, EAFRD, EMFF AC OFFERYNNAU ARIANNU'R UNDEB AC OFFERYNNAU ARIANNU CENEDLAETHOL ERAILL, AC Â'R EIB

Y dulliau o sicrhau cydgysylltu rhwng y Cronfeydd, Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD), Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) ac offerynau ariannu eraill yr Undeb ac offerynnau ariannu cenedlaethol eraill, gyda Banc Buddsoddi Ewrop (EIB), gan ystyried y darpariaethau perthnasol a osodwyd yn y Fframwaith Strategol Cyffredin.

1. Nodir y dull o gyflenwi a chydgysylltu cronfeydd ESI yng Nghymru yn y Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU, gyda'r holl gronfeydd yn cael eu cyflenwi gyda'i gilydd a'u goruchwylio gan un Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Sefydlir grŵp cydgysylltu sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Awdurdodau Rheoli ar gyfer pob Cronfa er mwyn hyrwyddo'r broses o gydgysylltu'r Cronfeydd, nodi'r ffynhonnell cyllid mwyaf priodol ac adeiladu portffolios gweithrediadau mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin a sicrhau na ddyblygir cyllid.
2. Defnyddir amrywiaeth o ddogfennau canllaw, gan gynnwys Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd, i gyflawni synergedd rhwng Cronfeydd ESI a buddsoddiadau ehangach yn economi Cymru. Nod yr EPF yw nodi'r buddsoddiadau ehangach sy'n berthnasol i gronfeydd ESI. Gan ddefnyddio'r Fframwaith hwn, disgwylir i holl gronfeydd ESI ychwanegu gwerth at y buddsoddiadau ehangach hyn, gan osgoi dyblygu ac adeiladu ar asedau sy'n bodoli eisoes.
3. Bydd buddsoddiadau ESF mewn cyfalaf dynol yn ategu ac yn cyfuno â buddsoddiadau a wneir gan gronfeydd ehangach ESI er mwyn hwyluso'r broses o gyflawni nodau ac amcanion cyffredinol Cronfeydd ESI yng Nghymru. Llwyddwyd i osgoi dull gwahanu llym ar gyfer 2014-2020 er mwyn hwyluso'r gwaith o ddatblygu cynlluniau a gweithrediadau ar y cyd. Felly, lle gellir dangos ychwanegiad clir at ddarpariaeth o dan EAFRD ac EMFF, bydd unigolion sydd ynghlwm wrth ffermio a physgota yn gallu cael cymorth ESF.
4. Rhoddir gwybodaeth benodol am natur ategol Echelau Blaenoriaeth penodol ESF a Chronfeydd ESI eraill isod, tra manylir ar gyfraniad rhaglen ESF at Amcanion Thematig 1-7 ymhob Echel Blaenoriaeth ESF. Amlinellir y dull o gydgysylltu ac integreiddio ag ERDF ac EAFRD yn Adran 4, sy'n tynnu sylw at y defnydd o ddulliau cynllunio a chydgysylltu presennol er mwyn blaenoriaethu buddsoddiadau a nodi ac integreiddio'r pecyn ariannu ESI mwyaf priodol.
5. Ymhob achos ceisir sicrhau bod buddsoddiadau yn ategu ei gilydd, ac ystyrir y potensial i ddefnyddio hyblygrwydd neu arian ar y cyd fesul achos. Cyflawnir hyn drwy feini prawf dewis gweithrediadau lle bydd angen i bob gweithrediad, ymhlith nifer o feini prawf eraill, ddangos y canlynol:
    - sut maent wedi ystyried y ffynonellau ariannu perthnasol eraill;
    - cyfleu sut maent yn cysylltu â'r cronfeydd hyn neu yn eu hategu a'r buddsoddiadau a gefnogir ganddynt;
    - dangos sut mae eu cynnig yn cysylltu â rhaglenni buddsoddi ehangach ac yn ychwanegu gwerth atynt.
6. Bydd cyfleoedd i ategu camau gweithredu a gefnogir gan raglen ESF yn Nwyrain Cymru (DC). Dyluniwyd Echelau Blaenoriaeth cyffredin "Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth", "Sgiliau ar gyfer Twf" a "Diweithdra ymhlith Pobl Ifanc" ar draws y ddwy raglen, gan ddefnyddio'r un Amcanion Thematig a Blaenoriaethau Buddsoddi. Caiff y ddwy Raglen eu rheoli gan WEFO fel yr Awdurdod Rheoli,

compare report

gyda'r un timau yn rheoli'r Echelau Blaenoriaeth cyfatebol ar draws y ddwy raglen, wedi'u goruchwylio gan grŵp rheoli portffolio ESF.

7. Lle bydd nodau'r Rhaglenni ac Amcanion Penodol yr Echelau Blaenoriaeth yn ategu ei gilydd, bydd WEFO yn hwyluso'r gwaith o sefydlu'r ddau weithrediad ategol ynghyd â sicrhau bod gweithrediadau yn ategu ei gilydd. Bydd y camau a gymerir yn amrywio yn ôl Echel Blaenoriaeth yn dibynnu ar gryfder eu natur ategol. Bydd hefyd yn amrywio yn ôl gweithrediad, gan adlewyrchu'r egwyddor cymesuredd.
8. **Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy**
9. Nid yw polisi cyflogaeth yn faes cymhwysedd sydd wedi'i ddatganoli, gyda pholisïau a dulliau cyflawni rhaglenni budd-dal, lles a chyflogaeth craidd yn cael eu rheoli drwy Lywodraeth y DU. Bydd rhaglen diwygio lles Llywodraeth y DU yn cael effaith sylweddol ar y broses o gyflawni camau cyflogaeth a gefnogir gan ESF o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon ac Echel Blaenoriaeth Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc. Bydd rhaglenni ESF, sy'n canolbwyntio ar bwyslais ar dlodi a chyflogaeth gynaliadwy, yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at ddarpariaeth brif ffrwd mewn meysydd perthnasol. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn gweithio ochr yn ochr â threfniadau ehangach Llywodraeth Cymru, ac yn eu cefnogi, sy'n cydgysylltu'r rhyng-gydberthnasau â darpariaeth Llywodraeth y DU yn y meysydd hyn.
10. Bydd Rheolau Cymhwysedd Cenedlaethol Cymru, sydd ar gael drwy wefan WEFO ac a gaiff eu diweddaru drwy gydol cyfnod y rhaglen, yn darparu canllawiau ar gymhwysedd unigolion mewn perthynas â rhaglenni prif ffrwd Llywodraeth y DU. Bydd y canllawiau yn cefnogi gweithrediadau i ddangos gwerth ychwanegol darpariaeth prif ffrwd, tra'n osgoi dyblygu. Bydd asesiad o'r ffordd y mae unrhyw weithrediad arfaethedig yn cydweddu i gyd-destun cymorth cyflogaeth Llywodraeth y DU yn hanfodol er mwyn dangos gwerth ychwanegol a bydd yn rhan o'r broses dewis ac asesu.
11. Bydd ymyriadau ESF i gynyddu nifer yr unigolion sy'n barod am waith a chysylltu cyflenwad y gweithlu yn well â galw cyflogwyr a hyrwyddo hunangyflogaeth fel dull o ymgysylltu â'r farchnad lafur yn ategu buddsoddiadau ERDF, EAFRD ac EMFF er mwyn ysgogi twf busnes a mwy o gynhyrchiant a datblygu cadwyni cyflenwi lleol.
12. Mae gwledigrwydd ac ymyloldeb yn gwaethygu rhwystrau i gynhwysiant a chyfranogiad. Ceir cryn dipyn o le i ymyriadau ESF gynyddu nifer yr unigolion sy'n barod am waith er mwyn ategu ymyriadau ERDF ac EAFRD a gwella hygyrchedd ffisegol i gyfleoedd a chanolfannau cyflogaeth a hyfforddiant a sicrhau bod preswylwyr yn gallu achub ar gyfleoedd newydd sy'n deillio o fuddsoddiad mewn seilwaith (gan gynnwys unrhyw fewnfuddsoddi).
13. Hefyd, gwneir cysylltiadau penodol â'r rhaglenni Tiriogaethol Ewropeaidd y mae Cymru yn cymryd rhan ynddynt, yn enwedig lle gellir gwneud buddsoddiadau ategol i gefnogi'r ardaloedd hynny lle disgwylir twf mewn cyflogaeth. Bydd cydleoli Uned Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd â'r Awdurdod Rheoli ar gyfer ESF, gyda WEFO yn gweithredu fel Awdurdod Rheoli ar gyfer Rhaglen Cydweithredu Iwerddon-Cymru 2014-2020, yn helpu i sicrhau bod y cronfeydd hyn yn cael eu cydgysylltu.
14. Mae'r **Gronfa Addasu Globaleiddio Ewropeaidd** yn cynnig cymorth sy'n anelu at helpu gweithwyr sydd wedi cael eu diswyddo o ganlyniad i batrymau byd-eang newidiol. Bydd gweithwyr sydd wedi cael eu diswyddo, fel gyda rhaglenni 2007-2013, yn parhau i fod yn grŵp targed cymwys ar gyfer yr Echel Blaenoriaeth hon.

compare report

Bwriedir i ymyriadau ESF ategu, ond nid dyblygu, hyn yn bennaf drwy ymdrin â phatrymau economaidd mwy lleol.

15. Mae'r **Gronfa ar gyfer Cymorth Ewropeaidd i'r ardaloedd â'r Amddifadedd mwyaf** (FEAD) yn y DU yn destun gwaith targedu daearyddol ac nid yw ar waith yng Nghymru.
16. Mae rhaglenni **Progress** ac **EURES** a chamau gweithredu ESF yn ategu ei gilydd. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn gweithio'n agos gyda Chysylltiadau Cenedlaethol y DU ar gyfer y rhaglenni hyn er mwyn ysgogi cysylltiadau penodol a sicrhau eu bod yn ategu ei gilydd. Bydd asesiad o'r ffordd y mae unrhyw weithrediad arfaethedig yn gweddu i'r cyd-destun hwn yn rhan o'r broses dewis ac asesu. Ceisir cyngor arbenigol lle y bo angen.
17. Fel gydag Echel Blaenoriaeth Cystadleurwydd BBaChau ERDF, mae'r **Cyfleuster Microgyllid Progress Ewropeaidd** (sy'n helpu darparwyr microgyllid dethol yn yr UE i gynyddu lefelau benthyca), yn cynnig y cyfle i greu cysylltiadau rhwng ymyriadau ESF sy'n cefnogi'r rhai sy'n ceisio symud tuag at gyflogaeth gynaliadwy drwy ddechrau eu busnes eu hunain a chyllid busnes a rhaglenni cymorth dechrau busnes. Bydd y rhain yn gysylltiadau allweddol am na chynigir darparu cymorth dechrau busnes drwy ESF.
18. **Sgiliau ar gyfer Twf**
19. Bydd buddsoddiadau ESF i uwchsgilio'r gweithlu, ymdrin â bylchau penodol mewn sgiliau a chynyddu nifer yr unigolion â sgiliau technegol, arbenigol a lefel uwch yn gweithio ochr yn ochr â hyfforddiant sgiliau penodol gwledig a ddarperir drwy'r EAFRD. Bydd y buddsoddiadau hyn yn helpu BBaChau sy'n elwa o gyllid ERDF, EAFRD ac EMFF (gan gynnwys y busnesau hynny mewn cymunedau gwledig ac arfordirol lle gellir dangos yr ychwanegir at ddarpariaeth EARDF ac EMFF) i arallgyfeirio i farchnadoedd newydd a chynyddu eu cynhyrchiant a'u cystadleurwydd, tra hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol. Hefyd, ceisir cyfleoedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau sy'n ategu buddsoddiadau ERDF, EAFRD ac EMFF ym meysydd ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni, technolegau carbon isel a TGCh a thechnolegau arloesol a newydd o dan yr Echel Blaenoriaeth hon.
20. Hefyd, mae gan fuddsoddiadau ESF y cwmpas i gynyddu cyflenwad unigolion â'r sgiliau arbenigol i gefnogi'r gwaith o feithrin gallu ac adnoddau mewn sefydliadau ymchwil, a chynyddu arloesedd o fewn busnesau Cymru. Felly, ceisir sicrhau cydgysylltu agos iawn rhwng y buddsoddiadau ESF mewn sgiliau ymchwil ac arloesedd a gweithgareddau ymchwil ac arloesedd a gefnogir o dan yr ERDF, EAFRD ac EMFF, gyda'r potensial am gyllid ategol yn cael ei ystyried.
21. Bydd camau gweithredu yn meithrin y sgiliau sydd eu hangen i alluogi busnesau yng Nghymru i arloesi ym maes datblygu cynnyrch a TGCh sy'n cyfrannu at nodau **Partneriaeth Arloesedd Ewrop ar Heneiddio'n Egnïol ac yn Iach** er mwyn sicrhau arloesedd mewn cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau sy'n cyfrannu at Heneiddio Egnïol ac Iach.
22. Bydd camau gweithredu yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at gamau a gefnogir gan **Horizon 2020** drwy feithrin y sgiliau lefel uwch sydd eu hangen i lywio, annog a chefnogi ymchwil ac arloesedd a chefnogi'r gwaith o fasnacheiddio ymchwil yn fwy. Bydd cydleoli Uned Horizon 2020 â'r Awdurdod Rheoli ar gyfer ESF, ynghyd â defnyddio cyngor arbenigol (mewnol ac allanol) er mwyn llywio'r dewis o weithrediadau, yn helpu i sicrhau bod y cronfeydd hyn yn cael eu cydgysylltu. Bydd y broses dewis ac asesu a monitro gweithrediadau o fewn

compare report

WEFO yn sicrhau yr achubir ar y cyfleoedd hyn i'r eithaf drwy ddatblygu a gweithredu gweithrediadau.

23. Bydd **Rhaglen Dysgu Gydol Oes** yr UE ac, yn benodol, elfennau Leonardo da Vinci a Grundtvig o bosibl yn ategu gweithgarwch o fewn rhaglenni ESF. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn gweithio'n agos gydag Asiantaethau Cenedlaethol y DU ar gyfer y rhaglenni hyn (Asiantaeth Genedlaethol y DU - Rhaglenni Leonardo, Grundtvig a Transversal - Ecorys) yn ogystal â'r adran bolisi sy'n cydgysylltu gwybodaeth yng Nghymru (yr Adran Addysg a Sgiliau) er mwyn ysgogi cysylltiadau ac elfennau ategol. Bydd asesiad o'r ffordd y mae unrhyw weithrediad arfaethedig yn gweddu i'r cyd-destun hwn yn rhan o'r broses dewis ac asesu. Ceisir cyngor arbenigol lle y bo angen.
24. **Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid**
25. Ar lefel y DU, fel gydag Echel Blaenoriaeth Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy a nodir uchod, bydd rhaglen diwygio lles Llywodraeth y DU yn cael effaith sylweddol ar y broses o gyflawni camau cyflogaeth â chymorth ESF. Bydd angen i raglenni ESF ategu darpariaeth prif ffrwd, ac ychwanegu gwerth ati. Disgrifiwyd dulliau o gyflawni hyn uchod ac yn yr adrannau Echel Blaenoriaeth perthnasol o'r Rhaglen.
26. Bydd cysoni rhaglen ESF â Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru a'i systemau nodi ac olrhain yn ffordd allweddol o sicrhau bod ESF yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at ymyriadau i gynorthwyo'r bobl ifanc hynny sydd ei angen fwyaf. Bydd yr ymarfer mapio a gyflawnir fel rhan o'r Fframwaith hwn yn sicrhau bod unrhyw weithrediad ESF wir yn ymdrin â bylchau mewn darpariaeth ac nad yw'n dyblygu darpariaeth statudol prif ffrwd. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn gweithio gyda'r adrannau perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru ar y broses o arfarnu a gweithredu gweithrediadau ESF er mwyn cefnogi'r broses hon.
27. Bydd buddsoddiadau ESF i wneud pobl ifanc yn barod am waith a hyrwyddo entrepreneuriaeth yn ategu buddsoddiadau ERDF, EAFRD ac EMFF er mwyn cynyddu cynhyrchiant a thwf busnes, gan baru cyflenwad gweithlu'r dyfodol â'r galw gan gyflogwyr. Bydd cymorth ESF hefyd yn galluogi pobl ifanc i achub ar gyfleoedd cyflogaeth o fewn eu cymunedau, gan gynnwys y cyfleoedd hynny a gaiff eu creu gan yr ERDF ac, o fewn cymunedau gwledig ac arfordirol, o ganlyniad i fuddsoddiad EAFRD ac EMFF.
28. Bydd **Rhaglen Dysgu Gydol Oes** yr UE ac, yn benodol, elfennau Comenius ac Erasmus o bosibl yn ategu gweithgarwch o fewn rhaglenni ESF. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn gweithio'n agos gydag Asiantaethau Cenedlaethol y DU ar gyfer y rhaglenni hyn (Cyngor Prydeinig Comenius ac Erasmus) yn ogystal â'r adran bolisi sy'n cydgysylltu gwybodaeth yng Nghymru (yr Adran Addysg a Sgiliau) er mwyn ysgogi cysylltiadau ac elfennau ategol. Bydd asesiad o'r ffordd y mae unrhyw weithrediad arfaethedig yn gweddu i'r cyd-destun hwn yn rhan o'r broses dewis ac asesu gweithrediad. Ceisir cyngor arbenigol lle y bo angen.
29. Ystyriodd yr asesiad ex-ante o'r defnydd o Offerynnau Ariannol (OA) yn ESF (h.y. defnydd posibl o gyllid **Banc Buddsoddi Ewrop- EIB**) nifer o gamau yn seiliedig ar gydraddoldeb a chyfle cyfartal. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad, yn y rhan fwyaf o achosion, mai potensial cyfyngedig oedd gan OA i gyflawni camau ESF ac mae unrhyw ddull gweithredu posibl yn debygol o fod yn llai effeithiol nag un sy'n seiliedig ar grantiau o ran cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Felly, ni chynigir defnyddio OA i gyflawni camau ESF.

## 9. AMODOLDEBAU EX-ANTE

### 9.1 Amodoldebau ex-ante

Gwybodaeth am yr asesiad o gymhwysedd amodoldebau ex-ante a'u bodloni (dewisol).

**Tabl 24: Amodoldebau ex-ante cymwys ac asesu a ydynt yn cael eu bodloni**

| Amodoldeb ex-ante | Echelau Blaenoriaeth y mae'r amodoldeb yn gymwys iddynt | Amodoldeb Ex-ante wedi'i fodloni (Do/Naddo/Yn rhannol) |
|---|---|---|
| T.09.1 Bodolaeth a gweithrediad fframwaith polisi strategol cenedlaethol ar gyfer lleihau tlodi sy'n anelu at gynnwys pobl sydd wedi'u hallgáu o'r farchnad lafur yng ngoleuni'r Canllawiau ar Gyflogaeth. | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy | √ |
| T.10.1 - Gadael yr ysgol yn gynnar: Bodolaeth fframwaith polisi strategol i ostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar (GYG) o fewn terfynau Erthygl 165, TFEU. | 3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc | √ |
| T.10.3 - Dysgu gydol oes (DGO): Bodolaeth fframwaith polisi strategol cenedlaethol a/neu ranbarthol ar gyfer dysgu gydol oes o fewn terfynau Erthygl 165, TFEU. | 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | √ |
| T.11.1 - Bodolaeth fframwaith polisi strategol ar gyfer atgyfnerthu effeithlonrwydd gweinyddol yr Aelod-wladwriaeth, gan gynnwys gweinyddu cyhoeddus. | 5 Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol | √ |
| G.1 - Bodolaeth adnoddau gweinyddol i weithredu a chymhwyso cyfraith a pholisi gwrthwahaniaethu'r Undeb ym maes Cronfeydd ESI. | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy<br>2 - Sgiliau ar gyfer Twf<br>3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc<br>4 - Cymorth Technegol | √ |
| G.2 - Bodolaeth adnoddau gweinyddol i weithredu a chymhwyso cyfraith a pholisi cydraddoldeb rhwng y rhywiau yr Undeb ym maes Cronfeydd ESI. | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy<br>2 - Sgiliau ar gyfer Twf<br>3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc<br>4 - Cymorth Technegol | √ |
| G.3 - Bodolaeth adnoddau gweinyddol ar gyfer gweithredu a chymhwyso Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD) ym maes Cronfeydd ESI yn unol â Phenderfyniad y Cyngor 2010/48/EC. | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy<br>2 - Sgiliau ar gyfer Twf<br>3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc<br>4 - Cymorth Technegol | √ |
| G. 4 - Bodolaeth trefniant ar gyfer cymhwyso cyfraith caffael cyhoeddus yr Undeb yn effeithiol ym maes Cronfeydd ESI. | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy<br>2 - Sgiliau ar gyfer Twf | √ |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Echelau Blaenoriaeth y mae'r amodoldeb yn gymwys iddynt | Amodoldeb Ex-ante wedi'i fodloni (Do/Naddo/Yn rhannol) |
|---|---|---|
| | 3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc<br>4 - Cymorth Technegol | |
| G.5 - Bodolaeth trefniadau ar gyfer cymhwyso rheolau cymorth gwladwriaethol yr Undeb yn effeithiol ym maes Cronfeydd ESI. | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy<br>2 - Sgiliau ar gyfer Twf<br>3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc<br>4 - Cymorth Technegol | √ |
| G.7 - Bodolaeth sail ystadegol sy'n angenrheidiol i gynnal gwerthusiadau er mwyn asesu effeithiolrwydd ac effaith y rhaglenni. Bodolaeth system dangosyddion canlyniadau sy'n angenrheidiol i ddewis camau gweithredu, sy'n cyfrannu at y canlyniadau a ddymunir yn y ffordd fwyaf effeithiol, er mwyn monitro cynnydd tuag at ganlyniadau a chynnal gwerthusiad effaith. | 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy<br>2 - Sgiliau ar gyfer Twf<br>3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc<br>4 - Cymorth Technegol | √ |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| T.09.1 Bodolaeth a gweithrediad fframwaith polisi strategol cenedlaethol ar gyfer lleihau tlodi sy'n anelu at gynnwys pobl sydd wedi'u hallgáu o'r farchnad lafur yng ngoleuni'r | 1 - Mae fframwaith polisi strategol cenedlaethol ar gyfer lleihau tlodi, sy'n anelu at gyflawni cynhwysiant, ar waith sydd: | √ | Y Rhaglen Lywodraethu: Pennod 9: Trechu Tlodi http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/poverty/?lang=cy Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/tacklingpoverty/publications/taking-forward-tack-pov-plan/?lang=cy | Y Rhaglen Lywodraethu yw rhaglen lywodraethu strategol Llywodraeth Cymru. Mae Pennod 9 o'r Rhaglen yn nodi polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi. Fe'i hategir gan y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, sy'n nodi camau i adeiladu cymunedau cadarn ac atal a lleihau tlodi yng Nghymru, gan flaenoriaethu anghenion y tlotaf a diogelu'r rhai |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| Canllawiau ar Gyflogaeth. | | | | sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi ac allgáu. |
| T.09.1 Bodolaeth a gweithrediad fframwaith polisi strategol cenedlaethol ar gyfer lleihau tlodi sy'n anelu at gynnwys pobl sydd wedi'u hallgáu o'r farchnad | 2 - yn darparu sail dystiolaeth ddigonol i ddatblygu polisïau ar gyfer lleihau tlodi a monitro datblygiadau; | √ | Y Rhaglen Lywodraethu: Pennod 9: Trechu Tlodi http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/poverty/?lang=cy Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/tacklingpoverty/publications/taking-forward-tack-pov-plan/?lang=cy | Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi'r heriau sy'n wynebu Cymru o ran mynd i'r afael â thlodi, y cynnydd a wneir, camau allweddol a dangosyddion i fesur effeithiolrwydd ac effaith camau gweithredu. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad blynyddol o gynnydd ac yn nodi lle mae angen i gamau neu ddangosyddion gael eu |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| lafur yng ngoleuni'r Canllawiau ar Gyflogaeth. | | | | hychwanegu neu eu haddasu er mwyn cyflawni'r nodau penodol. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn amlinellu camau i atal a lleihau tlodi yng Nghymru. Mae'n ystyried newidiadau polisi ac economaidd allweddol ac yn nodi targedau a cherrig milltir i olrhain cynnydd. Mae'r camau ynddo yn seiliedig ar:<br>• atal tlodi, yn enwedig ar gyfer plant a theuluoedd mewn tlodi drwy |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | | | wasanaethau gofal plant, addysg a chymorth; • cydnabod mai cyflogaeth yw'r llwybr gorau allan o dlodi a helpu pobl i mewn i waith a dileu rhwystrau i gyflogaeth; • lliniaru effaith tlodi drwy gynyddu mynediad at gyngor, gwasanaethau, cyfleusterau hamdden, credyd fforddiadwy a thrafnidiaeth. |
| T.09.1 Bodolaeth a gweithre | 3 - yn cynnwys mesurau | √ | Y Rhaglen Lywodraethu: Pennod 9: Trechu Tlodi http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/poverty/?lang=cy Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Adrannau 1-3, tudalennau 5-25 http://wales.gov.uk/topics/people-and- | Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi camau allweddol a |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| diad fframwaith polisi strategol cenedlaethol ar gyfer lleihau tlodi sy'n anelu at gynnwys pobl sydd wedi'u hallgáu o'r farchnad lafur yng ngoleuni'r Canllawiau ar Gyflogaeth. | sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r targed tlodi ac allgáu cymdeithasol cenedlaethol (fel y'i diffinnir yn y Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol), sy'n cynnwys hyrwyddo | | communities/tacklingpoverty/publications/taking-forward-tack-pov-plan/?lang=cy Rhaglen y DU 2014 tudalen 88 http://ec.europa.eu/europe2020/making-it-happen/country-specific-recommendations/index_en.htm | dangosyddion a ddefnyddir i fesur effeithiolrwydd ac effaith camau gweithredu. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad blynyddol o gynnydd ac yn nodi lle mae angen i gamau neu ddangosyddion gael eu hychwanegu neu eu haddasu er mwyn cyflawni'r nodau penodol. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn nodi targedau clir ar gyfer gostwng lefelau tlodi ac allgáu a cherrig |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy o ansawdd i'r bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o allgáu cymdeithasol, gan gynnwys pobl o gymunedau ymylol; | | | milltir i olrhain cynnydd. Mae'r rhain yn cysylltu â dangosyddion lefel Cymru a nodir yn Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU ar gyfer cynyddu lefelau sgiliau oedolion o oedran gweithio a phobl ifanc sy'n NEET, a thrwy hynny gynyddu cyflogadwyedd ac ategu tybiaeth allweddol y Cynllun mai cyflogaeth yw'r llwybr gorau allan o dlodi. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi camau adferol ac ataliol i atal a lleihau tlodi, |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gan flaenoriaethu anghenion y tlotaf a diogelu'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi, ynghyd â rhoi esboniadau naratif. |
| T.09.1 Bodolaeth a gweithrediad fframwaith polisi strategol cenedlaethol ar gyfer lleihau tlodi sy'n anelu at gynnwys pobl sydd | 4 - yn cynnwys rhanddeiliaid perthnasol yn y gwaith o drechu tlodi; | √ | Y Rhaglen Lywodraethu: Pennod 9: Trechu Tlodi http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/poverty/?lang=cy Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Adrannau 1-4, tudalennau 5-26 http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/tacklingpoverty/publications/taking-forward-tack-pov-plan/?lang=cy Grŵp Cynghori Allanol ar Drechu Tlodi http://wales.gov.uk/about/cabinet/decisions/dr2012/aprjun/soju/cs1285/?lang=cy | Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiadau penodol i weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid er mwyn cymryd camau i helpu cymunedau ac unigolion i mewn i waith ac allan o dlodi. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| wedi'u hallgáu o'r farchnad lafur yng ngoleuni'r Canllawiau ar Gyflogaeth. | | | | Tlodi yn cynnwys camau i gynnwys amrywiaeth o randdeiliaid yn y gwaith o ddylunio a chyflawni camau er mwyn helpu cymunedau ac unigolion i mewn i waith ac allan o dlodi. Mae'r Grŵp Cynghori Allanol ar Drechu Tlodi yn banel cynghori Gweinidogol sy'n cynnwys 12 o arbenigwyr ym maes tlodi. Ei nod yw:<br>• rhoi cyngor arbenigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r Gweinidog Llywodraeth Leol |

compare report

| Amodol deb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | a Chymunedau a'r Bwrdd Rhaglen Gweinidogol ar y camau gweithredu a'r gofynion polisi pellach sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yng Nghymru.<br>• ystyried a gwneud sylwadau ar gynnydd Llywodraeth Cymru i gyflawni ei thargedau o ran trechu tlodi fel y'u nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cynllun Gweithredu ar |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gyfer Trechu Tlodi. |
| T.09.1 Bodolaeth a gweithrediad fframwaith polisi strategol cenedlaethol ar gyfer lleihau tlodi sy'n anelu at gynnwys pobl sydd wedi'u hallgáu o'r farchnad | 5 - yn dibynnu ar yr anghenion a nodir, yn cynnwys mesurau i newid o ofal sefydliadol i ofal yn y gymuned; | √ | Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Adran 1, tudalennau 6-8 a 10-11; Adran 3, tudalennau 20, 22 a 24 http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/tacklingpoverty/publications/taking-forward-tack-pov-plan/?lang=cy | Mae Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru yn nodi'r camau a gymerir i greu cymunedau cadarn ac i helpu i atal a lleihau tlodi yng Nghymru. Mae'r Cynllun yn amlinellu camau i ddarparu systemau cymorth lleol i deuluoedd, atgyfnerthu gwasanaethau yn y gymuned, hyrwyddo mynediad at wasanaethau ar |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| lafur yng ngoleuni'r Canllawiau ar Gyflogaeth. | | | | gyfer y bobl fwyaf agored i niwed, hyrwyddo a chefnogi camau lleol i drechu tlodi, cefnogi a gwella gofal yn y gymuned ac adeiladu cadernid cymunedau. |
| T.09.1 Bodolaeth a gweithrediad fframwaith polisi strategol cenedlaethol ar gyfer lleihau tlodi sy'n anelu at gynnwy | 6 - Ar gais, a lle y bo cyfiawnhad dros hynny, caiff rhanddeiliaid perthnasol gymorth i gwblhau ceisiadau | √ | http://wefo.wales.gov.uk/?lang=cy | Bydd swyddogaethau'r Awdurdod Rheoli yn ymdrin â'r cymorth ar gyfer cyflwyno ceisiadau am weithrediadau drwy rôl y Swyddog Datblygu Prosiect a'r Cynghorwyr Arbenigol ar gyfer Thema Drawsbynciol Trechu Tlodi. Ceir |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/ Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| s pobl sydd wedi'u hallgáu o'r farchnad lafur yng ngoleuni'r Canllawiau ar Gyflogaeth. | prosiect a gweithredu a rheoli'r prosiectau a ddewiswyd. | | | manylion ar wefan WEFO. |
| T.10.1 - Gadael yr ysgol yn gynnar: Bodolaeth fframwaith polisi strategol i ostwng cyfradda | 1 - Mae system ar gyfer casglu a dadansoddi data a gwybodaeth am GYG ar lefelau perthnas | √ | http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/education/?lang=cy; http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?lang=cy Adrannau 1-2, 4, 7-8; http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/building-a-brighter-future/?lang=cy Adrannau 1, 6, 7; http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/news/121025improvingschoolscy.pdf Cyflwyniad; Adrannau 1-3; http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting/help/familiesfirst/outcomes/?lang=cy | Mae Pennod 3 o'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi dangosyddion penodol i fesur effeithiolrwydd camau gweithredu. Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| u gadael yr ysgol yn gynnar (GYG) o fewn terfynau Erthygl 165, TFEU. | ol ar waith sydd: | | | Ieuenctid a'r Cynllun Gweithredu yn cynnig fframwaith o systemau data ac olrhain sy'n seiliedig ar gasglu a dadansoddi data yn systematig ac yn rheolaidd, gyda cherrig milltir a thargedau allweddol. Mae Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn seiliedig ar sail dystiolaeth glir, gyda systemau casglu data a dangosyddion i fonitro a mesur cynnydd a |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | chefnogi gwelliant parhaus. Mae'r Cynllun Gwella Ysgolion yn seiliedig ar ddadansoddi tystiolaeth a data ac mae'n nodi darpariaethau ar gyfer gwaith monitro a rheoli perfformiad, a gefnogir gan system casglu data reolaidd drwy ymarferion Bandio Ysgolion blynyddol. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn nodi canlyniadau cenedlaethol, gan ddefnyddio dangosyddion allweddol o'r boblogaeth i fesur |

compare report

| Amodol deb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/ Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cynnydd. Mae tudalen Teuluoedd yn Gyntaf ar LSB Insight (http://lsb.infobasecymru.net/IAS/launch) yn nodi dangosyddion Teuluoedd yn Gyntaf. |
| T.10.1 - Gadael yr ysgol yn gynnar: Bodolaeth fframwaith polisi strategol i ostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn | 2 - yn darparu sail dystiolaeth ddigonol i ddatblygu polisïau wedi'u targedu ac sy'n monitro | √ | http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/education/?lang=cy; http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?lang=cy Adrannau 1-2, 4, 7-8; http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/building-a-brighter-future/?lang=cy Adrannau 1, 6-7; http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/news/121025improvingschoolscy.pdf Cyflwyniad, Adrannau 1-3; http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting/help/familiesfirst/outcomes/?lang=cy | Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a'r Cynllun Gweithredu yn cynnig fframwaith o systemau data ac olrhain ar gyfer nodi'r bobl ifanc sy'n wynebu risg o GYG / dod yn NEET yn gynnar, gan ganolbwyntio ar ffactorau sy'n |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| gynnar (GYG) o fewn terfynau Erthygl 165, TFEU. | datblygiadau. | | | cynyddu'r risg o GYG. Mae'n darparu ar gyfer gwerthusiad o effeithiolrwydd y cymorth sydd ar gael, gan ddefnyddio system casglu data flynyddol. Mae Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn seiliedig ar sail dystiolaeth glir, gyda systemau casglu data a dangosyddion i fonitro cynnydd. Mae'r Cynllun Gwella Ysgolion yn seiliedig ar ddadansoddi |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | tystiolaeth a data, a gefnogir gan system casglu data reolaidd drwy ymarferion Bandio Ysgolion blynyddol. Mae'n nodi diwygiadau i wella lefelau llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysg. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn nodi canlyniadau cenedlaethol, gan ddefnyddio dangosyddion allweddol o'r boblogaeth i fesur cynnydd. Mae tudalen Teuluoedd yn |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Gyntaf ar LSB Insight (http://lsb.infobasecymru.net/IAS/launch) yn nodi dangosyddion Teuluoedd yn Gyntaf. |
| T.10.1 - Gadael yr ysgol yn gynnar: Bodolaeth fframwaith polisi strategol i ostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar (GYG) o fewn | 3 - Mae fframwaith polisi strategol ar GYG ar waith sy'n: | √ | http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?lang=cy<br>http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/yeeap/?lang=cy<br>http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/news/121025improvingschoolscy.pdf<br>http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/building-a-brighter-future/?lang=cy<br>http://21stcenturyschools.org/splash?orig=/<br>http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting/help/familiesfirst/?lang=cy | Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi polisïau addysg Llywodraeth Cymru. Mae'r dogfennau canlynol yn ffurfio fframwaith strategol integredig er mwyn ymdrin â'r ffactorau sy'n cyfrannu at GYG. Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a'r |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| terfynau Erthygl 165, TFEU. | | | | Cynllun Gweithredu yn fframwaith ar gyfer nodi'r bobl ifanc sy'n wynebu risg o GYG / dod yn NEET yn gynnar. Mae'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid yn amlinellu dulliau o atal pobl ifanc rhag ymddieithrio o ddysgu. Mae'r Cynllun Gwella Ysgolion yn nodi diwygiadau i wella lefelau llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar ganlyniadau |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | addysgol. Mae Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn canolbwyntio ar wella lles plant, gan gefnogi teuluoedd ac addysg gynnar a chynradd a gofal plant o ansawdd da. Mae'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn rhaglen buddsoddi cyfalaf ar gyfer ysgolion a chyfleusterau addysgol. Nod Teuluoedd yn Gyntaf yw gwella canlyniadau i deuluoedd, yn |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi. |
| T.10.1 - Gadael yr ysgol yn gynnar: Bodolaeth fframwaith polisi strategol i ostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar (GYG) o fewn terfynau Erthygl 165, TFEU. | 4 - yn seiliedig ar dystiolaeth; | √ | http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?lang=cy<br>http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/yeeap/?lang=cy<br>http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/building-a-brighter-future/?lang=cy<br>http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/news/121025improvingschoolscy.pdf<br>http://21stcenturyschools.org/splash?orig=/<br>nhttp://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting/help/familiesfirst/?lang=cy | Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a'r Cynllun Gweithredu yn fframwaith ar gyfer nodi'r bobl ifanc sy'n wynebu risg o GYG yn gynnar ac mae'n cynnwys chwe elfen y profwyd eu bod yn ffordd effeithiol o gynyddu lefelau ymgysylltu a datblygu ieuenctid. Rhydd fframwaith o systemau data ac olrhain. Mae |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, y Cynllun Gwella Ysgolion a'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid yn seiliedig ar ddadansoddi tystiolaeth o'r materion a'r rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc. Mae'r holl fuddsoddiadau a wneir gan y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif i ddatblygu ysgolion a chyfleusterau |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | addysgol yn seiliedig ar Raglenni Amlinelliad Strategol sy'n dangos bod gan bob awdurdod lleol strategaeth ar gyfer darpariaeth addysgol yn y dyfodol, gan gynnwys manylion am y newidiadau sydd eu hangen a thystiolaeth o'r angen am y buddsoddiad a'i natur. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cyflwyno ymyriadau sy'n seiliedig ar anghenion cymunedau lleol, |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi’u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gan ddefnyddio dangosyddion poblogaeth i fesur cynnydd. |
| T.10.1 - Gadael yr ysgol yn gynnar: Bodolaeth fframwaith polisi strategol i ostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar (GYG) o fewn terfynau Erthygl 165, TFEU. | 5 - yn cwmpasu sectorau addysgol perthnasol, gan gynnwys datblygiad plentyndod cynnar, targedau ar gyfer grwpiau penodol sy’n agored i niwed ac | √ | http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?lang=cy<br>http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/yeeap/?lang=cy<br>http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/building-a-brighter-future/?lang=cy<br>http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/news/121025improvingschoolscy.pdf<br>http://21stcenturyschools.org/splash?orig=/<br>http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting/help/familiesfirst/principles/?lang=cy | Mae’r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a’r Cynllun Gweithredu yn fframwaith ar gyfer nodi’r bobl ifanc sy’n wynebu risg o ymddieithrio a GYG a gweithio gyda hwy. Mae’r Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid yn amlinellu’r dull o atal plant a phobl ifanc rhag ymddieithrio o |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nac ydo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | sy'n wynebu'r risg fwyaf o GYG gan gynnwys pobl o gymunedau ymylol ac sy'n ymdrin â mesurau atal, ymyrryd a gwneud iawn; | | | ddysgu a'u cynorthwyo i gael gwaith. Mae'r Cynllun Gwella Ysgolion yn anelu at wella lefelau llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol. Mae Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn anelu at wella lles plant ac mae'n cynnwys camau i ddarparu addysg gynnar a gofal plant hygyrch o ansawdd da. Mae'r Rhaglen |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn anelu at greu amgylcheddau ysgol sy'n diwallu anghenion y gymuned, gan ystyried yr holl sectorau a grwpiau o ddysgwyr o 3-19 oed a chysylltu cynlluniau ar gyfer addysg gynradd, addysg uwchradd a dysgu 14-19 oed. Nod Teuluoedd yn Gyntaf yw gwella canlyniadau i deuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi. |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| T.10.1 - Gadael yr ysgol yn gynnar: Bodolaeth fframwaith polisi strategol i ostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar (GYG) o fewn terfynau Erthygl 165, TFEU. | 6 - yn cynnwys pob sector polisi a rhanddeiliad sy'n berthnasol i ymdrin â GYG. | √ | http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?lang=cy<br>http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/yeeap/?lang=cy<br>http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/building-a-brighter-future/?lang=cy<br>http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/news/121025improvingschoolscy.pdf<br>http://21stcenturyschools.org/aboutus/?lang=cy<br>http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting/help/familiesfirst/principles/?lang=cy | Mae Cynllun Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn cynnwys awdurdodau lleol sy'n gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru, Gwasanaethau Ieuenctid ehangach, ysgolion a phartneriaid eraill. Mae'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid yn darparu ar gyfer cefnogi mentrau o bob sector. Mae'r Cynllun Gwella Ysgolion yn nodi |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | sut y bydd Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag ysgolion ac awdurdodau lleol, yn cyflawni'r camau yn y Cynllun. Mae Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn cwmpasu cynlluniau o bob adran bolisi o fewn Llywodraeth Cymru ac mae'n nodi rolau partneriaid (gan gynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol) yn y broses wella. Caiff |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ei chyflawni drwy bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Cyfarwyddwyr Esgobaethol y Sector Gwirfoddol a gynorthwyir a Colegau Cymru. Nod Teuluoedd yn Gyntaf yw sicrhau proses ddi-dor i deuluoedd rhwng gwahanol ymyriadau a rhaglenni, gyda Chynlluniau Gweithredu lleol yn cael eu |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cyflawni gyda phartneriaid. |
| T.10.3 - Dysgu gydol oes (DGO): Bodolaeth fframwaith polisi strategol cenedlaethol a/neu ranbarthol ar gyfer dysgu gydol oes o fewn terfynau Erthygl | 1 - Mae fframwaith polisi strategol cenedlaethol neu ranbarthol ar gyfer dysgu gydol oes ar waith sy'n cynnwys mesurau: | √ | http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/growth/?lang=cy http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/education/?lang=cy Datganiad Polisi ar Sgiliau http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/?lang=cy Cynllun Gweithredu Sgiliau http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/skills-implementation-plan/?lang=cy | Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi polisïau sgiliau lefel uchel. Mae Datganiad Polisi ar Sgiliau Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gyflogaeth a sgiliau ac yn cwmpasu pedwar maes blaenoriaeth:<br>• Sgiliau ar gyfer swyddi a thwf<br>• Sgiliau sy'n ymateb i anghenion lleol |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| 165, TFEU. | | | | • Sgiliau a werthfawrogir gan gyflogwyr<br>• Sgiliau ar gyfer cyflogaeth<br>Ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau, a oedd yn nodi camau polisi allweddol er mwyn cyflawni amcanion y Datganiad Polisi ar Sgiliau. |
| T.10.3 - Dysgu gydol oes (DGO): Bodolae | 2 - i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a | √ | Y Rhaglen Lywodraethu http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/growth/?lang=cy a http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/education/?lang=cy Datganiad Polisi ar Sgiliau http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/?lang=cy tudalennau 6-19 Cynllun Gweithredu Sgiliau | Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i weithio gyda phartneriaid ac yn amlinellu camau |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| th fframwaith polisi strategol cenedlaethol a/neu ranbarthol ar gyfer dysgu gydol oes o fewn terfynau Erthygl 165, TFEU. | chysylltu gwasanaethau ar gyfer DGO, gan gynnwys eu gweithredu ac uwchraddio sgiliau (h.y. dilysu, canllawiau, addysg a hyfforddiant) a darparu ar gyfer cynnwys a gweithio | | http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/skills-implementation-plan/?lang=cy tudalennau 6-14 | gweithredu allweddol ar gyfer gwella trefniadau llywodraethu ac annog darpariaeth gwasanaethau cydweithredol. Mae'r Datganiad Polisi ar Sgiliau yn amlinellu camau gweithredu i ddatblygu a chryfhau darpariaeth drwy gydweithio a threfniadau cyflawni ar y cyd; prosesau cynllunio a chyflawni syml; mynediad haws at gymorth, datblygu'r gweithlu; a chydweithio â phartneriaid er |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol; | | | mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'r Cynllun Gweithredu ar Sgiliau yn amlinellu camau i: • ddatblygu Mesurau Perfformiad Sgiliau i'w defnyddio wrth ddatblygu, cyflawni a gwerthuso polisïau a rhaglenni; • gweithio gyda chyflogwyr ac adrannau Llywodraeth Cymru i gyflwyno Rhaglen Sgiliau Hyblyg; |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | • cyflwyn o Porth Sgiliau ar gyfer cael cymorth sgiliau a chyflogaeth; • gweithio gyda phartneriaethau rhanbarthol; • sefydlu Paneli Cynghori ar Gymwysterau Sector er mwyn sicrhau bod cymwysterau galwedigaethol yn darparu'r sgiliau sydd eu hangen; • gweithio gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid i ddatblygu'r fframwaith prentisiaethau. |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| T.10.3 - Dysgu gydol oes (DGO): Bodolaeth fframwaith polisi strategol cenedlaethol a/neu ranbarthol ar gyfer dysgu gydol oes o fewn terfynau Erthygl 165, TFEU. | 3 - i ddarparu ar gyfer meithrin sgiliau grwpiau targed amrywiol lle nodir eu bod yn flaenoriaethau mewn fframweithiau polisi strategol cenedlaethol neu ranbarthol (er enghraifft pobl ifanc | √ | Y Rhaglen Lywodraethu http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/growth/?lang=cy a http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/education/?lang=cy Datganiad Polisi ar Sgiliau http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/?lang=cy tudalennau 17-19 Cynllun Gweithredu Sgiliau http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/skills-implementation-plan/?lang=cy tudalennau 7-11, 14-16 | Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu camau penodol sy'n canolbwyntio ar ddarparu sgiliau ar gyfer pobl ifanc. Mae'r Datganiad Polisi ar Sgiliau yn adeiladu ar hyn, gan amlinellu camau strategol i ddatblygu system sgiliau sy'n cynnig y cymorth cyflogaeth sydd ei angen ar unigolion - a grwpiau penodol fel pobl ifanc a phobl â lefel isel o sgiliau - i gael gwaith a gwella eu sgiliau. Mae'r Cynllun |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | mewn hyfforddiant galwedigaethol, oedolion, rhieni sy'n dychwelyd i'r farchnad lafur, gweithwyr hŷn a llai medrus, mudwyr a grwpiau eraill sydd o dan anfantais, yn enwedig pobl ag | | | Gweithredu ar gyfer Sgiliau yn amlinellu camau i gynorthwyo'r grwpiau hyn, gan gynnwys lleihau nifer y cartrefi sy'n byw mewn tlodi a gwella canlyniadau i'r rhai sy'n byw mewn cartrefi incwm isel drwy gyflawni rhaglenni cyflogadwyedd i oedolion a darparu sgiliau hanfodol, cyflwyno Rhaglen Sgiliau Hyblyg a Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau, sefydlu Porth Sgiliau, datblygu'r |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | anableddau); | | | fframwaith prentisiaethau, cefnogi pobl ifanc sy'n NEET a gweithio gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr a chyflogeion y sgiliau a'r cymwysterau priodol a'u bod yn gweithio. |
| T.10.3 - Dysgu gydol oes (DGO): Bodolaeth fframwaith polisi strategol cenedlae | 4 - i ehangu mynediad at DGO, gan gynnwys drwy ymdrechion i weithred | √ | Datganiad Polisi ar Sgiliau http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/?lang=cy tudalennau 6-16 Cynllun Gweithredu Sgiliau http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/skills-implementation-plan/?lang=cy tudalennau 6, 8, 10-11, 14 | Mae'r Datganiad Polisi ar Sgiliau yn amlinellu camau strategol i: • ehangu mynediad i ddarpariaeth (gan gynnwys drwy ddatblygu llwybrau newydd, darpariaeth rhan |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| thol a/neu ranbarthol ar gyfer dysgu gydol oes o fewn terfynau Erthygl 165, TFEU. | u adnoddau tryloywder yn effeithiol (er enghraifft y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd, y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol, y system Credyd Ewropeaidd ar gyfer | | | amser, gwell argaeledd o ran trefniadau cyflenwi dysgu o bell a lleol a datblygiad proffesiynol parhaus);<br>• cefnogi'r gwaith o ddatblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a defnyddio safonau proffesiynol a mesurau perfformiad fframweithiau credyd er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd a gwella safonau.<br>Mae'r Cynllun Gweithredu ar |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol, Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd ym maes Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol); | | | gyfer Sgiliau yn amlinellu camau i:<br>• ddatblygu Mesurau Perfformiad Sgiliau;<br>• cyflwyno Porth Sgiliau, gan symleiddio trefniadau ar gyfer cael cymorth sgiliau a chyflogaeth;<br>• cyflwyno Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau er mwyn cynnig darpariaeth sgiliau galwedigaethol drwy sefydliadau addysg bellach; |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | • sefydlu Paneli Cynghori Cymwysterau Sector; • datblygu'r fframwaith prentisiaethau; • cyflwyn o deddfwriaeth i sefydlu "Cymwysterau Cymru" er mwyn symleiddio'r system gymwysterau yng Nghymru. |
| T.10.3 - Dysgu gydol oes (DGO): Bodolaeth fframwa | 5 - i wella perthnasedd addysg a hyfforddiant yn y farchnad | √ | Y Rhaglen Lywodraethu http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/growth/?lang=cy Datganiad Polisi ar Sgiliau http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/?lang=cy tudalennau 6-19 Cynllun Gweithredu Sgiliau http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/skills-implementation-plan/?lang=cy tudalennau 6-14 StatsCymru https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue Dysgu Cymru http://learning.wales.gov.uk/?lang=cy | Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi camau ar GFL, datblygu sgiliau a llwybrau effeithiol i mewn i gyflogaeth drwy ddarparu sgiliau. |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| ith polisi strategol cenedlaethol a/neu ranbarthol ar gyfer dysgu gydol oes o fewn terfynau Erthygl 165, TFEU. | lafur a'i addasu yn unol ag anghenion grwpiau targed a nodwyd (er enghraifft pobl ifanc mewn hyfforddiant galwedigaethol, oedolion, rhieni sy'n dychwelyd i'r farchnad lafur, gweithw | | | Mae'r Datganiad Polisi ar Sgiliau yn amlinellu camau ar ddatblygu sgiliau, anghenion a bylchau o ran sgiliau a'r galw gan gyflogwyr. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau yn amlinellu camau i: • weithio gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid er mwyn cyflwyno Rhaglen Sgiliau Hyblyg sy'n canolbwyntio ar anghenion economaidd rhanbarthol, Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau a |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | yr eraill a llai medrus, mudwyr a grwpiau eraill sydd o dan anfantais, yn enwedig pobl ag anabledau). | | | datblygu'r fframwaith prentisiaethau;<br>• cyflwyn o Porth Sgiliau ar gyfer cael cymorth sgiliau a chyflogaeth, cynnal asesiadau sgiliau ar gyfer unigolion a chyfeirio cyflogwyr at ddarpariaeth sgiliau;<br>• darparu sgiliau yn rhanbarthol yn seiliedig ar anghenion drwy GFL;<br>• sefydlu Paneli Cynghori ar Gymwysterau Sector er mwyn |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | sicrhau bod cymwysterau galwedigaethol yn darparu sgiliau cyflogaeth; • cyflwyn o rhaglen cyflogadwyedd oedolion, darpariaeth sgiliau hanfodol a chynorthwyo'r bobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf er mwyn cynyddu lefelau sgiliau a chyflogadwyedd. |
| T.11.1 - Bodolaeth fframwaith polisi strategol ar gyfer | 1 - Mae fframwaith polisi strategol ar gyfer atgyfnerthu | √ | http://gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf http://gov.wales/docs/dcells/publications/180319-employability-plan-cy.pdf | Wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon bydd angen cyfres o fuddsoddiadau ategol mewn pobl, sefydliadau a systemau. |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| atgyfnerthu effeithlonrwydd gweinyddol yr Aelod-wladwriaeth, gan gynnwys gweinyddu cyhoeddus. | effeithlonrwydd gweinyddol awdurdodau cyhoeddus Aelod-wladwriaeth a'u sgiliau gyda'r elfennau canlynol ar waith ac wrthi'n cael eu gweithredu: | | | Disgwylir i bob buddsoddiad fod wedi'i alinio'n uniongyrchol ag agenda ranbartholi Llywodraeth Cymru, fel y'i disgrifir yn Ffyniant i Bawb, y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, a'r Cynllun Cyflogadwyedd. Mae'r rhain, ynghyd â chynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer diwygio llywodraeth leol, yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer gweithgarwch o |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | dan y Flaenoriaeth hon. |
| T.11.1 - Bodolaeth fframwaith polisi strategol ar gyfer atgyfnerthu effeithlonrwydd gweinyddol yr Aelod-wladwriaeth, gan gynnwys gweinyddu cyhoeddus. | 2 - dadansoddiad a gwaith cynllunio strategol o gamau cyfreithiol, sefydliadol a/neu ddiwygio gweithdrefnau; | √ | http://gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf<br>https://beta.llyw.cymru/cryfhau-llywodraeth-leol-cyflawni-dros-ein-pobl | Mae'r flaenoriaeth hon wedi'i halinio'n uniongyrchol ag agenda rhanbartholi Llywodraeth Cymru a thrafodaethau parhaus ar agenda diwygio uchelgeisiol ond realistig i'r sector cyhoeddus yng Nghymru, yn ogystal ag adeiladu ar rwydweithiau ar gyfer gweithio rhanbarthol sy'n bodoli eisoes. |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| T.11.1 - Bodolaeth fframwaith polisi strategol ar gyfer atgyfnerthu effeithlonrwydd gweinyddol yr Aelod-wladwriaeth, gan gynnwys gweinyddu cyhoeddus. | 3 - datblygu systemau rheoli o ansawdd; | √ | [http://gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf | Cynllun Gweithredu ar yr Economi (Rhagfyr 2017). Mae hyn yn disgrifio'r angen i sicrhau "bod pawb sy'n chwarae rhan yn ein heconomi – o'r Bargeinion Dinesig sydd wrthi'n cael eu datblygu a'r strwythurau ar gyfer diwygio llywodraeth leol, i Fanc Datblygu newydd Cymru a'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol – yn gweithio gyda'i gilydd a chyda busnesau a phartneriaid eraill |

compare report

| **Amodol deb ex-ante** | **Meini prawf** | **Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do)** | **Cyfeirnod** | **Esboniadau** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ar gynllun clir, gan wneud hynny mewn partneriaeth newydd, strategol a mwy cydweithredol er mwyn cefnogi'r cryfderau unigryw sydd gan y rhanbarthau |
| T.11.1 - Bodolaeth fframwaith polisi strategol ar gyfer atgyfnerthu effeithlonrwydd gweinyddol yr Aelod-wladwri | 4 - camau integredig ar gyfer symleiddio a rhesymoli gweithdrefnau gweinyddol; | √ | http://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf<br>http://gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf | Ffyniant i Bawb (Medi 2017). Mae hyn yn nodi "Dim ond drwy weithio'n agosach, ar sail ranbarthol gyson, y gall cydnerthedd ac ymatebolrwydd gwasanaethau gael eu cynnal yn y dyfodol". Gwneir ymrwymiadau i ymateb i |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| aeth, gan gynnwys gweinyddu cyhoeddus. | | | | anghenion amrywiol rhanbarthau gwahanol, gan weithio gyda phartneriaid yn y rhanbarthau hynny mewn meysydd megis sgiliau a datblygu economaidd.<br><br>Cynllun Gweithredu ar yr Economi (Rhagfyr 2017). Mae hyn yn disgrifio'r angen i sicrhau "bod pawb sy'n chwarae rhan yn ein heconomi – o'r Bargeinion Dinesig sydd wrthi'n cael eu datblygu a'r |

compare report

| Amodol deb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/ Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | strwythurau ar gyfer diwygio llywodraeth leol, i Fanc Datblygu newydd Cymru a'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol – yn gweithio gyda'i gilydd a chyda busnesau a phartneriaid eraill ar gynllun clir, gan wneud hynny mewn partneriaeth newydd, strategol a mwy cydweithredol er mwyn cefnogi'r cryfderau unigryw sydd gan y rhanbarthau" Agenda rhanbartholi Llywodraeth |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Cymru sydd bellach yn rhan ganolog o lawer o bolisiau yng Nghymru, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a lansiwyd yn ddiweddar (Rhagfyr 2017). |
| T.11.1 - Bodolaeth fframwaith polisi strategol ar gyfer atgyfnerthu effeithlonrwydd gweinyddol yr Aelod- | 5 - datblygu a gweithredu strategaethau a pholisïau adnoddau dynol sy'n cwmpasu'r prif | √ | [http://gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf | Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn amlinellu dull rhanbarthol o ddatblygu'r economi, er mwyn helpu i deilwra'r hyn a gyflawnir gennym at heriau a chyfleoedd penodol mewn gwahanol rannau o Gymru, a sut y |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| wladwriaeth, gan gynnwys gweinyddu cyhoeddus. | fylchau a nodwyd yn y maes hwn; | | | bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i fanteisio ar gyfleoedd twf lleol. |
| T.11.1 - Bodolaeth fframwaith polisi strategol ar gyfer atgyfnerthu effeithlonrwydd gweinyddol yr Aelod-wladwriaeth, gan gynnwys | 6 - datblygu sgiliau ar bob lefel o'r hierarchaeth broffesiynol o fewn awdurdodau cyhoeddus; | √ | https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-03/180320-cyflawni-dros-ein-pobl-v1.pdf | Mae papur gwyrdd Llywodraeth Cymru ar 'Cryfhau Llywodraeth Leol' yn amlinellu opsiynau ar gyfer gwneud y defnydd gorau o sgiliau a galluoedd gweinyddiaeth gwasanaethau cyhoeddus. |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| gweinyddu cyhoeddus. | | | | |
| T.11.1 - Bodolaeth fframwaith polisi strategol ar gyfer atgyfnerthu effeithlonrwydd gweinyddol yr Aelod-wladwriaeth, gan gynnwys gweinyddu cyhoeddus. | 7 - datblygu gweithdrefnau ac adnoddau ar gyfer monitro a gwerthuso. | √ | http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/wefo-guidance/monitoring/?lang=cy | Mae gan Awdurdodau Rheoli ESI yng Nghymru dîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso integredig a phenodol. Mae'r tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso yn gyfrifol am roi canllawiau i weithrediadau ar bob agwedd ar waith monitro a gwerthuso, tasgau manwl a swyddogaethau a nodir yn y cynllun Monitro a |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwerthuso a gyhoeddir ar wefan WEFO. Caiff y cynllun hwn ei ddiweddaru i ymgorffori'r echel Blaenoriaeth newydd. |
| G.1 - Bodolaeth adnoddau gweinyddol i weithredu a chymhwyso cyfraith a pholisi gwrthwahaniaethu'r Undeb | 1 - Trefniadau yn unol â fframwaith sefydliadol a chyfreithiol Aelod-wladwriaethau ar gyfer cynnwys cyrff sy'n | √ | Dyletswyddau Penodol Cymru (Dyletswyddau Statudol Cymru 2011): http://wales.gov.uk/topics/equality/inclusivepolicy/impactassessments/eqact/?lang=cy Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 – http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1064/made Deddf y Gymraeg (1993): http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/38/contents Datganiad Ysgrifenedig: http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2011/equalityact/?lang=cy | Cynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr holl weithgarwch sy'n gysylltiedig â Chronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Benodol Cymru. |

compare report

| **Amodoldeb ex-ante** | **Meini prawf** | **Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo)** | **Cyfeirnod** | **Esboniadau** |
|---|---|---|---|---|
| ym maes Cronfeydd ESI. | gyfrifol am hyrwyddo trin pawb yn gyfartal drwy gydol y broses o baratoi a gweithredu rhaglenni, gan gynnwys rhoi cyngor ar gydraddoldeb o fewn gweithgareddau sy'n ymwneud â | | | Ymhlith y gwaith o ddatblygu tystiolaeth ar gyfer yr AEG cafwyd gweithdai ymgynghori â rhanddeiliaid. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn chwarae rhan lanw yn y broses ac mae wedi rhoi 'barn ffurfiol' ar y camau gweithredu y mae'r Awdurdod Rheoli wedi'u cymryd i roi triniaeth gyfartal ar waith, gan gynnwys prif ffrydio rhywedd ac atal gwahaniaethu yn y rhaglenni. |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | chronfa ESI. | | | |
| G.1 - Bodolaeth adnoddau gweinyddol i weithredu a chymhwyso cyfraith a pholisi gwrthwahaniaethu'r Undeb ym maes Cronfeydd ESI. | 2 - Trefniadau ar gyfer hyfforddi staff yr awdurdodau sydd ynghlwm wrth reoli Cronfeydd ESI ym meysydd cyfraith a pholisi gwrthwahaniaethu'r Undeb. | √ | http://wales.gov.uk/topics/equality/?lang=cy http://wefo.wales.gov.uk/ http://wefo.wales.gov.uk/publications/guidance/crosscutting/?lang=cy | Mae gan Lywodraeth Cymru Dîm Cydraddoldeb dynodedig sy'n gweithio ar integreiddio cydraddoldeb a phrif ffrydio rhwng y rhywiau gan gefnogi rhanddeiliaid i wneud y canlynol:<br><br>A) gweithio o fewn y fframwaith deddfwriaethol.<br>B) symud y tu hwnt i gydymffurfiaeth a sefydlu arfer da. |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae gan Lywodraeth Cymru weithdrefnau monitro ar waith ar gyfer grwpiau â nodweddion gwarchodedig.<br><br>Mae tîm Themâu Trawsbynciol WEFO yn rhoi arweiniad a hyfforddiant ar gyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy a threchu tlodi ac allgáu cymdeithasol i staff mewnol a buddiolwyr. Mae holl staff Llywodraeth Cymru yn cael hyfforddiant |

compare report

| Amodol deb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Cydraddoldeb a Gwrthwahaniaethu gorfodol a rhoddwyd rhaglen hyfforddiant ac ymwybyddiaeth lawn i staff yr Awdurdod Rheoli/Ardystio a grwpiau rhanddeiliaid ehangach sy'n cyflenwi rhaglenni Cronfeydd Strwythurol. Cynllunnir rhaglen debyg ar gyfer rhaglen EAFRD yng nghanol 2014. |
| G.2 - Bodolaeth adnodda | 1 - Trefniadau yn unol â | √ | Dyletswyddau Penodol Cymru (Dyletswyddau Statudol Cymru 2011): http://wales.gov.uk/topics/equality/inclusivepolicy/impactassessments/eqact/?lang=cy Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 – | Cynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar |

compare report

| **Amodoldeb ex-ante** | **Meini prawf** | **Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do)** | **Cyfeirnod** | **Esboniadau** |
|---|---|---|---|---|
| u gweinyddol i weithredu a chymhwyso cyfraith a pholisi cydraddoldeb rhwng y rhywiau yr Undeb ym maes Cronfeydd ESI. | fframwaith sefydliadol a chyfreithiol Aelod-wladwriaethau ar gyfer cynnwys cyrff sy'n gyfrifol am gydraddoldeb rhwng y rhywiau drwy gydol y broses o baratoi a gweithredu rhaglenn | | http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1064/made Datganiad Ysgrifenedig: http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2011/equalityact/?lang=cy | gyfer yr holl weithgarwch sy'n gysylltiedig â Chronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Benodol Cymru.<br><br>Ymhlith y gwaith o ddatblygu tystiolaeth ar gyfer yr AEG cafwyd gweithdai ymgynghori ffurfiol â rhanddeiliaid. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn chwarae rhan lanw yn y broses |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | i, gan gynnwys darparu cyngor ar gydraddoldeb o fewn gweithgareddau sy'n ymwneud â chronfa ESI. | | | ac mae wedi rhoi 'barn ffurfiol' ar y camau gweithredu y mae'r Awdurdod Rheoli wedi'u cymryd i roi triniaeth gyfartal ar waith, gan gynnwys prif ffrydio rhywedd ac atal gwahaniaethu yn y rhaglenni. |
| G.2 - Bodolaeth adnoddau gweinyddol i weithredu a chymhw | 2 - Trefniadau ar gyfer hyfforddi staff yr awdurdodau sydd ynghlwm wrth | √ | http://wales.gov.uk/topics/equality/?lang=cy http://wefo.wales.gov.uk/ http://wefo.wales.gov.uk/publications/guidance/crosscutting/?lang=cy | Mae gan Lywodraeth Cymru Dîm Cydraddoldeb dynodedig sy'n gweithio ar integreiddio cydraddoldeb a phrif ffrydio rhwng y rhywiau |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| yso cyfraith a pholisi cydraddoldeb rhwng y rhywiau yr Undeb ym maes Cronfeydd ESI. | reoli Cronfeydd ESI ym meysydd cyfraith a pholisi cydraddoldeb rhwng y rhywiau yr Undeb yn ogystal â phrif ffrydio rhywedd. | | | gan gefnogi rhanddeiliaid i wneud y canlynol:<br><br>A) gweithio o fewn y fframwaith deddfwriaethol.<br>B) symud y tu hwnt i gydymffurfiaeth a sefydlu arfer da.<br><br>Mae gan Lywodraeth Cymru weithdrefnau monitro ar waith ar gyfer grwpiau â nodweddion gwarchodedig.<br><br>Mae tîm Themâu Trawsbynciol WEFO yn rhoi arweiniad a hyfforddiant ar |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy a threchu tlodi ac allgáu cymdeithasol i staff mewnol a buddiolwyr. Mae holl staff Llywodraeth Cymru yn cael hyfforddiant Cydraddoldeb a Gwrthwahaniaethu gorfodol a rhoddwyd rhaglen hyfforddiant ac ymwybyddiaeth lawn i staff yr Awdurdod Rheoli/Ardystio a grwpiau rhanddeiliaid ehangach sy'n cyflenwi rhaglenni |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Cronfeydd Strwythurol. Cynllunnir rhaglen debyg ar gyfer rhaglen EAFRD yng nghanol 2014. |
| G.3 - Bodolaeth adnoddau gweinyddol ar gyfer gweithredu a chymhwyso Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar | 1 - Trefniadau yn unol â fframwaith sefydliadol a chyfreithiol Aelod-wladwriaethau ar gyfer ymgynghori â chyrff sy'n | √ | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau: http://wales.gov.uk/topics/equality/unccs/?lang= Dyletswyddau Penodol Cymru (Dyletswyddau Statudol Cymru 2011): http://wales.gov.uk/topics/equality/inclusivepolicy/impactassessments/eqact/?lang=cy Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 – http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1064/made Datganiad Ysgrifenedig: http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2011/equalityact/?lang=cy | Cynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar yr holl weithgarwch sy'n gysylltiedig â chronfeydd ESI yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Benodol Cymru.<br><br>Ymhlith y gwaith o ddatblygu tystiolaeth ar gyfer yr AEG |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD) ym maes Cronfeydd ESI yn unol â Phenderfyniad y Cyngor 2010/48/EC. | gyfrifol am ddiogelu hawliau pobl ag anableddau a'u cynnwys, neu sefydliadau cynrychioliadol pobl ag anableddau a rhanddeiliaid perthnasol eraill drwy baratoi a gweithredu rhaglenni. | | | cafwyd gweithdai ymgynghori ffurfiol â rhanddeiliaid sy'n gyfrifol am ddiogelu hawliau pobl anabl.<br><br>Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cymryd rhan lawn yn y broses ac wedi rhoi 'barn ffurfiol' ar gamau'r Awdurdod Rheoli i drin pobl yn gyfartal, gan gynnwys cymhwyso Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl |

compare report

| **Amodoldeb ex-ante** | **Meini prawf** | **Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado)** | **Cyfeirnod** | **Esboniadau** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Anabl at y rhaglenni.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am goladu a rhoi cyfraniadau i'w cynnwys yn adroddiadau Llywodraeth y DU i holl Gonfensiynau a Chyfamodau'r Cenhedloedd Unedig (CU). |
| G.3 - Bodolaeth adnoddau gweinyddol ar gyfer gweithredu a | 2 - Trefniadau ar gyfer hyfforddi staff yr awdurdodau sy'n gyfrifol am reoli | √ | http://wales.gov.uk/topics/equality/?lang=cy http://wefo.wales.gov.uk/ http://wefo.wales.gov.uk/publications/guidance/crosscutting/?lang=cy | Mae gan Lywodraeth Cymru Dîm Cydraddoldeb dynodedig sy'n gweithio ar integreiddio cydraddoldeb gan gefnogi |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| chymhwyso Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD) ym maes Cronfeydd ESI yn unol â Phenderfyniad y Cyngor 2010/48/EC. | Cronfeydd ESI ym meysydd cyfraith a pholisi anabledd yr UE a chenedlaethol cymwys, gan gynnwys hygyrchedd a chymhwyso UNCRPD yn ymarferol fel yr adlewyrchir yn | | | rhanddeiliaid i wneud y canlynol:<br><br>A) gweithio o fewn y fframwaith deddfwriaethol.<br>B) symud y tu hwnt i gydymffurfiaeth a sefydlu arfer da.<br><br>Mae tîm Themâu Trawsbynciol WEFO yn rhoi arweiniad a hyfforddiant ar gyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy a threchu tlodi ac allgáu cymdeithasol i staff mewnol a buddiolwyr. Mae holl staff Llywodraeth |

compare report

| **Amodoldeb ex-ante** | **Meini prawf** | **Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado)** | **Cyfeirnod** | **Esboniadau** |
|---|---|---|---|---|
| | neddfwriaeth yr UE a deddfwriaeth ghenedlaethol, fel y bo'n briodol. | | | Cymru yn cael hyfforddiant Cydraddoldeb a Gwrthwahaniaethu gorfodol a rhoddwyd rhaglen hyfforddiant ac ymwybyddiaeth lawn i staff yr Awdurdod Rheoli/Ardystio a grwpiau rhanddeiliaid ehangach sy'n cyflenwi rhaglenni Cronfeydd Strwythurol. Cynllunnir rhaglen debyg ar gyfer rhaglen EAFRD yng nghanol 2014. |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| G.3 - Bodolaeth adnoddau gweinyddol ar gyfer gweithredu a chymhwyso Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD) ym maes Cronfey | 3 - Trefniadau i sicrhau bod y broses o weithredu Erthygl 9 o UNCRPD mewn perthynas â Chronfeydd ESI yn cael ei monitro drwy gydol y gwaith o baratoi a gweithredu'r | √ | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau: http://wales.gov.uk/topics/equality/unccs/?lang= | Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am goladu a rhoi cyfraniadau i'w cynnwys yn adroddiadau Llywodraeth y DU i holl Gonfensiynau a Chyfamodau'r Cenhedloedd Unedig (CU).<br><br>Mae gan Lywodraeth Cymru weithdrefnau monitro ar waith ar gyfer grwpiau â nodweddion gwarchodedig a'r broses o weithredu UNCRPD. |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| dd ESI yn unol â Phenderfyniad y Cyngor 2010/48/EC. | rhaglenni. | | | Datblygwyd cynllun monitro a gweithredu llawn sy'n sicrhau bod Erthygl 9 o'r UNCRPD yn cael ei bwydo i mewn i'r broses o ddatblygu'r rhaglenni a'u rhoi ar waith. |
| G. 4 - Bodolaeth trefniant ar gyfer cymhwyso cyfraith caffael cyhoeddus yr Undeb yn effeithiol ym | 1 - Trefniadau ar gyfer cymhwyso rheolau caffael cyhoeddus yr UE yn effeithiol drwy ddulliau priodol. | √ | https://www.gov.uk/transposing-eu-procurement-directives https://www.gov.uk/government/collections/procurement-policy-notes http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/bettervfm/?lang=cy http://prp.wales.gov.uk/toolkit/ http://wefo.wales.gov.uk/ | Cafodd Cyfarwyddebau'r UE eu trosi gan y DU yn 2006 (Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006) ac mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i drosi'n gynnar y rheolau caffael cyhoeddus newydd y |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| maes Cronfeydd ESI. | | | | cytunwyd arnynt ym mis Ionawr 2014. Mae Swyddfa'r Cabinet yn cyhoeddi Nodiadau Polisi Caffael sy'n rhoi canllawiau ar bolisi caffael cyhoeddus. Yn unol â gweinyddiaethau datganoledig eraill y DU, lluniwyd protocol â Llywodraeth y DU lle mae'r rhaglen Polisi Caffael Gwerth Cymru (uned gaffael Llywodraeth Cymru) yn rhoi canllawiau a chyngor ar bolisi |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi’u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | caffael i sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn ogystal â darparu gwasanaethau caffael i Lywodraeth Cymru. Mae cymorth ac arweiniad ar ddeddfwriaeth a pholisi caffael ar gael i fuddiolwyr y sector cyhoeddus drwy Gwerth Cymru. Gall WEFO alw ar arbenigedd Gwerth Cymru er mwyn helpu i ddehongli deddfwriaeth a deall gofynion cyfarwyddebau’r CE. Mae’r cyngor |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | hwn yn ymestyn i gyngor caffael cyhoeddus yn ogystal â chontractau cyhoeddus. |
| G. 4 - Bodolaeth trefniant ar gyfer cymhwyso cyfraith caffael cyhoeddus yr Undeb yn effeithiol ym maes Cronfeydd ESI. | 2 - Trefniadau sy'n sicrhau gweithdrefnau dyfarnu contract tryloyw. | √ | http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2012/welshprocurement/?lang=cy http://prp.wales.gov.uk/ http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/bettervfm/publications/openingdoors/?lang=cy www.gwerthwchigymru.llyw.cymru | Mae polisïau caffael Llywodraeth Cymru yn sicrhau cystadleuaeth agored a theg a dim gwahaniaethu ni waeth beth yw gwerth y contract. Yn unol â'r ymrwymiadau a geir yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru 'Agor Drysau: Y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig', dylai'r |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | holl ofynion dros £25,000 (ond islaw trothwy cymwys Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd), yn ogystal â'r gofynion hynny nad ydynt yn llwyr ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006, fod ar wefan sy'n hygyrch ledled yr UE. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Ddatganiad Polisi Caffael Cymru' ym mis Rhagfyr 2012 |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | sy'n nodi wyth egwyddor i sicrhau bod caffael cyhoeddus yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio pecyn cymorth caffael ar-lein i gefnogi gweithgarwch caffael sy'n cydymffurfio (Canllaw Cynllunio Caffael). Mae'r wefan yn hyrwyddo dull cyson a strwythuredig o gaffael, yn ymgorffori arfer gorau ac yn rhoi canllawiau ac adnoddau |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | arbenigol er mwyn helpu awdurdodau contractio yng Nghymru. |
| G. 4 - Bodolaeth trefniant ar gyfer cymhwyso cyfraith caffael cyhoeddus yr Undeb yn effeithiol ym maes Cronfeydd ESI. | 3 - Trefniadau ar gyfer hyfforddi staff sy'n gyfrifol am weithredu cronfeydd ESI a rhoi gwybodaeth iddynt. | √ | http://wefo.wales.gov.uk/ http://wefo.wales.gov.uk/publications/guidance/general/?lang=cy | Darparwyd cyfres o sesiynau hyfforddiant undydd ar ddeddfwriaeth ym maes Caffael i bob aelod o staff WEFO sy'n rhan o'r gwaith o gyflawni prosiectau. Rhoddwyd yr hyfforddiant gan arbenigwyr ym maes caffael. Caiff rhagor o hyfforddiant ei roi yn ôl y gofyn ar gyfer y rhaglenni newydd. Mae dogfennau |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | canllaw ar gael i staff WEFO. Caiff y canllawiau hyn eu llunio a/neu eu hadolygu gan uned gaffael Llywodraeth Cymru cyn eu lledaenu. |
| G. 4 - Bodolaeth trefniant ar gyfer cymhwyso cyfraith caffael cyhoeddus yr Undeb yn effeithiol ym maes | 4 - Trefniadau i sicrhau adnoddau gweinyddol ar gyfer gweithredu a chymhwyso rheolau caffael cyhoedd | √ | http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/bettervfm/?lang=cy http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/bettervfm/procskills/?lang=cy http://wefo.wales.gov.uk/ http://wefo.wales.gov.uk/publications/guidance/general/?lang=cy | Gwerth Cymru (Llywodraeth Cymru) yw'r corff canolog yng Nghymru sydd â'r adnoddau a'r arbenigedd i help WEFO – a'r awdurdodau contractio/sector cyhoeddus ehangach Cymru – i ddeall a chymhwyso rheolau caffael. Llwyddodd Gwerth Cymru i |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd ESI. | us yr Undeb. | | | sicrhau cyllid o dan Raglen Gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop am brosiect 4-5 mlynedd i wella caffael drwy bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r prosiect Defnyddio Doniau Cymru i Wella'r Byd Caffael wedi gwella sgiliau a galluoedd caffael ym mhob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus. Mae dogfennau canllaw ar gael i fuddiolwyr. Caiff |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nadd o) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | y canllawiau hyn eu llunio a/neu eu hadolygu gan uned gaffael Llywodraeth Cymru cyn eu lledaenu. |
| G.5 - Bodolaeth trefniadau ar gyfer cymhwyso rheolau cymorth gwladwriaethol yr Undeb yn effeithiol ym maes | 1 - Trefniadau ar gyfer cymhwyso rheolau cymorth gwladwriaethol yr Undeb yn effeithiol. | √ | Pennod y DU o'r Cytundeb Partneriaeth http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/stateaid/?lang=cy http://wefo.wales.gov.uk/ http://wefo.wales.gov.uk/publications/guidance/projectinspectionandaudit1/?lang=cy | Ymdrinnir â Chymorth Gwladwriaethol ar lefel y DU yn bennaf (gweler CP y DU). Mae'r gwaith a wneir i sicrhau cydymffurfiaeth yng Nghymru fel a ganlyn:<br><br>Mae pob gweithrediad yn destun dadansoddiad Cymorth Gwladwriaethol fel rhan o'r broses |

compare.report

| **Amodoldeb ex-ante** | **Meini prawf** | **Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado)** | **Cyfeirnod** | **Esboniadau** |
|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd ESI. | | | | asesu a, lle y bo angen, ceisir cyngor angenrheidiol a chraffu pellach gan Uned Cymorth Gwladwriaethol neu Wasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau dyrannu cyllid yn cydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol a bod yr hysbysiadau/cymeradwyaethau angenrheidiol gan y Comisiwn ar waith. |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Cynhelir asesiadau a rhoddir arweiniad i fuddiolwyr ar y rheolau sydd ynghlwm wrth gyfuno. Caiff gweithrediadau sy'n rhedeg cynlluniau de minimis eu hysbysu, drwy'r cytundeb cyllid grant, o'u cyfrifoldebau a sicrheir bod eu systemau'n cydymffurfio. Hefyd, mae Uned CG yn cydgysylltu'r broses adrodd ariannol ar gyfer cynlluniau esemptiad bloc a hysbysedig. |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi’u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Ceir mesurau cydymffurfio ac adfer sy’n ymwneud ag unrhyw achos o dorri rheolau Cymorth Gwladwriaethol o fewn cytundebau ariannu a chynhelir gwiriadau cydymffurfio gan dimau Rheoli a Dilysu |
| G.5 - Bodolaeth trefniadau ar gyfer cymhwyso rheolau cymorth | 2 - Trefniadau ar gyfer hyfforddi staff sy’n gyfrifol am weithred | √ | http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/stateaid/?lang=cy http://wefo.wales.gov.uk/ | Mae’r Uned CG yn gweithio’n agos gyda thîm hyfforddi WEFO er mwyn nodi gofynion hyfforddi angenrheidiol pob aelod o staff. Yn ddiweddar, mae |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| gwladwriaethol yr Undeb yn effeithiol ym maes Cronfeydd ESI. | u cronfeydd ESI a rhoi gwybodaeth iddynt. | | | wedi cynnal sesiynau ymwybyddiaeth ynghylch y rhaglen Foderneiddio a chaiff hyfforddiant Cymorth Gwladwriaethol ei ymgorffori yn y broses sefydlu ar gyfer pob aelod newydd o staff. Diweddarwyd strategaeth hyfforddi fel bod holl staff yr Awdurdod Rheoli a'r Awdurdod Ardystio yn cael hyfforddiant sylfaen/ymwybyddiaeth erbyn diwedd mis Hydref 2014. |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Ategir hyn gan hyfforddiant "Rolau a Chyfrifoldebau" mwy manwl a roddir i bob aelod allweddol o staff erbyn diwedd 2014 ac i bob aelod o staff arall erbyn canol 2015.<br><br>Mae'r Uned CG yn mynychu cyfarfodydd rhwydwaith ledled y DU yn rheolaidd ac yn lledaenu gwybodaeth/arweiniad drwy wefan Llywodraeth Cymru ac i WEFO yn briodol. Mae WEFO yn lledaenu |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gwybodaeth yn eang i randdeiliaid allanol a buddiolwyr, gan gynnwys drwy wefan WEFO. Darperir rhagor o ganllawiau staff drwy fewnrwydydd Llywodraeth Cymru a WEFO. |
| G.5 - Bodolaeth trefniadau ar gyfer cymhwyso rheolau cymorth gwladwriaethol yr | 3 - Trefniadau i sicrhau adnoddau gweinyddol ar gyfer gweithredu a chymhwyso | √ | Pennod y DU o'r Cytundeb Partneriaeth http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/stateaid/?lang=cy http://wefo.wales.gov.uk/ http://wefo.wales.gov.uk/publications/guidance/projectinspectionandaudit1/?lang=cy | Mae gan staff yr Awdurdod Rheoli wybodaeth ymarferol dda am reolau Cymorth gwladwriaethol. Fe'u cefnogir gan Uned CG Llywodraeth Cymru a chyfreithwyr sy'n darparu hyfforddiant a |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| Undeb yn effeithiol ym maes Cronfeydd ESI. | rheolau cymorth gwladwriaethol yr Undeb. | | | chyngor ar achosion penodol fel sydd angen. Cred Llywodraeth Cymru fod ganddi ddigon o adnoddau gweinyddol i gyflawni ei chyfrifoldebau Cymorth Gwladwriaethol. Mae'r Uned CG yn cynnwys tri aelod o staff sydd â mwy na 15 mlynedd o brofiad a gefnogir gan dîm o dri chyfreithiwr.<br><br>Mae sawl adnodd ymarferol ar gael i staff WEFO, yn cynnwys taflen asesu Cymorth |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gwladwriaethol bwrpasol, pecyn cymorth Cymorth gwladwriaethol a chanllawiau manwl ar y rheolau. Cynhyrchir y rhain gan yr Uned CG a Gwasanaethau Cyfreithiol ac maent ar gael drwy fewnrwyd Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, rhoddir canllawiau i fuddiolwyr drwy wefan Llywodraeth Cymru. |

compare report

| **Amodoldeb ex-ante** | **Meini prawf** | **Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado)** | **Cyfeirnod** | **Esboniadau** |
|---|---|---|---|---|
| G.7 - Bodolaeth sail ystadegol sy'n angenrheidiol i gynnal gwerthusiadau er mwyn asesu effeithiolrwydd ac effaith y rhaglenni. Bodolaeth system dangosyddion canlyniadau sy'n angenrh | 1 - Mae trefniadau ar gyfer casglu a chyfuno data ystadegol yn amserol â'r elfennau canlynol ar waith: nodi ffynonellau a dulliau er mwyn sicrhau dilysu ystadegol. | √ | http://www.wefo.wales.co.uk | Mae gan Awdurdodau Rheoli ESI yng Nghymru dîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso integredig a phenodol. Mae'r tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso yn gyfrifol am roi canllawiau i weithrediadau ar bob agwedd ar waith monitro a gwerthuso, tasgau manwl a swyddogaethau a nodir yn y cynllun Monitro a Gwerthuso a gyhoeddir ar wefan WEFO. Bydd pob un o |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| eidiol i ddewis camau gweithredu, sy'n cyfrannu at y canlyniadau a ddymunir yn y ffordd fwyaf effeithiol, er mwyn monitro cynnydd tuag at ganlyniadau a chynnal gwerthusiad effaith. | | | | fuddiolwyr Cronfeydd Strwythurol yn defnyddio cronfa ddata PPIMS i drosglwyddo data monitro ar eu gweithrediad yn rheolaidd a bydd yn gwneud hyn ar y cyd â'r broses hawlio ariannol. Ynghyd â'r dangosyddion, ceir diffiniadau a chanllawiau manwl ar ofynion tystiolaeth; cânt eu cyhoeddi ar wefan WEFO. Mae'r tîm Ymchwil, monitro a gwerthuso yn gyfrifol am gadarnhau dilysrwydd |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | | | ystadegol y data ar ddangosyddion a gyflwynir gan fuddiolwyr. |
| G.7 - Bodolaeth sail ystadegol sy'n angenrheidiol i gynnal gwerthusiadau er mwyn asesu effeithiolrwydd ac effaith y rhaglenni. Bodolaeth system dangosy | 2 - Mae trefniadau ar gyfer casglu a chyfuno data ystadegol yn amserol â'r elfennau canlynol ar waith: trefniadau ar gyfer cyhoeddi data cyfunol a sicrhau eu bod | √ | http://www.wefo.wales.co.uk http://wefo.wales.gov.uk/programmes/post2013/walespmc/?lang=cy | Mae gan Awdurdodau Rheoli ESI yng Nghymru dîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso integredig a phenodol. Mae'r tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso yn gyfrifol am roi canllawiau i weithrediadau ar bob agwedd ar waith monitro a gwerthuso, tasgau manwl a swyddogaethau a nodir yn y cynllun Monitro a |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| ddion canlyniadau sy'n angenrheidiol i ddewis camau gweithredu, sy'n cyfrannu at y canlyniadau a ddymunir yn y ffordd fwyaf effeithiol, er mwyn monitro cynnydd tuag at ganlyniadau a chynnal | ar gael i'r cyhoedd. | | | Gwerthuso a gyhoeddir ar wefan WEFO. Caiff data cyfunol ar berfformiad prosiect eu cyhoeddi'n rheolaidd ar wefan WEFO a'u cyflwyno i'r PMRh i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae trefniadau ar waith i gasglu, storio a defnyddio data unigol (micro-ddata) mewn cydymffurfiaeth ag erthygl 125(2), o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil a'r canllawiau ar gyfer Monitro a Gwerthuso ESF. |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| gwerthusiad effaith. | | | | |
| G.7 - Bodolaeth sail ystadegol sy'n angenrheidiol i gynnal gwerthusiadau er mwyn asesu effeithiolrwydd ac effaith y rhaglenni. Bodolaeth system dangosy | 3 - System effeithiol o ddangosyddion canlyniadau yn cynnwys: dewis dangosyddion canlyniadau ar gyfer pob rhaglen gan ddarparu gwybodaeth am | √ | Gweler Tablau 4 a 5 yn Adran 2 o'r Rhaglen Weithredol hon http://www.wefo.wales.co.uk | Mae'r tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso yn gyfrifol am roi canllawiau i weithrediadau ar bob agwedd ar waith monitro a gwerthuso, tasgau manwl a swyddogaethau a nodir yn y cynllun Monitro a Gwerthuso a gyhoeddir ar wefan WEFO. Ynghyd â'r dangosyddion, bydd diffiniadau a chanllawiau manwl ar ofynion |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| ddion canlyniadau sy'n angenrheidiol i ddewis camau gweithredu, sy'n cyfrannu at y canlyniadau a ddymunir yn y ffordd fwyaf effeithiol, er mwyn monitro cynnydd tuag at ganlyniadau a chynnal | yr hyn sy'n cymell dewis camau gweithredu polisi a ariennir gan y rhaglen. | | | tystiolaeth a chânt eu cyhoeddi ar wefan WEFO. Dewiswyd dangosyddion canlyniadau i gyd-weddu'n agos â chamau gweithredu pob blaenoriaeth ac fe'u dangosir yn y model rhesymeg ymyrryd a atodir i'r Rhaglenni Gweithredol. Bydd angen i weithrediadau ddewis dangosyddion a phennu targedau fel rhan o'r broses arfarnu. Ceir disgrifiad o'r dull sydd ar waith i sicrhau bod y data angenrheidiol ar |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| gwerthusiad effaith. | | | | gael i sicrhau y cynhelir gwerthusiad cadarn (sy'n cynnwys dadansoddiad gwrth-ffeithiol) yn y Cynllun Monitro a Gwerthuso. Mae trefniadau ar waith i gasglu, storio a defnyddio data unigol (micro-ddata) mewn cydymffurfiaeth ag Erthygl 125(2), o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil a'r canllawiau ar Fonitro a Gwerthuso ESF. |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| G.7 - Bodolaeth sail ystadegol sy'n angenrheidiol i gynnal gwerthusiadau er mwyn asesu effeithiolrwydd ac effaith y rhaglenni. Bodolaeth system dangosyddion canlyniadau sy'n angenrh | 4 - System effeithiol o ddangosyddion canlyniadau yn cynnwys: sefydlu targedau ar gyfer y dangosyddion hyn. | √ | Gweler Tablau 4 a 5 yn Adran 2 o'r Rhaglen Weithredol hon http://www.wefo.wales.co.uk | Mae'r tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso yn gyfrifol am roi canllawiau i weithrediadau ar bob agwedd ar waith monitro a gwerthuso, tasgau manwl a swyddogaethau a nodir yn y cynllun Monitro a Gwerthuso a gyhoeddir ar wefan WEFO. Ynghyd â'r dangosyddion, bydd diffiniadau a chanllawiau manwl ar ofynion tystiolaeth a chânt eu cyhoeddi ar wefan WEFO. Dewiswyd |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi’u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| eidiol i ddewis camau gweithredu, sy’n cyfrannu at y canlyniadau a ddymunir yn y ffordd fwyaf effeithiol, er mwyn monitro cynnydd tuag at ganlyniadau a chynnal gwerthusiad effaith. | | | | dangosyddion canlyniadau i gyd-weddu’n agos â chamau gweithredu pob blaenoriaeth ac fe’u dangosir yn y model rhesymeg ymyrryd a atodir i’r Rhaglenni Gweithredol.<br><br>Pennwyd targedau ar gyfer dangosyddion yn yr RhGau, ac eithrio dangosydd ID1128. Cafodd y cam gweithredu hwn estyniad i fis Chwefror 2017. Mae hwn wedi cael ei gwblhau a’i dderbyn bellach. Cadwyd dangosydd 1128 |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | heb linell sylfaen na tharged a chaiff ei ddefnyddio at ddibenion monitro yn unig. Cytunwyd y byddai cynnydd yn cael ei fesur yn ddigonol drwy ddefnyddio'r ddau ddangosydd canlyniadau sy'n bodoli eisoes.<br><br>Bydd angen i weithrediadau ddewis dangosyddion a phennu targedau fel rhan o'r broses arfarnu. A |
| G.7 - Bodolaeth sail ystadegol sy'n | 5 - System effeithiol o ddangos | √ | Gweler Tablau 4 a 5 yn Adran 2 o'r Rhaglen Weithredol hon http://www.wefo.wales.co.uk | Mae'r tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso yn gyfrifol am roi |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| angenrheidiol i gynnal gwerthusiadau er mwyn asesu effeithiolrwydd ac effaith y rhaglenni. Bodolaeth system dangosyddion canlyniadau sy'n angenrheidiol i ddewis camau gweithredu, sy'n | yddion canlyniadau yn cynnwys: cysondeb pob dangosydd mewn perthynas â'r rhagofynion canlynol: cadernid a dilysu ystadegol, eglurder dehongli normadol, ymatebolrwydd i | | | canllawiau i weithrediadau ar bob agwedd ar waith monitro a gwerthuso, tasgau manwl a swyddogaethau a nodir yn y cynllun Monitro a Gwerthuso a gyhoeddir ar wefan WEFO. Ynghyd â'r dangosyddion, bydd diffiniadau a chanllawiau manwl ar ofynion tystiolaeth a chânt eu cyhoeddi ar wefan WEFO. Dewiswyd dangosyddion canlyniadau i gyd-weddu'n agos â chamau gweithredu pob |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| cyfrannu at y canlyniadau a ddymunir yn y ffordd fwyaf effeithiol, er mwyn monitro cynnydd tuag at ganlyniadau a chynnal gwerthusiad effaith. | bolisi, casglu data yn amserol. | | | blaenoriaeth ac fe'u dangosir yn y model rhesymeg ymyrryd a atodir i'r Rhaglenni Gweithredol. Bydd angen i weithrediadau ddewis dangosyddion a phennu targedau fel rhan o'r broses arfarnu. Ceir disgrifiad o'r dull sydd ar waith i sicrhau bod y data angenrheidiol ar gael i sicrhau y cynhelir gwerthusiad cadarn (sy'n cynnwys dadansoddiad gwrth-ffeithiol) yn y Cynllun Monitro a |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwerthuso. Mae trefniadau ar waith i gasglu, storio a defnyddio data unigol (micro-ddata) mewn cydymffurfiaeth ag Erthygl 125(2), o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil a'r canllawiau ar Fonitro a Gwerthuso ESF. |
| G.7 - Bodolaeth sail ystadegol sy'n angenrheidiol i gynnal gwerthusiadau er mwyn asesu | 6 - Gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr holl weithrediadau a ariennir gan y rhaglen | √ | Gweler Tablau 4 a 5 yn Adran 2 o'r Rhaglen Weithredol hon http://www.wefo.wales.co.uk | Mae'r tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso yn gyfrifol am roi canllawiau i weithrediadau ar bob agwedd ar waith monitro a gwerthuso, tasgau manwl a swyddogaethau a |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Naddo) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| effeithiolrwydd ac effaith y rhaglenni. Bodolaeth system dangosyddion canlyniadau sy'n angenrheidiol i ddewis camau gweithredu, sy'n cyfrannu at y canlyniadau a ddymunir yn y ffordd | yn mabwysiadu system effeithiol o ddangosyddion. | | | nodir yn y cynllun Monitro a Gwerthuso a gyhoeddir ar wefan WEFO. Ynghyd â'r dangosyddion, bydd diffiniadau a chanllawiau manwl ar ofynion tystiolaeth a chânt eu cyhoeddi ar wefan WEFO. Dewiswyd dangosyddion canlyniadau i gyd-weddu'n agos â chamau gweithredu pob blaenoriaeth ac fe'u dangosir yn y model rhesymeg ymyrryd a atodir i'r Rhaglenni Gweithredol. Bydd angen i |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nado) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| fwyaf effeithiol, er mwyn monitro cynnydd tuag at ganlyniadau a chynnal gwerthusiad effaith. | | | | weithrediadau ddewis dangosyddion a phennu targedau fel rhan o'r broses arfarnu. Ceir disgrifiad o'r dull sydd ar waith i sicrhau bod y data angenrheidiol ar gael i sicrhau y cynhelir gwerthusiad cadarn (sy'n cynnwys dadansoddiad gwrth-ffeithiol) yn y Cynllun Monitro a Gwerthuso. Mae trefniadau ar waith i gasglu, storio a defnyddio data unigol (micro-ddata) mewn |

compare report

| Amodoldeb ex-ante | Meini prawf | Meini Prawf wedi'u cyflawni (Do/Nad do) | Cyfeirnod | Esboniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cydymffurfiaeth ag Erthygl 125(2), o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil a'r canllawiau ar Fonitro a Gwerthuso ESF. |

compare report

### 9.2 Disgrifiad o gamau gweithredu i gyflawni amodoldebau ex-ante, cyrff cyfrifol ac amserlen

**Tabl 25: Camau gweithredu i fodloni amodoldebau ex-ante cyffredinol cymwys**

| Amodoldeb ex-ante cyffredinol | Meini prawf nas bodlonwyd | Camau gweithredu i'w cymryd | Terfyn amser (dyddiad) | Cyrff sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|

**Tabl 26: Camau gweithredu i fodloni amodoldebau ex-ante thematig cymwys**

| Amodoldeb ex-ante thematig | Meini prawf nas bodlonwyd | Camau gweithredu i'w cymryd | Terfyn amser (dyddiad) | Cyrff sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|

**10. LLEIHAU'R BAICH GWEINYDDOL AR FUDDIOLWYR**

Crynodeb o'r asesiad o faich gweinyddol buddiolwyr a, lle y bo angen, y camau a gynllunnir ynghyd ag amserlen ddangosol i leihau baich gweinyddol.

1. Gwnaed cryn dipyn o gynnydd i leihau baich gweinyddol buddiolwyr o dan raglenni 2007-13. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno gweithdrefnau gwaith newydd o ran cyflwyno system TG PPIMS a arweiniodd at unioni prosesau ar draws cronfeydd strwythurol ac sy'n galluogi buddiolwyr i fewnbynnu data gweithrediad yn uniongyrchol drwy borth ar y we. Mae hyn wedi arwain at brosesau cyffredin, gwella'r broses o gyfnewid dogfennaeth ynghyd ag arbedion effeithlonrwydd a phrosesau a thaliadau cyflymach i fuddiolwyr. Sefydlwyd model Swyddog Datblygu Prosiect hefyd yn sgil y cylch cyfredol o raglenni. Mae hyn wedi gweld un swyddog fel y prif gyswllt ar gyfer buddiolwyr drwy gydol y camau gwneud cais, datblygu ac ôl gymeradwyo.
2. Cynhaliwyd arolwg o farn cwsmeriaid[1] gan WEFO yn 2009 a geisiodd farn buddiolwyr ar weithdrefnau a phrosesau gweinyddol a oedd ynghlwm wrth wneud cais am weithrediadau'r UE a'u rheoli. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i arbedion effeithlonrwydd yn deillio o lawer o'r gwelliannau ar-lein a gyflwynwyd ar gyfer cylch ariannu 2007-13 ynghyd â chefnogaeth i'r cysyniad o Swyddog Datblygu Prosiect. Codwyd rhai pryderon ynghylch y fiwrocratiaeth a oedd ynghlwm wrth wneud cais am gyllid (gellid gwneud penderfyniadau ar gam cynharach heb fod angen llenwi cynifer o ffurflenni) a hygyrchedd ac iaith dechnegol peth o'r canllawiau.
3. Mae Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar ddatblygiadau blaenorol ac yn ymdrin ag adborth buddiolwyr ar gyfer rhaglenni 2014-2020 drwy achub ar gynifer o gyfleoedd integreiddio ac unioni â phosibl er mwyn helpu i gyflawni a lleihau ymhellach y baich i fuddiolwyr.
4. Bydd hyn yn cynnwys proses gwneud cais ac asesu syml, yn cynnwys cyfres o byrth a phwyntiau penderfynu ynghylch cymhwysedd gweithrediadau ynghyd â gwelliannau pellach i PPIMS. Bydd hyn yn cynnwys porth ar-lein unigol ar gyfer buddiolwyr posibl er mwyn cael gafael ar holl gronfeydd ESI, a fydd yn cyfeirio buddiolwyr posibl i dîm Amcan Thematig penodol ac yn hwyluso'r broses o ddewis yr offeryn(nau) ariannu a'r dull cyflawni gorau, tra'n parchu'r llinellau terfyn rhwng cronfeydd.
5. Bydd rheolau cymhwyso cenedlaethol wedi'u cysoni ar gyfer cronfeydd ESI a chanllawiau ategol cyffredin ar waith ar gyfer pob sefydliad yng Nghymru sy'n derbyn cronfeydd gan ERDF, ESF ac EAFRD, ac eithrio lle pennwyd rheolau cymhwyso gan ddeddfwriaeth CE sy'n benodol i gronfa. Bydd hyn yn symlach o lawer i fuddiolwyr yng Nghymru ac mae'n adeiladu ar ddarpariaethau cymhwyso cyffredin y Comisiwn yn y Rheoliad Darpariaethau Cyffredin ar gyfer materion fel cadernid, cynhyrchu refeniw, ac opsiynau cost syml. Cytunir ar y rheolau cymhwyso wedi'u hunioni a chânt eu cyhoeddi a byddant ar gael yn hawdd ar wefan WEFO yn 2014.
6. Hefyd, mae Cymru yn bwriadu annog y defnydd o opsiynau ad-dalu cost syml (cyfandaliadau, cyfraddau safonol, costau uned) drwy sicrhau bod yr holl opsiynau deddfwriaethol ar gael i ddarpar ymgeiswyr, cyhoeddi canllawiau manwl, a rhedeg gweithdai hyfforddi gyda chynrychiolwyr o sectorau allweddol er mwyn deall y rhwystrau sy'n atal eu defnyddio ac ymdrin â hwy. Disgwylir i gostau cyfradd safonol mewn perthynas ag ad-dalu costau anuniongyrchol fod o ddiddordeb penodol i fuddiolwyr yng Nghymru.

compare report

7. Bydd graddau'r newid tuag at system ad-dalu sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau (cyfandaliadau, costau uned) hefyd yn dibynnu ar ddarpariaethau pecyn deddfwriaethol y polisi cydlyniant, addasrwydd cyfraddau safonol y CE, a chanllawiau gweithredu'r Comisiwn. Y brif egwyddor wrth ystyried opsiynau symleiddio fydd mabwysiadu dulliau gweithredu sy'n gweddu orau i gyd-destun Cymru a pharhau â'r gwaith llwyddiannus a chydymffurfiol o gyflawni rhaglenni cronfeydd strwythurol yng Nghymru.
8. Bydd gweithrediadau yng Nghymru hefyd yn cael budd o lai o waith gweinyddol wrth i Lywodraeth Cymru weithredu mesurau symleiddio'r CE yn llawn, fel cyfnodau cadw dogfennau byrrach, cyfrifiadau cynhyrchu refeniw cyfradd safonol, a diogelu gweithrediadau rhag dyblygu gweithgarwch archwilio o'r Awdurdod Archwilio a'r Comisiwn Ewropeaidd yn yr un flwyddyn.

[1] http://wefo.wales.gov.uk/publications/publications/monitoringevaluation/programmeevaluations/customerinsightsurvey2009/?lang=cy

compare report

## 11. EGWYDDORION LLORWEDDOL

### 11.1 Datblygu cynaliadwy

Disgrifiad o'r camau gweithredu penodol i ystyried gofynion diogelwch amgylcheddol, effeithlonrwydd adnoddau, lliniaru newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu ato, y gallu i wrthsefyll trychinebau ac atal a rheoli risg, wrth ddewis gweithrediadau.

1. Rhydd y Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU drosolwg o'r dull o hyrwyddo'r egwyddorion llorweddol ar draws cronfeydd ESI yng Nghymru sy'n cynnwys Thema Drawsbynciol (ThD) Datblygu Cynaliadwy a nodir yma, a Thema Drawsbynciol Cyfle Cyfartal a Chydraddoldeb (a nodir yn Adran 11.2 ac 11.3) a Thema Drawsbynciol Trechu Tlodi (a nodir yn adran 5). Mae hefyd yn amlinellu prif egwyddorion trefniadol ac amcanion cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru sy'n sail i weithredu'r ThD o fewn y Rhaglenni ESF yng Nghymru.
2. Yr hyn sy'n allweddol i raglenni ESF yw pwyslais Llywodraeth Cymru ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pobl a chymunedau; tegwch a chyfiawnder cymdeithasol; a sut mae'r penderfyniadau a wnawn nawr yn effeithio ar fywydau cenedlaethau'r dyfodol, yn ogystal â chenedlaethau heddiw.
3. Wrth weithredu Thema Drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy y prif amcanion Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Rhaglen ESF yw:
    - Hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol ac arfer da wrth gyflawni gweithgarwch;
    - Integreiddio datblygu cynaliadwy mewn gweithrediadau sy'n codi ymwybyddiaeth, rhaglenni addysg a hyfforddiant;
    - Cynorthwyo cyflogwyr sy'n cymryd rhan i fabwysiadu neu wella Strategaethau Cynaliadwyedd Amgylcheddol;
    - Hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;
    - Cydnabod a hybu iechyd a lles fel un o gonglfeini economi iach a bywiog.
4. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu rhaglenni ESF yng Nghymru, cynhaliwyd ymarfer sgrinio Asesu Amgylcheddol gan werthuswyr allanol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad na fydd unrhyw effeithiau amgylcheddol yn arwyddocaol yn y byrdymor i'r tymor canolig. Gall fod goblygiadau i deithio i hyfforddiant, ac yn y pen draw i waith, er na fydd y rhain yn arwyddocaol yng nghyd-destun y rhaglen hon. At hynny, daeth i'r casgliad nad yw rhaglen ESF yn pennu dyraniad lle, felly ni ddisgwylir unrhyw effeithiau.
5. Drwy fesurau anuniongyrchol, ar lefel unigol neu sefydliadol, a thrwy sicrhau bod gweithrediadau'n mabwysiadu arferion ac egwyddorion Datblygu Cynaliadwy priodol wrth gyflawni gweithgarwch ESF, bydd buddsoddiadau yn gallu cefnogi egwyddorion ac amcanion Datblygu Cynaliadwy cyffredinol Llywodraeth Cymru. Byddai camau gweithredu, lle y bo'n briodol, yn cynnwys:
    - Annog atebion trafnidiaeth gynaliadwy wrth gyflawni gweithgarwch o fewn gweithrediadau, er enghraifft drwy gysylltu unigolion di-waith ac economaidd anweithgar â gwaith a chefnogi mynediad at sgiliau a hyfforddiant;
    - Hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni a rheoli gwastraff, wrth gyflawni gweithrediadau;
    - Hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth mewn sectorau economaidd sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys er enghraifft creu swyddi gwyrdd, ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni;
    - Buddsoddi mewn sgiliau i ddatblygu cymwyseddau a gwybodaeth, er enghraifft ym meysydd rheoli amgylcheddol, cynhyrchu ynni,

compare report

effeithlonrwydd ynni a rheoli gwastraff, a sgiliau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r sector carbon isel, ynni a'r amgylchedd;
    - Hyrwyddo ymchwil ac arloesedd ym maes Her Fawr carbon isel, ynni a'r amgylchedd.
6. O ran cynaliadwyedd amgylcheddol, 'Cynnal Cymru Fyw' yw dull newydd Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r broses o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru ac mae'n seiliedig ar y dull ecosystem, a ddiffinnir fel; yr holl bethau byw, mewn amgylchedd, gan gynnwys eu rhyngweithiadau, â'i gilydd a'u hamgylchedd.
7. Drwy atgyfnerthu elfen amgylcheddol y Thema Drawsbynciol sicrheir bod gweithdrefnau codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo arfer da drwy hyfforddiant ac arweiniad yn cael eu hymgorffori yn y gwaith o gyflawni gweithrediadau. Yn benodol i raglenni ESF, cymerir y camau canlynol wrth ddewis a datblygu gweithrediadau er mwyn sicrhau bod gofynion diogelu'r amgylchedd, effeithlonrwydd adnoddau, lliniaru newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu iddo, cydnerthedd mewn trychineb a rheoli trychinebau yn cael eu hintegreiddio lle y bo'n briodol:
    - Asesiad ThT ar bob cam o ddatblygu gweithrediadau;
    - Bydd cyngor arbenigol cynnar a pharhaus ar gael i fuddiolwyr ar roi gweithrediadau ar waith;
    - Cyflwynir rhaglen codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i staff WEFO a buddiolwyr ar fuddiannau integreiddio themâu trawsbynciol ac arfer gorau mewn perthynas â hwy;
    - Paratoir canllawiau ynghyd ag enghreifftiau o astudiaethau achos arfer gorau a fydd yn rhoi gwybodaeth benodol am sut y gall buddiolwyr fynd i'r afael â'r ThT yn eu cynlluniau gweithredu;
    - Monitro cyflawniad ymrwymiadau ac allbynnau Datblygu Cynaliadwy yn rheolaidd, gan alluogi ymyriadau cynnar os bydd angen;
    - Cyflwyno adroddiadau ar y diweddaraf i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a rhanddeiliaid eraill;
    - Bydd WEFO yn annog sefydliadau cydraddoldeb, cynhwysiant cymdeithasol a datblygu cynaliadwy allweddol i ymgysylltu a chymryd rhan mewn rhwydwaith effeithiol o gymorth arbenigol.
8. Pennir targedau dangosyddion canlyniadau Datblygu Cynaliadwy ar lefel Echel Blaenoriaeth gan ddarparu ysgogwr pwysig i sicrhau bod gweithrediadau yn ymdrin ag amcanion ThT y rhaglen. Bydd y targedau'n cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:
    - Ar gyfer gweithrediadau o fewn y flaenoriaeth Sgiliau ar gyfer Twf bydd 20% o'r Cyflogwyr a gaiff gymorth yn mabwysiadu neu'n gwella Strategaethau Cynaliadwyedd Amgylcheddol.
    - Bydd 75% o weithrediadau o fewn y flaenoriaeth Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy a 10% o weithrediadau o fewn blaenoriaethau Sgiliau ar gyfer Twf a Chyflogaeth Pobl Ifanc yn integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant.

compare report

**11.2 Cyfle cyfartal a dim gwahaniaethu**

Disgrifiad o gamau gweithredu i hyrwyddo cyfle cyfartal ac atal gwahaniaethu yn seiliedig ar ryw, tarddiad hiliol neu ethnig, crefydd neu gredo, anabledd, oedran neu gyfeiriadedd rhywiol wrth baratoi, dylunio a gweithredu'r rhaglen weithredol ac yn benodol mewn perthynas â mynediad at gyllid, gan ystyried anghenion y gwahanol grwpiau targed sy'n wynebu risg o wahaniaethu o'r fath ac yn benodol y gofynion ar gyfer sicrhau hygyrchedd i bobl ag anableddau.

1. Mae integreiddio cyfle cyfartal, prif ffrydio rhwng y rhywiau a'r Gymraeg (sydd hefyd yn cael ei chynnwys yn thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal) yn bwysig nid yn unig am resymau cyfreithiol, ond hefyd am fod goresgyn anghydraddoldebau rhwng gwahanol rannau cymdeithasol a demograffig o gymdeithas yn cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y gweithgarwch a gyflawnir gan y rhaglenni.
2. Lansiodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol (2012-16) ac amcanion cydraddoldeb ar 2 Ebrill 2012. Mae'r rhain yn tynnu sylw at y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei rhwymedigaethau cyfreithiol yn ogystal â'i hymrwymiad cryf i gydraddoldeb a chynhwysiant. Datblygwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn unol â'r dyletswyddau cyffredinol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ddyletswydd hon yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw priodol i'r angen i:
    - Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf;
    - Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu;
    - Meithrin cydberthnasau da rhwng y rheini sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu.
3. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) er mwyn tynnu sylw at effeithiau posibl rhaglenni ERDF ar bobl â nodweddion cymdeithasol-demograffig gwahanol. Mae'r AEG yn cefnogi cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â'r PSED drwy ddarparu tystiolaeth ar effeithiau posibl y rhaglen ar bobl â'r naw nodwedd a warchodir:
    - Oedran;
    - Anabledd;
    - Ailbennu Rhywedd;
    - Priodas a Phartneriaeth Sifil;
    - Beichiogrwydd a Mamolaeth;
    - Hil ac Ethnigrwydd;
    - Crefydd a Chred;
    - Rhyw / Rhywedd;
    - Cyfeiriadedd Rhywiol.
4. Daw'r adroddiad i'r casgliad fod y broses o ddatblygu rhaglenni ESF 2014-20 wedi cynnwys rhoi ystyriaeth helaeth i gydraddoldeb ac, oherwydd hyn, mae'n annhebygol iawn y ceir unrhyw effeithiau negyddol anghymesur ar unrhyw nodwedd a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd yn cefnogi'r Gymraeg fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
5. Yr amcanion cydraddoldeb allweddol ar gyfer rhaglen ESF sy'n cwmpasu nifer o'r Amcanion Thematig a ddewiswyd a'r Blaenoriaethau Buddsoddi fydd:
    - Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET);
    - Gostwng gorgynrychiolaeth rhai grwpiau ethnig, y sawl sy'n gadael gofal a phobl ifanc anabl ymhlith y rhai sy'n NEET;

CY
Y

C

- Rhoi cymorth wedi'i dargedu i gyflogwyr er mwyn iddynt gyflogi unigolion dan anfantais;
- Cynorthwyo gweithwyr hŷn, a'r rhai â phroblemau iechyd, i barhau mewn gwaith a pharhau i ddysgu sgiliau newydd;
- Nodi a phrofi atebion i wahaniaethau cyflog a chyflogaeth yng Nghymru er mwyn goresgyn eu heffaith negyddol, yn enwedig ar fenywod, pobl anabl a phobl o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME);
- Creu amgylchedd sy'n cefnogi gweithleoedd cynhwysol, sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal i staff drwy well ymgysylltu â chyflogeion ac sy'n helpu pobl i gysoni gwaith a bywyd preifat;
- Cefnogi mynediad i bobl anabl a'r rhai o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth.

6. Mae'r Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth (CP) y DU yn amlinellu'r camau a gymerir o fewn pob rhaglen cronfa ESI i integreiddio cydraddoldeb, a gydnabyddir yn yr AEG fel ffordd allweddol o gyflawni cydraddoldeb drwy'r Rhaglenni. Gweithredir Thema Drawsbynciol Cydraddoldeb fel rhan o'r dull cyffredinol o weithredu'r ThTau, gan gynnwys Thema Drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy (a nodir yn adran 11.1) a Thema Drawsbynciol Trechu Tlodi (a nodir yn Adran 5).
7. **Dewis a Datblygu Gweithrediadau**
8. Yn benodol i'r Rhaglen hon, cymerir y camau canlynol wrth ddewis a datblygu gweithrediadau i hyrwyddo cyfle cyfartal ac atal unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar y naw nodwedd warchodedig a amlinellir uchod:
    - Bydd cyngor arbenigol parhaus ar gael i fuddiolwyr. Rhoddir mewnbwn arbenigol ar gam cynnar er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i hyrwyddo prif ffrydio rhwng y rhywiau a chyfle cyfartal;
    - Cyflwynir rhaglen codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i staff Llywodraeth Cymru a buddiolwyr ar integreiddio prif ffrydio rhwng y rhywiau a chyfle cyfartal;
    - Paratoir canllawiau lefel gweithgarwch ynghyd ag enghreifftiau o astudiaethau achos arfer gorau;
    - Monitro cynnydd yn rheolaidd, drwy ddata 'rhagolwg' a chyflawniad 'gwirioneddol' (a gaiff ei fonitro drwy'r system ffurflenni chwarterol), gan olygu y gellir ymyrryd yn gynnar lle y bo angen;
    - Cyflwyno adroddiadau ar y diweddaraf i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a rhanddeiliaid eraill;
    - Bydd Llywodraeth Cymru yn annog sefydliadau prif ffrydio rhwng y rhywiau, cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol allweddol i gymryd rhan er mwyn sefydlu rhwydwaith effeithiol o gymorth arbenigol.
9. Pennir targedau dangosyddion canlyniadau cydraddoldeb ar lefel Echel Blaenoriaeth gan ddarparu ysgogwr pwysig i sicrhau bod gweithrediadau yn ymdrin ag amcanion ThT y rhaglen. Bydd y targedau'n cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:
    - Ar gyfer Gweithrediadau o fewn blaenoriaethau trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy a Sgiliau ar gyfer Twf bydd 50% o'r Cyflogwyr a gaiff cymorth yn mabwysiadu neu'n gwella strategaethau a systemau monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth.
10. Ceir rhagor o enghreifftiau o gamau gweithredu penodol yn yr adran ar dlodi sy'n nodi ymhellach grwpiau sy'n debygol o wynebu gwahaniaethu a thlodi.

compare report

**11.3 Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod**

Disgrifiad o gyfraniad y rhaglen weithredol at hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a menywod a, lle y bo'n briodol, y trefniadau i sicrhau bod safbwynt y rhywiau yn cael ei integreiddio ar lefel rhaglen weithredol a gweithrediad.

1. Mae Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol Llywodraeth Cymru yn nodi'r ffordd y mae'n bwriadu hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer dynion a menywod yng Nghymru. Er nad oes gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd benodol i lunio Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol mae am gael ei chydnabod am ddarparu gwasanaeth rhagorol i ddynion a menywod yng Nghymru drwy ddatblygu strategaethau a pholisïau sy'n effeithiol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
2. Yr amcanion cydraddoldeb allweddol ar gyfer rhaglen ESF sy'n cwmpasu nifer o'r Amcanion Thematig a ddewiswyd a'r Blaenoriaethau Buddsoddi fydd:
    - Goresgyn yr effaith negyddol a gaiff gwahaniaethau o ran cyflog a chyflogaeth ar fenywod yng Nghymru;
    - Creu amgylchedd sy'n cefnogi gweithleoedd cynhwysol, sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal i staff drwy well ymgysylltu â chyflogeion ac sy'n helpu pobl i gysoni gwaith a bywyd preifat;
    - Herio gwahanu galwedigaethol drwy gynyddu nifer y dynion a menywod sy'n hyfforddi neu'n ailhyfforddi mewn meysydd nad ydynt yn draddodiadol (e.e. gofal plant, gofal cymdeithasol), gan ganolbwyntio ar feysydd lle ceir prinder sgiliau;
    - Herio rolau cyflogaeth traddodiadol lle gall fod stereoteipiau rhwng y rhywiau a helpu pobl ifanc o'r ddau ryw i gael gwaith ac aros mewn gwaith mewn meysydd anhraddodiadol neu ddiwydiannau lle na chaiff dynion neu fenywod eu cynrychioli'n ddigonol, fel menywod mewn diwydiannau lle mae angen pynciau STEM (e.e. Peirianneg, Technoleg Gwybodaeth);
    - Cynyddu cynrychiolaeth menywod ar gyrsiau STEM;
    - Darparu gofal plant fforddiadwy, o ansawdd, sy'n diwallu anghenion economi fodern a'i gweithlu;
    - Nodi a chefnogi cyfleoedd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg;
    - Cydnabod a hybu iechyd a lles fel un o gonglfeini economi iach a bywiog.
3. Fel yr amlinellwyd yn Adran 11.2, bydd angen i weithrediadau a ariennir drwy Echelau Blaenoriaeth Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy a Sgiliau ar gyfer Twf gyfrannu at y Dangosydd Canlyniadau canlynol:
    - Cyflogwyr sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro.
4. Mae'r Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU yn ceisio nodi sut, fel rhan o Thema Drawsbynciol Cydraddoldeb, y mae goresgyn anghydraddoldebau rhwng dynion a menywod a hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol. Gweithredir Thema Drawsbynciol Cydraddoldeb fel rhan o'r dull cyffredinol o weithredu'r ThTau, gan gynnwys Thema Drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy (a nodir yn adran 11.1) a Thema Drawsbynciol Trechu Tlodi (a nodir yn Adran 5).
5. **Dewis a Datblygu Gweithrediadau**
6. Caiff camau penodol eu cynnwys, lle y bo'n berthnasol, ymhob adran Echel Blaenoriaeth. Mae'r camau hyn yn adlewyrchu strategaeth Rhaglen ESF ac yn cynnwys ffocws penodol ar anghenion menywod mewn cyflogaeth. Byddant yn helpu i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac yn cefnogi rôl menywod yn y gweithle, yn ogystal â herio gwahanu galwedigaethol lle mae'n bodoli.

compare report

7. Nodir camau penodol yn y rhaglen ar gyfer dewis a datblygu gweithrediadau er mwyn hyrwyddo a chyflawni amcanion cydraddoldeb yn adran 11.2

compare report

## 12. ELFENNAU AR WAHÂN

### 12.1 Prosiectau mawr i'w rhoi ar waith yn ystod y cyfnod rhaglennu

**Tabl 27: Rhestr o brosiectau mawr**

| Prosiect | Dyddiad hysbysu/cyflwyno arfaethedig (blwyddyn, chwarter) | Dyddiad dechrau arfaethedig y cyfnod gweithredu (blwyddyn, chwarter) | Dyddiad cwblhau arfaethedig (blwyddyn, chwarter) | Echelau Blaenoriaeth / Blaenoriaethau Buddsoddi |
|---|---|---|---|---|

compare report

## 12.2 Fframwaith perfformiad y rhaglen weithredol

### Tabl 28: Fframwaith perfformiad yn ôl cronfa a chategori rhanbarth (tabl cryno)

| Echel blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Dangosydd neu gam gweithredu allweddol | Uned fesur, lle y bo'n briodol | Carreg filltir ar gyfer 2018 | | | Targed terfynol (2023) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | C | GN | T | C | GN | T |
| 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy | ESF | Llai datblygedig | Gwariant Cymwys | Ewros | | | 53,000,000 | | | 238,000,000.00 |
| 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy | ESF | Llai datblygedig | Pobl economaidd anweithgar (25 oed a throsodd), heb fod mewn addysg na hyfforddiant ac sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth (sgiliau isel neu dim sgiliau; anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio; cyfrifoldebau gofal neu ofal plant; dros 54; o gartref heb waith) | Nifer | | | 9,182 | | | 36,000.00 |
| 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy | ESF | Llai datblygedig | Pobl ddi-waith yn yr hirdymor (25 oed a throsodd) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth (sgiliau isel neu dim sgiliau; anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio; o grŵp Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig; o gartref heb waith) | Nifer | | | 2,755 | | | 10,800.00 |
| 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | ESF | Llai datblygedig | Gwariant Cymwys | Ewros | | | 133,000,000 | | | 471,000,000.00 |
| 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | ESF | Llai datblygedig | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol - benyw | Nifer | | | 0 | | | 0.00 |
| 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | ESF | Llai datblygedig | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol - gwryw | Nifer | | | 0 | | | 0.00 |
| 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | ESF | Llai datblygedig | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig â chymwysterau hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is (ISCED 2) - benyw | Nifer | | | 8801 | | | 31,692.00 |
| 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | ESF | Llai datblygedig | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig â chymwysterau hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is (ISCED 2) - gwryw | Nifer | | | 9666 | | | 26,000.00 |
| 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | ESF | Llai datblygedig | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (ISCED 2) - benyw | Nifer | | | 3,732 | | | 23,874.00 |
| 2 - Sgiliau ar gyfer Twf | ESF | Llai datblygedig | Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (ISCED 2) - gwryw | Nifer | | | 4,099 | | | 20,693.00 |
| 3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc | ESF | Llai datblygedig | Gwariant Cymwys | Ewros | | | 83,941,491 | | | 329,093,318.00 |
| 3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc | ESF | Llai datblygedig | Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) | Nifer | | | 10,891 | | | 42,700.00 |
| 5 Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol | ESF | Llai datblygedig | nifer y prosiectau sy'n targedu gweinyddiaethau cyhoeddus neu wasanaethau cyhoeddus yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol | Nifer | | | 1 | | | 4.00 |
| 5 Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol | ESF | Llai datblygedig | Gwariant Cymwys | Ewros | | | 0 | | | 22,000,000.00 |

compare report

## 12.3 Partneriaid perthnasol sy'n rhan o'r gwaith o baratoi'r rhaglen

### GRŴP CYNGHORI'R GWEINIDOG AR RAGLENNI EWROPEAIDD 2014-20

Partneriaid:

- British Telecom (sector preifat)
- Cogitamus (sector preifat)
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (cydraddoldebau)
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (trydydd sector)
- Prifysgol Abertawe (addysg uwch)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (llywodraeth leol)
- Yn ogystal â chynrychiolwyr o adrannau gwariant allweddol Llywodraeth Cymru

**FFORWM PARTNERIAETH RHAGLENNI EWROPEAIDD (2014-20)**

Partneriaid:

- Bangor Mussel Producers Ltd (pysgodfeydd / sector preifat)
- Barsby Associates (Sefydliad y Cyfarwyddwyr)
- British Telecom (sector preifat)
- CBI Cymru (sefydliad cyflogwyr)
- Prifysgol Caerdydd (addysg uwch)
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (cydraddoldebau)
- Comisiynydd Coedwigaeth Cymru (amgylchedd / gwledig)
- Grahame Guilford & Co Ltd (sector preifat)
- Coleg Gŵyr (addysg bellach)
- Y Ganolfan Byd Gwaith (cyflogaeth)
- Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion (addysg)
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (amgylcheddol/gwledig)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (llywodraeth leol)
- Prifysgol Abertawe (addysg uwch)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (llywodraeth leol)
- Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy Cymru (amgylchedd)
- Canolfan Cydweithredol Cymru (trydydd sector)
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (trydydd sector)
- TUC Cymru (sefydliad y gweithwyr)
- Ffermwyr Cymru (amaethyddol)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (llywodraeth leol)
- Working Links (cyflogaeth)
- Yn ogystal â chynrychiolwyr o adrannau gwariant allweddol Llywodraeth Cymru

compare report

**FFRYDIAU GWAITH AR ÔL 2013**

**Ffrwd Waith Rhaglenni Gweithredol**

Partneriaid:

- CBI Cymru Cyngor Sir Ynys Môn (sefydliad cyflogwyr)

- Cyngor Sir Caerdydd (addysg uwch)
- Chwarae Teg (trydydd sector)
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru (amgylchedd/gwledig)
- Cynnal Cymru-Sustain Wales (amgylcheddol / cynaliadwyedd)
- EEF Cymru (sefydliad y gweithgynhyrchwyr) )
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (addysg uwch)
- Y Ganolfan Byd Gwaith (cyflogaeth)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (llywodraeth leol)
- Prifysgol Abertawe (addysg uwch)
- RSPB Cymru (amgylchedd a chefn gwlad)
- Canolfan Cydweithredol Cymru (trydydd sector)
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (trydydd sector)

**Ffrwd Waith Cyflenwi a Chydymffurfio**

Partneriaid:

- Cyngor Celfyddydau Cymru (y celfyddydau)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (llywodraeth leol)
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru (gwledig)
- Coleg Gŵyr (addysg bellach)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (llywodraeth leol)
- Prifysgol Abertawe (addysg uwch)
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (trydydd sector)

compare report

**Ffrwd Waith Monitro a Gwerthuso**

Partneriaid:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (llywodraeth leol)
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru (amgylchedd/gwledig)
- London Economics (cwmni ymgynghori sector preifat)
- Cyngor Sir Fynwy (llywodraeth leol)
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (amgylcheddol/gwledig)
- Prifysgol Abertawe (addysg uwch)
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (trydydd sector)

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (llywodraeth leol)

compare report

## Dogfennau

| Teitl y ddogfen | Math o ddogfen | Dyddiad y ddogfen | Cyfeirnod lleol | Cyfeirnod y Comisiwn | Ffeiliau | Dyddiad anfon | Anfonwyd Gan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Atodiadau a gyflwynwyd gan y Comisiwn yn rhoi rheoliad a osododd fodel y rhaglen ar waith

| Teitl y ddogfen | Math o ddogfen | Fersiwn y Rhaglen | Dyddiad y ddogfen | Cyfeirnod lleol | Cyfeirnod y Comisiwn | Ffeiliau | Dyddiad anfon | Anfonwyd Gan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Atodiad 1 Adroddiad Gwerthuso Ex Ante Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Adroddiad ar y gwerthusiad ex-ante | 1.2 | 18-Tach-2014 | | Ares(2014)3842822 | Atodiad 1 Adroddiad Gwerthuso Ex Ante Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 18-Tach-2014 | njoneelu |
| Atodiad 4 - Grid Hunanasesu Amodoldebau Ex-Ante | Dogfennaeth ar yr asesiad o gymhwysedd a bodloni amodoldebau ex-ante | 1.2 | 18-Tach-2014 | | Ares(2014)3842822 | Atodiad 4 - Grid Hunanasesu Amodoldebau Ex-Ante | 18-Tach-2014 | njoneelu |
| Cipolwg Rhaglen ar ddata cyn anfon 2014UK05SFOP001 3.1 | Cipolwg ar ddata cyn anfon | 3.1 | 18-Med-2018 | | Ares(2018)4798598 | Cipolwg Rhaglen ar ddata cyn anfon 2014UK05SFOP001 3.1 en | 18-Med-2018 | nsmithts |

compare report

**Y canlyniadau dilysu diweddaraf**

| Difrifoldeb | Cod | Neges |
|---|---|---|
| Gwybodaeth | | Fersiwn y rhaglen a ddilyswyd |
| Rhybudd | 2.18.6 | Rhaid i o leiaf un dangosydd gael ei ddiffinio yn y tablau dangosydd perthnasol. Echel blaenoriaeth “4“, amcan penodol “4.3“, Tabl 12 |
| Rhybudd | 2.65 | Nid yw cyfanswm dyraniad ESF (Prif + Cronfa Berfformiad Wrth Gefn o Dabl 17) dros holl Raglenni IGJ y wlad “UK“ yn hafal i gyfanswm dyraniad ESF yn Nhabl 1.4.1 o’r Cytundeb Partneriaeth â CCI “2014UK16M8PA001“: “4,958,025,848.00“, “4,969,651,713.00“. |

compare report




**I gael rhagor o wybodaeth:**

**www.llyw.cymru/ue-ariannu**

**@wefowales / @wefocymru**

**Llinell Gymorth** **0845 010 3355**

**Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru**
**EU Funds: Investing in Wales**

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government